Rob: Vaughan ai lliniodd.

Deongliad y lluniau or blaen-dal accw.

AR ddeulin-blyg [A] cais beradwys,
Dos gweddiu [B] medd yr Ecclwys
Pyrth yn llydan egyr inni
i ynnill coron Sêr goleuni
Vn ty [C] pedr Sanct gyferbyn
[D] Paul Sanct yw r llall ar deg gorchymyn
Crêd medd vn, ar llall gwna n gymwys
ac edrych ar ein Mam yr Ecclwys,
Mâl arweinydd ddysgai n dalgrwn
beth a gredwn neu weddiwn
Ar hon mal Goshen, er pryd nosi
[E] llewyrch Duwdab a goleuni
Ynghanol man sydd yn llewyrchu
[F] ffordd ymddengys oddi synu
A hon yw Crist, oi wir gyfryngdod
an dwg ir anneddau vchod
Y Tad [G] an tynn ir cysle hyfryd
vno ein harwain y glân yspryd
[I] Angelion amgylch ai hadenydd
ir Ecclwys nodant Grist yn llywydd
Y ffordd, y gwir, ir wir nef olau
Jechydwriaeth in eneidiau
Tad, mab, yspryd vn yn drindod
Angelion, Apostolion Mawrglod
Yn hyn a gyttunant ollawl
ar ffordd ir hyfrydwch nefawl
Trwy Grist (iw Ecclwys) ffydd, a gweddi,
y mae r cwbl iw gyflawni:
Y Tâl, y llyfr, efo r Awdwr,
a ddymunai i ti yn gyflwr,
Fod o honor byth oddiwrtho
yn eiddo Duw ar nef ith eiddo.



PRIFANNAU SANCTAIDD,
NEU LAWLYFR O WEDDIAU.

Rob: Vaughan ai lliniodd.

David Davies his Book
pritaña Gauntedt

[illegible] Taylor
David Davies
Departeth his life
mai ye 11 1769

1826
1658
168

PRIFANNAV SANGT AIDD

NEU

LAWLYFR,

O Weddiau a wnaeth-bwyd, yn dair Rhan:

I. Seliau Crefydd Griſtianogawl, ac Athrawiaeth Eccl wys *Frydain* fawr, ar Rhagoriaeth rhyngddi ar vn o Rufain yr awrhon, ar rhai *newydd adgyweirio*, neu *ddiſbaddu*.

II. Beunyddol ac wythnoſawl ffurfoedd o weddiau, a nerthwyd ar Scryphyrau glân, Myfyrdodau, a Rheolau, i gadw yr enaid *oddiwrthy llwybr cynefin o bechod*, ac iw ddwyn ymmlaen i farweiddio ei yrſa.

III. Saith o orchmynnion ir cydwybod, gan draddodi (onid yw y corph cyfan) yr aelodau pennaf o ddefinydddiaeth, yr hon yw r gelfyddyd nid o *ymddadleu* ond o *fyw* yn dda.

O waith yr Anrhydeddus Athro *William Brough* Dr. o ddefinyddiaeth, a Deon diweddar o Gwaerloiw.

Y trydydd argraphiad yn Saeſonaeg ar cyntaf yn gamberaeg o Gyfieithiad ROW: VAUGHAN, Eſq.

Peth mawr yw bod yn Griſtion nid i ymddangos. *Hier*

CAER LUDD,
Printiedig gan *Sara Griffin* tros *Philip Chetwinde* o'r heol hynaf, 1658.

LLYFRGELL
GENEDLAETHOL
CYMRU

I'r Arddercbawg hên Frytwn William Saleſburi *o Fachenbyd eſ. llawenydd cyflawn, a gorfoledd tragywyddol iw dymuniad.* R. V.

Sir: er fy mod yn gwybod (a than rybûdd gennych hefyd) na fynnwch chwi ſeinio vdcorn o flaen, neu ar ol eich gweith-redoedd da, etto yr wyf yn gweled yn ormod cam i len gudd fyned troſtynt: o herwydd hwy allant fod yn eſamplau i eraill iw dilyn a gwneuthur y ceffelyb yn yr oes hon neu r neſaf: Ar eich deiſyfiad chwi, ach trael yn bennaf, y cyfieithwyd ac yr Arhraphwyd y llyfr yna, y mae adgyweirio Ecclwyſi, ac adeiladu Ty ir goruchaf, ſef capel y *Drindod* yn Edeirnion, ar cyflog ir llên ai gwaſanaetho, yn ffrwythau canmolodwy och ffydd, onid wyf fi yn camgymeryd; chwi a wyddoch *fides ſola juſtificat non ſolum*, y pren diffrwyth a fynnai ein Jachawdwr ei dorri iw loſ-

ei: y neb ni wnelo ei orau iw rieni, iw gefeillion, ai wlad, nid yw deilwng i fyw ynddi, o methodd rhai on amcanion, chwi a minnau, yr wyf yn gobeithio nad oes vn dôn anghyſon yn ein cydwybodau, diogel wyf y gallwn gymeryd ein rhaith o flaen y goruchaf mai er mwyn ein gwlad ag eneidiau y cymru truein y dygwyd y gorchwyl hwn i ben, ac ni welaf fi ddim reidiach nag i bob gwladwr ffyddlon, yn ol ei gelfyddyd ai allu, areilia y gwenith ar yd da, a churo i lawr y gwg ar breſych a gyfyd i geiſio ei oreſcyn yn yr oes wrthwynebus hon; O Pwy a ddichon edrych heb alaeth ac ochenaid, ar y pleidiau a ſectau o *Schiſmau* a *Hereſiau* a enynnodd *Satan* yn ei gynhauaf ef yr awrhon, i ddiſdewi Athrawiaeth vnion ai Phroffeſwyr; ac i roi offeiriadau *Baal* or gwehilion i ſynu? Pa galon a ewyllyſiai gofleidio *Efengyl Criſt* ni ymofidiai wrth ſynnied y fath wrthwynebion o ddyryſni cynhwynol, a dyfodd yn yr ynys hon, a fu ddiweddar ardd beradwyſaidd o blanhigion goruchel, etto ni wyddom yr achos o goſpedigaeth dynol ryw, Duw a roddo i ni râd iw yſtyrried, ac o eigion calonnau

calonnau i edifarhau ac a chleddau daufiniog yr yſpryd, i weinio r llall: Sir: y mae digon o rai anibennus yn budrſcrifennu, ac yn rhith bregethu yn ymgydcan a rhyw yſpryd, gan dybed eu bod eu hunain yn ſeinctiau, a rhai yn bruttio yn gywilyddus, dychymygiaith a brydwaith y cyfriw, a eill fod yn anaf iw cenedlaeth eu hunain, eithr nid rhan Criſtion iw enllib, Dvw an trotho oll ir iawn, i fedru adrodd or galon: *Maddeu i ni ein dyledion mal, &c.* mi ddymunaf gan hynny ar yr oll rai ni ddiffoddodd Criſtnogaeth oi mewn ac ydynt ai cydwybodau heb *ſerrio*, arfer y llyfran hwn yn yſtyrriol, ac in Ecclwyſwyr vnion-ddyſg, adgyweiriо yn fwynaidd yr hyn a ballodd gan fy oedran i graffu arno: eich bod chwi a hwythau oll yn gantorion or *côr gorvchaf*, i gydſeinio eich hên don o *haleluiah* i frenin y gogoniant, yw cwbl o ddeiſyfiad.

Vn ach câr hyd Angau,

ROW: VAUGHAN.

ci: y neb ni wnelo ei orau iw rieni, iw gefeillion, ai wlad, nid yw deilwng i fyw ynddi, o methodd rhai on amcanion, chwi a minnau, yr wyf yn gobeithio nad oes vn dôn anghyſon yn ein cydwybodau, diogel wyf y gallwn gymeryd ein rhaith o flaen y goruchaf mai er mwyn ein gwlad ag eneidiau y cymru truein y dygwyd y gorchwyl hwn i ben, ac ni welaf fi ddim reidiach nag i bob gwladwr ffyddlon, yn ol ei gelfyddyd ai allu, areilia y gwenith ar yd da, a churo i lawr y gwg ar breſych a gyfyd i geiſio ei oreſcyn yn yr oes wrthwynebus hon; O Pwy a ddichon edrych heb alaeth ac ochenaid, ar y pleidiau a ſectau o *Schiſmau* a *Hereſiau* a enynnodd *Satan* yn ei gynhauaf ef yr awrhon, i ddiſdewi Athrawiaeth vnion ai Phroffeſwyr; ac i roi offeiriadau *Baal* or gwehilion i ſynu? Pa galon a ewyllyſiai gofleidio *Efengyl Criſt* ni ymofidiai wrth ſynnied y fath wrthwynebion o ddyryſni cynhwynol, a dyfodd yn yr ynys hon, a fu ddiweddar ardd beradwyſaidd o blanhigion goruchel, etto ni wyddom yr achos o goſpedigaeth dynol ryw, Duw a roddo i ni râd iw yſtyrried, ac o eigion calonnau

calonnau i edifarhau ac a chleddau daufiniog yr yſpryd, i weinio r llall: Sir: y mae digon o rai anibennus yn budrſcrifennu, ac yn rhith bregethu yn ymgydcan a rhyw yſpryd, gan dybed eu bod eu hunain yn ſeinctiau. a rhai yn bruttio yn gywilyddus, dychymygiaith a brydwaith y cyfriw, a eill fod yn anaf iw cenedlaeth eu hunain, eithr nid rhan Criſtion iw enllib, Dvw an trotho oll ir iawn, i fedru adrodd or galon: *Maddeu i ni ein dyledion mal, &c.* mi ddymunaf gan hynny ar yr oll rai ni ddiffoddodd Criſtnogaeth oi mewn ac ydynt ai cydwybodau heb *ſerrio*, arſer y llyfran hwn yn yſtyrriol, ac in Ecclwyſwyr vnion-ddyſg, adgyweirio yn fwynaidd yr hyn a ballodd gan fy oedran i graffu arno: eich bod chwi a hwythau oll yn gantorion or *côr gorvchaf*, i gydſeinio eich hên don o *haleluiah* i frenin y gogoniant, yw cwbl o ddeiſyfiad.

Vn ach câr kyd Angau,

ROW: VAUGHAN.

Ad Avum ſuum dignissimum D. Guilielmum Salisbury de Bachembyd in agro Denbigh: Armigerum curantem editionem librorum aliquot Theologicorum in linguam Britannicam conversorum, & ad praxin religionis præcipuè ſpectantium.

DUm ſcriptos edis Cambrorum idiomate libro,
Quos *pietas* ornat *vera vetuſq; ſimùl*;
Seu Britanorum *linguam*, ſeu *religionem*
Sectemus, noſtras res agis ipſe *probè*;
Quantum debemus tibi, qui facis, optime civis,
Nos *magis* eſſe *tuos*, nos *magis* eſſe pios.

I. S. *Socio-Comenſalis è Coll. Ieſu Oxon.*

Ad avum ſuum digniſſimum D. Guil: Saleſburii Cambrobritannum Armigerum edentem libros ad religioſam vitam conducentes.

COgnatis Cambriſque tuis cæleſtia mittis
Munera, quæ *ſpirant* numinis obſequium;
Per te ſit nobis *Deus omnia*, & *omnia Chriſtus*,
Tu *mundum* monſtras *egregium* eſſe *nihil*;
Terram alii cupiant, terrenáq; gaudia, nobis
Sordent, nam *cœlum* das ave chare *tuis*.

G. S. Sociocommenſalis è Coll. Ieſu Oxon.

Ad digniſſimum Virum D. Guil: Saleſbury Armigerum, qui pro ſuâ ſummâ erga Patriam Benevolentiâ libros aliquot Theologicos ad pietatis exercitium, imprimis vtiles, nec non Authoribus ſuis ſatis inſignes Cambrobritannicè edi curavit.

ai hiaith a gadnant ai nêr a ſolant, &c.

DUm ſervaturos & linguam, & relligionem
Uſque ſuos cecinit Britonæ, licet omnia perdant,
Vates didino Talieſin percitus æſtro,
Tempora prædicta tuo, qui cæleſtibus auctus
Conſiliis *curas æternum reddere nomen*
Brutigenûm, calcar fatisque volentibus addis,
Dum libros edis, ſacri monumenta laboris,
Quæ patriam pietate beent, linguamq; perennent:
Ergo Soleſburiam memorent certamine grato,
Profundantq; ſuos genios in carmina Bardi;
Si quid priſca fides, ſi quid conſtantia mentis
Invictæ valeat, ſi quid reverentia gentis
Antiquæ; porrò ſi quid mereatur honoris
Religionis amor, celebrandus jure videtur
Salesburius, *ſummum decus, & tutela* Britannis.
Nonnè juvat laudare virum, cui nobile, ſimplex
Splender, & ingoctum generoſo pectus honeſto,
Vilia cui ſua ſunt, cui *publica commoda* Curæ?

Edmondus Meyricke Scholaris
è Collegio Jeſu Oxon.

Mawl ir llyfr ar cyfieithydd.

GRiſtnogion o ſon hyd fynnyw dyſgwrh,
waith diaſgen gwiwryw,
yr adail oreu ydyw,
wirdaſg a bair dyſgo byw.

Troes Rolant gwarant eodd gaeth llyfr ichwi,
llyfr iachus athrawiaeth,
llyfr ydyw llafur odiaeth,
llawn o gnwd, a llên ai gwnaeth.

Nid pen ffol chwibol yn hav chwyn gofrwnt,
ag efrau, r hen elyn,
gwyg rhagrith liw gwenith gwyn,
gweniaith ai dirgel gonyn.

Mogelwrh gwiliwch waith gav gwall anoeth,
gwell ini r gweddiau,
ar didwyll fyfyrdodav,
a ddel o fron ddnwiol frav.

Gwaith ffyddlon vnion anenwir bob awr.
i ba beth cyffllybir,
gwaith doeth llawn o gyfoeth gwir,
gwiwlwys pa fodd y gelwir.

Maes ffrwythlon ddigon a ddygwyd yn dda,
vn ddwywaith a arddwyd,
ei ddav arddydd a vrddwyd,
oedd lên a chyfieithydd llwyd:

Rhag Shiſmau yn gwau angenawl ei ſut,
wele ſwyn rhagorawl,
oes rhin gwell rhag dichell diawl,
ai ſynwyr ymryſſonawl.

Darllennwn

Darllennwn dyſgwn bob dydd, dilynnwn,
y dalennau dedwydd,
nid bychan vychan it fydd,
yn ail einioes lawenydd.

Carmen Britannicum latinis,
verbis expreſſum,
Ad Interpretem:

Interpres vates devote Deo,
ſic dies conſume,
quo ibit portabit te,
virtus, ſic libros verte.
Idem.

In laudem operis & interpretis
hexaſticon.

Inſignis pietas animis digniſſima ſcribi,
innocuit, chartis, vir generoſe, tuis,
Innotuit primùm nobis: te interprete gaudet,
per iuga Cambrorum te duce carpit iter,
Aſperitaſq; loci fit non impervia, tangit
ſanctus & emollit Saxea corda liber.

Aliud ad interpretem,

Cambrigenæ dociles tantúm certiere magiſtris
ipſaq; plebs ſpatio ſit bene culta brevi,
Ingenio excellit gens hæc & divite linguâ,
quæ caret ornatu negligiturq; domi,
Quód potes ipſe tamen linguam gentemq; Britannem
exornas, patriam perge beare tuam
Idem.

J. G. Monaenſis.

Y Dabl neu reoldrefn or llyfr hwn.

Y dalen.

Seiliau Crefydd Griſtnogawl. 1
Seiliau Crefydd proteſt. 4
Rheolau o Dduwiolder am y Borau. 12
Rheolau am yr Hwyr. 13
Gweddiau beunyddol 14
Yſtyrriaeth ynghylch y gweddiau. 17
Gweddiau Boreuol am heddwch am Jechyd &c. 18
Gweddi yn yr amſer gresynus hwn. 23
Gweddiau prydnawnol am ras am danghneddyf, &c. 25
Gweddi yn erbyn gwrthdroi n y ffydd. 29
Gwe. tros ein Gelynnion. 31
Gwe. i ddiolch am yr arfer on ſynhwyrau an aelodau an deallgarwch. 32
Gw. vn mewn llwyddiant. 33
G. mewn adfyd. 34
G. r Ceidwad. 34
Gw. yr ymddifad. 35
Gweddi Swyddog. 36
G. y Deiliad. } G. y Meiſtr. } 37
G. y Gwas. 38
G. y Phyſygwr. 38
G. y Clwyfus. *ibid.*

G y

G. y Cyfreithiwr. 40
Gweddi, Y Tlawd. 42
Y gwrandawr. ibid.
Y llafurwr. 43
Y Creftwr. 44
Yr Athro. 45
Yr ſcolhaig. 46
Vn ſengl. 47
Vn ſengl yn ymroi i fod felly. 48
Merthyr yn marw ar gam. 50
Carcharor. 52
Gweddi, Carcharor am ddyled. 53
Carcharor a... fai, &c. 54
Drwgweithredwr yn marw. 57
Gwr gwreigiog, 58
Gwraig tros ei gwr. 60
Rhieni tros ei blant. 61
Plentyn tros ei rieni. 62
Tros y Teulu. 62
Am hiliogaeth. 63
Gwraig feichiog. 64
Gwraig a fo n eſcor. 65
Yn ol geni dyn bach. 66
Yn ol Bedyddio. 67
Diolch ar ddydd ein genedigaeth. ibid.
Gweddi ddydd Calan. 68
Gweddi Gwraig weddw. ib.
Tros blant ymddifaid.
Am rwydd-deb ir daith. 71
i ddiolch yn ol taith. 72
wrth ddychwelyd ir mor. ibid.
yn ol dychwelyd adref. 73
am ymwared rhag Temeſtl. ibid.

Diolch

Gweddi,
Diolch a myſyrdod &c. 74
cyn myned i Daith ar ol y daith. 76
i filwr mewn rhyfel gyfiawn. 77
foreuol i vn mewn Rhyfel prydnawnol i vn mewn &c. 78
C ſlaen ymladd. *ib.*
Tros y claf. 81
Myſyrdod ir claf, &c. 83
Tros vn ym mron marw, 96
Gweddiau,
Am bob rhiw ddydd or wythnos
Dydd Sul.
Yn erbyn y cnawd. 102
Dydd llun.
Yn erbyn y Cythrael. 104
Dydd Mawrth yn erbyn y byd. 106
Dydd Mercher &c. 108
Dydd Jau, yn erbyn Rhagrith. 109
Dydd Gwener yn erbyn anwadalwch mewn daioni. 111
Dydd Satwrn Rhag calon ddiedifeiriol. 113
Rheolau am Ddefoſiwn y Suliau. 117
Saith waſanaeth ir wythnos gyntaf. 119
Gwaſanaeth ddyſul. *ibid.*
Myſyrdod am lawenydd nefol. 120
Gwaſanaeth ddydd llun. 122
Myſyrdod.
am drueni r byd. 123
Dydd Mawrth.
Yn erbyn gwag oferedd. 125
Dydd Mercher.
Yn erbyn ffieidd-dra y byd. 128
Dydd Jau, am farwolaeth. 131
Dydd Gwener am y farn i ddyfod. 134

Ymwared yn erbyn eſceuluſo gwaſanaeth Duw. 141
Yr ail wythnos. 142

Dydd llun.	Yn erbyn.	oedi ramſer.	142
Dydd Mawrth.		rhyſyg.	144
Dydd Mercher.		anobais.	146
Dydd Jau.		tyngu.	149
Dydd Gwener.		celwydd.	152
Dydd Satwrn.		enllib.	155

Saith waſanaeth yn erbyn ſaith arall a elwir yn gyffredin pechodau marwol.

Dydd Sul.	Yn erbyn,	Seguryd.	158
Dydd llun.		Cybydd-dod.	161
Dydd Mawrth.		Glothineb.	165
Dydd Mercher		Trythyllwch.	170
Dydd Jau.		Balchder.	178
Dydd Gwener.		Digofaint.	176
Dydd Satwrn.		Cenfigen.	179

Gwaſanaeth am yr oſeredd or pethau mwyaf yn y byd.

Dydd Sul.	am wagedd.	Digrifwch.	181
Dydd llun.		Anrhydedd.	183
Dydd Mawrth		Cyfoeth.	185
Dydd Mercher		Glendyd.	187
Dydd Jau.		Cryfder.	189
Dydd Gwener.		Synwyr.	191
Dydd Satwrn.		Creſeillion.	193

Gwaſana-

Gwaſanaeth am ddiſyrrwch o dduwioldeb. 194
Myfyrdod ar hynny. 196
Yn erbyn Malais. 198
Yn erbyn dial ar
Ymwared. 200
Ir edifeiriol ac yn canlyn. 201
Gweddi yn erbyn anoddef &c. 202
Gwaſanaeth y dioddefaint a ddechreu. 27
Gwaſanaeth o ddiolch. 211
neu ymbaratoad ir Cymun. 223
Gweddi a flaen y Cymun. 224
Gweddi ar ein dyfodiad ir Cymun. 226
Gweddi yn ol y Cymun 227
Diolch ar ol y Cymun. 228
Yſgwſlgwyn yſprydol-ſerch. 229
Myfyrdod am y Cymun. 230
Cynghorion ynghylch y Cymun. 239
1. Am Driſtwch. 240
2. Am Gyffes. 341
3. Am wellhad buchedd. 344
4. Y modd in ymddwyn ein hunain wrth
dderbyn y Cymun. 345
Y modd y mae i ni ein trefnu ein hunain ar ol y
Cymun. 346
Gwaſanaeth cymwys mewn amſeran trymi-
on. 347
Am Derfyn ir Rhyfel. 349
Gweddi am ſendith ar yr rhai a geiſiant he-
ddwch. *ib.*
Gweddi am gefeillion mewn perigl 350
Gweddi am ddychweliad vn ir iawn. *ib.*
Gweddi am gadwedigaeth yr Ecclwys. 351
Gweddi am drugaredd ir genedlaeth. 352

Cynghorion ynghylch, &c. 357
Dyled yr Eccl wys ar
Neullduol draethawd ddydd Sul 358
Dydd yr Arglwydd. 362
Y modd iw gadw.
Neullduol draethawd ar ddydd llun 370
Swm y neullduol draethawd yma. 373
Gwasanaeth tragywydd. 374
Llywodraeth dy eiriau. 375
Llywodraeth dy eiriau. 376
Remorau neu rwystrau mewn Crefydd 384
Prif seiliau drygionus.
Cymorth i fyned ir nefoedd. 398
Y Rhan gyntaf. 398
Marwolaeth. 399
Barnedigaeth. 400
3. Nefoedd. 402
4. Vffern. 405
Y Swm or rhan yw. 411
Cymmorth i ddwyn dyn ir nefoedd. 412
Yr ail rhan. *ibid*
Y Gluft. 413
Y llygad. 414
Galon. 415
Y llaw. 417
Y Genau. 418
Meddyginiaeth i wendid dynawl. 425
2. Ffydd yw y fwyn galonnawg. 432

SEILIAU

SEILIAU CREFYDD

CRISTIANOGAWL.

Holi. *BEth yw r diben ir hyn y 'gwnaeth Duw ddyn yn y bydyma?* Eccleſ. 7. 29.

Atteb. I fyw yn *'ddedwyddol* gyd ag ef mewn byd arall. Rhuf. 6. 22

Hol. *Pa bethau yw r Moddau i fod yn ddedwyddol?*

Att. Gwaſanaethu Duw yn ôl Crefydd vnion. Heb. 11. 16

Hol. *Pa Crefydd yw yr vnion?*

Att. Crefydd Criſtianogawl. John 17. 3.

Hol. *Pa beth a efynnir gan wir vnion Griſtion?*

Att. Credu, gwneuthur, a gweddio yn vnion yn ol Rheolau ei Grefydd.

Hol. *Pa beth yw credu yn vnion?*

Credu yn helaeth y cwbl oll a draethodd duw yn ei Air a grynnowyd yn fyrr yngredo yr Apoſtolion, yr hyn y mae holl griſtianogion yn ei dderbyn yn *rheol* oi *ffydd.*

Hol. *Pa beth yw gwneuthur yn vnion?*

Ast. Y Cwbl oll a ewyllyſiodd Duw yn ei Gyfraith yn grynoedig yn y *Deg gorchymyn.* Trwy yr hyn yr ydym ni i lywodraethu ein holl weithredoedd mal vnion drefn i linynau ein bywyd. Deut. 6. 17

Hol. *Pa fodd y mae i ni ddeall a chadw y gorchymy nnion hyn?* Mat. 5, 21

Att. Rhaid i ni ddeall. 1. En bod hwy yn rhwymo ein *calonnau* ân *meddyliau*, yn gyftal ân Dwylaw ân Taſodau, mewn gweithredoedd a geiriau oddiallan. 2. *I* wneuthur y *Da* y gwrthwyneb ir drwg y maent hwy yn ei orafun, ac i ochel y drwg ſydd wrthwyneb

ir *Da* y maenr hwy yn ei orchymyn. 3. Ac i ochel pob, *rywiau* ac achoſion o ddrygioni ac i arfer holl ſoddau a digwyddiadau o ddaioni hefyd.

2. Ni allwn ac y mae yn rhaid i ni gadw hyn oll. Nid yn berffaith gwbl ac yn ollawl, megis y gallaſai Adda, neu y gwnaeth Criſt. Canys yr ydym ni yn troſeddu ac yn pechu oll, ac felly yn torri y gyfraith ond etto yn *vniondeg* ac yn *Efangylaidd*; hynny yw y mae yn rhaid i ni cin cadw ein hunain oddiwrth y pechodau *mwyaf*, ac ymegnio yn galonnawg a gweddio yn eu herbyn oll, ac ymoſidio ac edifaru pryd y gwnelom *vnrhyw*. A hyn trwy Rad Duw a allwn ni ei wneuthur, a hyn trwy haeddedigaeth Criſt a dderbyn Dnw ac ai cyfrif yn gadwad y gyfraith, heb yr hyn ni allwn ni wneuthur yn *vnion*.

Hol. *Pa beth yw gweddio yn vnion ?*

Att. Yn ol y patrwm o eidduned a grynhowyd yngweddi yr Arglwydd Rheol in deiſyfiadau.

1. Am ogoniant Duw oſlaen ein daioni ni, yr Eclwys on blaen cin hunain; am henaid o flaen fynghorph (am y *Matter* ar *Drefn*) a hyn mewn cariad perffaith a goſtyngeiddrwydd trwy *ffydd* a *diogelwch* am y *modd*.

2. A hynny yn ol ſynwyr neu yn ol geiriau y *patrwm*

Holi. *Pa ddiogelwch neu ſicrwydd ſydd ir gwir griſtion a gredo a wnelo ac a weddio yn vnion yn y byd hwn y caiff ef ſod yn ddedwyddol yn y byd arall.*

Tit.1.2, Mat.6.26 *Att*. Dwy Scrifen o ſicrwydd mawr *Gair* Duw ai *Sêl*.

Jon. 3. 15 Heb.5.9. Rhu.2.7 1. Heblaw gair *Duw*, ei *ſond* neu ei *rwymedigueth* (yr hwn trwy ei *allu* a feidr, ac er mwyn ei wirionedd eſe a gwblhâ;)

Act.2.21. Heb.6.17, 18. Heb.8.6. Heb.9.15. 18,26. He.10.30 Y mae mewn cyſammod. wedi ei gyd ffurfio a llw Duw yr hwn ni eill wyrdroi, wedi ei ganiattau trwy *Deſtament* yngwaed Criſt yr hwn ni ellir moi newidio, ac wrth y cyſamod ar Teſtament hwn y goſodir.

2. Sêl fawr Duw o Jechydwriaeth dyn, dwy Sacrament Criſt; Bedydd, ſêl fy mraint genedigueth ir nefoedd, ar cymmun Sanctaidd Sêl fy etifeddiaeth yno.

Holi. *Ydyw y Sacramentau ond arwyddion a ſelau yn vnig ?* *Att.*

Att. Nid felly, mal y maent hwy yn *ſiarwydd* oddiwrth Criſt, felly y maent yn *rhwymedigaeth* oddiwrtho ef, ac yn *foddau* yn gyſtal ac arwyddion oi Rad: Bedydd om yſprydol *cnedigaeth* am *bywyd:* âr Cymmun Sanctaidd om *cynnyddiaeth* am cynhaliaeth ir bywyd tragywyddol.

Hol. *Pa beth a geſglir or holl Seiliau hyn?*

Att. Daû ddeongliad da i ddaû ddyſal ymyſynnion.

1. Pwy ydyw y Criſtion goraû? Yr hwu yn dragofalus a gadwo ei *Reolaû* ai *Seliaû.* 2 Eim. 1: 13,14.

2. Pa vn yw r Eclwys oraû? Yr hon a wnaethbwyd i fynû ôr cyfriw Griſtianogion. 1 Cor. 14. 33.

Mat. 18. 20.

Lle mae daû neû dri wedi ymgynnill yn fyenw i yno yr ydwyf yn eû canol hwynt.

[*Yno gan hynny enaid dûwjol bydd di vn yn enw Criſt, a bydd dra-hyderus o fod yn gadwedig gan fod dy Iachawdwr gyd a thi yno.*]

Seiliau Crefydd Proteſtaidd

rhagdyſtiol, y modd y geill Duwiol enaid ynghanol ymrafaelion a gwahaniadau ynghylch Crefydd, a dychymygion o berchenogi yr Eclwys : ar y Seiliau yna gael ei fodloni a gwaſtadhau ei feddwl yn erbyn pob gronyn o betruſder, ac yn gyſurus fyned ym mhlaen i waſanaeth Duw iw iechydwriaeth.

1. OSyr hwn ſydd yn credu, yn byw ac yn gweddio yn ol rheolau Criſt yw (r) gwir Grſtion a thrwy oll yſcrifennadau Duw a ſydd *dyn dcdwyddol*, nid y ffordd neſaf ir nef yw edrych ar *ymrafaelion* ond ar *Gydwybod* ; ac i draulio fy Zel am hamter nid mewn *ymryſonau* onid mewn *Crefydd* ; Gân weled pa le bynnac y byddwyf fyw yn y byd Criſtionogawl (gorllewin neu ddwyrain) ymha eclwys neu wlad bynac) nid fy mod yn ſcolhaig da am gwared i, eithr bod yn Griſtion da, nid yn ymholwr dyſgedig am Griſt, onid yn waſanaethwr bucheddol iddo ef: Nag am fod or cyfriw dy neu r cyfriw blaid yn yr Eclwys, eithr yn wir aelod oi gorph ef.

Ac ar y Seiliau hyn y gallaf nodi a gweled digon am yr ymrafaelion ar cynhennau preſennol, am, ac ynghylch yr Eclwys canys.

1. Mi oſynnwn hyn ;

Pa vn a wnaf fi wedi fyngeni dracheſn am gwneuthur yn Griſtion trwy wir Fedydd,

1. A *Choelio* yr Scrythyraû ai bod yn golledig neû ddamnedig am nad wyf yn credû i Draddodiadaû cyn gwbl gyſtadl? Pa vn a wnaf ai bod yn golledig am na chredaf fod y Pâb yn ddiſomedig, a choelio iddo megis yr wyf yn Credû i *Gredo* yr *Apoſtolion?* *Credù.*

2. Pa vn a wnaf fi ai bod yn ddamnedig am nad addolaf eûlûnod, a minnaû yn gwneuthur cydwyod o addoli a gwaſanaethû Duw.

3. Pa vn a wnaf a minnaû yn gweddio ar Dduw megis y dyſcodd Criſt *Ein tad* ni) ai bod yn ddamnedig am na alwn ar Senictiaû ac Angelion gan ddywedyd *ynghefcillion yr rhai ydych yny nefoedd.*

4. Pa vn a wnaf fi ai bod yn ddamnedig am dderbyn y Sacrament ſanctaidd or ddaû *ryw* (yn ol trefniad Criſt yn gyſaddefol) oblegid cymeryd ymaith y phiol trwy Gymanfa? a pha vn, os dywedir fod y gwaed yn y corph a wna ai bod ir offeiriad felly hefyd: ac felly wrth y rheſwm hwnnw nid oes nâr bobl nâr offeiriad i gael y Phiol neu r Cwppan.

Yr rhain er eû bod yn byngciaû o brif fwyaf ymraſael mewn Grefydd rhwng y Proteſtiaid ar pabyddiaid ſe ddichon dealldwriaeth rheſymmol cyffredin yn hawdd farnû wrth yr eglurhâd hynny o Seiliaû Criſtianogawl, pa vn a wna y Proteſtwr ai bod yn Griſtion damnedig ai nad ydyw.

Na yn ail mi a ofynwn ym mhellach.

1. Pa vn a wna Credû yn ollawl i draddodiadaû yn gyſtadl ac ir *Scrythur,* ir Pab megis i Griſt neû i Apoſtl Criſt, ai bod yn haeddû y felldith fawr am Chwanegiad?

2. Pa vn a wna addoliad ir Croeſaû ac i eulunnod ai bod yn ddelwaddoliaeth damnedig yn yr Scrythyr yn erbyn ail orchymyn Duw? er ei wneûthur yn *gyſattebawl,* pa vn a wna hynny ai gallael ei gadw yn ol gwahanrediad yr *yſcol,* yn y bobl aneallgar? neû yn y rhai dyſgedig hefyd, os oedd yr Iſraeliaid yn ddelwaddelwyr am addoli Duw, yn, neû o flaen y llo euraid, yr hyn nid oedd ond addoliad gwahanawl? *Sub Evan.* *gelio non* *fuit pre-* *ceptum neû* *Gentilis,*

3. Pa vn a wna gweddio at Sanctiaû, (yr hyn a gyſaddefir ei fod yn addoliad anoſodedig) ai bod or lleiaf yn beehod o ddelwaddoliad yn erbyn Duw, a *dyc.* *Eccius in* *Ench.*

gweddio gael eû gwrando ai cynnorthwyo er mwyn eû haeddedigaethaû ai bod yn gam tramawr a Chriſt?

4. Pa vn a wna, rhoddi y Sacrament heb y Cwppan ai bod yn gyſſegr-ledrad mawr (megis y dywedai y pab *Gelaſius* ac oi gymeryd felly nad yw ond hanner Cymmûn, ac oni eill y bobl ammaû yn gyſiawn ac oſni, nad ydyw derbyn yr hanner dderbyn yr vn.

Gan weled mae hyn yw (r) pyngciaû ac ymarferion Eclwys Rufain, gwr di-rhagfarn a ddichon farnû pa vn a wna y Pap.ſdiaid ai bod or Greſydd beryclaf.

2. Os dywedir nid oes ond vn hên weledig Gatholig Eclwys Griſt. Allan or hon i ymadael trwy *ſchiſm* neû rwygiad ydyw myned oddiwrth Jechydwriaeth: Ac mai honno ydyw Eclwys newydd Rufain: a hynny y mae yr Adgyweiredig yn ei wneûthûr, myſi am bodlonaf fy hûn ar y Seiliaû or blaen mal hyn:

1. Allan or Eclwys Gatholic nid oes iechydwriaeth Oblegit llyna gynylleidfa o Griſtianogion oll trwy yr holl fyd, ac ni eill neb fod yn gadwedig ond Criſtion: Eithr ai r Gorllewin yw r holl fyd?! Onid oes Chriſtianogion yn y dwyrein? Neû ydyw y Papiſtiaid yn llenwi i ſynu holl Orllewin? A Oes Chriſtianogion yn y byd yno onid Papiſtiaid? Yr wyf yn goſyn gan hynny oni allaf fi, fod yn gadwedig oblegit nad wyf fi or cyſtriw neûlldûol Eclwys yn y gorllewin? Na Phapiſt gan hynny oblegit nid yw ef o Eclwys y Dwyrein? myſi a allaf felly fod yn gadwedig o byddaf yn *Griſtion* Catholic, er na byddwyf Rufeinaidd; a ran fy mod yn gadwedig trwy fod o Eclwys Catholic Criſt; hynny trwy fod yn Griſtion.

Hyndra. 2. Os dywedant mai *newydd* yw fy Eclwyſi; yr wyf yn goſyn pa beth a wna vn yn hên? Onid yw yr Apoſtolion yn hynach nai canllynwyr? Ac onid oedd Eſcobion Rhûfain ôr 400. o flynyddoedd neſaf ar eû hol hwy yn hynach na r rhai a ddaethant 100. o flyneddoedd ar ôl yr Eſcobion hynny? Ai newydd gan hynny yw r Eclwys honno yr hon ſydd yn proffeſû Creſydd Griſtianogawl yn ol Athrawiaeth

yr

yr Apoſtolion ar amſeroedd *cynſydedig* ? Ac yn neullduol yr wyf yn gofyn onid yw yr rhain byngciau newydd yn Eclwys Rufain.

Ond yw Addoli delwaû wedi ei newydd oſod o bobty 800. o flynyddoedd aethant heibio? A Phûrdân o newydd a ddaeth ar ei ol? Ar Cymmûn mewn vn rhyw yn newyddach a aſodwyd ynghylch 200. o flynyddoedd aethant heibio?

Ar holl bethau eraill newyddion a ddychymygwyd o bobty cant o flynyddoedd?

Hcſŷd am y pwngc mawr o brif orûwchelder vwch law pob dyn byw, onid Gregori oedd y cyntaf ai cyhoeddodd ef yn Anghriſtianogawl ynGonſtantinobl. Oedran yr Argl. 600. Ac nid oedd yr vn or Eſcobion or blaen yn ei ſialenſio nag yn ymhonni o honaw, nes ir pabaû a ddaethant ar ol, yn y mil o flynyddoedd diwaethaf wneuthur hawl a chlaim iddo ?

Concil. Eic. 2. Ann. 787. Conc. Later. Ann. 1215. Conc. Flor. 1438. Conc. Trid. An. 1563. Lib. 4. Epiſt. 36.

Os dywedant, Ni welwyd mo honom ni ond yn ddiweddar, yr wyf yn gofyn oni eill eclwys megis dyn ymddangos ag amriw agwedd yn hagr,ac yn deg? A pha vn a wna Eclwys aí bod yn waeth am gynnyddû yn deg *weledig yr* hon oedd *front ?* Beth os Eclwys Rufain a adgyweiria yr hon y mae llawer o honynt eû hunain yn gyſtal a ninnaû yn eí gyſaddef eu bod yn front, a elwid hi o hynny allan yn Eclwys weledig ? a pham am yr rhai eraill a wnaethont hynny y gwadant eu bod yn weledig Eclwys or blaen ? a pha ham na ellir gwadû *gweledigrwydd* Eclwys *Rufain*, oblegit mal yr * ynddengys yr rowthon nid ydoedd hi bob amſer yn weledig ?

Gweledigad.

4. A chan weled, os vn arall a rwyga fyrn mhais i, nid ſyfi ond yr hwn ai rhwygodd ; yr wyt yn gofyn, pa vn ydyw y Schiſmaticiaid ai y rhai ſydd yn peri ac yn goddef Schiſm neû rwyg ? Os llygredigaethaû peryglûs a ganffyddir a dymûno a cheiſio eû adgyweiriad i ochel ac i iachaû ſchiſm i fagû ; pa vn ai hwy y rhai a wrthodant a gaſhânt ac a wrthwynebant bob adgyweiriad a gwellhâd, ai y rhai a broteſtiant yn eû herbŷn hwy am hynny, ydynt yr achos fwyaf o Shiſmaû ? A thracheſn a ddichon Eclwys Rufain ymadael a phurdeb yr Eclwys gynſydedig i lygre-

* A gwaſanaeth lladin y Cymmun vnrhyw, coelio fod y pâb yn ben ar bawb byw, &c.

digaethau a newydd-drouau heb Schiſm? Ac oni eill yr Adgyweiredig ddychwelyd oddiwrth y llygredigaethau ar newyddiadau hynny ir hên burdeb, onid gyda ag y hi?

5. A chan fod vndeb mewn opiniwn yn rhagorfraint ir meddyliau gorfoleddus vwch ein pennau, or hyn nid ydoedd Eclwyfi yr Apoſtolion eû hunnain yn gyfrannogion ar y ddaûar; eithr rhai o dy *Paul* rhai
1 Cor. 1. 12. *Apollos* a rhai o *Cephas*, onid oes *vndeb* yn y *Sail*, yn yr adgyweiredig yn gyſtal ac yn y Rufeinaidd? ac ymrafael a gwrthwyneb opinionau yn y Rhuſeinaidd megis ac yn yr adgyweiredig? ie mewn pyngciau vchel oi *ffydd* yn gyſtal ac opiniwnau? yr wyf yn gofyn etto. i. *ynghylch beichogiad di frecheulyd y forwyn fendigedig.*

Pa vn a wna y *Dominicaniaid* ai bod mor boeth yn erbyn hynny, ac ydyw y ffranciſcaniaid am hynny dwy dreſn ardderchawg ſynachod o Gatholiciaid Rhuſeinaidd.

2. *Yn ail ynghylch ymwaredaû neû weithrediadaû Grâs.* Pwy vn a wna y *Lutheran* ai bod yn ſwy tanllyd yn erbyn y *Calviniſt*? Nag ydyw y Jeſuit, yn erbyn y *Dominican*? A pha vn helyd yn yr echryſlon bwngc o wrthodedigrwydd ollawl, a wna *Bannes* ai myned tû hwnt i *Calvin*, a *Leſſius* yn myned rhagddo vn feddwl a *Lûther*? Daû Gatholic Rhuſenaidd anrrhydeddus eû treſnfreintian.)

3. Am *oruwcheldra y Pâb.*

Pa vn a wna *Athrawon Sorbon* ai ſefyll yn erbyn hynny, megis y mae Athrawon *Lovain* am gynnal hynny? (Dwy o *briſyſcolion*, a ffynonnau Catholic Rhuſeinaidd) Pa vn a wna *Venis* ai bod yn cyfaddef gallu a rhagorfraint y Pâb, yn gimaint a Rufain? Dwy o ddinaſoedd Catholic Rhuſeinaid Strat-lawn? Pa vn a wna y papiſtiaid ffrengig ai proffeſu a rhoi cimaint o vfudd-dod ir Pab ac a rydd yr Hiſpaenwr? Gwledydd ac Eclwyfi Catholic Rhuſeinâidd ill deuoedd? Na Pa vn a wna Gregori y cyntaf (y Sanct) ai bod mor boethlyd iw ſwrw i lawr ac oedd Greg. y 7. yn chwilboeth iw gynnal? Dau o *Babau* ac *Eſcobion* Catholic *Rhuſeinaidd.*

4. Ynghylch di-*Siomedigaeth y* Pâb.

Pa

Pa vn a wnâ rhai ai cyfleu hyn, nid yn y Gymanfa neu y cyngor ond yn y Pâb; rhai yn y cyngor nid yn y Pâb rhai yn y Ddau, ſef y cyngor âr Pâb? a Phob rhai yn Athrawon ac yn bilerau ou hamriw weledydd.

5. *Ynghylch y Bibl ei hûn ôr cyfeithiad cyffredin*;

Pa vn a wna *Sixtus* y pumed ai damnio pob rhyw oll a ymrafaelio oddiwrth ei vn ef: Clement yr 8. a oſododd vn arall, ac a felldithiodd oll a arferent vn arall ond hwnnw? felly yn ol rheolau o *ddiſiomedigaeth* yn y Pâb, y mae yn rhaid ir Papiſtiaid ſod yn ddamnedig os arferant vnrhiw Fibl: Canys y Ddau hyn oeddynt *Eſcobion* Rhufain a *Phabau*.

2. Ac am vndeb mewn carriad ac Yſpryd. Ydyw eiu ymbleidwyr budr daſodau yn dychanu mwy ar Eglwyſwyr ai Trefnau, na'r Amſerol offeiriadau ar y *Ieſuitiaid*, a hwythau ar yr Amſerwyr? Pob vn yn *Bapiſtiaid?* a ddengys neu a ddangoſodd y creulonaf oi plaid ſwy llid dynawl yn erbyn eu gwrthwynebwyr, nag a wnaeth *Sergius* yn erbyn *ffformoſus* ei Ragflaenor gan ddamnio a diddymu yr hollgwbl a wnaethai ef or blaen (megis y gnwaethai yntau am *Stephanus*) ai godi ef i ſynu oi fedd ai oſod ef yn ei wiſg Eſcobawl, i ddangos ei ddig ai falais gynhwynol arno ef * Ar rhain hefyd oeddynt Babau o *Rufain*. Ai arwyddion o gyfundeb oll yw hyn yn eu plith? * Torri tri oi ſyſedd ai daflu i afon Tiber. gwel Baronius.

3. Yn olaf os blinant ſi ai rheſwm bygythiol ac arferol tu ac at eneidiau tyner-weinion, gan ddywedyd: *trwy ein* cyfaddefiad ni *fe ddichon rhai fod yn gadwedig yn eu heclwys hwy*; eithr meddant hwy ni eill vn ſod yn gadwedig yn ein hun ni? Eu *hûn hwy* gan hynny yw r *Grefydd ddiogelaf*. Yr wyf yn goſyn, a ydynt yn ein camgymeryd ni, a wyddant beth y maent eu hunain yn ei ddywedyd: Canys nid yw eu rhai cymedrolaf yn tybed hynny, na'n rhai poethaf ninnau yn dywedyd felly, a phe dywedent oll, nid yw ddim. Canys. Dadl y Donatiſtiaid yr erbyn y Catholiciaid.

Pan ddywedom ſe ddichon rhai o honynt ſod yn gadwedig, ſef yr rhai ſydd yn glynu wrth Griſtianoldeb ac yn ymofidio tan y llygredigaeth (megis y mae rhai yn ddiamau:) ond yr vn ydyw hyn mewn yſtyriaeth a phe dywedid, nid oes yr vn yn gadwedig yn

yn Eclwys Rufain ond y ſydd yn Broteſtiaid yn eu calonnau? Canys ſicr yw yr hwn a *ffieiddia* y llygredigaeth

Ragdyſtiai ſydd ynddi, pe cai rydd-dyd ef a * *broteſtiai* yn eu herbyn ni yn dywedyd fod rhai yn gadwedig trwy neu am eu *llygredigaethau* : hynny yw mal gwirbur-*bapiſt* gan ddal a gwneuthur pob peth yn wrthwynebiad i ni ac nid o blegit achos y Criſtianoldeb *effredinol* rhyngom ni? onid ydym ni yn dywedyd am y llygredigaethau hynny, fod yn amhoſſibl ollawl gael iechydwriaeth trwydynt; a bod yn beryglus ac yn anhawdd aruthr vddynt, o herwydd y Criſtianoldeb a ddyli

Gorpholi- *gadw* ſydd wedi ei gorpholiaethu ai gymmyſcu a llygredigaeth a *ddeſtrywiant* : Eithr gyd a nyni nid oes dim or fath berygl ac anhawſder o herwydd bod eu Criſtianoldeb wedi ei iachau oddiwrth y cyfriw llygredigaethau? gan hynny yr wyf yn goſyn, os ynſyd yw ef, yr hwn ſydd i ſyned tros afon ddofn a wrthyd y bont ac a gymmer fwrdd cul, yw ef yn ddoeth y hwn yn yr achos ſawr o ſywyd tragywyddol o iechydwriaeth a eſyd ei enaid ar lwybr perigl diffwy pryd y gallo ef ſyned hyd ffordd vnion deg y ddiogel?

2. A thrwy y Rheſwm hwnnw oni ddylai bo Papiſt droi yn Broteſtant? Credu, A ddoli, Gwedd dyſod i waſanaeth a Chymmun gyd a ni? Canys :

1. Y maent hwy yn cyſaddef gyd a nyni fod y Scrythur yn ddiſomedig, eithr nyni a ddywedwn na yw r Pâb. Rheolau ffydd meddwn ni ein deuoedd eithr nid Traddodiad meddwn ni Diogel yw ffydd ir hen Gredo, y mae r ddau yn ei gyfaddef, eithr

* Haeddi- newydd ni fynnwn ni. Ymddiried yn haeddediga hau Criſt diogel gyd a'r Ddau, eithr nid yn ei hunain gyd a ni. Y mae yr ddeuliw yn credu fod ac vffern, eithr nid ydym ni yn ffyddio fod *Pûrda* ffydd y Proteſtiaid wrth hynny yw r ddiogelaf.

2, Addoli Duw meddant hwygyd a nyni) ſyd ſuddiol ddiogel *Dduwioldeb*; Eithr i Addoli Iluni meddwn ni ſydd ddelwaddoliaeth gythreulig : o Addoliad ni gan hynny yw r diogelaf.

3. A i weddio at Dduw yn enw Criſt ſydd Greſyn dda medd pob vn, eithr i alw ar Seinctiau a gynnhorthw

gynnhorthwy nev ar Dduw yn eu henwau hwy meddwn ni ſydd Oſergoel gethnifront. Y modd cyn. taf gan hynny yw r gweddio diogelaf.

Ac yn y Sacrament o roddi diolch Aberth coffadwrus pob vn ai canniattâ, onid ni ſynnwn ni moibod yn haeddedigol o ſaddeuant o honi ei hunan neu yn daledigaeth am bechod. Gwir neu fodol breſenoldeb y mae pob vn yn ei addef, eithr y ffordd o drawſylweddiad a wadwn ni y Cwppan trwy oſodiad a defod gynſydedig nyni a hwythau a gyffeſant; Yr Awdurdod i gyfnewidio hyn nyni ai caſhawn. Hon gan hynny yw (r) Cymuno diogelaf.

5. Yn olaf yn ein liturgi neu yn llyfr gweddi cyffredin nid oes vn bai (medd rhai honynt hwy) eithr yn ei llyfr Offeren hwy y mae llawer meddwn ni. Gwaſannaeth mewn iaith wybyddus nid yw bechodawl (gyda ag hwynt) eithr mewn iaith anadnabyddus yn ddiwarantedig ac yn erbyn yr Scryrhur gyda a nyni. Am hynny gorau yw dyſod in heclwys ni i *Waſanaeth a Gweddiau.* Ac felly ein hun ni, oi cyffes ai rheſwm hwynt yw r Greſydd Orau. 1 Cor. 14. 11, 14.

I Ddiweddu ar ſy ſeiliau or blaen yr adeiladaf hyn. Y gwir Griſtion ſydd iddo Air Duw ai Sêl am ei Jechydwriaeth: Yr hwn a Gredo, a wnelo, ac a weddio yn vnion yw r gwir Griſtion. Y Cyfriw vn ſydd Aelod yn, ac or Eclwys Gatholic er nad yw or Rhufeinaidd. 2. Y Cyfriw fath ar Griſtianogion oeddynt yn yr amſeroedd cynſydedig, am hynny nid yw ef newydd onid hên Griſtion. 3. Lle y proffeſir gair Duw ai Sacramentau gan y cyfriw yno y mae Eclwys *Griſt*, a Chriſtianoldeb gweledig. 4. Ac o ddiwrth vn Eclwys yn y byd or fath, ie Rhnſain o'r fath ni ymddidolaf ac ni neulldnaf. Felly nid wyf fi Griſtion *Rhwygiol.* Ac yn y Seiliau hyn y cytunant oll, ac felly y mae vndeb. Acfal dyma r vnig lwybr eglur Criſtianogawl ir nefoedd, ac felly diogelach yw bod yn Ailgyweiredig nag yn llygredig: Griſtion *Catholic* nid *neulldnol* Rufeinaidd. Schiſmaticall.

Gal. 6. 16. *A Chynifer ac a rodiant yn oly rheol hon yngneddyf arnynt ac ar* Iſrael Duw.

Rheolau

Rheolau o Dduwiolder am y Borau.

YN y borau pan ddeffroech di gyntaf derchafa dy olygon at Dduw a dywaid.

Derchafa fy llygaid tu ar mynyddoed oddiwrth hwn y daw fynghymorth.

Yno derchafâ dy galon at Dduw a gweddia.

Arglwydd cadw fi rhag pob pechod a pherygl y dydd hwn er mwyn *Jeſu Criſt.*

Pan godech i fynû dos ar dy luniau a dywaid woddi hon:

Yr holl Alluog Dduw yr hwn a gyffyrddo fynghalon ac ymglyw oth ofn ag arſwyd ſanctaidd fawrhydi: mi attolyga i ti roddi i mi râd felly lywodraethu fy meddy liau, ac edrych ar fyngeiriau am llwybrau y dydd hwn, mal y gallwyf ochelyd holl bechodau; yn enwedig yr rhai yr wyf hylithraf tu attynt, ac yn tueddu yn hawſaf: Megis y byddo enaid am corph wedi ei cadw yn bur ac yn ddiſg cheulyd oth flaen di, a pha bryd bynnac y delo eu gwahaniad y gallont fod yn barod yn gyfaddas ddiſgwyl di, trwy haeddedigaethau a thrugaredd Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Rheolau om yr Hwyr.

Cyn yr elych di ith wely goſtwng ar dy luniau a dywaid y weddi ſer hon.

ODduw yr hwn a wnaethoſt y dydd i lafurio ar nos i orphywys, glanhaed gwaed dy vnig fab fi oddiwrth fyn nhroſeddau y dydd hwn aeth heibio, nal y gallwyf gyfgu yn dy heddwch, a chodi dracheſn edi fynghyſſuro am ymddiffyn trwy dy ffafor di trwy ſu Criſt ein Harglwydd, *Amen.*

A chan roddi diolch mal hyn a gweddio.

Oll alluog Dduw yr hwn am cadwodd y dydd hwn oddiwrth, rhag, bechodau a pheryglon: yr wyf yn ſtyngedig yn mawrygu dy enw am dy Râd ath Ddaioni tu ac attaf. Gan attolygu i ti ſaddau i mi oll amweddau y dydd hwn yr rhai y mae neu y geill ymghydwybod ſynghyhuddo i am danynt. A chenniatta am y pechodau yr rhai trwy fyngwendyd a wneuthym, allael o hono fi o hyn allan trwy ynnorthwy dy yſpryd ti yn fwy gofalus eu gochelyd: mal y byddwyf beunyddol yn feſyll yn dy ffafor, yn hodio tan dy *gadwraeth*, a gorphywys yn awr a gorwedd i lawr yn dy heddwch ac or diwedd dyfod th Teirnas nefol trwy haeddiant a theilyngdod Jeſu Criſt. *Amen.*

Pan orweddych i lawr dywaid.

Myfi a oſodaf i lawr fym mhen mewn heddwch ac gymeraf fy eſmwythder canys tydi yn vnig o Arglwydd a wnei i mi aros mewn diogelwch!

Yno

Yno gweddia mal hyn :

Goleua ſy llygaid O Arglwydd mal na chyſgwyf mewn marwolaeth, yr wyf yn gorchymyn fy enaid am corphi *ti cadw fi er mwyn dy drugareddau.*

PSAL. 55. 17.

Hwyr a borau a hanner dydd y gweddiaf a hyddaf daer : ac efe a glyw fy lleferydd.

Gweddiau Beunyddol.

Yma dechreu dy weddiau bennyddol gan ddywedyd yn gyntaf rai or *adnoedaû* hyn.

PSAL. 65. 2.

TI yr hwn a wrendewi weddi, attat ti y daw pob cnawd.

PSAL. 123. 1.

Attat ti y derchafaf fy llygaid yr hwn a breſwyli yn y nefoedd! Attat ti o Dduw y Derchafaf fy enaid.

PSAL. 66. 18.

Pe edrychaſwn ar anwiredd yn fynghalon ni wrandawſei (r) Arglwydd.

JOAN. 16. 23.

Yn wir yn wir meddaf i chwi pa beth bynnac a ofynnoch i Tad yn fy enw i efe ai rhydd i chwi.

JACC. 1.

JAM. 1. 6, 7.

Eithr gofynned mewn ffydd heb ammeu dim, canys na feddylied y dyn hwnnw y derbyn ef ddim gan yr Arglwydd, ſef yr hwn ſydd yn ammeu, ac heb ffydd.

1 JOA. 3. 2.

A pha beth bynnac a ofynnom yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef, oblegid ein bod yn cadw ei orchymynion ef, ac yn gwneuthur y pethau ſy yn rhyngu bodd yn ei olwg ef.

JAC. 4. 3.

Gofyn yr ydch ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam fal y gallech eu treulio ar eich meluſchwantau.

1 TIM. 2. 8.

Am hyny yr wyf yn ewyllyſio ir gwyr weddio ym mhôb man gan dderchafu dwylo ſanctaidd heb na dicter nac ammeu.

Gweddi o Baratoad.

ANadla arnaf ath yſpryd ſanctaidd o Dduw mal y gallo fy anadl i yr rowrhon rhyngu bodd i ti, am gweddiau ddyſod i ſynu megis aroglau melysber oth flaen di, trwy haeddedigaethau Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Neu Hwn.

RHagflaena fi Arglwydd yn fy holl weithredoedd ath ffafor tra-graſuſol, ac hyffordda fi ath cynnorthwy beunyddol megis yn fy holl weithredoedd dechreuedig y parhânt ac y diweddont ynot ti, y gallwyf ogoneddu dy enw ſanctaidd ac or diwedd trwy dy drugaredd feddiannu bywyd tragywyddol trwy Jeſu Criſt ein Harglwydd: *Amen.*

Gyffes.

Gyffes.

HOll alluog a thrugaroccaf Dâd, mi bechais a a geſeiliornais allan oth ffurdd di mal dafad a gyſrgoll, mi ddi*l*ynais ormodd ar amcanion dymuniadau ſynghalon fy hunan : mi droſeddais yn erbyn dy gyfreithiau ſanctaidd : mi a adewais heb wneuthur y pethau a ddylaſwn i ei wneuthur ac a wneuthym y pethau ni ddylaſwn eu wneuthur; ac nid oes dim iechyd ynof. Eithr cymmer di O Arglwydd drugaredd arnaf droſeddwr truan ; Arbed fi Dduw. Yr hwn wyf yn cyfaddef fym meiau cyweiria fi ſydd yn ediſeiriol ; yn ol dy addewidion a yſpyſwyd i ddynol ryw ynghriſt Jeſu ein Harglwydd. A Chaniatta o drugaroccaf Dad er ei fwyn ef i mi allael byth o hyn allan fyw yn Dduwiol, yn vnion ac yn ſobr i ogoniant dy enw ſanctaidd. *Amen.*

Gweddi am faddeuant.

HOll alluog Dduw Tad ein Harglwydd Jeſu Criſt, yr hwn ni ddeiſyf farwolaeth pechadur, eithr yn hytrach dychwelyd o hono oddiwrth ei anwiredd a byw, ac a addewaiſt faddeuant ir rhai wir edifarhânt ac yn ddiffuant yn credu iw Efengyl ſanctaidd ef, oth trugaredd mi attolygaf i ti Caniatâ i mi wir edifeirwch ath yſpryd glan, mal y byddoir pethau yr wyf yn ei wneuthur yr awr hon ryngu bodd i ti a bod y darn arall om bywyd yn ol hyn yn bur ac yn ſancteiddiol, ſel y gallwyf or diwedd ddyfod ith llawenydd tragywyddol trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi yr Arglwydd.

EIn tad yr hwn wyt yn y nefoedd, ſanctеiddier dy enw, deued dy deirnas bydded dy ewyllys ar y Ddaear megis y mae yn y nefoedd: Dyro i ni heddyw ein bara beunyddol, a madden i ni ein deledion fal y maddeuwn in dyledwyr ac na arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg, &c.

Verſiclau

Verſiclau neu adnodau.

Adnod. O Arglwydd egor fyngwefûſau.
Atteb. *Am genau a fynega dy foliant.*
Ad. O Arglwydd prvſura im cymorth.
Att. *O Dduw pryſura im hachub i.*

Gogoniant a ſo ir tad, *&c.*
Alluluiah. Molwch yr Arglwydd.

Darllenwch y Pſalmau goſodedig ir gwaſanaeth y dydd hwnnw. Yno y llithoedd yn ol hynny dywedwch eich credo, Yn ol hynny y gweddiau beunyddiol.

Yſtyrriaeth ir Darllenydd defoſionol ynghylch y Gweddiau beunyddol yma.

O Mynni wybod yr achos pa ham y mae y Gweddiau yna cyn fyrred ac yn neullduol, yr hwn wyt yn arfer O weddi hir dyro oll ynghyd; mal y byddo dy ddefoſiwn yn fywiolach y maent cyn fyrred (canys fe ellir rhedeg taith ferr yn fwy cyflym:) ac mal y byddo dy yſpryd yn dal allan yn gefnoccach mewn darnau neullduol (megis cynifer o orphywyſfâu ar hyd y ffordd y rhedo ef.)

Os dyn o yſpryd arall wyt, cymer y modd ar weddiau y byddo dy enaid yn oreu yn lleſhâu ou plegit. Hyn a oſodir nid yn ordinhâd i bob deſoſiwn, ac yn hyderu *Cynnorthwy, nid yn rhwyſtr i vn math ar ddyn.*

Gweddiau Boreuol.

1: *Colleƈt neu gaſgliad am Râs*

ODduw! Ni allaf fi oſyn rhodd ſwy nath ogoniant ti; ac am hynny nid wyf yn erfyn rhodd well nath Râs di, ie yr hon yn berffaith nid yw ddim ond hynny; ac ni allaf ddyfod atto ond trwy lwybr Grâs; Yr wyf yn attolygu i ti gan hynny er mwyn Jeſu Griſt ſynghynyſgaeddu ar rhodd ſendigedig honno, Gras i wneuthur i ti waſanaeth ar y ddaear, mal y rhoddech di i ni Jechydwriaeth yn y nefoedd trwy haeddedigaeth Jeſu Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

2. *Y Colleƈt am Heddwch.*

YMae fy enaid truan yn ymbiliwr goſtyngedig attat ti O Dduw Am dynghneddyf: Gwaed Jeſu yw r atteb troſof ath yſpryd yw ſyn nadleuwr: O herwydd ſy mhechodau mi haeddaſ ddigofaint tragwyddol, eithr er mwyn dy anwyl fab dangos dy ffafor i mi, trwy yr hwn y cymodwyd y byd; O gad i mi gael ſynghyſuno a thi, ni wn i pa fodd i ddeiſyfu hyn mal y dylwn, eithr dy yſpryd eill wneuthur cyfryngiad ffrwythlawn, troſof fi, pâr irh yſpryd ofyn ath Eab wneuthur ſy heddwch diwreiddia ſyn nhrachwantau, gorchfyga Satan troſof fi, mal y gallo ſynghydwybod

gael

gael heddwch gyd a thi a minnau ynddo ef : Gan dy Ras di trwy gyfryngdod Jesu Grist ein Harglwydd, *Amen.*

3. *Y Colect, Am Jechyd.*

O Arglwydd ! Pan fyddwyf yn glaf pâr i mi feddwl y gallaf farw, pan fŵyf iach y gallaf fod yn glaf, fal na byddwyf yn camdraulio y gweddill om heinioes eithr dy anrhydeddu am hiechyd ; a thi a elli roi i mi gyffur am hynny yn fynghlefyd. Sef hyn, nad pechod am rhwymodd i im gwely, eithr rhagluniaeth am taflodd i lawr, yr hwn a eill, ac am cyfyd i fynu vn ai i iechyd yn y byd, ai i ddedwyddwch mewn lle gwell ; y cyfriw fwynhâd *o Jechyd* canniatta i mi, mi attolygaf i ti er mwyn Jesu Grist, *Amen.*

4. *Y Colect am ddiogelwch.*

O Arglwydd ! Cynifer o ddyddiau ac y bûm fyw, cynifer a hynny a *gefais ar dy law di* ; yr wyt yn adnewyddu fy ammod bob dydd, Tenant tlawd wrth dy ewyllys di ydwyf a bwth serfyll priddlyd trwy dy allu di yr wyf yn ei gynal, Arglwydd ti am harbed aist hyd yn hyn cadw fi n oestadol ; a gad i mi dalu mal y gallwyf y gwasanaeth sydd ddyledus arnaf, yr vnig ardreth yr wyt yn ei ofyn am y Tyddyn a'r Perthynasau (bywyd iechyd, cyfoeth, a'r hollgwbl a feddaf, am yr hyn y Canniateuaist Derm ac amser fym mywyd ac a roi dragywyddoldeb : Hyn at y llall sicrha i'barhau mi attolygaf i ti, er ei fwyn ef, yr hwn yw r gwystl ar vnig brynwr trosof, Jesu Grist ein Harglwydd, *Amen.*

Act. 17, 24, 25. *Oth rhodd* Di-Dext. Esa. 38, 9. Joa. 4, 19. Act. 17, 28.

5. *Y Colect am Gefeillion.*

AM fy holl gynyseifiaid am cefeillion Arglwydd derbyn fyngweddiau. Gwna di ddaioni vddynt oll, O Dduw. Ir rhai a *gyfeiliornant*, dangos dy wirionedd, a chadw o ddiwrth amryfusedd, y rhai ai gwelant : ir rhai a wnant ar fai dyro Râs i wneuthur

Aethant ar gam.

psalm 107 34

yn well, ar rhai a wnant yn dda gwna vddynt barhau i wneuthur felly. Ir rhai a gystuddir dyro gysur ac ymwared, ir rhai a lwydda dyro ostyngeiddrwyd a *dirwest*. Bendithia y clas ag iechyd ar iach rhag dolur; diwalla yr rhai sydd mewn eisiau, a phar ir rhai nid ydynt mewn eisiau ddiwallu eraill: Canniatta dy râs, i bawb o Dduw, a dangos dy drugaredd: Bydded cariad in rhwymo ni y naill wrth y llall, a Chresydd in cyssylldu oll attat ti; megis y byddo i bawb oll yr rhai ydynt o Garedydd anianol ymgyfarfod mewn cydwaedoliaeth nefol ie bydded felly Arglwydd. O bydded Gwaed Jesu yn rhedegrwy y gwirhennau, ac yspryd Jesu yn myned ynghyd gyd ai waed, mal y byddo gogoniant Jesu yn oddiben i ni eû gyd oll. A pha wedd bynnac yr ydym ni yn dioddef ac yn ymwasgaru ar y Ddaear, y gallom fyw ac ymlawenhau gyd a thi mewn gorfoledd nefol; trwy vndeb yr yspryd glan, a thymmun y Gwaed bendigedig hwnnw. *Amen, Amen.*

Tymerwch.

Est. 2. 31.

Job. 1. 13.

6. *Y Colect, am y Deirnas.*

O Arglwydd! Nyni a fûom yn rhyfeddod y byd am Drugaredd; yr ydym am Drûeni. Pobl gwedi eû rhwygo yn alarus, eû gwahanu, cuysteuddio ac amhwyllo; lliaws o wyr dibennog digalonog didrefn parod i ddinistr. O Tydi Physygwr mawr a elli cyn hawsed iachau Teirnas a dyn. Jacha ein Tir er mwyn dy dyner drugareddau. Arglwydd trugarhâ wrthym ac iachâ ni. Yngwaed Jesu Golch ein Pechodau yr achos on holl ofidiau: Pa vn bynnac ai ein rhai ein hunain ai rhai yr oesoedd or blaen; Am yr euogrwydd at felldith am danynt oll: Gwared ni Arglwyddd daionus. Gwared ni oddiwrth waed o Dduw oddiwrth yr holl waed Gwirion a gwerthfawr a *dywalldasem*. Oddiwrth bechodau o heddwch, yr rhai a ddyg y Rhyfel, yr hon an dyg ac a'n gadawodd ni yn yr euogrwydd o waed! O Jesu, yr hwn a drugarheuaist ie. wrth yr rhai a dywalldodd dy vn di, ac a wnaethost *waith* eû pechod yn foddau o û Hiechydwrieth bydded rhinwedd dy waed ti i olchi ymaith eûogrwydd yr holl waed tywalldedig yn ein plith ni, llaferydd

Jer. 8. 22.

Syn gerwedd *ac nom.*

Matter.

Act. 2. 37.

llaferydd yr hwn a dawdd yr holl lefain a wna hwnnw yn y nefoedd yn ein herbyn ni. A thrwy Rad dy lân yſpryd a bair in calonnau ni waedu am ein pechodau, mal y lleſo ſelly troſom.

Gyda a'n pechodau ſymud ein cyſtuddiau, cyſanna ein rhwygiadau a chau ein briwiau ath ddwylaw nefol O Dduw yr heddwch, na ddiſlenir n o honom ni tanynt hwy. Na ad i ni ein gweuthur ein hunain yn yſgiyſaeth i gryſder dieithriaid, na chwyn po gan ynſydrwydd *cuddiedig*, eithr cyſarſod gorph a phen mewn diogelwch cyffredin; yn y cyſamſer edrych ar ein cyſtuddiau, a chadw ſywyd yn y corph, Arglwydd. Yr hwn nid ymhyſrydi mewn marwolaeth vn Pechadur. Trugarha wrth ſurdd o eneidiau truain pechadurus ym mron trengu. Trugarha wrthym Arglwydd daionus ac ymddeffyn ni er mwyn dy fowrion drugareddau ynghriſt Jeſu. *Amen.* *Diſymwth.*

7. *Y Colect am yr Eclwys.*

ER mwyn dy Briod Anwyl am Mam orau innau, ſyſi dy blentyn tlodaidd di a hithau; ar daſ ſyngluniau, a dderchaſaf ſyn nwylaw, ac a ymbiliaf yn oſtyngedig am dy ddaioni oll o Dduw. Gwirionedd, cariad, a Heddwch ſyddo gyd a hi: Am amryſuſedd gwirionedd, Am *Rwygiad*, cariad, am erlid, heddwch: Gwêl O Arglwydd nid ſal y mae, ond ſal y bu, nid ſal yr oedd am bechod, ond am dy waſanaeth di. A gwrando O Arglwydd nid llefain eu phechodau ond gruddfanau eu thrueni. A Gwna iddi ſod yn gyſtal ac y bu: ie Arglwydd Gwna iddi ſod Cyſtal ac y dylai ſod. Yn hawddgar ynddi ei hun yn ddiſai yn eu phant; gan oleuo mewn gwirionedd, yn weddaidd yn ei Threſn, Sainctaidd yn ei bywyd Ail adeiledig ei bylchau, edſrydig yn ei Chyſiawnderau, ai *Gwared* oi chammau. Ith ogoniant ti, ai. Hanrhydedd hi, an dedwyddwch ni oll, trwy Râd a Theilyngdod Jeſu Gríſt ein Harglwydd. *Amen.* *Schiſm.* *Chyſiownhau.*

8. *Y Coleſt Am yr Eclwys Gathelic.*

O Dduw r Danghneddyf anſon vndeb ym mhlith yr holl rai a broffeſant dy enw, Megis nad oes ond vn pen iddynt, par iddynt fod yn vn corph ; mal nad ydynt ond vn corph, pâr vddynt fod o vn yſpryd; yſpryd y Gwirionedd ar Sancteiddrwydd mewn Athrawiaeth a bûchedd i fod ynddynt oll : Tor ymaith Schiſmau a Rhyfel or byd Criſtianogawl. Nad vddynt dywallt y naill waed y llall, am yr rhai y tywalldodd Dy Fab ei eiddaw ei hûn. Na fydded llawer o galonnau tan vn pen, na mwy o bennau gyda ag ef rhag gwneuthur o honynt gelanedd yn dy Gorph neû anghenfil o hono. O pâr vſudd-dod ith Teirnwialen, a chadw dy dreſnau ym mhob man. Na chynnwys ir vn trwy watwor neû lygriad meddwl, neû lidfalchedd yſpryd i dynnû i lawr dy Orſedd gan gymeryd arnynt ddeſchaſu dy deirnwialen, a chymeryd i lawr dy dŷ i oſod i fynu dy Ogoniant, a goſod dwyn cymyſgedd a Chreulondeb ir Eclwys wrth broffeſu dwyn rhydd-dyd a rheol. Rhag Cryſder, trais, cybydd-dod, Cyſſegr-ledrad, ſchiſm Hereſiau, Afreol, Creulondeb, Brenin yr Eclwys, achub ni : Llywodraetha di ni, a gwna i ni vſudd hau i ti, cadw di ny ni, a phar i ni dy waſanaethu di ; ie holl eneidiau Criſtianogawl ymddiffyn di trwy yr holl fyd, Jeſu Anwyl, *Amen.*

Gweddi derfynawl.

DY Addewid ti yw ganiattau pa beth a ofynnwyſ yn enw dy fab ; Arglwydd ni chyflawni di lai oblegit goſyn felly yn ei eiriau : yn ei *grynodeb* fendigedig ef gan hynny, y Clof oll gan ddywedyd : *Ein tad*, &c.

Y Fendith.

DUw Dad am bendithio Duw r mab am hymddiffynno Duw yr yſpryd glan am catwo am holl eiddaw

ciddaw ai ciddo ei hûn yr awrhon ac yn dragywydd. *Amen.*

Felly y *Diweddgweddi Forcuol.*

Gweddi gariadol yn yr amſeroedd greſynus hyn.

O Arglwydd *nid wyt ti yn ewyllyſgar yn cyſtuddio meibion dynion.* Ymwêl (oth preſwylfa ſanctaidd o'r nefoedd) ar lliaws o eneidiau a chyrph yn ein plith a thrugarha wrthym.

O nad i mi ddiwno fy mywyd Gwirionaidd gan ormodd cywilydd, neu ofn marwolaeth. Gwna i ddynion wybod mai cydwybod om pechodau cyftredin, (nid yr hyn a Heurir arnaf) a wna im holl ofn farw; oblegit yno i ymddangos o flaen y Barnwr mawr hwnnw) yngolwg yr hwn (os â ir farn) ni eill vn dyn byw ſefyll. Ac am hynny cymeraf gyſur, oblegit mi allaf ac a *appeliaf* at y Barnwr cyfiawn hwnnw, yr hwn ſydd Dyſt om diniweidrwydd preſenol, ac a ddatcan hyn megis Barnwr yn y dydd hwnw, gar bron ei orſeddfaingc ofnadw y, pryd y gwnelir Angelion a dynion yn Dyſtion oi farn gyfion ef yno troſof fi, eiſiau yr hon yr awrhon y gwneir fi yn olygddrych ir byd, i ddynion, ac Angeliou. Pan fyddo rhaid ir Barnwr ar carcharor ſefyll wrth y Barr ar Barnwyr a gaiff eu condemnio, ar Gwirioniaid (condemnedig) a gaiff eu rhyddhau, ie y Gwirion a gaiff farnu ei Farnwyr.

Heb. 9. 29.
Pſa. 14. 3, 2
Pſa. 130. 2
1 Cor. 4. 9

I farn y dwthwn hwnnw, gad i mi i droſglwyddo fy achos. Ith Trugaredd di yn awr fyngorchymyn fy hunan. Ith toſturir wyf yn anfon fyngelynion. Ith ſendith fynghyneſeifiaid; I ſonwes fy Jachawdwr fy enaid. Iw wely ef fynghorph; i Orphywys a chyſgu; nes iddo ef ei ddeffro ef iw ogoniant, am hanfarwoldeb ir nefoedd. Ile caiff fy enaid gwirion (golchedig ai waed ef ai wneuthur yn berffaith gyflawn wirion) gyd a Seinctiau ſanctaidd ac Angelion fyw gyd ag ef, mewn gorfoledd o holl ddaioni, heb fyth weled na goddef mwy drwg yn dragywydd. ſelly y byddo O Arglwydd, im gelynion, im cefeillion, im corph, im henaid i mi fy hun, ſelly y bô yn awr ac yn dragywydd. *Amen, Amen.*

Phil. 3. 21.
1 Theſ. 4. 14
1 Cor. 15 54
Dad. 7. 14. 17
1 Theſ. 4. 17

Gweddi y Carcharor.

2 Tim. 2. & 3. 6 Tit. 3 3 Diha. 5. 22 *Efynnau.* Rhu 6. 14. Eph. 1. 7 Dad 5. 9 Joa. 8. 36. Rhu 8. 1 2 Cor. 3. 17. Tit. 3. 5

ER bod fynghorph yn rhwym, bydded fy yſpryd yn rhydd O Arglwydd. nid yn garcharor i Satan nag yn gaethwas i drachwant. Bydded dy drugaredd di gan hynny im rhyddhau oddiwrth *rwymedigaeth* euogrwydd, ath Râs im gwared rhag gallu pechod. O Tydi fawr fendigedig waredydd dynawl rvw (a gwerth dy werthfawroccaf waed) gwared fy enaid truan oddiwrth Bechod, a Satan, er mwyn dy dyner doſtȣri ath Trigareddau. A bydded i mi trwy nerth ymroad, a reſoluſion ſanctaidd goſtyngedig, ac edifeirwch calonog, fyngoſod fy human i dorri ymaith fy rhwymau, fal y gellych fynghonorthwyo i trwy dy ras. Ac ſelly y gallaf gael fyngwaredu ddwywaith. Vnwaith trwy dy waed gwerthfawr, a thracheſn trwy dy yſpryd daionus O Arglwydd. A chan na allai hebhynny fod vnwaith yn gadwedig, mi Attolygaf i tigad i mi gael fyngwaredu felly ddwywaith.

O ddiwrth gadwynau tywyllni tragywyddawl, carchar vffern, Gwared fi Arglwydd daionus. A rhag dewis caethiwed pechod a chadwynau Satan, o flaen rhydd-dyd dy waed ath yſpryd. Cadw fi rhag i fy nhraddodi i fynu yn gyfiawn i dywyllni marwolaeth dragywyddol A rhag parhau ac ymddigrifo mewn pechod i eſceuluſo a dirmygu fy mryniad neſol ath Râs di: Attal fi na redwyf ar ol y cyfriw ddamnedig ddrygionus yrfa. Os eraill a gynnydda yn fwy dibris o ran eu gwarchae (fal y dilyn carcharorion fynychu foddau rhai eraill) na âd i mi fod mor ddiofal ddiobaithgar, rhag i mi orwedd am hynny mewn cadwynau dauddeublyg, mal Troſeddwr yn erbyn cyfraith ddyn ath cyfiawnder dithau. Y cyfriw Eſamplau bydded i mi eu gochel mal cythreuliaid, eu cyffuron mal Seirph, ai trefnau mal vffern. Y cymdeithion y rhai yn ol cydwybod dda a ant ir nefoedd byth, ac yn

ſwy gofalus o ran eu caethiwed preſenol, bydded yr rheini yn etholion om Cymdeithas i: gâd i mi arwain neu galyn y cyfriw yn llwybr rhinwedd a ſanctteidd-rwydd. Eithr cyſeirwyr a chynghorwyr i ddrygioni a chabledd bydded i mi eu gochel ai gwrthod, megis rhai a fyddant ym mhob lle yn y ffordd lydan i ddeſtruw, eithr mewn carchar yn ffordd fawr or naill yn ffern ir llall. O rhedais i fywyd d ffaeth gyda ac yr vn. gad i mi edifarhau a dychwelyd i ffordd well, a myned a chadw rhagof yn llwybr tynghneddyf. A bod i mi gael enaid rhydd yn frainrioledig yngwaed fy Jachawdwr, ai gydnerthu trwy ei yſpryd (ie tra fyddo fynghorph yngharchar) ac enaid bendigedig yn dy ogoniant, pan elo fy yſpryd allan om corph. Mab Duw gwna fi felly yn *rhydd* yr awrhon ar pryd-hynny, Tydi yr hwn a fuoſt vnwaith mewn rhwymau, dy hunan ar y ddauar, eithr yn awr mewn cyflawn rydd-dyd a gogoniant yn y neſoedd, ſyngwaredydd Anwyl rhyddha di fi telly er mwyn dy drugareddau. *Amen.*

Mar. 7. 13
Eſa. 59. 8
Rhu. 3. 17.
Mat. 11. 28

Gweddi, Carcharor am ddyled.

OTydi yr Echwynwr mawr ir hwn y mae yr holl bechaduriaid yn ddledwyr, maddeu i mi ddyled ſym mhechodau mal y gallwyf yn ſwy cyſſurus oddef pa beth bynnac a ddel arnaf am ddyled arall. A chan nad wyt yn maddeu i neb heb ediſeirwch, ac ni *chymeri* ediſeirwch heb wellhad. bydded i mi edifarhau ollawl om calon am ſy mhechodau; mal y gallwyf gael fy rhyddhau or ddyled, a gwellhau yn deifrifol mal y gellych di ſelio, ar byd deſtiolaethu ſy *rhyddhâd* am ediſeirwch. mal y gallwyffod yn rhydd ac yn ddiofal felly orh flaen di.

Luc. 7. 41.
Act. 3. 19
Mat. 3. 8.
Act. 26. 20

Fyngwiteus.

Am rydd dyd corph bydded dy ewyllys. cynhyrfa eu calonau hwynt ſydd vddynt allu arnaf i drugarhau wrthyf, Cynhyrfa eu cydwybodau i dalu i mi

y cariad perffaith a ddylent i mi; fal megis y diſgwy-
Mat. 18. liant hwy gael maddeuant ou Talentau y gallont
32. & 35 faddeu i mi ſyngheniog rhag vddynt wrth waſgu am
fy nled i gynyddu eu hun eu hunain.

Eithr na âd i mi wneuthur trowſder a neb, i oſod neu gadw arnaf rwymau, rhag wrth ſyned im carchar megis i Senitwar neu noddfa o Som-edigaeth i dwyllo eraill, rhag wrth ſyngwneuthur fy hun yn garcharor i ddyn, i mi ſyned yn rhwym ir Cythrael hefyd, gan or-
1 Cor. 6. 8 wedd yn rhwymedig caeth i vffern, mal ir Carchar. Ac or diwedd twyllo fy enaid am y nefoedd, am wneuthur Cam a dyn yn ewyllyſlawn ar y ddauar. Os
Fydd moddau a mwnws a *fetha eu cael* im rhyddhau, bydded
diffygiol. eu trugaredd hwy im rhyddhau i, mal y gellych di am
Mat. 6. 12 y trugaredd hwnnw eu rhyddhau hwythau. Os bydd
14 yn fyngallu dalu yr hyn o gyfiawnder ſydd ddyledus arnaf: bydded i mi ſwrw r bauch oddiarnaf, rhag i mi fyw a marw mewn dyled ith cyfiawnder di am cydwybod fy hun, am yr hon ni ddyru yr vn i mi ddiofalwch. Gâd vddynt hwy dalu yr hyn ſydd ddyledus i ti am dy Gariad, a minnau er dy fwyn di ou Tiriondeb. A bydded i mi dalu vddynt hwy yr hyn ſydd ddyledus wrth gyfraith Ddyn, ac i Tithau dy eiddaw wrth gyfraith Gyffredin. Mal yn y Dydd mawr hwnw o Gyfri y gellych di, ein rhyddhau ni oll am wneuthur ein Swyddau perthynas i Griſt, yr rhai a oruſunant wneuthur Anghyfiawnder, a Chreulondeb. O pâr i mi yn awr eu talu hwynt, a ryddhā di nyni y pryd hynny er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

Gweddi Carcharor am Fai neu Gamwedd.

O Arglwydd oddiwrth fym mhechod ath Rhagymweliad dithau, y daeth y gwarth ar galar hwn i mi ar y ddauar: O Sanctteiddia y caledi hyn i mi trwy dy Ras, mal y byddo im cadw rhag galar tragywydd a chywilydd vffern. Na âd i mi orwedd a byw yn hwy yn rhwymau anwiredd. rhag i ti fy rhoi i fynu ir cythreuliaid, megis i ddwylaw fyngheidwaid a phan fyddo fy enaid yn rhydd oddiwrth garchar y corph, y Cymerir fi ir carchar lle y gorweddaf mewn poenau yn dragywydd.

Act.8.23
Rhu.1.28.
Mat.5.25.
2 Pet.2.4.

Yr hyn ni wnaeth yr Eclwys, gwnaed y Carchar; Dyſcu i mi ofni, ath wafanaethu di: I Ediſarhau o fywyd drwg, a byw yn well oth flaen di. bydded i mi waeuthur Eclwys om Carchar Pregethwr om ceidwad pennodau om cadwyni, ac arferol werſi o fywyd da, a Duwioldeb.

Eithr na âd i mi fod yn vn or rheini a wnant vffern oi Carchrady, gan *gam ddeunyddio* eu gwarchae oddiwrth rydyd i ormodedd o wyrhydri a gloddeſt. Cogio, chwarau diſiau, yſed, egrfoddau, tyngu, rhuo mal cythreuliaid. Gweledigaethau o'r cyfriw gyrph bydded i mi eu gochelyd, megis yſprydion diffaeth, ac na wnelwyf byth vn or rheini yn gefaill cnawdol. Bydded i mi Gredu fod vn vffern yn ormod, ac na wnelwyf fi ddwy im pennydio (vn trwy fy mhechod ar y ddauar ar llall am fym mhechod yn vffern) bydded i mi leſhau mwy o herwydd fyngharchar, o achos yr vffern fechan yn lle yr wyf i ofni yr vffern fawr, ir hon y mae y cyfriw foddau cythreulig im tynnu am gwddio i, aci ddyſgu myned yn fwy diwyd y llwybr ir nefoedd, rhag i mi ddyfod or diwedd i vffern yr vffernoedd. O ddiwrth y Cyfriw fyned allan o'r carchar yma, gwa-

red fi Arglwydd Daionus, ac oddiwrth y cyfriw ffyrdd a gweithredoedd ynddo cadw fi er mwyn Jesu Grist. *Amen.*

Gweddi Carcharor a fyddo mewn perygl am ei fywyd.

O Arglwydd Dduw a Barnwr pennaf yr holl fyd, Gan fod fy meiau yn erbyn dyn a Thithau. wedi fy rhoi mewn gefynnau, ac yn fy mygwth a barn drom o farwolaeth, ac â melldith a chywilydd o fedd anhymmig: bydded i mi wneuthur côr ymadrodd om Carchar i bregethu i mi edifeirwch, a phregeth om gefynnau i ddysgu i mi dy wasanaeth. Troâ fyngharchardy yn Siop i *anturio* am y nefoedd, ac yn farchnadfa o weddiau da i *brynu* Jechydwriaeth. bydded i mi ymprydio a gweddio, darllain a mysyrrio, ymddiddan a gwrando, Cyffessu a Chymuno; ac yn fath lesawl ac am y cyfriw fudd sanctaidd om hamser am henaid, treulio yr orriau ydynt yn ol om heinioes. Gan wylo ac ochain yn chwerwdost yr oferedd a wneuthym or blaen. ac yr wyf yn ei wneuthur ar ddrygioni a Gwagedd, yn Camdreulio yn enbyd ym mywyd gwerthfawr am hamser. Na âd i mi golli vn munud ond hynny, yr hwn a gollais lawer o flynyddoedd felly yn barod. Oh na ad i mi roi heibio im nos olaf neu im hawr, wneuthur heddwch a thydi fy nuw trwy edifeirwch, gan ystyried fod tragywyddoldeb om dawn, neu om galar yn sefyll ar yr ychydig hynny o nosweithiau neu funudiau sy n ol om heinioes: A Bod diddanwch marwolaeth yn sefyll yn y bywyd da a aeth heibio, ac nid mewn edifeirwch presenol am wneuthur drwg, pryd na byddo i mi hwy gallu nag amser iw wneuthur;

Draffic.

Tauill.

Esa. 38.3.

Eclef. 9.

O Arglwydd daionus gwna fi yn gyfriw Farſiandwr doeth om hamſer am galar, mal y gallwyf ynnill bywyd tragywyddol am farwolaeth os marw a wna, a chyſnewid ſy mywyd anwireddus am vn ſanctaidd os byw a fyddaf. Bydded i mi allan o law rybuddio ſy enaid am bywyd or blaen i ddyſod gar dy fron di am damnio ſy hun am ſy holl ddrygioni, mal na byddych di i gondemnio ſy enaid. 1 Cor. ii. 31

Trwyddot ti Jeſu Anwyl unig a bendigedig Gyfryngwr ac Jachawdwr y byd, bydded i mi ymddangos ac *apêlio* at dy Dad y Barnwr mawr i geiſio ym mhardwn, yn ôl i mi ſynghondemnio ſy hunan.

O ddiwrthit ti Sanctaidd yſpryd Duw a diddanudd nefol yr eneidiau trwm *ſlinderog*, gad i mi gael grâs na phallwyf mewn yſpryd oll a pharchedig ddyled, pan ddelwyf i ymddangos gyntaf im Appêl olaf.

Y pryd y byddo cyſiawnder yn goſod fyngwaed ar ſym mhen ſy hun, Jeſu bydded dy waed dithau arno heſyd. nid yr euogrwydd, eithr ei haeddedigaeth a ſyddo arno y pryd hynny. dy vn gwerthfawr gwirion di, i buro fyngwaed gwael euog i: Trwy dy waith graſuſol o yſpryd ſanctaidd o Rad a Heddwch, bydded ffrwythlawn effeithiawl i lanhau ſy enaid. Anrhega ef yn ddifrychewyn ith ddwylaw neſol! O Dâd y Trugareddau. Ith ddwylaw di yr wyf yr awr hon yn ei orchymyn ith ddwylaw di. a derbyn ef y pryd hynny O ſendigedig lân ogoneddus drindod, Tad mab ac yſpryd glan. *Amen, Amen, Amen.*

Gweddi Drwgweithredwr yn marw.

O *Arglwydd Jeſu Griſt, yr hwn a fuoſt ynghrôg dy hunan vnwaith ar bren, er Jechydwriaeth ir byd. Trwy dy waed ar y Groes bydd Jechawwdr* Gal. 3. 13 Col. 3. 20.

chawdwr im henaid fy enaid truan evog pechadurus, trwy dy werth fawr waed cadw o Criſt: fyngobaith am vnig obaith ſydd yn dy waed, dy werthfawr waed. O Tydi yr hwn a gedwaiſt y lleidr edifeiriol ar y Groes. Gwel ſi ddrwgweithredwr truan ar fy Sibedau truan eithr edifeiriol, yn awr yn awr Jachawdwr anwyl, yn fy awr ddiweddaf trugarhâ wrthyf, na wrthod fi. Ith ddwylaw tru-

Luc. 23. *garog O Arglwydd i gorchymynnaf fy yſpryd. Yn dy*

43. *haeddedigaeth bendigedig yn vnig y gobeithiaf am drugaredd, Er dy werthfawroccaf waed yr wyf yn ei erfyn. O*

2 Cor. 5. 9. *bydded y gwaed hwnnw, yr hwn ſydd ddigonol i* wared *yr holl fyd, yn ddigonol i gadw enaid. bydded y Gwaed yr hwn ſydd Aberth gyflawn am bechodau yr holl fyd, yn fodlonrhwydd tros vn pechadur ſengl, er ei fod yn vnor rhai dryccaf ar dirieitiaf yn yr hollfyd, A bydded ir yſpred glan hwnnw, yr hwn a rydd enaedl i bawb oll, roi nerth i mi yn fy awr am nig ddiwarthaf. Trwy dy yſpryd ſanctaidd a ſanctteiddia, chryfha fi: Yr awrhon fy Arglwydd Jeſu aehub fy enaid truan pechadurus, yr hwn a brynaiſt ath waed oddiwrth farwolaeth dragywydd. fy enaid ofnog yn ei ymadawiad, Cynal, a chadw, a chymer ith trugaredd. Cadw fi trwy dy haeddedigaeth a chymer fi ith drugaredd. Arglwydd Jeſu derbyn fy enaid. Amen.*

Gweddi drwg-weithredwr yn marw.

YR wyf yn cyffeſu oth flaen di ar byd, O Arglwydd i mi fyw yn bechadur greſynol, eithr yn marw yn edifeiriol. Y mae ynof bechodau ddigon i Ddamnio

Act. 8. 37 mil o eneidiau. Eithr mae i ti waed ddigoń i gadw

Joa. 4. 42. myrddiwn. Y mae i mi enaid llygredig-lawn eithr y

Marc. 9. mae i ti yſpryd ſanctteidd lownach. O Arglwydd

24 pardyna fy mhechod yn dy aneirif drugaredd: gwa-

Credu. red fy enaid trwy dy waed gwerthfawr, a ſanctteiddia fy enaid ath yſpryd glân. Yr wyf o ddyfnder ſynghalon yn edifarhau am fy anwireddau. Arglwydd derbyn fy edifeirwch : yr wyf am holl galon yn *coelio* O Jeſu,

mai

mai Tydi yw mab Duw ac Jachawdwr y byd, Arglwydd helpa fy anghredniaeth. Ac yr wyf om holl galon am henaid yn dymuno gras dy lân yſpryd, mal y gallwyf edifarhau, a chredu mal y dylwn, Arglwydd cynnorthwya fi. Dy Ras O yſpryd glân im cymhwyſo ir nef. Dy w2ed O Jeſu im cadw rhag vffern. Dy drugaredd O Dad nefol im derbyn ith ogoniant. Arglwydd derbyn fy enaid, er mwyn dy drugareddau derbyn fy enaid Arglwydd Jeſu. *Amen.*

Gweddi Gwr tros ei wraig neu weddi gwr gwreigiog.

O Arglwidd ti a wnaiſt y wraig yn lleſtr gwannaf etto yn vn angenrhaid, Gwr yn anrhydedduſaf or ddau, etto y wraig yn neſaf ir Gwr eſe yw r pen, eithr y hi yw r Goron. bydded i mi gan hynny ei thrien hi megis y gwannaf, ai anrhydeddu hi megis lleſtr o barch teilwng; Na fydded i mi fod byth cyn wanned a rhoddi fyngallu iddi hi: nag mor ddrygionus ai gwneuthur hi yn feiſtres om cydwybod. na byddwyf tyth mor greulon ai gwneuthur hi yn aill i mi, mor llywydraethgar, ac na oddefwyf mo honi hi om cyngor. bydded i mi wneuthur cyfrif o honi, eithr o hono fy hun yn well; os chwery hi ran *Efa* na ſyddwyf fi mal *Adda* (i gynieryd y ffrwyth gwaharddedig oi llaw hi) rhag i mi roi iddi ddiniſtr yn lle parch: na fydded i mi ei gwneuthur yn droed nag yn ben i mi. Dy Awdurdod ti ynof fi bid i mi ei gynal, trwy gariad, a hithau (tanaf fi) trwy Zêl; mal y dyger yr iau ſydd yn gorwedd arnom ni ein dau mewn mwy diddanwch, al dynnu ym mlaen trwy fwy llawenydd i mi ac iddi hithau, an holl eiddaw. Mal y ceri dy briod Arglwydd bydded i minnau garu fy vn. Ac mal y mae dy Eclwys yn caru anrhydeddu ac vfudd-hau i ti; bid iddi hithau

1 Pet. 3. 2
Gen. 2. 18
1 Cor. 11. 3. 9
Dih. 12. 4.
1 Pet 3. 7.
1 Bren. 21 9
Col. 2. 19
Gen. 22. 12
Mat. 19. 21
1 Cor. 8. 14
Eph. 5. 22. 29

thau garu anrydeddu ac vſuddhau i minnau ; ynot ti ac errot ti Jeſu Anwyl. *Amen.*

[*Gweddi Gwraig tros ei gwr.*

Gen. 2. 23, 24 AM dano ef y gweddiaf attat ti O Ddvw, yr hwn a wnaethoſt ti oth rhagluniaeth yn fy eiddaw i yn fwyaf. Or holl ddynawl ryw, (fyngwr am pen) mal y gallwyf dalu iddo ef y ddyled yr hon (trwy dy orchymyn di) ſydd arnaf a'r cyſriw gydwybod ac yr wyt ti yn ei ofyn ; ac iddo ef fyngweled, nid megis ei groes ond ei goron : mal y gallo ef dalu adref i mi y cariad ar parch yr hwn wrth y gyfraith ſydd ddyledus i mi oddiwrtho ef, mal y gallwyf ei gyfleidio (mal ynghadernid) nid fy nymeſtl. Arglwydd bid i mi fyfyrrio trwy ſerch a goſtyngeiddrwydd, iw wneuthur ef yn feiddaw. a bydded iddo yntau geiſio gyd ag holl ddoethineb a mwyneidd-dra yngwneuthur innau yn gu eiddaw yntau. A byddedi ni ein deuwedd vno ein gweddiau an gallu 'in gwneuthur ein hunain an holl eiddaw, yn eiddot ti mal gan ymgredu a thi ar y ddauar, y gallom or diwedd gael ein periodi a thi yn y nefoedd, ac aros ynghyd yn yr anneddau hynny o lawenydd, lle nid oes na phechod na chyſtudd, na gofal nag anfodlonrhwydd na dim caledi, eithr blodeun o anfarwoldeb a gorfoledd, a gogoniant ir corph a'r enaid ; gyda dedwyddwch heb ddiben heb drangc na gorphen byth bythoedd felly y bo Jeſu *Amen.*

Gweddi

Gweddi rieni tros ei blant.

O Arglwydd yr hwn trwy dy ffafor a roddaiſt i mi hiliogaeth ac yn dy enw allu i fendithio ſym mhlant : Dyro dy ſêl mi attolygaf i ti ar fy mendith. Bendithia hwy a Grâs i fod yn blant i ti, a minnau a grâs trwy eſampl dda ac a dyſgeidiaeth iw cadw hwynt yn dy eiddaw di. Bendithia hwy ag iechyd, ac a hir ddaionus fywyd, (os dy ewyllys bendigedig yw) a minnau a rhagymweled a dyledus ofal trwy oll ffyrdd vnion i dderchafu eu daioni. Na âd i mi adael im plant fod yn wrthryfelgar yn dy erbyn, a fficiddio eu gwneuthur felly. Na fydded i mi felly amhwyllo fy enaid a gofal am danynt, neu lwytho fynghydwybod yn euog i ddwyn dy felldith arnynt hwy a minnau. bid fyngofal yn Dadol am eu heinioes, ac yn Griſtianogawl am eu heneidiau, gan gredu fod pob gofal yn ofer heb dy fendith, a chribddeilio yn ffordd ith felldith. holl fendithion y byd hwn ydynt ddaionus cym mhelled ac y gwaſanaethant ac y cynnorthwyant ym mlaen i fyd gwell, oi hawyddu yn ddireſwm yn dramgwydd ir llawenydd hwnnw. O Arglwydd fy mhlant y mae i ti fwy hawl ynddynt nag ſydd i mi (tydi ydwyt Dad eu yſpryd, nid wyf fi ond or cnawd) bydded i mi gan hynny ymddiried i ti am danynt, megis eu Tad gorau, er i minnau a hwynt, (megis dy fab da di) yn gofalu am wneuthur ei ddyled i ti, ac yn bwrw yr holl ofal pellach arnat ti : felly byddo Dad, er mwyn dy Anwyl fab ein Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

Gen. 27. 49. 1.

Pſa. 127. 23

Heb. 12. 9.

Gweddi Plentyn tros ei rieni.

O Arglwydd yr hwn a wnaethoſt fy rhieni megis Duwiau yn dy le (tanat ti) gwneuthurwyr ac ymddiffynwyr om bywyd i: bydded i mi edrych ar dy allu ath ddaioni ynddynt hwy, ac (yn neſaf attat ti) ei caru, ei gwaſanaethu, ac vſuddhau vddynt: mal yr rhoddwyf lawenydd iw heinios, ac eſtyn hyd eu dyddiau. *Ac Arglwydd yr hwn a roddaiſt vddynt allu i ddwyn y fendith arnat fi, dyro i mi gennad oddiwrthit ti (ein tad ni oll) i ddymuno bendith arnynt hwythau Ac (yn ol fyngallu) i fod bythyn vfuddol ac yn gynnorthwyol vddynt. Mal y gallwyf felly fod (mal yn blentyn oi cariad, felly yn etifedd iw bendith) yn fendith yr hon a addawaiſt i blant vfudd Cariadol (eiddynt hwy a thithau) dyro hynny i mi Arglwydd daionus er mwyn Jeſu Griſt.* Amen.

Eph. 6. 1. a hyd yn.

Eph. 2. 3

Gweddi tros y Teulu.

BOd i mi Deulu iw llywodraethu, dy drugaredd di yw O Dduw: eithr eu llywodraethu yn vnion nis gallaf heb dy Ras di. Y gras hwnw Arglwydd dyro i mi Doethineb i wneuthur y peth a ddylwn, a gallu i wneuthur yn ôl fyngwybodaeth, trwy fy Athrawiaeth iw harwain yn dy ofn, trwy fy Eſampl iw denu, tryw fyngyngor iw dwyn i fynu: trwy fy rhagymweliad

liad iw gwneuthur yn gyfaddas trwy ymddiffyniad iw cadw rhag cam : mor ofalus i roi vddynt a berthynai mal i ddefbyn eu hufudd-dod : Par i mi gofio mai dy eiddo di yw yngweifion a minnau, wedi llunio gan dy ddwylaw, ai prynu vn agwedd ath waed, na ddirmygwyf mo honynt rhag dy ddirmygu di ; bydded i mi yſtyried ſod ym mhlant yn eiddot ti (fal minnau) wedi eu gwneuthur ar dy ddelw di, ai geni drachefn ath yſpryd, mal na byddo i mi eu heſgeuluſo hwynt rhag i mi dy eſceuluſo di. A bydded vddynt gofio ac yſtyrio fy mod : yn ſefyll yn dy le di, mal y gallant yngwaſanaethu ac vfuddhau i mi mal i Tithau; ath Awdurdod ti ynof fi; A byddant hwy a minnau yn goſgar, nad wyf fi ond troſot ti : ie ſod yn rhaid i mi roi cyfrif am fyngeruwchwyliaeth : a hwythau, ſod vddynt atteb am eu hymddygiad : Ein deuoedd i ti ein Barnwr goruchaf, ac Arglwydd ar y cwbl oll. Megis y gallwyf fi ſelly reoli, a hwythau vfuddhau, megis y gwneler y cwbl i ti a throſot ti, ac oll i deirnaſu or diwedd ynot ti, trwy ei haeddedigaeth ef. *Gan yr hwn y cyfenwir yr holl deulu or nef ar ddaear.* Ein graſuſol feiſtr mawr i ni gyd Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Eph. 6. 7: Job 31. 13 14 Col. 4. 1

Eph. 3. 13.

Gweddi am Hiliogaeth.

O *Arglwydd yr hwn a ordeiniaiſt Briodas, y moddau i amlhau dynawlryw, ac ai gwnaethoſt yn ffrwythlawn ir arfaeth honno, trwy dy ragluniaeth di, maly mynnych: mi attolygaf i ti, faly mae hynny yn gyflwr i mi, gwna hyn yn llawenydd i mi. Dyro i mi fendith y Groth, hiliogaeth iachus ſanctaidd; yr rhai a allant fod yn etifeddion oth fendith di, ar y ddaear ar fy ol i, ac yn y diwedd cydberchenogion oth fendith dragywyddol*

wyddolyn y neſoedd gyd a myfi. A hyn er mwyn dy vnig anedig fab, fy vnig anwyl Jachawdwr Jeſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Gweddi Gwraig feichiog.

ARglwydd yr hwn am benditbiodd ag ymddwyn gobeithiol Corona dy drugaredd ynof, im rhyddhau a genedigaeth ddedwyddol, Oddiwrth bob dychryn a niwaid, yr hyn a eill beri rhwyſtr neu anhymmig, byddet dy ragluniaethyn darian i mi, Oddiwrth bob beiau neu ddrygioni, yr hyn a eill dynnu dy anfodlonrhwydd arnaf, ymddiffynned dy râd ti fi: Ac am fy holl gamweddau am meth foddau aeth heibio, Pardyned dy drugaredd fi: Ac Arglwydd na fydded y plentyn o achos ei rieni mewn vn modd yn anhappus, Bendith, llun a pherffeithrwydd o gorph a modd a fyddo arno mi a attolygaf i ti: felly y caiff yr Eclwys blentyn a thithau wât; piler im tylwyth, ac etifedd ith Teirnas. Y diddanwch yn fy eiddaw i, ar gogomant i tithau. O tydi yr hwn vnwaith dy hunan a fuoſt gauedig ynghroth y forwyn a gafwyd, a fagwyd, ac a anwyd: dangos y drugaredd hon i mi: cyflawna a myfi Jeſu Anwyl ti ſanctaid fab Duw. Amen, Amen.

Gweddi

Gweddi rhag tramgwydd neu ddychrynglwyf.

ARglwydd cadw fi rhag pob niwaid a dychryn y dydd hwn mal na thramgwyddo y llwyth om mewn, trwy vnrhiw ddigwyddiad drwg, na âd im calon trwy vn weithred ddrwg droi o'r iawn orth flaen di: ymddiffynned dy drugaredd fi gorph ac enaid yr awr hon ac yn dragywydd Jeſu Anwyl. *Amen.* Yn yr hwn dywad y nos, hon.

Gweddi Gwraig a fo n Eſcor.

WEle. Hyn yw ffrwyth y pren gwaharddedig. Ein mam gyntaf a ddyg allan bechod, a ninnau a eſcorwn mewn poen, am hynny: yn gyfiawn O Arglwydd canys merch wyf i a mam: mal y pechais yn ei lwynau, felly er pan ddâethym ir byd mi arferais yr hyn a wnaeth hi vnwaith mi bechais O Arglwydd mi bechais, *O* mor fynych y chwenychais yr hyn a waharddaiſt. gwneuthur drwg yn dy olwg di i ſodloni fyngolwg fy hun: im denu ac i ddenu eraill i ddrygioni.

Trwy Aeraeth gan hynny a phrynedigaeth, digofaint ſydd ddyledus i mi, trueni, yn daledigaeth, ar penyd hwn yn ddigwyddiad priodol. Ath trugaredd tramawr yw ynghriſt fy Jachawdwr nad yw poenau tragywyddol farwolaeth arnaf. Eithr tydi ſatnwr y byd cofia mai tydi yw Gwaredydd Dynion. Gwared fi ynddo a chynal fi tano, bryſia, pryſura Argwydd daionus im gwaredu oddiwrtho, a chyſſura fi yn ol hynny. O na chofia mor hyn a wnaeth yr *Adda* cyntaf, eithr yr hyn a ddioddefodd yr ail. A thrwy ei ymddwyn di-

ûlyd

frycheulyd ai enedigaeth ai ſywyd ſanctaidd : trwy y dioddefaint chwerwdoſt a'r gofidiau, a marwolaeth dy ſanctaidd ſab Jeſu; Gwared fi Dâd anwyl yn hyn o gyfyngdra caled. Bydded poenau fy llafur yn diweddu mewn llawenydd o enedigaeth ſanctaidd. a allo fyw (i ddiddanwch fy yſpryd, a bod yn etifedd oth Teirnas. *Amen, Amen.*

Gweddi yn ol geni dyn bâch.

Bendithio.

ARglwydd ti a edrychaiſt i lawr ar dy laforwyn yn ei chaledi mawr, yr wyf finnau yn edrych i ſynu attat ti, ac yn *moli* dy enw ſanctaidd am ſyn nedwyddol eſcor am pen yn rhydd mor ddiniwaid. Am i ti fyngwneuthur yn llawen fam plentyn gobeithiol, heb vnrhiw wendyd neu anaf gweledig, yr hyn a allai hybu ar fy llawenyd. Dos rhagot Arglwydd daionus yn dy drugaredd ty ac attaf fi ac yntau, cynal fi ar fyngwely om gwendyd ac yn dy amſer cyfaddas cyfod fi o honofim nerth. gad im plentyn, fyw nes i ti trwy lân tedydd ei wneuthur ef yn etifedd it, ac yn y ſanctaidd ddedwyddol gyflwr hwnnw oi enaid cadw ef ith Teirnas : A bydded fyngofal i bennydd, ym mhob moddau da iw ymgeleddu ef. Ac O Arglwydd daionus. Oddiwrth ofidiau Angau tragywyddol, a phoenau vffern gwared fi ac yntau. A pha fauch bymnac o alaeth a ddygwyf ar y ddaear na âd i mi anobeithioo vſniwythâd trugarog, yr hon a waredaiſt ti mor raſuſol yn ddiweddar, om bauch, am penyd.

Dy allu ath trugaredd ydynt yr vn yn dragywydd : O Arglwydd dangoſer ith waſanaethyddes yn ei holl gyfyngder, megis ac y mae ei gobaith ai hymddiriaid ynot ti trwy haeddedigaethau Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi

Gweddi yn ol Bedyddio y plentyn.

PA ryw anrhydedd a wnaethoſt ti ith was, O Arglwydd, ti roddaiſt i mi enediga th naturiol am plentyn yn newydd yr hyn a ddaeth yn halogedig *ir byd, a olchwyd yn lân yn dy gawg neu dy, ſedyddſaen di; Am gadachau carping Adda, ti roddaiſt am dano wiſcoedd dy Fab. ſy mab a wnaethbwyd yn etifedd i ti, a hynny a anwyd o honof i, Groes* [illegible] *ai cenedlaiſt drachefn i Goron gogoniaut. O Arglwydd Bydded yngofal i gadw ſy mhlentyn i ti: Cyſiawnder dy fab a no, ai yſpryd ynddo: byddod ſy holl hoff vchder i felly i fodyn fab i ti mal y gallwyf gyd ag ef fodyn etifedd oth goron. Trwy ei haeddedigaethau ef yr hwn yw r cyntaf anedig oi frodyr, ac Aer ar y cwbl Jeſu Griſt ein Harglwydd. Amen:* Llugredig.

Gweddi a diolchgarwch am Ddydd ein Genedigaeth.

YR wyf yn diolch i ti O Arglwydd am ſyngenedigaeth y dydd hwn, yn enwedig am ſy newydd enedigaeth; trwy hon accw y gwnaethbwyd ſi yn ddyn, trwy hon yma yn Griſtion: am honno y mae i mi ſywyd naturiol, am hon yſprydol: honno oedd i ſyw ar y Ddauar, honyn y nefoedd; Arglwydd na âd i mi roi yn ofer achos ſyngenedigaeth na throi yn ol oddiwrth lawenydd ſy medydd. Y cyſiwr O Râs yn yr hwn y mae hwn im goſod. bydded i mi ſyth ei gynnal: Ac os trwy bechod y cwympaſ vn amſer oddiwrtho, bydded i mi trwy wir edifeirwch gyfodi drachefn, ai ddi lyn ef. Mal pan elwyf oddiar y ddauar, y gallwyf ſy Gael yn ol

nrd ir nefoedd; a phan ymadawyf a byw gyd a dynion, byw gyd a thi ath Angelion yn dragywydd. Ir hwn ddeunydd, im creuwyd, im gwaredwyd, ac im ymddiffynwyd, yn y byd hwn. Arglwydd ti a roddaiſt i mi fywyd y dydd hwn i ddechreu; bydded felly yn diwedd. Er ei fwyn ef, genedigaeth bywyd a marwolaeth yr hwn an gwna ni eu gyd oll yn fendigedig; yr hwn yw r dechreuad ar diwedd *Jeſu Griſt ein Harglwydd.* Amen.

Gweddi ddydd Calanſef: dydd y flwyddyn newydd.

DUw fy enioes, yr hwn a roddaiſt i mi y dydd hwn i weled blwyddyn newydd yn dechreu, bydded i mi fyw iw gweled yn terfynu yn ddedwyddol: A thydi yr hwn ſydd a chalon newydd yn dy rodd, O Dyro honno i mi, megis yn ol holl fwriadau da ſy enaid y gallwyf rodio mewn Cydwybod dda oth flaen di, a chael dy danghneddyf om mewn, ath fendith yr holl flwyddyn arnaf. Er ei fwyn ef yr hwn a fu fodlon iw eni ar gyfenw ir amſer ac ar y dythwn hwn iw enwaedu, ac i dywallt ei waed cyntaf troſof fi, Jeſu Griſt dy Fab fy anwyl Jachawdwr am Harglwydd. *Amen.*

Gweddi Gwraig weddw.

OArglwydd yr hwn a gymeraiſt fym mhen oddiwrthyf, bydd di yn wr i mi. Tydi yr hwn a brynaiſt fy enaid ath waed i fod yn gariadferch i'r, na ollwng mo honaf fi, na ymâd a myfi: llywia a chyfarwydda fi yn fy holl lwybrau, yn fy holl eiſiau am cyfyngderau ehanga arnaf. Tydi yr hwn wyt well na Chefail',

Chefaill, na Thad, na gwr, bydd ith plentyn trwan ath cymar yr hon ſydd yn deiſyf dy garu di, O bydd di i mi oll, ie mwy na r cwbl oll i mi. Ac mal y gallwyf byth gael dy gariad ath ofal, cymer di fyth fy vn i mi attolygaf i ti. Na âd nag ir byd garu, nag ir Cyhrael demptio, nag ir Cnawd ei roi oddiwrthit ti: Na ad i vnrhiw drachwant lygru fynghalon (dy wely di) na phechod anafu fynghorph (dy aelodau di) bydded y ddau yn ddilwgr (mal dy vn di) oth flaen di. lle y methais yn yr vn yr amſer a aeth heibio, Arglwydd maddeu i mi. Megis am yr amſer i ddyfod y gallwyf fod yn well yn dy ciddo, Arglwydd cryſha fi. Gwel ddeiſyfiadau fynghalon ydynt ar dy ol di. Jeſu Anwyl derbyn fi. bydded i mi fyw yn ddyweddi ith Râs, ac or diwedd ſym mhriodi ath Ogoniant. Ir dydd bendigedig hwnnw Jachawdwr anwyl dwg fi, a chymmwyſâ fi iddo, a chadw fi yn dragywyddol fy anwyl Arglwydd Jeſu. *Amen.*

Gweddi tros y plant ymddifaid.

TYdi yr hwn wyr Farnwr ir weddw, a Thad ir ymddifad, yr wyf yn gorchymyn ith ofal radol fy hunan ar plant a roddaiſt ti i mi: Arglwydd cadw fi rhag drygioni y byd hwn, a dwg fi i lawenydd byd gwell mi attolygaf i ti.

O Dad ſanctaidd cymer ſym mhlant ith ofal di, a dyſg vddynt dy ofn di: Bydd di dyſgawdwr iw henei-diau, ac ymddiffynwr iw heinioes megis trwy dy ras di, nad elon i gefeiliorni yn yr vn or ddau: bydded i mi dy waſanaethu di ynddynt hwy ai maethu hwynt i fynu yn y ddau i ti.

Cynnorthwya fi ath Râd ath ddoethineb, a gallu i wneu hur hynny, a dyro vddynt hwy râs ym mhob

dyledus i oddef eu dyſgu: na ſydded ſy ſerch i yn rhy boethlyd, neu chud: na âd i mi eu eſcculuſo hwynt, nath anobeithio di. Y cariad ar goſal teilwng a chyſaddas bydded i mi ei roddi vddynt. Ac felly diſgwyl dy fendith di arnynt. O Arglwydd daionus dyro vddynt. Bydded bendith eu tad a fu farw arnynt. bydded bendith y fam dlawd ſydd tyw arnynt. Bydded bendith eu cyneſeiſiaid arnynt, ie ar holl rai a weddiant troſtynt. Eithr vwchlaw r cwbl, bydded dy fendith di yr hon ſydd vwchlaw r cwbl arnynt oll mi attolygaf i ti: Tad y trugareddau cynnorthwywr yr ymddiſad bendithia hwynt. Mab Duw yr hwn a gymerodd rai bychain yn eu freichiau ar y Ddauar, dyro dy ddwylaw arnynt a bendithia, y glan yſpryd yr hwn a ymddangoſedd ar lun clomen gwel eu diniweidrwydd, a bendithia hwynt. Sanctaidd Dâd, mab ac yſpryd, bendithia hwy ath Râs a dwg hwy ith ogoniant: a minnau gyd a hwynt mi attolygaf i ti: Je er mwyn dy drugaredd, er mwyn dy haeddedigaethau, er mwyn dy ddaioni, tydi ein hanwyl wneuthurwr Brynwr an Sanctaiddiwr ni oll, yn awr ac yn dragywydd. Dywaid, *Amen*, wrth y gweddiau goſtyngedig yr rhai a oſodais gar dy fron, yn y cyſtiw eiriau ac im dyſgaiſt i Ddywedyd, *Ein tad yr*, &c.

Gweddi yn erbyn marwolaeth ddiſymwth.

OS bydd fy edifeirwch i beunyddiol, ni ddichon yn farwolaeth fod yn ddiſymwth im henaid, O Arglwydd. I wneuthur fy enaid gan hynny yn ddiogel yn eiddot ti, bydded i mi fod bob dydd yn ſicr om edifeirwch. Ac o herwydd fod i hyfedi fymi mhechodau yn aneirif, ac y gallaf ſi anghofio fyn nyled am gwaſanaeth, yn y cyſrif beunyddiol om pechodau, ac heb edifarhau am y cwbl oll; O gan hynny dyro i mi

rybydd

rybydd reg im diben olaf, mal y gallwyf farw ag enaid glanwaith, a gwneuthur fynghyfri gyſtal, ac y gellych di fy rhyddhau om holl bechodau, er ei fwyn ef yr hwn a dalodd bris am y cwbl yn ei waed, ie er mwyn gwerthfawroccaf haeddedigaeth Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.* *Eg'ar.*

Gweddi vn a fyddai yn myned ar y môr.

1. *Gweddi am rwydd-dib iw daith.*

SElia di fy *mynediad*, O Arglwydd ac mi gaf fyned yn ddiogel ie dos di yn ol dy arferedig ddaioni gyda myfi Arglwydd daionus. Cyfarwydda llwydda, a dychwel fi, O na âd im camweddau fynghalyn i, eithr gwthied dy drugaredd fi ym mhlaen; ath ras yn Jeſu Griſt im derbyn i. Ac yr awrhon gwared fi am heiddo mi attolygaf i ti ar holl rai ydynt ar for neu dir mewn vnrhiw gaethiwed neu galedi er ei fwyn ef yr hwn yw ein Achabwr ni eu gyd Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.* *Paſſ: Llythyri gael myned.*

2. *Gweddi o ddiolch yn ol taith neu Siwrnai.*

IEchydwriaeth ſydd eiddot ti O Arglwydd, i ti gan hynny y byddo r gogoniant; nas llyngcodd y lliſeiriant ſi i ſynu ar dyſnder gau ei ſafn am danaf. Ac yn awr Arglwydd, yr hwn yn dy ſawr drugaredd ath ddaioni a fuoſt ſy Jachawdwr ar y môr, bydd ſy hyfforddwr ar y ddauar: Arwain ſi a *brauchleda* i mi, a ben. dithia ſi, mal y gallwyf wneuthur yr hyn a ddymunwyf: ac yn dy amſer cyſaddas ddychwelyd i fyw ith waſanaethu di yn y lle ar ffordd a ordeiniaiſt im ar y ddauar, nes y delwyf ir lle a baratowyd yn y nefoedd ir holl rai ath garant ti; trwy haeddedigaethau Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Eydd darian i mi.

3. *Gweddi wrth ddychwelyd ir môr*

YR wyf drachefn yn ſy mwrw ſy hun ith freichiau di: O Dad anwyl cofleidia ſi, er mwyn dy drugareddau. dal ſy einioes yn dy law nes i ti ſy nwyn ir porthladd a ddymunwn. ac oddi yno hyffordda ſi ir cartref lle dylwn i fod: yno gâd i mi gadw coffadwriaeth oth trugareddau, mal y parhâech fwyniant oth ddaioni i mi, ac im heiddaw, nes y rhyngo bodd i ti ein ſymud ni on pabellau dauarol ith preſwylfeuydd nragywyddol. Trwy haeddedigaeth Jeſu Griſt y Prynwr bendigedig or ddau: Ir hwn cymhwyſa ni, a pharatoa ni O Dduw *Amen, Amen.*

Gweddi

Gweddi yn ol dychwelyd adref or môr.

O *Arglwydd yr hwn a fuoſt gyd a mŷ ſi yn my-* Yn lly.
ned allan ac yn dyſod i mewn, im blaenori *ar* wydd ni.
for a thir, derbyn gan hynny foliant goſtyngedig gan ſy enaid diolchgar ſydd hyſpyſaf yn dirnad dy ddaioni : Ac yn oeſtadol O Arglwydd bendi-thia fi am heiddaw; a bydded dy yſpryd glan feli yn llywydd in hyrfa yn y mor o iſel-fyd lloerig hwn, mal y gallom ochelyd y trachwantau hynny, yr rhai a ſoddant eneidiau mewn deſtruw; a thrwy gyfrwyddiad a chynnorthwyad bendigedig dy lan yſpryd, ddyſod *or diwedd i fywyd tragywyddol, i fyw. ac i aros, i garu ac i glodfori ith* foliannu *Ddeſyn.* ath feddiannu *di yn dragywydd. trwy haeddiedi gaethau Ieſu Griſt ein Harglwydd.* Amen.

Diolch am ymwared rhag Temeſtl.

O Arglwydd ti am gwnaethoſt i weled mawr ddychryn a pheryglon y Dyſnder : ac wyf yn fyw y dydd hwn trwy dy ymwarediad graſuſol. O bydded y drugaredd hon byth bythol yn ſynghoffadwriaeth. Ac na âd i mi fyth anghofio y gwaſanaeth yr hwn a addunedais ac ſydd ddyledus i ti am y drugaredd honno. Gwnaf fi mor goſgar am y mynediad heibio hwnnw or diluw, mal y gallwyf yn well fyned trwy amſer fym mheriryndod yn dy ofn, nes i mi ddyſod or diwedd i gael mynediad dedwyddol ith ogoniant; a hyn er ei fwyn ef er hwn ſydd wedi myned ir nefoedd blaen i a throſof fi. *Amen.*

Diolchgarwch

Diolchgarwch am ymwared oddiwrth Demestl a mysyrdod sanctaidd ar ol hynny.

O Arlwydd y mae dy ragymweliad vwchlaw pob perigl, dy allu vwchlaw pob Temestl, dy drugaredd vwchlaw pob rhiw bechodau. Mi welau, mi welais ar vnwaith dy ddaioni ath fawredd O dduw. Tydi oedd
Achubwyd. sy Angor, ac se am achubwyd, tydi oedd sy llywydd, a mi a ymddiffynnwyd. Pryd nâd oedd ddim gobaith ar y ddauar ond dinistr, yno im cynnorthwywyd or nesoedd. bydded iti foliant yn dragywydd O dduw syngwaredydd. Molianus byth ym mhob modd a syddo Duw sy Jechydwriaeth ; Je tra syddwyf byw ith clodforaf di yn y ffordd yma. Am dy drugaredd o Dduw. Dy drugaredd anfeidrol yw ym mod yn gadwedig a byw. Arglwydd na ad ir peryglau hynny syth syned om cof, mal nad elo dy ymwared byth allan om calon, eithr bod o honof fi byth yn gofgar ac yn ofalus am danat ti ath wasanaeth am hynny holl ddyddiau sym mywyd. O bydded i mi gadw trwy lawenydd goffadwriaeth y tonnau hynny a ddaeth trosodd, eithr aeth dros sym mhen, megis yr oen Pasg mawr om bywyd. A byddēd dy Demestl yn Deml i mi, im galw i ith foli ac i weddio attad O Dduw sy einioes : i ddysgu i mi ofni, vsuddhau, ac ymddiriaid, ath wasanaethu di yn well ym mhob man, tra cennhadech di i mi ddyddiau.

1. *Wele dy Gredauriaid mor ofnadwy ydynt. O Arglwydd. Y mae pob calon yn ofni dy aymestloedd, ac yn toddi gan ddryghnioedd. O bydded i mi yn y Drych hwn oi dychryndod, weled wyneb ofnadwy dy Fawrhydi digus.* Yr hwn a wna ir dysnderau eu hunain ddychrynu, ie a seilau y byd a siglant gan wynt anadl dy ffroenau. *O Arglwydd:*

Arglwydd. A nâd i mi fyth ryſygu ſyn nerchaſu ſy hun yn dy erbyn di, eithr crynu byth o flaen dy wyneb.

2. *Ar dy Air di y gwyntoedd a dawelant eu rhuthr ac a lonyddant* O Dduw, *Os cyfyd yn dymeſtlruthr yn ſy anwydau i, trwy ſyngwendyd, tawela wrth dy orchymyn: na fydded y moroedd yn vfuddhau i ti, am henaid i wrthryſela yn dy erbyn.* Tymeſtwynt.

3. *Ti a ddangoſaiſt ddychryndod rhyfelwynt im golygon, am Gluſtiau. O Arglwydd. cadw ſi rhag i mi byth glywed tymeſtlwynt yn ſynghydwybod.* Na *reded môr rhuadwy byth yn ſy cnaid, i godi dryccin ynof, mwy ofnadwy na marwolaeth: Ac na fodder mo honaf ſi byth yn nyſnder anobaith, Arglwydd cadw ſi rhag i lifeiriant o anwiredd ſyned troſof am hamgylchu. na fydded i bechodau rhyfygus arglwyddiaethu arnaf: na âd i ymwareddiad y drygionus byth lynu wrthyf.* Fawdder.

4. *Yn y Cyfyngder mawr hyn o berigl, ti a eglureiſt im henaid dy help parod ath cynnorthwy galluog, o ymwareddiad: ie pryd yr oedd y tonnau ym mron ſy ſoddi; y pryd hyny, ie hynny O Dduw benäigedig yr achubodd dy ddaioni di ſi. O bydded y prawf hyn oth allu trugarog ath ymwared i beri i mi obeithio a rhoi hyder ſy enaid arnat ti ym mhob rhyw galedi a pheryglon, pa beth bynnac yn ol hyn a ddigwyddo i mi.*

5. *Oh na fydded unrhiw Demptaſiwn o ofereddy tir, yn boddi ynof gyffadwriaeth dy drugareddau a'r fôr. Eithr yn erbyn holl brofedigaethau ith ddigio di, bydded y Dymeſtl hon yn aſtalch i mi: pe buaſid yr awr honno yn ſyn nhemptio i bechu O Dduw, a wnaethwn, neu a feiddiaſwn dy ddigio di?* Ac yn awr gan ſyngwaredu gan dy drugaredd. *A ymroſ ſi er unrhiw demptaſiwn i bechu yn dy erbyn di, a thorri ſy rhwymedigaeth mawr am haddoned ith waſanaethu di.* Gan ith trugaredd ſyngwaredu.

6. *O bydded y dyfroedd hynny yr rhai am dychrynent, eithr nid ſym meddi yny dyfnder, i mi iw gymeryd megis Bedydd newydd, yn yr hwn y rhyngodd fodd ith law di ar anwaith danellu: ac addyſgu, fod ſyngruddiau iw gwlychu beunydd a dagrau heilldion edifeirwch am ſym mhechodau; a ffynnonnau cyniwddyfr o lawenydd i lifeirio om golygon am dy ddaioni im ymwared. dy ddyfroedd a ddaeth troſof, eithr gwraidwydd nim gorchuddiodd, ſy wyneb a deimlodd*

deimlodd y perigl, eithr tydi a gedwaiſt ſym mhen.O Arglwydd ſy Nuw.

O Arglwydd mi Attolygaf i ti ſancteiddio y mawrion orchwylion yma, ath ragluniaeth i mi; mal tra byddwyf fi byw y gellych gael gwell gwaſanaeth o ddiwrthyf, a phan ſyddwyf farw, y gallwyf gael gwell Jechydwriaeth oddiwrthit ti, a hyn er mwyn Jeſu Griſt ſy Anwyl am hunig Jachawdwr. *Amen.*

Gweddi cyn myned i daith neu Siwrnai.

Pſa.91. 11 O Arglwydd yr hwn a oſodaiſt *dy Angelion in cadw yn* Pſa.94.5. *ein holl lwybrau.* Dyro orchymyn ir wiliadwraeth am danaf, ynghalon yr hwn y maent: Maddeu i mi ſyned ar gyfeiliorn oddiwrthit ti, a dyro i mi râs nad elwyf ar gefeiliorn mwyach: Ac na ſydd graff i ddal ſulw ar anwiredd a throſeddau oddiwrthit (pwy gan hynny O Arglwydd a ſydd gadwedig ar y ddaear, neu a gedwir yn y nefoedd?) Bydded dy lân yſpryd im tywys am cyfyrwyddo y dydd hwn a phob amſer yn y Pſa.130. ffyrdd a rynga bodd i ti. Ath ymddiffyniad bendige- 31 dig ſyddo troſof fi yn gwbl gyd a myfi, er ei fwyn ef, yr hwn yw r *ffordd*, y *Gwirionedd* ar *bywyd* ſef er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

Gweddi ddiolchgar ar ol Siwrnai.

ARglwydd ti fuoſt gyd a myfi yn fy Siwrnai; Ac (*mal y gweddiais*) aethym heibio i beryglon y *Drefniad.* ffordd trwy gymorthwy dy ragluniaeth; a lle y mynwn fod yr wyf trwy ffafor dy *gymorthwy*: bendigedig

gedig ſyddo dy enw ſanctaidd, O Arglwydd am dy holl ddaioni.

Pa niferoedd aethant i drachineb ac ar gyfrgoll beunydd? Ac felly y gallaſwn innau fyned oni buaſai dy ffafor di. Bendiged ſyddo dy enw am dano. ie am holl cadwraeth fy mywyd, ar Trugaredd ir hwn y mae y cadwraeth yn rhwym-ddyledus. Bendigedig ſyddo dy enw ſanctaidd yn dragywydd.

Ac yn oeſtadol O Arglwydd. Mawr hâ dy drugaredd yn fy ymddiffyniad ar y ddauar, mal y byddwyf ith ſendithio nes i mi fod yn ſendigedig gyd a thi yn y nefoedd. Trwy ei haeddedigaethau ef yr hwn ai waed a brynodd y ſendith i ni, ac a eiſtedd yn ein cnawd ni ar dy ddeheulaw in gwared ni, Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi i filwr mewn Rhyfel gyfiawn.

1. *Gweddi foreuol i vn mewn Rhyfel.*

O Arglwydd yn nyddiau Gwaed, y mae llawer awr i Darllen Angau (pa ſimudyn ni eill hwnnw fod?) O Pſal. 140. bydded i mi gan hynny gofio am fy vn fy hun, ie cofio am dano a phararoi iddo.

Dyro i mi dy ras felly i wneuthur y dydd hwn, ath trugaredd am y peth a gamwneuthym or blaen, mal pan ddiweddo fy mywyd ar y ddauar, y gallo ddechreu lle na chaffo fyth ddiwedd: yn y cyfamſer gad i mi fyw i wneuthur i ti ſwy anrhydedd (os rhynga fodd i ti hynny) a bod i mi weled heddwch dedwyddol yn ynn llawr ddihen or rhyfel hon; mal y gallwyf telly fyw (im Tywyſog, Cenedlaeth. Eclwys, Creſydd i

mi

mi, im heiddaw, ym mhob ffordd yn ddedwyddol.) A chyfarwydda di fy enaid gan hynny y dydd heddiw, a gwilia ar fy enaid iw gadw rhag pob drwg a pherigl er mwyn Jeſu Griſt yngeiriau yr hwn y gweddiaf gan ddywedyd. *Ein tad yr*, &c.

2. Gweddi Brydnawnol i vn mewn rhyfel.

Darllen. Pſa. 91.

ARglwydd yr hwn a fuoſt fyn nharian *y dydd hwn, bydd fyngwiliadwraeth y nos hon; mal y byddwyf yn ddiangol oddiwrth cleddyfau a dwylaw fyngelynion, a thrwy wiliadwri dy ddaioni bod yn gadwedig ith ſendithio ath waſanaethu di y dydd meſaf, er mwyn dy drugaredd; Trwy haeddedigaeth Jeſu Griſt yngeiriau yr hwn yr ymbiliaf gan ddywedyd.* **Ein** *tad*, &c.

3. Gweddi a flaen ymladd.

Darllen. Pſa. 143: 21. & 23.

OTydi yr' hwn wyt Darian ir rhai a ymddiriedant ynot ti. *Bydd yn darian iddo ef, yr hwn ſydd ai obeith ynot ti ath drugaredd yn vnig: Canniatta i mi drugaredd Arglwydd am fy holl bechodau aethant heibio, a maddeu i mi; Canniatta dy drugaredd yn y perigl preſennol, a chadw fi. Canniatta i mi drugaredd Arglwydd daionus yn fy holl gynnygion y dwthwn hwn a llwydda fi.*

O ſendigedig flaenor *om Iechydwriaeth Ieſu* Gapraen. *Anwyl, yr hwn a dywelltaiſt dy waed er fy mwyn i. Cadarnha fi yn awr yr hwn wyf i ymladd troſot ti a rhai oll a gydymrwymaſant a myfi. Trugarha wrthym eu gyd Arglwydd Ieſu a dyro i ni ſuddigoliaeth.* Amen, Amen. *Ein tad yr hwn,* &c.

4. Diolchgarwch yn ol ymladd.

ARglwydd ti fuoſt yn dariannith was, rhoddaf i'r ogoniant dy ddaioni. Ac yn oeſtadol Arglwydd yn ſy holl beryglon bydd yn darian i mi, maly gallwyf roi i't ſwy gogoniant. Canys ti roddaiſt i mi weled llawer codwm, a mi yn ſefyll; a darfod i ti ddangos y dydd hwn lawer yn friwedig, am cadw i yn ddiogel: Gogoniant a fyddo i ti Arglwydd am dy drugaredd yn oes oeſoedd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen. *Ein tad,* &c.

5. Gweddi tros vn a friwyd yn y Rhyfel.

O *Arglwydd yr wyt* yn briwo ac yn iachau, yn lladd ac yn gwneuthur yn fyw. *Mi attolygaf i ti gan kynny ei iachau ef oth trugaredd, yr hwn ni friwyd heb dy ragluniaeth.* 1 Sam. 2. 6

Arglwydd

O Arglwydd Ieſu y meddig mawr daionus i gyrph ac eneidiau briwedig: yr hwn ni fethaiſt errioed yn iachau yr hwn a welit ti yn dda ei ddychwelyd. Cymer ef ith ofal, yr hwn a friwyd yn dyachos: ie er mwyn dy dyner drugareddau yr wyf yn attolwg i ti, iacha ei enaid ef oi bechodau, ai gorph oi friwiau. O Tydi yr hwn dy hunan a archollwyd, ac a dywelldaiſt dy waed am dano ef a ninnau eu gyd, yn hyn oi gyflwr gwaedlyd ef, bydded dy waed ti yn gordial *iddo, ath Archollion yn feddyginnaeth. A thi* Arglwydd y bywyd, *yr hwn ar y ddauar ath Air a wnaethoſt y claſ, ar briwedig yn iach. ie y marw i fyw. Dywaid wrtho ef or nefoedd bydd fyw ac iach, maly gallo ef dy waſanaethu di yn well ac yn hwy ar y ddauar. Ac yn awr ac yn dragywydd Cymhwyſa a pharatoa ef ath Ras, mal pan fyddo ef farw y gallo fyw a Theirnaſu gyd a thi yn y nef: trwy dy haeddedigaethau bendigedig ath cyfryngdod, yr hwn a geſaiſt dy Archolli ath ladd in iachau an cadw ni oll. O* Jeſu Griſt *ein Harglwydd ein bywyd an hunig obaith an cymorthwr an Iachawdwr ym mywyd a marwolaeth.* Amen.

Gyſſurus. *Feddiginiaeth. neu gyſſur.*

Gweddian

Gweddiau tros y Claf.

I. *Cyffes a gweddi am Drugaredd ac ymwared.*

O Arglwydd, yr wyf yn cyffeſu yn oſtyngedig i ogoniant dy gyfiawnder mai ffrwyth ſym mhechod yw r clefyd yr hwn yr wyf yn ei oddef. Gwreiddyn dynawl ryw a wenwynwyd ganddaw, a blaguryn o honno wyf fi, wedi fy halogi yn ddirfawr, lawer ffordd ac felly (mal ſyngwreiddyn) yn gangen wenwynig.

Gan hynny yr wyf yn blentyn i farwolaeth, ac etifedd ir bedd, rywogaeth ei bechod ef, a dolur yw ſynghyfran, mal yr wyf yn fab iddo ef. Rhyf 5.12.

Eithr Arglwydd yr wyf yn hâd ir ail *Adda*, na edrych arnaf mal yr wyf yn y cyntaf, ond yn dy Griſt ti; impyn o'r Cyff ſanctaidd hwnnw *Gwreiddyn Jeſſe* brigyn o gyfiawnder, yn ſanctaidd i Dduw: er mwyn ei werthfawrroccaf haeddedigaeth maddeu i mi ſym mhechod, trugarhâ wrthif yn ſyn nolur: Ac o Jeſu Anwyl yr hwn a gymeraiſt Gig a gwaed er fy mwyn i: trugarhâ wrthif fi, gnawd a gwaed truan gofidus oth ſlaen di: Cyſſura fi, cynnorthwya fi, ac iacha fi. a hyn er haeddedigaeth dy werthfawr waed attolygaf i ti. *Amen, Amen.* Eſa.11.11 Jer.23.5 Joa.5.14:

Gweddi am ddioddefgarwch mewn dolur.

DI garcharor di wyf o Arglwydd wedi ſy rhwymo gan wendid i wely a phoen; Eithr na âd i mi ymddigio, o ran fy mod yn eiddot ti. dy vn di yw r rhwym ni allaf ei dorri. dy eiddo di yr hwn am tynni attad ar gadwaen hon eiddot ti, yr hwn am rhwymi yn gyfiawn am b. chod. Eiddot ti yr hwn a wyddoſt yn orau y prydy mae gorau fyngsllwng i. Eiddot ti yr hwn a weli pa beth ſydd yn ſwyſo arnaf. Eiddot ti yr hwn, am fym nhechodau a alleſit fy rhwymo i mewn cadwynau

Gwared. *tr gywyddol, ac a anſonaiſt y cleſyd hwn im hachub i.*

O Arglwydd, gan fy mod yn eiddot ti gynifer o ſoddau, bydded i mi ymddaroſtwng ith Cadwaen di a gorwedd (megis dy garcharor felly) yn ymyneddgar glwyfus tan dy law di : a bydded dy drugaredd (yn yr amſer y gwelych di yn dda) im gollwng yn rhydd, ac na ddyro bwys fy meiau am gwendyd arnaf, er mwyn Jeſu Griſt. Amen, Amen.

Myſyrdod

Myfyrdod duwiol ir claf.

O Arglwydd yr wyf yn glaf. fy mhechod a wnaeth i mi, yr wyf yn etiſeddu yn weithredol euogrwydd cynſydedig Adda. Ac am hynny ni *feiaf* ar dy ragluniaeth, ond arnaf fy hunan am fy nrygioni: gan gyfaddef *pa wedd bynnac* yn alarus yr wyf yn gorwedd yn glwyfedig, yr awrhon yn gyfiawn gar dy fron di. Joa. 1.14. Rhy.3.9. *Fwriaf fai* Pſa.38.3,4

2. O Arglwydd yr wyf yn glaf. felly y bu dy Seinctiau gorau lazarus dy gefaill *Dorcas* dy ddiſcybles anwyl *Lazarus* dlawd oedd yn gornwydydd troſdaw. *Job* gyfoethog yn gornwydld yntau. *Hezeciah* yn trydar megis Garan. Joa.11.3. Act.9.36. Luc. 6.20 Eſa.38.14

Dafydd megis, Pelican *nid wyf well nam Tadau* dy weiſion Anwyl, O Arglwydd. Pſa.10.2 26

3. O Arglwydd yr wyf yn glaf mewn perigl i farw. Heb.9.27. felly, rhaid i bawb vnwaith ac felly rhaid i minnau. Ac os yn dy ffafor di, O Arglwydd bydded yntau yr awrhon i mi farw. Na ad i mi fyw i golli dy ffafor, na marw tan dy anfodlonrhwydd O fy Nuw. *Yr wyf yn dymuno yr hyn a fynnych ai byw ai marw. Am y byddo gyd ath ffafor.* Pſa.89.1 47. Luc.2.29. Phil.1.21. 22.

4. O Arglwydd yr wyf yn glaf. ond tydi a elli fyngwneuthur yn iach. Dy law O Criſt a iachaodd bawb oll. dy Air a iachâ fynghlefyd. Dywaid y gair O Arglwydd ath. was a iacheuir. Yr wyf yn credu hynny, yn dymuno hynny. bydded i mi orwedd yn oeſtadol mewn gobaith gyd ag ymmynedd i ddiſgwyl dy air. Mat. 8. 8. Mar.9.28.

5. O Arglwydd yr wyf yn glaf, felly y bum, ac ti am gwneiſt yn iach, ie pan oeddwn ym *mron marw.* pi wnaethoſt ti ond dywedyd, a byw a wneuthym) ac am vn nychlyd, bywyd iachol a gefais, ac ti a elli wneuthur mal y gwnaethoſt: *Neu yn ofni marw.* Mat.5. 23.

Eſa. 59. 2. Luc. 20. 36 Mat. 22. 30 Phi. 1. 23. 6. O Arglwydd yr wyf yn glaf. ond tydi am gwnei yn iach: mal Angel or nef, yr hwn ni eill fod yn glaf. O na âd i mi fyth fod mor anwyl gennyf y ddauar i ofni y nef, nag i garu byw a bod yn wr, i fod yn anawdd genni farwh i fod yn Angel.

Cynnwrfa. 7. O Arglwydd yr wyf yn glaf. ond hynny a ddichon fyngwneuthur yn iach. dangos i mi fy anwireddau bywhâ fy edifairwch, *annog* fyn nhrugaredd; gorchhwylia fy ammynedd, marwhâ fynghalon ir byd. Derchafa a phratoa fy enaid i fywyd gwell. gwna fyngofid mal hyn i fod yn ſeddyginiaeth, trwy dy râd ti O Arglwydd i mi, na allwn i mewn iechyd wneuthur well.

Diha. 14. 30. Tit. 1. 13. 2 Tim. 1. 7 Pſ. 119, 80 8. O Arglwydd yr wyf yn glaf, claf yn fynghorph, eithr gad im calon i fod yn bur iach. Pur ith wirionedd rhag fyngwyrdroi, pur yn dy ofn, mal nam temptir yn rhybell, pur yn dy heddwch mal na orthrymir gormod arnaf, Mal na allo dyn, na diafol, y cnawd nâr byd, fy hudo neu fyngwaethygu i. Gwna fi O Arglwydd a chadw fi mor bur a hynny.

Luc. 13. 33 Mat. 27. 34 46. 29 9. *O Arglwydd yr wyf yn glaf. Ac mewn poen, Ond O Jarhawdwr Anwyl beth yw fyngwely i ith Croes di? Beth yw fy chwerwedd i ith phiol di? Beth yw fyngruddfanau i ith leſain di? Pa beth yw meddyliau aneſmwyth fy mheni, ith ddrain di? Beth yw fy chwys gwlithog i, ith loes waedlyd ti? Beth yw fy llewygau i, ith Archollion di? Beth yw fy mhoenau i, ith ddioddefaint ti, am fy mhechodau?*

Luc. 23: 44 Joa. 19. 37 *O gad i mi dy weled ti ar dy Groes, i gael o honof fi oddef pa beth bynnac ſydd arnaf t wy amynedd, oblegit i ddyfod felly mor gyfiawn oddiwrthit ti, cyn lleied i ti, ac errot ti,*

Eſa. 53, 5 Eſay 33. 14 Mar. 9. 44. 10. *O Arglwydd yr wyf yn glaf, ac felly y mae myrddiwn yr awr hon mor glaf a minnau, a milocdd yngwaneg. A phe bawn i yn glafaf honynt, beth yw penyd fynghorph i, i bechod fy enaid? Beth yw fyngwely wrth uffern? fynghaelaeth ir pryf fynghryd poeth ir tan hwnnw? Pa beth yw fy hell gyſtudd darfodedig, wrth yr anfeidrol dragywyddol*

Neu anhymerwch os hyny fydd dy ddolur. *benyd hwnnw? O Arglwydd mor dramawr yw dy drugaredd. ni roddaiſt ti ond penyd mynudiau arnaf, prydy mae yn deilwng i mi gael poen tragywyddol O ran fym mhechodau.*

Ac yr awrhon Arglwydd, yn y meddyliau goſtyngedig

ſanctaidd

ſanctaidd yma y goſodaf i lawr fy mywyd wrth dy draed, ac a adawaf fy enaid yn dy ddwylaw. O Ddduw edrych arnaf fi, Cymer ofal am danaf fi. Gorchymyn dy Angelion yn *Geidwaid* i mi, Bydd dy hunan yn Phyſygwr i mi. Gwaed Jeſu yn feddyginiaeth, bydded dy Raglunaeth i wilio arnaf. Gwnaed dy drugaredd di ſyngwely i yn fynghlefyd. Dy danghneddyf, i roi r gluſtog ben tanaf. Dy ffafor i dynnu r Cwrtaens om hamgylch. bydded gallu dy law aſſwy dan fym mhen, ath law ddeheu o gariad im cofleidio. bydded gotwyad dy yſpryd yn cyſluro fy enaid, ai anadl ef am ymddiffynno na allo yr vn drwg ddim niwaid i mi. Tan dy eſgyll di o Arglwydd y mae fy noddfa am ymwared, ac ith treuchiau im taflaf fy hunan. Dal fi a chadw fi a diddana fi, a gad i mi orwedd a gorphywys a chyſgu ynddynt, (y nos hon) mi attolygaf i ti O Dduw ty einioes am gobaith ar holl drugaredd, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Dad 14. 11.
Galat. 3. 22
1 Cor. 11. 32
Rhyf. 6. 23
Pſal. 6. *Wilwyr.*
Pſal. 38. 15
Pſa. 88.
Pſa. 91. 11
Exod. 15. 2. 6.
1 Joa. 1. 7.
Pſa 121. 4, 5.

Pſa. 41. 3. Pſa. 4. 8. Pſa. 5. 13. Can. 2. 6. 4. os. nos a ſydd Job. 11. 12. Rhyf. 8. Job 32. 8. Eph. 3. 16.

Myfyrdod iachus i vn yn dychwelyd i fyw yn ol hir ddolur.

MI ddychwelais o Arglwydd, ond pwy bynnac oedd y gwr tydi yw Duw fy Jechydwriaeth. Pa beth bynnac oedd y feddyginiaeth ti a fuoſt yn gynnorthwy. Pwy bynnac a gymerth y *gofal* tydi a wneiſt yn *gyfan* y feddyginiaeth i mi. Ac felly gad i mi edrych arnynt hwy a Thithau a dyledus barch ir ddau. Ir Phyſygwr mal i Offeryn om Jechydwriaeth, i ti mal ir Awdur, ir meddyginiaethau megis ir moddau, i ti megis eu Gwneuthurwr, i geſeillion megis i gyſſurwyr mewn gwendyd, i ti megis yngheidwad. bydded i mi weled Phyſygwyr megis dy

Pſa 43. 2. Pſ. 103. 3. Pſ. 68. 20. Pſ. 128. 22 Jer. 8. 22. Ex. 15. 26 Pſ. 147. 3 Pſ. 121. 5

Ddwylaw di, i edryn i mi iechyd, am ymgeleddwyr, megis dy olygon di i edrych arnaf yn fy nolur (ac am hynny er dy fwyn di cyfanu y llygaid ar dwylaw hynny) eithr bydded i mi Addoli dy ddaioni di megis y pen ir llygaid hynny, ar brauch ir dwylaw hynny; heb yr hwn ni allent hwy edrych na fymud im iachau. Bydded i mi weled mwy Rhagluniaeth nag yn eu golwg hwy, ac ymwared nag yn eu dwylaw hwy, ac etto gad i mi weled dy vn di ynddynt hwy. Dy ogonedd dyladwy di na âd i mi ei roddi vddynt hwy, rhag i mi fendithio delw am fy iachau. Eu dioleh dyledus na âd i mi gymeryd oddiarnynt (rhag mi fod yn lleidr. Bydded i mi wneuthur yr vnion ir ddau mal na byddwyf nag eu hanrheithio hwy nag yn ddelwaddolwr i tithau.

2. Mi ddychwelais O Arglwydd : Eithr or myr-
Clefyd. ddiwn hwnnw oedd yn glaf yr vn amſer pa niſer ydynt feirw? Cr miloedd aethant ar eu gwely or vn *dolur* pa
Pſ. 30. 2. niferoedd a gladdwyd: O fywyd gwell oth flaen di
13. nag a fum i: ac yn fwy rheidiol (lawer o honynt) ir
Pſ. 146. 1. Eglwys a'r byd nag a allaf fi fod. Am hyn oth Ddai.
Pſ. 116. 2, 3 oni vnig ath drugaredd gwna fi yn yſtyriol wybyddus ac yn ottyngedig O Arglwydd (ie am fy mod yn fyw) mal trafi parhao fy anadl i fyw y gallwyf fod yn ddiolchgar am fy einioes.

3. Mi ddychwelais. O Arglwyd ond etto pryd y
Eſa. 38. 20 delo y pryd am hawr rhaid yw marw. Ac ni eill fod
Heb. 9. 27. yn hir. ti wyddoſt y pryd y daw. Tyddyn iw ddal
Pſ 49. 47. wrth dy ewyllys di yw fy mywyd O Arglwydd. Am
Pſ. 81. 15 hiechyd. gaſael fwy ſerſyll nam bywyd yw. Tra caſ-
Eſa. 38. 12 wyt gan hynny na ad i mi gam dreulio y munudiau or
Job. 4 [illegible] 19. amſer ſydd yn ol, neu yn parhau, ar wael ac ofer bethau neu ddeunyddiau, eithr ail brynu yr hyn a golled
Pſa. 19. 12 mewn trachwant, i wafanaethu, dy anrhydedd, am
Eph. 5. 16. dedwyddwch. trwy y pryniad hwnnw o'r tragywy-
Gal 9. 10. ddoldeb bendigedig am yr hwn y mae i mi, ac yr wyf
Luc. 1. 74 yn dal yr amod fechan o fywyd ac amſer.

4. Mi ddychwelais O Arglwydd. eithr nid i bechu ond ith wafanaethu di: na âd i mi o ran cael o honof mwy o einioes bechu mwy, rhag digwydd i mi a fo gwaeth: Rhyw glefyd cyſtuddiol om corph neu glefyd

mwy

mwy ofnadwy or enaid. Corph yn glaf neu galon yn galed i farwolaeth. Os y pryd y byddych di yn edrych am wellhâd am fy Jechyd, yr ail gwympaf i bechod a chlefyd, pa obaith fydd am fywyd enaid a chorph? Am y cyfriw gam ath drugaredd, beth a allat fi edrych am dano oddiwrth dy Gyfiawnder, ond, gan na wnaeth fynghorph clwyfus mo honof fi ddim gwell, Angau a wna fyngwely nefaf a dialedd am rhydd i yn y gwfg farwol honno; or hon ni bydd i mi na gobaith na llawenydd i ddeffro. Cro. 32. 25 Pf 116. 2. 9. Pf. 97. 10.

Mi ddychwelais O Arglwydd. Ti roddaiſt i mi yr hyn a *ddymunais* (fy Jechyd) bydded i mi roi i ti yr hyn a ewyllyſi dy wafanaeth. Y mae ef arnaf fi yn ddyledus i ti errioed trwy ddwbl rwymedigaeth oth Orchymyn a chadwadigaeth fy enioes, eithr yn awr trwy rwym fy addewid i hefyd: O bydded i mi dalu vnwaith or lleiaf, y ddyled fydd arnaf deirgwaith, rhag i mi golli tair dirwy mai dyn anvfudd, aniolchgar, acanffyddlon, a gwneuthur dwy golled y naill om hiechyd ar llall om henaid, am fod yn droſeddwr ar vnwaith oth cyfraith am adduned. Y modd y mynnwn i fod yn fynghlefyd bydded i mi fod yn fy iechyd, ac ar cyfriw gydwybod y dymunais i gael marw y pryd hynny, bid fyngofal i fyw felly, rhag pan ddêl marwolaeth fod arnaf fi eiſiau *calon-ſwyn* bywyd da, i fywhau fy yſpryd, a bod cnoſa fy rhagrith neu yngwrthgiliad i yſſu fynghalon: Ac am fod yn ſiomedig yn fy nolur, neu yn fudr yn fy iechyd, i ti neccau i mi galon gyſſurus na mynry no obaith ym mhellach, a dychryn teilwng i feddiannu fy enaid wrth farw, am fyw yn y cyfriw halogedig ddibriſrwydd oth cyfraithiau, yn erbyn dy drugareddau am haddewidion. *Ewyllyſiais* Pſ 116. 16 Pſ. 79. 10. 11. *Cordial.*

6. Mi ddychwelais O Arglwydd. Ac oddiwrth gwympo im bedd mi gyfodais om gwely. bydded i mi edrych ar fy mywyd megis adgyfodiad oddiwrth y meirw, a chyfnewid o farwol am fywiol fywyd. A chan i ti O Dduw roi i mi gyflwr o ddau fywyd ar y ddauar (vn wrth fyngenedigaeth allan o groth o dywyllni, ar llall im, Jechyd oddiwrth gwely o Glefyd) bydded i mi fyw i fod vnwaith yn was i ti. Gan Aberthu fy newydd fywyd yn ollawl ith ofn di; Ac os bu

2 Pet 4. 3. Eph. 5. 10 Eſa. 38. 20 hên (yn yr amſer a aeth heibio) yn rhy halogedig, bod a gofal mwy crefyddol (ſy holl ddyddiau ſy i dy- ſod) i gadw yn ſanctaidd, yr Aberthiad i ti.

7. Mi ddychwelais O Arglwydd yn ſynghorph bydded i mi fod felly yn ſy enaid (gweddio ac ymegnioir eithaf i fod) a gweled a gwybod pa ham y dylwn. bydded i mi hoffi iechyd ſynghorph megis gem o gyſ- ſur, eithr iechyd ſy enaid megis coron om gorfoledd.

Pſa. 103. 4. Mala 3. 17 Pſa 41. 4 Edrych ar ynghorph megis y biwch cyfan, eithr ar yr enaid megis y gwyrthfaen Jechyd. gyd am hiechyd yr wyf yn erfyn dy Ras O Dduw. Enaid da im corph iach. perffeiddia dy ſeddyginiaeth O Criſt. Na iacha mom hanner onid y cyfan, (enaid a chorph) dyro i mi gi- maint o gydwybod i geiſio r naill, ac ſydd i mi o ſynwyr i geiſio r llall, rhag pan gaffwyf ſynghorph yn iach, a gadael fy enaid yn glaf, ir ddau ſef enaid a chorph yn y diwedd farw yn dragywyddol or clefyd hwnnw.

Antidot. Sancteiddia ſynghlefyd aeth heibio i fod yn *ſwyn gy- fa eddyn* erbyn pla pechod, ac Jechyd ſynghorph i fod yn *gordial* neu galon-ſwyn im henaid.

8. Mi ddychwelais O Arglwydd Ac a welais mor anghymwys yw r tymor, Amſer clefyd; mor anghymmwys yw r lle, clafwely; mor anghymmwys yw r dyn, gwr claf i gyflawni, y gorchwyl mawr a daionus oth waſaneth di, ai Jechydwriaeth ei hûn, allan. ar vn- waith i edrych am a genrheidiau yr Jechyd a'r neſoedd I ailgaſglu ei lwybrau wrth danû ei ſynwyrau; pan

Humorau. fyddo y pen yn rhwyſtredig, y galon yn orthrymedig. y gwaed yn danbaid, y *defnyddiau* mewn gwrthryſel, yr yſprydau yn anrhefnus; holl nerthoedd y meddwl wedi gwanhychu; Aelodau y corph wedi diffrwytho: y cryſ. der wedi ei ddwyn yn aith: i garu a gwaſanaethu yr Arglwydd am holl galon, am holl enaid, am holl feddwl am holl nerth wedi rhoi yr holl fantais ragor (ar a allai *cig a gwaed ei ganniatta i*) *ai gymeryd, i ymladd am Gelyn* yſprydoi am y Goron. pryd y gallwn ruo yn well na gweddio, am gymorth or neſoedd ac am wrthod y cyn- nygion *a chynnorthwy Gras yn fy iechyd, y gallwn yn gyfi- awn*, ddiſgwyl y gwrthodai Duw fi yn hytrech nam cynnorthwyo, am rhoddi i ſynu nam hymddiffyn yn ſynghlefyd. Pryd y bai Angau a digofaint ar

vnwaith

vnwaith yn goſod arnaſ,a chydwybod o wneuthur dim da,yn diſlannu,rhag rhoi nerth i mi; neu goffadwriaeth hygoel om holl derygioni megis cleddau yn anafu yr yſpryd a ddylai fynghynnal. Pryd na allwyf edifarhau gan ddiffyg gallu, na chof, na meddwl nag ewyllys ir cyſriw orchwyl na genau na llygaid na gluniau ir cyſriw waith ſanctaidd. Pryd(pe byddai i mi oll allu i edifarhau)ni allwn wellhau eiſiau amſer. Gan fod ſy enaid yn barottach i ymadael ar byd na'r pechod; am corph mewn treſn cymeſurach i orthrymu nag i waſanaethu ſy enaid. Och a gwae fi, pa fodd y rro fi ſynghalon, yr hwn ni allaf mom troi ſy hunan? wrth y prawf a gefais i yn ſynych o gleſyd, del i mi ddyſgu doethineb tra ſyddwyf mewn iechyd a Chryfder, a'r nerth gorau om hoes am hyſpryd i gymeryd mewn llaw, ac i orchſygu yr vchel, ſanctaidd, galed, ar vnig angerheidiol orchwyl or nefoedd. Dihâ 18. 14. Pſa:22. 14 15. Ecl.9.10: *Treaf.*

9. Mi ddychwelais O Arglwydd: Eithr pa niſeroed yr vnion ddydd hwn. yr awr hon ar munud, ydynt yn glaf mal y bum innau, ac yn waeth nag y bum i; yn crynu, yn ymrwygo, yn ymroſtio, yn berwi yn gandryll, yn darfod, gan grynſa y *palſi*, y *dromchwydd* y Colic, y gowt, y garreg, y cryd poeth, heintiau yn tuchan yn gruddfan, yn liefain tan y cyſtuddiau trymion hynny ar ddynion ac erchill boenau dynol ryw. Oh na âd i mi fod allan o drugaredd o herwydd bod allan o boen. Nâd i mi roi nâg o weddi neu help yr hyn a allo llaw neu galon wneuthur mewn toſturi. Ac o Dad y trugareddau mae gennit ti galon a llaw i gynnorthwyo. Bydd phyſygwr a diddanudd vddynt oll. Helpa hwynt O Dduw deg i ymmynedd Cyſſur, gobaith, Phyſygwyr, yſprydol a chorphorol, cyſeilliou, cynghorwyr, cyfreidiau, meddyginiaethau, er mwyn cadw r enaid, Cynhaliaeth y bywyd, Cymorth ir iechyd ac iachâd dedwyddol vddynt hwy eu gyd. Ecl.12.1. 1 Joa.2.1. Pſa.71.17. *Droſſi.* Pſa.35. 13 Mat.25. 39. Pſa:30. 10

10. Mi ddychwelais O Arglwydd.ond beth yw ſy iechyd *wrth y nefoedd? y Tymerwch perffaith tragywyddol yn* gyſtal o enaid a Chorph. lle y mae yr enaid, heb vnthiw boſſiblrwydd o bechu a'r corph o ddolur. Meddwl heb fai, Ewyllys heb drachwant, cof heb fethiant,

Cydwybod

Cydwybod heb euogrwydd, deall yn *Seraphym*, y galon yn *Cherubin*. Yr enaid Enaideiddiol gan Dduw, mal ei hyſpryd, rhwymedig i Dduw (megis ei henaid) yn gryf, yn nerthol, i bob gorchwylion, o fywyd dedwydd
Joa. 17. 13 iachol yn dragywydd.

Lle nad rhaid ir corph nac ymborthi na huno; nag ofni dolur na gwrthuni, nag ymddigio am hwyl ddrwg neu ddigwyddiad. Na goddef marwolaeth na heneiddio. Eithr bod yn bureiddiawl mewn yſpryd anfarwol, ac yn dderchafedig i radd a chyflwr Angelion. Yn gyflawn megis yr haul, yn ei nerth ai lendyd ai ogoniant, yn weddaidd ac yn gymwys i bob gwaith nefol, a ſwyddau perthynawl i gorph gogoneddus iw cyflawni i vchel addoliad Duw, a phrydferthwch tragywydd dyn; trwy rinwedd yr Rhwym ar vndeb diddattodedig rhyngddi hi ai *Seraphicol* ai phrydferthaidd enaid.

O na fydded i mi eſceuluſo vnrhiw feddyginiaeth ddauarol i ddwyn yr ynnill i mi fy hun or iechyd nefol hwnnw. Bydded yr Eclwys yn Awyr imi. y Bibl yn Gardd. Myfyrdod fy rhodfa, fy ſtafell fyngwŷdd-dy, Gweddi fy anadl beunydd, Edifeirwch fy llafur beu-
Pſa. 16. 3. nyddol, ympryd fy maeth wythnoſawl, Eluſenau fyn-
Pſ. 42. 45. gorchwyl cyfannedd, Cyſtudd fym mara, Dagrau fyn-
yr *Eucariſt* gwin y *Cymun* fyngwledd, y Sainct fy miwſic, yr An-
Pſ. 91. 11. gelion, fyngheidwaid, difin-wyr fyn nhadau, dy
2 Cor. 4. heddwch di fyngorphywyſfa. Bydded i mi wneuthur
15. yn garchar fyn nhŷ, yn *fenig duon*, fyngwely, yn gadwynau, fy ocheneidiau, fyngwaed yn bwll ymolch: Gwneuthur pob gwaith Sainct, dioddef pob peth megis Cyffeſwr a bywyd, megis Merthyr i farwolaeth, am y byddo feddygniaethol rhagorfraint i iechyd fy enaid. A phan ddarfyddo i mi a goddef y cwbl oll, glanhaed dy waed ti fi mai na byddwyf fadr, a bydded dy yſpryd yn fywiol achles rhag i mi lewygu. Dy Air fy rheoldreſn, na chyfeiliornof, felly bydded iechyd fyng-horph ar y ddauar, i flaenllymu awyddfryd a *newyn*
Newyn. ſanctaidd im henaid yn y nefoedd.

My fi a ddychwelais O Arglwydd: mor ddedwyddol yw, os dychwelaf fi yr holl ddaioni hyn, trwy fy nychweliad: bod yn fwy gobeithiol o Ragluniaeth,

yn

yn fwy diolchgar am fywyd, yn fwy cofgar am farwolaeth, yn fwy arſwydus i bechu yn fwy vſuddgar i waſanaethu, yn fwy gofalus am enaid. mwy gwiliadwrus am yr amſer mwy trugarog wrth ddyn mwy cyſſurus am y neſoedd.

O Arglwydd Dduw fy iechyd am Jechydwriaeth, yr hwn a roddaiſt ith was iechyd preſennol iw gorph yn lle dolur. derbyn fyn niolch a bendithia fy ymwareddiad am ymroad, yr hwn a wnaf, a gwrando y gweddiau a roddaf gar dy fron di; (mal pan ddelo y cleſyd im dwyn i farwolaeth, y gallo fy ofn mwyaf am bechod, am gofal mwyaf am dy waſanaeth am henaid a'r amſer, a'r nef, a thrugaredd ar y ddauar, fy rhoi i ddychwelyd ir Beradwys honno, yr hon trwy bechod *Adda* a gollwyd ac a ddyg ir byd farwolaeth, a chleſyd ar ei holl rieni. Je or beradwys orau ac vchaf, yn y nef, lle na byddo na gallu na phoſſiblrwydd i bechu, i glafychu, neu i farw byth bythoedd. Canniatta hyn er mwyn dy anfeidrol drugareddau O Arglwydd Dduw Tad or nef y Cynnorthwywr ar Jachawdwr mawr i holl leſgrwydd a chlefydau.

Gen. 3. 24.
Rhuf. 5. 14.
Luc. 23. 43
2 Cor. 12. 4.

Canniattâ hyn er mwyn ei anrhaethawl drugaredd ef, yr hwn a wnaethoſt i fod yn Jeſu i ddyn, mab Duw, meddyg yr holl eneidiau, trwy ei waed, ac Jachawdwr y byd. trwy rinwedd a gweithredoedd anfeidrol aneirif dy yſpryd glân tragywyddol, yr hwn trwy ei Râs a helpa ac a iachâ holl enaidiau a throſeddau yn y gwaed hwnnw. Tad, mab, ac yſpryd glân, canniattâ i mi y cyflawn ar diweddawl ddychweliad yma ar iechyd i enaid a chorph yr awrhon ac yn dragywydd. *Amen*, *Amen*.

Diolchgarwch yn ol myned yn iach o ddolur.

Pſa. 116. 11 BEth a dalaf ir Arglwydd am yr holl ddonniau a wnaeth ef i mi ? *Maglau Angau am amgylchanaſant i, a phoenau vffern am goddiwaſant.* Cefais gyſtudd a thrueni, *yno y gelwais ar enw yr Arglwydd ac ef am clybu, ie tydi Arglwydd oeddit yr hwn am gwaredodd. Tydi ydwyt fyn nuw a mi ath glodforaf di : nid dyn onid tydi am iachaodd i : dibris yw holl phyſygwyr, ac ofer yw pob meddyginiaeth hebot ti: Dy drugaredd di oedd yr eli ac mi ai mawrygaf ef : Tydi oedd y phyſygwr a mi ath folaf di. fynghalon gan hynny ym mhob cyfyngdra a gaiff ymddiriaid ynot ti : fyngwefuſau a draetha dy foliant, am bywyd ath anrhydedda di. Ni byddaf fi mor reſynus ath ddigio di, a'r iechyd a roddaiſt ti i mi : ar bywyd newydd adnewyddu i mi. Arglwydd Cadw y greſyndod hynny byth oddiwrthyf.* Dy *Ras gan hynny dyro i mi, i gael dy drugaredd yn fy llwybrau, ath ogoniant om blaen i. ie felly y byddo mi attolygaf i ti O Arglwydd er mwyn Ieſu Griſt.* Amen, Amen.

Balm.

Gweddi yn erbyn y Plâ.

O Arglwydd, y nodau o haint yw dy ſaeth, am pechodau am gwnaeth i yn amlygyn i't ; ac ni elli fethu fyn nharo i yn dy gyfiawnder: Eithr arbed arbed fi yn dy drugaredd ; er haeddu o honof fi dy ddyrnod om rhan fy hun, arbed fi er mwyn fy Jachawdwr: bydded ei ddiniweidrwydd ef yn darian i mi, ai waed

ef

ef yn ſwyn gyfaredd i mi : O (Arglwydd i mi ai cefaïs ac ni ddymunwn well ſwyn neu darian) trwy y prifnerth oll iachuſol oi haeddedigaethau eſ, mi attolygaf i ti pardyna ïy mhechod ac arbed ſy mywyd.

Arbed ſy enaid, mal y gallo dy waſanaethu yn well: Arbed ſynghorph mal y gallo waſanaethu ſy enaid yn well: Arbed ſynghalon mal y gallwyf ei chadw yn ſwy gofalus i ti : Arbed ſyngwaed mal y byddo ſy yſprydoedd yn ſywioccach ith waſaenaethu di.

Ac mal yr wyf yn dymuno yr haint oddiwrth ſynghorph, ſelly attolwg i ti ei gadw oddiwrth ſy enaid. Ymddiffyn fi rhag y tŷ a chyſgoda fi rhag Cadair yr haintglwyf. Ac mal rhag cyrph heintus ſelly oddiwrth yſprydoedd yr rhai a anadlant gammau a drygioni (heintiau a phlauau yr eneidiau) oddiwrth holl gleſydau marwol ymddiffyn fi gorph ac enaid, eithr oddiwrth yr rhai ofnadwy hynny vwch law pob dim mi attolygaf i ti. Ar holl rai a wnaethoſt ti yn anwyl ac yn vn gyfagos i mi. Gwna hyn Jachawdwr anwyl er mwyn dy drugareddau. *Amen.*

Gweddi vn wedi clafychu or plâ.

EF am trawyd O Dduw, a chan dy law di: Attolwg gad i mi wacdu yn dy freuchiau, ym mreuchiau dy drugaredd, gad i mi ymado os rhaid i mi ſarw. Eithr Arglwydd cofleidia fi ath ffafor, mal y gallwyf ſyw: byw allan y perigl hwn a gweled dy ymwarediad: byw yn hwy nam pechodau, a gwneuthur i ti ſwy gwaſanaeth. yn y cyſamſer Arglwydd trugaredd er mwyn Jeſu Griſt : Trugaredd ith was tlawd, pardwn im pechod, a chyſſur im hyſpryd, derbyniad im hediſeirwch, cryfder im ffydd, bywioldeb im cariad perffaith, Jachadwriaeth im henaid : mal pa vn bynnac a wnelwyf ai byw ai marw, y gallwyf ſod yn ciddot ti O Arglwydd, yr hwn im prynu

am

am gwaredu a fuoſt fyw a marw : yn rhinwedd dy waed yr vnig ſwyn ragorolfrainr a noddfa pechaduriaid clwyfus, dy anwyl werthfawroccaf waed bydded im henaid fyw os bydd marw fynghorph. Eithr (os dy ewyllys bendigedig) ir ddau fyw i foli dy ddaioni ir ddau. Arglwydd bwrw fym mhechodau ty hwnt ith cefn, a dal fi yn dy freichiau. Ym mreuchiau dy drugaredd yr ymdaflaf fi fy hunan (gorph ac enaid, fy vnig obaith am noddfa, a Chraig fy Jechydwriaeth fydd yn dy haeddedigaethau bendigedig, ath waed Jeſu anwyl. Cymer fi a Chadw fi yn dy freichiau,yr awr hon ac yn dragywydd, yn enwedig yn fy awr am ing ddiweddaf, trugarhâ wrthyf mi attolygaf iti. *Amen, Amen.*

Diolch vn wedi myned yn iach or plâ.

TI am clwyfaiſt i O Dduw ac am iachauaiſt. Y dyrnod oedd gyſtuddiol,dy ymwared oedd brydferth. Yr ergyd oedd gyfiawn, dy ymwared oedd fwy grafuſol. fym mhechodau a haeddent Angau, dy drugaredd a arbedodd fy mywyd. O Arglwydd yr wyt yn cydnabod ag enaid diolchgar goſtyngedig (megis errioed felly yn awr yn enwedig)oddiwrth dy law ddaionus, fy mywyd am hiechyd prefenol. Ac yr awr hon mi attolygaf i ti yn oſtyngedig fod om calon im clwyfo am wrthryfelaf o hono fi errioed yn erbyn mawrthydi mor vchelddoeth ddaionus : Ath ras am cynhalio i na dderchafwyf fyth mom llaw yn erbyn y cyfriw ddaionus fawredd. O na âd ir haint fyned om corph im henaid. Na âd i *Satan* a llygredigaeth wenwyno a hudo fy yſpryd i eiſtedd yn y *Gadair* neu breſwylio yn annedd y nodau heintiol: na âd i eraill gael eu clwyfo gan bechod oddiwrthyf, na minnau oddiwrthynt hwy, rhag dy ddigio di; a'r plâ aeth ymaith ddychwelyd yn farnedigaeth fwy. fy Nuw, fy help, fy iechyd, fyngobaith, fy mywyd am diddanwch. Bendigedig

digedig a fyddo dy enw a arbedodd fy enaid am corph. O na bydded yn ddianrhydeddus gennyf mwyach. Mal gan gadw oddiwrth fudrni heintiol y byd drwg, y gallwyf fyw mewn gorfoledd mewn byd gwell: lle nad oes na phechod na chlefyd i glwyfo enaid na chorph, eithr iechyd perffaith, nerth grâs a gogoniant ynot ti a chyd a thi yn dragywydd: O Jefu fy vnig waredydd, *a chorn fy Jechydwriaeth* felly y byddo. *Amen, Amen.*

Gweddi i vn yn awr marwolaeth iw ddywedyd ganddo ef neu gan arall gan gyfnewid y perſon.

1. Gweddi vn ym mron Marwolaeth.

TRugareddau *Duw Dad a fyddo om hamgylch, haeddedigaethau Duw fab a fyddo arnaf. Diddanwch yr yſpryd glan a fyddo om mewn, y Dryndod Jancteiddam ymddiffynno, am nertho ac am cynhalio i. maly byddo fy marwolaeth i yn werthfawr yngolwg yr Arglwydd, am henaid fyw gyd a thi hyd bob tragywyddoldeb.* Amen, Amen.

2. *Gweddi*

2. Gweddi tros vn ym mron marw.

A fo yn y madael

TAd y trugareddau, bydded dy gariad ti tu ac atto ef. Jachawdwr y byd, bydded dy dynghneddyf ynddo ef. Tad, mab, ac yſpryd glan ymddiffyn blentyn oth teulu; Cadw oen oth praidd, cadw aelod oth Eclwys. O tydi vn ac vnig Dduw or nef, gorchymyn dy Angelion ſanctaidd iw ymgeleddu ef. a gwahardd yr rhai drwg iw orthrymmu ef. gwared ei enaid, rhyddha oi bechod, ſelia ei Bardwn nefol Dad trwy dy lan yſpryd yngwaed Jeſu. Amen, Amen.

Goleddu.

3. Gweddi tros vn ym mron marw.

ARglwydd Jeſu cynnorthwa yr enaid hwn yn ymadael. gwna iddo gychwynfa trwy farwolaeth i fywyd gwell; golch ei bechodau yn dy waed a pharatoa ei enaid trwy dy yſpryd, a derbyn i ogoniant dy Dad. Ieſu yr hwn ai prynodd mor ddrud, bryſia iw dderbyn ef. oddiwrth loeſion y preſenol a phoenau tragywyddol farwolaeth gwared ef Arglwydd daionus. Gwared ef er mwyn dy drugareddau. Amen, Amen.

Diolchgarwch

Diolchgarwch ar ol marwolaeth am vn a ymadawodd.

PSAL. 116. 15.

Dychwel ith orphywyſſa o ſy enaid: Canys yr Arglwydd a wnaeth yn helaethlawn a thydi.

Gwerthfawr yngolwg yr Arglwyddyw marwolaeth ei Seinct ef

DAD. 14. 13.

Bendegedig yw r meirw a ſyddant farw yn yr Arglwydd. felly y dywaid yr yſpryd canys y maent yn gorphywys oddiwrth eu poenau gynt.

Yno gweddiwch mal hyn.

TYdi yr hwn a anfonaiſt am yr enaid yma allan o garchar ei gorph, i ddyfod i lys dy lawenydd. Derbyn ein moliant ni O Arglwydd am i ymwarediad dedwyddol. Oddiwrth ofidiau i lawenydd, oddiwrth brofedigaethau i orfoledd, oddiwrth y ddauair ir nefoedd. O Arglwydd ni artolygwn ti cynnwys ein

mawl gaſtyngedig i ddyſod ith wydd di, a chyd ag ef gad in gweddiau fyned i mewn orh flaen di; mal megis ac y mae ef felly y gallom ninnau yn yr amſer a welych di yn dda ddyſod i anrhegi ein *haleluiau* gyd a ninnau yn dy olwg. Yn y cyſamſer arwain bywyd duwiol, i gael marwolaeth fendigedig. Arglwydd na âd i ni dy *eſceuluſo* di yr awr hon, mal na byddech di yn ein gwrthod ni y pryd hynny: yn yr awr fawr olaf honno (ar yr hon y canlyn tragywyddoldeb o lawenydd neu alar) Arglwydd trugarha wrthym, ac na wrthod ni: ac am hynny bydded o'n hynny a thithau yr awr hon ac yn dragywydd, on blaen ni; fal megis ac yr ydym yn credu fod ein brawd a ymadawodd, y gallom ni fod yn fendigedigedig yn marw, a thrwy ein marwolaeth: Canniattâ hyn: Jeſu hael. *Amen, Amen.*

Imwrthod.

Diolchgarwch cyffredinol am drugareddau Duw.

O Tydi oruchel fawrhydi or nef, pa wedd y llenwaiſt fi a charedigrwydd dy haelioni? mor dramawr oeddit yn dy ddaioni ath trugaredd? mor raſuſol yn dy ragluniaeth i mi? ti a dywelldaiſt fendithiau y nef ar ddauar ar fym mhen, ti am llwythaiſt ar doniau a roddaiſt i mi, yn fyngreu, fym mrynu am cynhal i.

Yn *fynghreadigaeth*, di a roddaiſt i mi dy agwedd dy hûn, ac am gwnaethoſt yn anrhydedduſach na holl greaduriaid y ddauar, yn fy *mhrynedigaeth* ti roddaiſt i mi dy *Fab*, ac am gwnaethoſt yn ogoneddusach na'r Angelion or nefoedd. Yn fy medydd am *hailenedigaeth* ti roddaiſt im dy yſpryd, ac am gwnaethoſt yn ddedwyddach na myrddoedd o wyr yn y byd.

Ti ath roddaiſt dy hunan i mi Arglwydd, beth a ellit ti wnaethur mwy erfot? triphlyg trabendigedig yn dragywydd a fyddo dy enw gogoneddus, am dy anherfynol Râs ath trugaredd ath daioni i mi.

Ac

Ac yn dy ragymweliad am y bywyd hwn, mor helaethlawn ei bendithiaiſt ſi mewn (iechyd, cyfoeth, corph, meddwl, &c.) a llawer o amſer o drugareddau eraill, ſu wiw genuit fynghynyſgaeddu: yn fyngwendyd ti am crytheuaiſt, yn fy mheryglon, ti am gwaredaiſt: yn fy mlinderau, ti am cyſſuraiſt: yn fyngweddiau ti am gwrandewaiſt: yn dy farnedigaeth, ti am arbedaiſt, hyd y dydd heddiw gan gadw fym mywyd ai wneuthur lawer o foddau yn llawen i mi.

Ac nid am vnrhiw daioni ſydd ynof ſi O Arglwydd, y buoſt ti, mal hyn mor raſol *wrthyf*, fy nrygioni i ar y ddauar oeddynt laweroedd, fy aniolchgarwch yn fawr yn dy erbyn di. Oi hachos hwy y gallaſit ti yn dragywydd fy aethwladu i or nefoedd, am rafluſo am pechodau i vffern. Ym mhlith yr rhai ath wrthwynebant ti: er mwyn dy ddaioni ath enw dy hûn y buoſt mor haelionus a thrugarog i mi: O llanw fynghalon ath ſerch, mal y byddo yngenau yn tywallt allan foliant i ti. Treiſia fy enaid ath ddaioni, mal y byddo fynghalon ith caru yn dragywydd. Llanw fy mywyd ath ofn, mal y byddo megis fyngwefuſau ſelly fy meddyliau am gweithredoedd ith anrhydeddu di. Na âd i mi fod mor reſynus ac anghofio dy drugaredd, mor anwireddus a chamarferu dy fendithiau: bydded yr hollgwbl o honof ſi ac a feddwyf ith waſanaethu di: meddwl, corph, golud, iechyd, Cyneſcifiaid, na chamarefrer vn o honynt i wagedd mewn vn math ar bechod yn gywilydd i ti; eithr bod oll yn barod i ddefchafu moliant fyngwneuthurwr, a gogoniant fy mhrynwr. *Tû ac attaf.*

Gan fod fy mywyd yn ddyledus i ti trwy rwymau niferoedd o fendithion (ie miloedd o fywydoedd ac eneidiau (pe bai genif gynifer ith waſanaethu) na âd i mi neccau gwaſanaeth vn enaid truan a chorph i ti O fendigedig wneuthurwr a Phrynwr ac ymddiffynnwr or ddau. Nid oes gennyf ddim yngwaneg i roi, fy hun gan hynny gwneuthuredig or ddau a roddaf yn anrheg i ti. Yr wyf yn fy rhoddi fy hun ar y ddauar i ti O Arglwydd derbyn fi, a chymer fi attat dy hun ir nefoedd: lle ynghyd ac Angelion y talaf it glodforedd berffaith gan ganu Haleluiah *nos a dydd a rhoi diolch-fawl tragywydd i ti: fyngwneuthurwr mawr, fyngwaredydd anwyl, fy niddanudd ſanctaidd, am cynhaliwr*

daionus : O Dduw Tad, mab, ac yſpryd glan. Bendigedig vrddaſol Drindod. I ti ath ddaioni yn vnig, am yr hyn ydwyf, ac a feddaf, am gobaith o lawenydd yn hwn neu yn y byd gwell, y bo oll anrhydedd mawl a thalu diolch a gogoniant byth bythoedd. Amen, Amen.

Coffadwriaeth diolchgar am drugareddau Duw ai ymwarediad.

Yma meddwl am rai neulldduol.

DErbyn Aberth fy enaid diolchgar O Arglwydd, am dy holl ſendithiau ath ymwaredoedd trugaroglawn i mi am heiddaw Oddiwrth ddoluriau a pheryglon; ar dir neu ar ddwfr, mewn Rhyfel, neu heddwch; er yſtalm neu yn ddiweddar, im henaid neu im corph. O pa beryglau mawrion a ddangoſaiſt ti i mi a hwythau, ac etto a'n gwaredaiſt ni oddiwrth ein holl ofalon. Y maent yn fyw a minnau n fyw, ac oll fyw, a pha ham'ond ith foli di Duw, ein ſechadwriaeth a'n bywyd. *Tydi ydwyt fy Nuw ac mi ath addolaf di, ie tra fyddwyf fyw ith fawrygaf di yn y modd yma.* Ac o dyro i mi Ras i roddi i ti fwy a gwell gogoniant. gogoniant oddiwrth fyngweſuſau, a gogoniant oddiwrth fy mywyd. gogoniant yn fy meddwl trwy ſyniad vnion a myfyrdod oth trugaredd. a gogoniant om calon mewn gwir ſerch ac hyfrydwch o fwynhau dy ddaioni: Nes i ti roi i mi dy ogoniant yn y nefoedd, Arglwydd bydded i mi roddi y gogoniant hwn i ti ar y ddauar. Ac ſelly Arglwydd am dy holl ddoniau ath ſendithion rhag drwg, neu am gael vnrhiw ddaioni i mi neu im heiddaw, er yr awr om genedigaeth hyd y dydd hwn om bywyd, gogoniant a fyddo i ti yr awr hon ac yn dragywydd trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Diolchgarwch

Diolchgarwch am ymddiffyn (Cefaill) neu rai eraill a weddiwyd troſtynt or blaen.

YMae *fynghalon yn llawn oth' ddaioni O* Dduw. *Ti a waredaiſt dy was oddiwrth ei beryglon a minnau oddiwrth fy ofn.* O Beth a dalaf ir Arglwydd am ei ddaioni i mi. *O fy nuw, mi roddaf it galon ddiolchgar, ac a attolygaf i ti roddi i mi fywyd diolchgar. Gras felly i fyw maly byddo fyngweithredoedd yn gyſtal am geiriau yn fy nangos i yn ddiolchgar. Ona âd i mi dalu i ti ac eſcuſodion am dy ffaforau, rhag i ti dalu dracheſn i mi blauau am dy ddaioni, maly gallwyf yn oeſtadol orfoleddu yn vnion am fy iechydwriaeth: iddo ef a minnau ac ir holl rai ydynt anwyl gennyf felly y byddo er mwyn Ieſu Griſt.* Amen.

Gweddiau am bob rhiw ddyd yn yr wythnos.

Dydd Sûl.

Gweddi yn erbyn y cnawd.

O Arglwydd gwared fi rhagof fy hun, fy mhechadur arall ddiriaid-lawn gnawdol fy hunan; ſydd barod i vno am gelynion i ddifetha fy enaid, gan ymroi i brofedigaethau pechod. gâd i mi ei wilio ef megis fyngelyn marwol, heb yr hwn ni ddichon holl gythraeliaid vffern drechu, na'r holl gedeirn ar y ddaear glymmu pechod arnaf, ac etto pechod mor gartrefol ac anianol i mi, a gyfannedda ynof fi tra byddwyf fyw, ac ni ymad fyth a myfi. Pâr i mi weled yr achos ſydd i mi i gadw gwiliadwraeth beunyddol galed, ac erfyn dy gynnorthwy, pryd y mae diafol ar byd yn goſod arnaf, om hamgylch oddiallan ac yn arwain Câd o brofedigaethau yn fy erbyn : a'r cnawd om mewn fy n dwyllodrus, ac yn barod bob amſer im bradychu ai gollwng i mewn arnaf: Oddiwrth y cyfriw elynion a bradwyr Arglwydd gwared fi. Ac mal yr wyf yn caru tragywyddawl iechydwriaeth fy enaid, na âd i mi gyſgu mewn diofalwch, a minnau i ymdrech ar cyfrîw elynion.

A chan fod y cnawd en elyn, na âd i mi ei lonychu ef, aî fodloni ai ddigoni, ai croeſawn ef, mal cydymaith: eithr hydded i mi ei groeſhoelio ai ladd ef mal yngelyn yn ol dy ewyllys di ac angenrhwydd fy enaid: yr hwn am merthyra i oni chroeſhoeliaffi ef, ac am lladd i oni laddaffi ef. A channiattâ i mi Arglwydd daionus nerth dy yſpryd i wneuthur dy ewyllys yn marweiddio y cnawd i achub fy enaid.

Bydded ſy mywyd yn ymdrech beunyddol yw erbyn llygredigaethau ſynghnawd, a nertha fi a doeth neb a gras i faentimio yr ymladd hwnnw, bydded i mi wilio, ac ymprydio, ac arfer holl ſoddau rheidiol i gûro i lawr yn ghorph; os bydd hynny yn rhoddi nerth iddo. bydded i mi ſyſyrrio a gwrando a darllain, a gweddio, ac wylo, gan geiſio ym mhob moddau da ddala i fynu fy enaid i gûro i lawr y corph pechodlawn hwnnw ai ddwyn efi farwolaeth.

Ac o herwydd er î guro i lawr yr awrhon, y geill profedigaeth newydd ei gyſodi i fynu; eî ei daro n farwol y bywha ef drachefn. Dyro ar frys O Arglwydd ſy enaid allan or rhyfeloedd anibennus hyn, lle y gallwyf gadw hyfrydwch orſoleddus o dynghneddyf dragywydd or ddauar ir nef, a chryfhâ ſy enaid i gael buddugoliaeth beunyddol ar ſyn nhrythyllwch mal im dyger ir gorfoledd hwnnw. O Criſt yr hwn oedd it gnawd heb lygredigaeth, trugarha wrthyf fi ſydd ar ddau. nertha ſyngwendyd deublyg, ti yr hwn a adwaenoſt wendyd y cnawd. Cynorthwya fi ath lân yſpryd i ſefyll: adgyſoda fi pan gwympwyf yn yr ymrafaelion ſanctaidd hynny. Portha ſy angen, maddeu ſyngwendyd, cau i'ſyna ſym mriwiau trwy dy waed. Jachawdwr bendigedig, Capraen ſy Jechydwriaeth yr hwn a ymleddaiſt ac a orchſygaiſt ſy holl elynion, ac wyt yn awr yn eiſtedd ar yr Orſeddfainge mewn gorfoledd yn y nefoedd, gwna i mi ymladd felly, mal y gallwyf orchyfgu ar y ddauar: a chwedi daroſtwng ſynghnawd gael eiſtedd gyd a thi ar yr orſeddfainge. Cadw fi rhag eu cywilydd hwynt yr rhai a wnant yn fwy or deiliad na'r llywydd, or cnawd na'r yſpryd. Cadw fi oddiwrth eu colled hwy yr rhai a wnant yn fwy o *degan* nag o goron, o drachwant nag o deirnas. *Goegmerth.*

Cadw fi rhag eu llyfrdra hwy, yr rhai ni feiddiant ymladd am Goron, eithr rhoi eu heneidiau i fynu i drachwant. Cadw fi byth rhag eu galar hwy y rhai a bryn ddiſyrrwch ai marwolaeth, am fywyd bychan yn ol y cnawd marw yn dragywydd gyrph ac eneidiau: oddiwrth y cyfriw ynfydrwydd a thrueni Gwared fi Jeſu Anwyl. *Amen, Amen.*

Dydd Llun.

Gweddi yn erbyn y Cythrael.

O Arglwydd. Pa fodd y ſaif fy enaid yn erbyn profedigaeth, oni bydd i ti fynghynnorthwyo, yr hwn ſydd i mi gynifer o elynion yſprydol, ac ſydd o Gythreuliaid im temptio; maleuſus dichellgar, trafferthus a galluog, yr hollgwbl o honynt yn caſhau fy enaid hyd angau, gan wiliio am fyngwendyd, a cheiſio achos im diſetha bob amſer. O fy Nuw heb dy nerth ni allaf ſefyll, a thrwy dy nerth ni allaf gwympo. Canys tydi O Dduw wyt vuchlaw y Cythrael o fwy daioni, doethineb, a gallu i wared nag *yw ef abl* i ddiniſtrio. ti elli di anfon mwy o bleidiau attat, nag a allo ef ddwyn o nerthoedd im herbyn; mwy o Angelion ſanctaidd nag ſydd iddo ef o yſprydion diffaeth; Arglwydd dyro i mi y 'cryſder hwnnw, Arglwydd anfon i mi y pleidiau hynny. Eithr arnaf fi goſod *arfogaeth goleuni* i ymladd a llywodraethwyr tywyllni. A *Helm gobaith* fyddo am fy mhen, a *dwyfronneg ffydd* a chariad ar fynghalon, mal nam briwer yn farwol yn yr ymdrech. Yn fynghyfyngdra anfon dy Angelion im hachub A bydded dy yſpryd glân yn arweinydd i mi, mal na byddo yr vn drwg yn orchfygwr arnat.

Scwl.

Arglwydd

Arglwydd Jeſu, yr hwn a wyddit pa beth oedd gael temptiad ac a orchſygaiſt y Temptiwr troſof fi, dod ymwared im gwendid y pryd im temptir, ac na chynwys Satan im gorchfygu i. A bydded i mi fod yn yn ſobr a gwilio, a gweddio, nad elwyf mewn profedigaeth, mal y gellych di ſyngwared.

O Arglwydd. Pa fodd na chwympaf i ſafn vffern, os taflaf fi fy hûn i fewn profedigaeth. Oddiwrth y cyfriw ryſyg O Criſt cadw fi. Pa niferoedd o eneidiau a gollwyd ac a adawyd yn yr anturiau hyfaf hynny oi nerth, par i mi yſtyried yn ddifrif-brudd, mal na feiddio y cyfriw yſpryd byth, mom meddianu. bid i mi gofio trwy ofn a dychryn y Seinctiau mawrion a gwympa. ſant, mal y gallwyf a gofal ſanctaidd goſtyngedig ac ofn, geiſio dy nerth di i ſefyll, a chwedi *fynghadw* i fynu gan dy law ddehau na allwyf fyth gwympo. Eithr na âd i mi fyn nhaflu fy hûn allan oth law di i ddwylaw Satan; Canys os ti Arglwydd ni ddeli i fynu, ac ef dynnu i lawr, pwy a faif? A phâr i mi gadw fy ffyrdd, na thaflwyf mo honof fy hunan allan; Canys ni ymddiffynni di fi onid yn dy ffyrdd di. Ac na 51. II. F.
âd i mi redeg fy hunan i brofedigaeth, canys y mae hynny allan om ffyrdd i ath ymddiffyniad dithau. Tydi Fugail mawr y defaid, Cadw fi oenyn truan oth corlan. Tydi y llew o lwyth *Juda* a flaenoraiſt, cadw fi rhag y llew rhuadwy, na allo ef fyth mom gorchfygu. Ac o fewn, ac oddiwrth, eu holl Demptiadau. Gwared fi yn ol dy drugaredd, mal na allo ddifa fy enaid er ei holl ruad. achub fi, ti yr hwn am prynaiſt: ymddiffyn fi ti yr hwn am Creuaiſt, fy nerth am gobaith, Jeſu Anwyl. *Amen.*

Dydd

Dydd Mawrth.

Gweddi yn erbyn y byd.

Gorchfyg. wyr. Ortrechu.

O Arglwydd, y mae y byd yn elyn cryf i orchfygu neu goncwerio (*Concwerwyr* mawrion y galluoedd ar Teirnaſoedd a fuont Gaethweiſion i wagedd y Byd) etto trwy dy nerth di ef a ellir ei *goncwerrio*, *Canys yr wyt ti yn fwy nag ef ſef y byd* : Tydi O Jachawdwr ai gorchfygaiſt ef troſof ; a thrwy dy gynnorthwy mi allaf ei orchfygu troſof fy hunan. A thrwy dy ewyllys y mae yn rhaid i mi ei orchfygu ef gyda thi ar y ddauar, os mynnaf orfoleddu gyd a thi yn y nefoedd ; o gan hynny bydded i mi ymroi ollawl am cymwyſo fy hunan i orchfygu y byd, ac i bleidiau fy rheſwm Arglwydd dyro i mi alluogrwydd Grâs, trwy yr hyn y gallaf wneuthur gorfoledd.

Nid yw y byd hwn ond tros amſer, ac a derfyna or diwedd, a pha cyn gynted i mi tydi Arglwydd yn vnig a wŷr : a pha perhau, pa ddiddanwch neu fodlonrhwydd a ddichon enaid anfarwol dderbyn yn vnrhiw neu yn holl ddaioni y byd ? O na âd i mi golli fy etifeddiaeth dragywyddol yn y byd ſydd i ddyfod, am gyfran dylodaidd yn y byd preſennol yma. Tydi Arglwydd am gwnaethoſt i ynddo, eithr fy fi i't dy hun, ac yntau i minnau. O gan hynny na âd i mi fod fyth o hono, bydded dy yſpryd ti vwch ei law bob amſer. Na âd i mi wneuthur fyngwas yn brif ddawn i mi cynnorthwya fi ath Ras, mal nas gwnelwyf o Dduw. Ac o herwydd bod fy ſynhwyrau mor naturiol ac agos attaf, mal y mae r byd yn gallael cymeryd fy enaid yn gaethwas, trwy nerth fy ſynhwyrau ; O bydded i mi wilied y pyrth hynny i gadw allan broſedigaethau. ac i edrych yn dda ar fy ſynwyr, na chollwyf mom henaid. Arglwydd Cadw fi rhag pob drwg,

rhag

rhag dynion, a phethau y byd, rhag ceſeillion, a chynghorion, ac eſamplau drygionus, o ddichell y Cythrael a hudoliaeth y byd, megis rhag gelynion a bradwyr ſy enaid, a bydded i mi eu goddef hwynt megis ſynghyſtudd, yn hytrach na chymeryd diſyrrwch yn y cyſtriw ddynion. Oddiwrth oferedd y byd na allo mom hudo, ai dreneni na allo mom digalonni; y gallu mawr, trwy r hyn y mae y byd yn goſod arnaſ, ymddiffyn fi O Arglwydd, mal na orchfygont fi, a gwna i mi edrych yn dda am ſy enaid, o herwydd nad wyf rydd vn amſer oddiwrth y cyſtriw ergydiau. Oddiwrth wagedd, Cyfoeth, Anrhydedd, diſyrrwch, da gortrechawl y byd (y nefa ddwg ef) Ac oddiwrth drueni *diffyg* ac eiſiau, dirmyg, rheiduſwarth, cam a phoenau, galluog ddrygioni y byd, (ei vffern ef;) Arglwydd cadw fi nad arweiniant ſy enaid i gaethiwed pechod, rhag i mi gael vffern waeth, a cholli nef well: na âd i mi golli dy ffafor di er ei wên, na rhedeg ith hanfodloni er cichiau y byd yma na âd iw ddewiniaeth ſelyſchwant et ſy nhywys i ddrygioni, nai greulondeb ſyngwylldio oddiwrth ddaioni. Bydded ſynghariad am hoſn eill-deuwedd arnat ti, ar da, ar drwg, nid o hwn ond o ſywyd arall: ar y da y byddo ſynghalon, ar y drwg ſy nhroed. Bydded i mi garu a phriſio ac arfer y byd hwn. yn vnig im helpu ir llall. Nid yn orſeddfaingc im hyſpryd, eithr droed. faingc im henaid. Trwy achles yr hwn y gallo ynghorph fod yn nertholach i waſanaethu yr yſpryd, ar ddau ith waſanaethu di, ac i ddyfod i ddaioni byd gwell. Ir cyſtiw orfoledd Arglwydd nertha fi, ac ir hyſrydwch vchod hynny dwg fi, er ei ſwyn ef, yr hwn a orchfygodd y cnawd, y cythrael, ar byd troſof fi Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Dydd

Dydd Mercher.

Gweddi rhag marwolaeth ddiſymwth.

OTydi farnwr mawr y byd, plentyn i farwolaeth wyf wrth farn y gyfraith am bechod Adda, ac mi ai haeddais hi ar ddwylaw dy gyfiawnder am fy mhechod fy hûn. Etto yn dy drugaredd, ni oſodaiſt mor farn honno arnaf, eithr rhoddi i mi einioes i barhau hyd y dydd hwn. Je dra-thrugarog Dduw, pryd yr oedd ofn a maglau Angau ac vffern yn gafaelio arnaf, am annogaethau oeddynt fawrion yn dy erbyn di; yn y cyfyngdra mawr hwnnw, y gelwais arnat ti a thi am clywaiſt ac am gwaredaiſt.

Anogaeth oedd fawr

Arglwydd gwna i mi fyth fod yn ddiolchgar am dy ddaioni, ac na chymer ymaith moth tiriondeb caredigawl oddiwrthwyf. er na rodiais i yn deilwng oth Trugareddau, Cadw fy enaid rhag y pechodau am gorthrymma i. Cadw fynghorph rhag y doluriau am hofna i. A chadw fy mywyd rhag pob drwg ddigwyddiad, a thrachineb a allai gwympo i mi. Os dywedi di y gair O Arglwydd, diogel fyddaf gorph ac enaid: ac ni eill dim drwg gyfwrdd a mi; Arglwydd daionus dywaid y gair hwnnw a gwared fi. Pardyna fy mhechodau mal nam diniſtriant, hwyhâ fy nyddiau, mal y gallwyf dy waſanaethu di yn well. Erbyn angau diſymmwth paratoa fi O Arglwydd, ag edifeirwch preſennol. a bywyd da. Ac oddiwrth angau diſwtta trwy dy raglunaeth gwared fi: mal y gallwyf gael amſer, a mwy cyſſur a bodlonrhwydd a gwaſtadrwydd meddwl i roi i fynu fy anadl am fenaid ith law di.

Clyw fi Jachawdwr Anwyl, yr hwn a dywelldaiſt dy waed im cadw, ac wyt yn eiſtedd yn y nefoedd im hymddiffyn; cymhwyſa fi im hawr ddiweddaf, rhag ei dyfod yn ddiſymwth, cadw fi, atti, ac ynddi, byth achub fi; a thrwy dy râs ath wrthiau bendigedig gwna hi yn awr ddedwyddol i mi, mal y gallwyf y pryd hynny farw yn dy freichiau, ac yn nydd y farn gyfodi a ſefyll yn llawen oth flaen di. Arglwydd Jeſu er mwyn dy drugareddau canniatta hyn oll i mi. *Amen, Amen.*

Dydd Jau.

Gweddi yn erbyn Rhagrith.

O Arglwydd pâr i mi ffieiddio fod yn halogedig, ac ofni fod yn Rhagreithiwr. Os pechadur hynodawl fyddaf, y byd am condemnia; os troſeddwr dirgel tydi nim cyfiawnhei: bydded i mi gan hynny fod yn Sanct mewn purdeb, mal y byddo Duw a dyn yn fodlon i mi, ac yn fy mendithio.

O Arglwydd Dduw yr gwirionedd, yr hwn a chwili y galon, Beth a dal i mi fod y byd yn fy rhyddhau, pryd y byddo ſynghydwybod yn fil o dyſtion im condemnio. Cadw fi gan hynny oddiwrth yr anaf ar ynfydrwydd Ragrithiad.

A chan fod Rhagrithwyr yn gyntafanedig or damnedig na fydded i mi vn rhan yn y pechod hwnnw, mal na chaffwyf ddim cyfran gyda r cyfriw bechaduriaid. bydded i mi fod yr vnrhiw pa le bynnac y bwyf, yn y gell neu yn yr Eclwys, yn y dirgel neu ar gyhoedd, yn y tywyll, neu ar liw dydd; A bydded i mi fod bob amſer y peth a ddylwn i fod, gan fyfyrrio bob amſer i wneuthur ſynghalon am ffyrdd yn gymeradwy orth flaen di, mal y byddych di

yr

yr hwn ſydd yn gweled yn y dirgel, yn gobrwyo yn y goleuni, O Pâr i mi dy weled ti bob amſer ym mhob lle o flaen fy llygaid, a myfi fy hûn oth flaen dithau ; a rhodio yn vnion gyfaddas gar dy fron di,nes i mi ddyfod i orphywys yn dragywydd gyd a thi.

O Arglwydd gan na ofynni mwy, am gael dy ffafor ar y ddauar ath ogoniant yn y nefoedd, ond calon cywir i ti, ac wyt yn pardynu ac yn myned heibio i lawer o anwireddau, lle gwelych y cyfriw calon, na fydded i mi roddi i ti lai na phurdeb yn dy waſanaeth. Duw y gwirionedd dyro i mi galon ſengl, ith waſanaethu di, a derbyn hynny cennyf fi ; Ac na âd i Satan ſyngwneuthur i yn anghenfil a chalon ddeublyg. Oddiwrth Ragrith a bywyd celwyddog Arglwydd gwared fi. Tydi yr hwn nid oedd dim buſtl yn dy galon na thwyll yn d'enau Bendigedig Fab, ar gwirionedd o Dduw, bydded i mi fod yn eiddot ti mewn gwirionedd Jeſu hael. Amen.

Dydd

Dydd Gwener.

Gweddi yn erbyn Anwadalwch mewn daioni.

O Arglwydd yr hwn ydwyd ddigyfnewidiol, par i minnau fod yn ddianwadal, yr hyn a ddylwn i fod yn ddibaid, i fod yn blentyn ac yn was da i ti, yr hwn wyt yn parhau yn oeſtad i fod yn Dad da ac yn Arglwydd i mi.

O Arglwydd nid oes mynudun yn yr hwn y gallaf fi fod neu fyw heb ddaioni, ac a gaiff llawer o ddyddiau fod yn yr rhain y byddi di heb fyngwaſanaeth i? yr hyn a obrwyi a gogoniant, hyd *tragwyddoldeb*, ac a gaiff y dyledion perthynas iddo ballu neu fod yn fyrr o *wadalrhwydd*. O fy nuw pe bai i mi einioes Angelion i fyw, y mae yn ddyledus arnaf waſanaeth yr holl fywyd hwnnw i ti; ac heb gennyf yr awrhon ond rhychwant o amſer, a gadwaf fi ymaith ran fawr o hynny oddiwrthit ti? Ddianwadalrhwydd.

O Arglwydd na âd i mi dy anghofio di a mi fy hûn cym mhelled, a gwneuthur felly i ti.

A phe anghofiwn fy nylêd cym mhelled, bydded i mi gofio fy angen. Di-anwadalwch a ddwg y goron ith waſanaeth, ac a gwympaf fi oddiwrtho a cholli y goron? O Arglwydd ym mha gyflwr ofnadwy y byddai fy enaid, pe bai Angau im goddiwes pryd y cwympwn, am cymeryd i ymaith yn fy mhechod? ac a oes i mi vnrhiw ddiogelrhwydd yr awr hon na chaf yr awr neſaf weled marwolaeth? A phe bawn i ddiogel o fywyd ac amſer, a ddylwn i fyw felly iw gyfrannu, y blynyddoedd gorau ir cythael ar rhai gwaethaf im Gwaſtadrwydd.

im Duw? miſoedd i oſeredd, a munudiau i Ddu-wioldeb, dydd a nos i edrych am y byd hwn, heb arbed awr at vn gwell? Arglwydd na ad ir cy-thrael ar byd gyfrannu fy amſer a thi, rhag na chymerych di ddim genyf oni chei di r cwbl oll; neu gan roddi i ti y rhan leiaf y tefli ef dracheſn yn ol i mi.

Safydla fynghalon ith ofni, mal na allo Temp-taſiwn diaſol neu ddyn fy ſymudo i; Rhwym fy enaid ar cyfriw ymroadau i ti, mal na allo vnrhiw nerth y cnawd mom rhyddhau. Gan na allaf gan wendyd y cnawd dy waſanaethu di yn gyfannedd

Ddibaid.

oeſtadol, bydded i mi mal Sanct yn ddiball fod o waſtadrwydd deſoſionol tu ac attad ti, nid mal Perthynaſwr eithr gwas beunyddol i wilio arnaf. Gan gadw yn ofalus orriau fy neſoſiwn, a chyſegru fy holl ddyddiau i ti, mewn ymegni cydwybodus gwaſdadol, ym mhob lleoedd, ym mhob peth, a phob amſer, i ochel pob drwg a gwneuthur yr hyn ath fodlono di. O Tydi yr hwn ſydd heb gyſgod troadigaeth, yr vnrhiw *byth, goſod fy enaid gwamal yn dy ofn, a gwreiddia dy yſpryd glan ynof fi, mal y gallwyf dy waſanaethu di ar y ddauar yn ddianwadal ddiſigl ac yn y nef hyd holl dragywyddoldeb. Trwy ei ras ai wrthiau ef, yr hwn a orphenodd waith y Prynedigaeth tragywy-ddol troſof fi, gan farw a byw im hachub i, ac yn awr yn eiſtedd ar y llaw ddehau im cynnal am cadw i Jeſu Griſt ein Harglwydd.* Amen.

Dydd

Dydd Sadwrn.

Gweddi rhag calon ddiedifeiriol.

ARglwydd cadw fi rhag yr echrys bechod a chosp y galon ddi-edifeiriol: gan weled mai edifeirwch am bechod yw r vnig fodd im cadw, na âd i mi ei eſceuluſo ef, rhag i mi farw am hynny yn ddi-ymwared.

O Arglwydd, beth a ddaw om henaid euog os tydi ni faddeui i mi? a pha fodd y gobeithiaf dy *Bardwn* os af fi rhagof ith annog di, Dyro i mi gan hynny gyſtudd am fym mhechodau a aethant heibio, yn yr rhai ith ddigiais di, ac os ſyrthiaf o wendyd mewn pechod, na âd i mi orwedd heb ymglyw, nag ymwrando am briw, onid codi trwy edifeirwch, mal y gallwyf ddychwelyd drachefn i fewn ffafor gyd a thi.

O ſy Nuw, os yn awr nis gwnaf, mi gaf edifarhau (yn vffern oni bydd ar y ddauar:) onis gwnaf trwy ddagrau mewn gobaith, mewn tân y gwnaf mewn poen tragywyddol. O bydded i mi wylo tros amſer, mal na byddwyf yn ochain yn dragywydd, bydded i mi alaru am danynt im diddanwch, yn hytrach nag ymlawenu im gwradwydd.

Rhag calon galedwch om mewn, a chadwybod lloſcedig gan euogrwydd Arglwydd Cadw fi: megis rhag parth vffern. rhag parhad i arfer o bechu, Cadw fi rhag i mi gynyddu heb ſynnied o hono yn *hauarnddyll*. A rhag chwanegi ac ailwneuthur gweithred o bechod cadw fi, mal na chaffwyf yr arfer. Os pechaf fi dwys biged ſynghalon fi, mal na byddo dy law di o ddialedd im Cyffwrdd i.

Ac am y caledwch ar ymwiſc o ddrygioni, yr hyn a gefais yn barod trwy vnrhiw weithredoedd o bechod, ſy Jachawdwr

dwr anwyl Cynnorthwya ac iachafi. Tymera a thawdd ſynghalon yngwres dy gariad, i ofalu rhag dy ddigio: A meddalha (o ſendigedig ſwch diangol) ſynghaledwch trwy rinwedd dy waed, mal na ſafwyf yn ſtyfnig yn dy erbyn di: Plyga fi ath trugareddau, Tor fi ath farnedigaethau, briwa fi ath Air, cynhyrfa fi ath yſpryd a moldia fi ym mhob modd i wneuthur ſynghalon or cyfriw dynerwch, mal y byddo y mymyn lleiaf yn yngorthrymu, mal nad elwyf yn gyndyn i wrthryfela yn dy erbyn di. Trugarog Dad, deled dy holl wrthwynebion yn hytrach arnaf, na digwyddo y felldith hon i mi. Mal y gallwyf gyſtuddio, ac ochain yn hytrach trwy obaith ar y ddauar, na llefain a gruddfan yn vffern yn ddi ymwared. Calon gig nid o garreg dyro i mi, bydded dy lân yſpryd iw gwneuthur, ai chadw ynoſſi: Gwna hyn Jachawdwr anwyl troſof fi mi attolygaf i ti, oth trugaredd. Amen, Amen.

Levit. 16. 22.

Gwaed bwch a dawdd yr adamant, y cyfriw yw calon galed. Zach. 7. 12

Yſtyrriath

Yſtyrriaeth ir ddarllenydd defoſionol am y gwaſanaeth dyledus yma.

YMae yr *Awdwr* yn hyn o waſanaeth yn dangos i ti ryw bethau newydd, heb ddim (mal y mae ef yn gobeithio) yn ddrwg; y mae iw gael lyfrau o weddiau, a myſyrdodau, ac hyfforddiadau yn neullduol, a rhai yn gyſylltedig; eithr ni wyr ef ſod yr vn yn ei ffordd ef.

I mae ef yn meddwl y bydd yr enaid a fydd rhwymedig mewn dyled neullduol, yn cael cymmorth mawr gan gyniſer o bethau rheidiol gallaw, i fyned rhagddo yny gwaſanaeth. Amrryddefoſionau (mal newidio gwiſgoedd) mal y maent yn rhyngu bodd y meddwl, o herwydd eu bod yn trymhau llai: felly y maent yn derchafu mwy ar ei duwioldeb, pan fyddo y cwbl (er vddynt fyned amriw lwybrau) yn ymgyfarfod mewn vn fyſyrgell, ac i ofalu am weithredu ei derchafiad yſprydol.

Ni bydd dy yſpryd dichwannoccach ith weddiau, er ei anadlu yn y Scrythyr lân, ac ni chymeridi i mewn mor awyr ſanctaidd honno, a llai twrn da i iechyd dy enaid am fyned atti oddiwrth dy weddiau: Ac nid llai budd i barhau a gair oddiwrth y cyſſurau nefol hynny, er ymarfer or enaid a ſo duwiolddoeth (y pryd hynny) a myſyr

dodau duwiol, periodol, ac Athrawiaethau gosodedig a chymwys iw hamcanion ai pherwyl hi. hyn a fydd megis gair yn ei amser yn weddaidd a daionus: ac a wasanaetha mal pregeth fechan i faethu yr yspryd sanctaidd, a gawsid mor ddwywawl, yr hon oni bai hynny a allai drengu cyn y deuai at bregeth hwy: ac ond odid heb gael nai stâd nai chyflwr wedi crybwyll am dano wedi deuai hi yno.

Oleichi: awg.

Yr Stafellan *(noddfa beunyddol ir gwr da n gyfannedd. ac mewn erlid yn fynych ei vnig* Eclwys*) mal nad oes arni byth eisiau* Allor *ysprydol i Dduw (sef calon ddefosionol) nai Ardd (sanctaidd* lyfr Duw*) ynddi, na sanctaidd wasanaeth Duw (llyfr gweddi sanctaidd) iddi erbyn hyn a gaiff* bulpud *hychan hefyd. Angenrheidiol ir rhai a fyddant heb yr vn arall, a buddiol ir rhai sydd arnynt eisiau vn gwell.*

Y gellan. Ez. 11.16

Cadair. *Ymadrodd.*

A diammau yr enaid a rodio beunydd rhwng Allor *Duw ai* Ardd *(ei gweddiau ai Scrythyr) ni eill na chynyddo i fyned rhagddi mewn Duwioldeb. yn gynt ac yn nertholach wrth glywed pregreth bob dydd, pan fyddo hi ei hun yn bregethwr, ei chyflwr yn Desdyn, a* Duw *ai chydwybod yn wrandawyr.*

Y Darllenydd gwybydd, yr hwn ni fyn mor Pwlput yn y Stafell a fyn hwn yn y gellan, ac y mae yn meddwl gwneuthur daioni a gwasanaeth da i ti, yn yr amseroedd digrefyddol hyn, i ddarparu ith gell y cyfriw bwlput: Ei lefel a weli, ei batrwm hawdd i ti lefelu atto, yn enwedig os wyt fab ir fam yr hon oi doethineb a ddysgodd iddo ef y cyfriw weddiau: er bod rhyw bethau yn y gwasanaeth yn newydd, nid oes dim newydd-droeau ynddynt, eithr wedi eu casglu er mwyn dy arfer neullduoll, ai trefnu yn ddyrnaid o Homoliau *a* gweddiau *byrrion.*

Rheolau

Rheolau am ddefoſiwn y Suliau.

Y borau ddydd Sul.

Pan ddeffroech, derchafa dy galon a dywaid.

O Haul cyfiawnder, yr hwn a gyfodaiſt y dydd hwn arnaf fi tywynna yn awr ac yn dragywydd ath ras ath trugaredd arnaf fi. *Amen.*

Yn ol eich codi i fynu goſtwngwch ar eich gluniau a dywedwch y weddi hon.

O Arglwydd. *Sancteiddrwydd a berthyn ith dŷ di*; ac vfudd-dod dyledus ſydd weddus i mi i tyned ith lyſoedd, ac i wilio arnat: a hwn yw r dydd mawr oth waſanaeth. Tydi yr hwn a genadaiſt i mi weled llewych y dydd hwn, gwna fi yn ofalus i gyflawni y dyledion a berthyn iddo, mewn pryd im goſod fy hûn oth flaen di; a chyd ag anrhydedd im ymddwyn fy hûn tu ac attat ti, mal y gallwyf ddyfod a ffrwyth a ffaſor oddiwrthit er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

Cyn yr elych ir Eclwys dywedwch (os cewch amſer) y gwaſanaeth ddy. ſul a ganlyn; na adewch yn ôl ddywedyd y Collect am dano er dim, ar brydnawn dywedwch y gwaſanaeth perthynol.

Nos Sul.

Pryd yr elych ith wely goſtwng ar lin a dywed.

O Haul Cyfiawnder, cadw fi rhag y tywyllwch eithaf, bydded i mi ſelly gyſgu tan dy dynghneſedd, mal y byddwyf parod i godi bob amſer, ath cyfarfod ti yn dy ogoniant. *Amen*, Amen.

Saith

Saith waſanaeth ir wythnos gyntaf.

Gwaſanaeth goſodedig i ddyddiau yr wythnos, tros bedair amriw wythnoſau.

Gwaſanaeth ddyſul.
Am hyfrydwch y nefoedd.

Gweddi Foreuol *Pſa.* 36. 48.	Prydnawnol weddi. *Pſal.* 15. 16.
Llith.	Llith.
Iſa. 64. *Mat.* 5. hid 13. neu *Mat.* 17. hyd 14.	*Eſa.* 35. *Dad.* 21.

14

Y Colect ddydd Sul neu weddi am hyfrydwch nefol

ARglwydd Caredig. Yr hwn a brynaiſt i mi y nefoedd golledig ath waed, ac yn awr ai meddianni hi itrofoſſi yn dy gnawd, meddianna ſy yſpryd mi

I 4 actoly-

Nos Sul.

Pryd yr elych ith wely goſtwng ar lin a dywed.

O Haul Cyfiawnder, cadw fi rhag y tywyllwch eithaf, bydded i mi ſelly gyſgu tan dy dynghnefedd, mal y byddwyf parod i godi bob amſer, ath cyfarfod ti yn dy ogoniant. *Amen*, Amen.

Saith

Saith waſanaeth ir wythnos gyntaf.

Gwaſanaeth goſodedig i ddyddiau yr wythnos, tros bedair amriw wythnoſau.

Gwaſanaeth ddyſul.
Am hyfrydwch y nefoedd.

Gweddi Foreuol *Pſa.* 36. 48.	Prydnawnol weddi. *Pſal.* 15. 16.
Llith.	Llith.
Iſa. 64. *Mat.* 5. hid 13. neu *Mat.* 17. hyd 14.	*Eſa.* 35. *Dad.* 21.

14

Y Colect ddydd Sul neu weddi am hyfrydwch nefol

ARglwydd Caredig. Yr hwn a brynaiſt i mi y nefoedd golledig ath waed, ac yn awr ai meddianni hi i trofoſ fi yn dy gnawd, meddianna fy yſpryd mi

14 attoly-

attolygaf i ti ath lân yſpryd ; mai y byddo ſy ymwareddiad yr awrhon yn nefol ar y ddauar, am preſwylſa yn ol hyn yn ddedwyddol yn y nefoedd. O na adi mi, o ran difyrrwch diflanedig yn y byd ofer hwn, golli yr hyfrydwch bendigedig gar dy fron di yn dy deirnas. Cyweiria fi iddo (Brynwr Anwyl) yr hwn ai Paratoiſt ef i mi, a hyn er mwyn dy drugareddau Arglwydd. *Amen.*

Yno gweddiau beunyddol.

I. *Ãfyſyrdod am lawenydd nefol.*

BEth a wnaf fi ar y ddauar, a duw yn y nef? Pa ham y mae ſynghalon am corph mewn dau amriw fyd ? Ac ymha le ond gyd ag ef, ac arno ef y dylai ynghalon fod? Arglwydd, tyn atrad yr hyn a wnaethbwyd i ti ; nes y del y corph bydded yr yſpryd gyda thi ; ie bydded Deſoſiwn i ddwyn fy meddyliau allan om henaid i ymweled beunydd a thi, hyd oni ymadawo fy enaid am corph i breſwylio gyda thi yn dragywydd.

Bodadigaeth.

Fy help ſyngobaith, fy niddanwch, ſy Jechydwriaeth ; Tad fy yſpryd, profod fy enaid, penaeth fy ymdaraw, Awdur fy anian, Diben ſy *vndawd*, llawenydd fy maeth, Bodlonrhwydd fy nymunidau, gorphywyſdra fy meddyliau, perffeithrwydd fyngallu. fy mywyd ſydd Aethwladaeth, Garchar, Goſpedigaeth ar y ddauar, os wyt ti yn y nefoedd. gochelwyf gimaint ac allwyf, ni chyſarſyddaf a dim ond *pechod* a *thrueni*. Ceiſiwyf gimaint ac allwyf, ni chaf fi ddim llawenydd iſod yma: Pe bai i mi wledydd cyfan o gyfoeth, a mynyddoedd o anrhydedd arnynt, ac afonydd o ddifyrrwch oi hamgylch ni byddai r cwbl, ond greuenyn, twmpath, defnyn, wrth ſy llawenydd nefol. ſynghybyddawl, vchelfalch, a fiaethus ddeiſyfiadau, a adewir yn ſych ar y ddauar, vn vnig a lenwir ac a foddir ym mheradwyſ,

wys, Coron a Theirnas nefoedd:y cefn fôr o lawenydd a red o amgylch y Daioni ſydd Anherfynol. vchel heb gyfnewid, mawr vwch-law meſur, llawn heb eiſiau, hir ty hwnt i amſer. Ymaith gan hynny fy enaid oth Aethwladaeth gaethiwed, oth ruddfan ath wagedd greſynol, ith gartref, rydd-dyd, lawenydd ath wir ddedwyddwch; Clomen y Gras hêd i ffyneſtri y gogoniant,ymgyfoda ir gorſeddfau gorvchel lle na eill ederyn gwangcus vffern nath Cyrhaedd nath ofni, na bwyſtfiloedd y ddauar dy ddifa nath aflonyddu.

Nef ar ddauar, ſydd gymyſgedd anghenfilaidd, os oſergeiſi di ef yna, ti a elli ei gael cyn gynted yn vffern: (nid yw Duw yn y nefoedd honno) yn vnig Cais, ac hyfryda dy hun yn llwybrau duw.hynny ydyw y nefar y ddauar yn ddiau: peth o lewych y gogoniant vchod, a goleuni i gael y nefoedd yn y fan y mae: ſef yn y nefoedd. Ac oddiwrth dda r byd, derchafa dy feddyliau i lawenydd gwell. dywaid, os yw gyſtal ar y ddauar, pa faint gwell o lawer yn y nef. felly bydded y ddauar nid yn hudoliaeth o lawenydd, ond yn ddrych i edrych drwyddi, nid yn gadair, ond yn droedfaingc i gymeryd golwg gwell ac ehediadith orſeddfaingc: felly y gelli ar vnwaith rodio ar y ddauar, a myned ir nefoedd, ac ef a gyſyllda Duw yn ſendigedig yn y dydd hwnnw, yr hyn yr wyt ti yn ddiwiol yn ei wahanu, ac a geidw gyda ag ef yn y nefoedd yn dragywydd, dy gorph ath enaid,

Gwel

Gwel y neullduol draethawd.

Dalen 7.

Gwaſanaeth ddydd llun.

Ynghylch trueni y byd yma.

Borenol Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſal. 120. 137.	*Pſal.* 39. 42. neu 84. 102.
Llith.	Llith.
Gen. 47. neu *Job* 14.	*Galat.* 3.
Luc. 21. neu *Act.* 20.	*Rhuf.* 7.

Colect ddydd llun, yngylch trueni ar y ddaear.

O Arglwydd. Gyda a ni y mae trueni ; gyda a thydi trugaredd. ar y ddaear pob drwg, yn y neſoedd pob daioni; O er mwyn dy drugareddau cadw fi i fynu yn fy holl drueni, a gwared fi oddiwrth fy mhechodau yr achos o honynt oll. Ac oth ddaioni (mi attolygafi ti) dercha fynghalon i fynu i awyddu ac i geiſio daioni y neſoedd, mal y byddo fyngafael am gobaith o honi yn fynghyſuro i, yn erbyn holl ddrygioni

y

y ddauar. Bydded y chwerwder yr wyf yn ei gael i fod im diddyfnu i oddiwrth y byd drygionus, ac i hogi ynof newyn ſanctaidd ir melyſdra peraidd a llawenyd ſydd vchod; Ac yn dy amſer da llanw ſy enaid ar diddanwch bendigedig hynny, mí attolygaf i ti, er mwyn ei haeddedigaeth ai gyfryngdod ef, yr hwn yw fy vnig lawenydd am gobaith yn y nef ar ddauar, Jeſu Criſt fy mhrynwr am Dadleuwr anwyl. *Amen.*

Yno gweddiau beunyddol.

Myfyrdod am Drueni y byd.

PA ham y rhoddaiſt dy fryd gimaint at y byd, a gweled mae melldith yw ei gynhyſgaeth ef? wedi entailio (megis cyfran) gan Dduw i *Adda*, ac i tithau (megis ei fab ef) gan iddo ef golli (gyda ai vſudddod) ei *Beradwys* ac i tithau *trwy ei fai ef. Y Ddauar byth er bynny o amſer a ddwg i fynu* oſidiau megis tân wreichion. Oth fewn di neu oddiallan i ti; i mi fy hunan i eraill; mewn corph neu enaid; Cyn gynted eiſiau dail ar Goedydd ac arnat ti y byd ddiffyg gofidiau. Tydi yw r (Aer ir cwbl oll. Etifeddwr (or lleiaf) o rai; byth heb fod yn ddiofal oddiwrth vnrhîw, o herwydd bod bob amſer mewn *cyſtudd* neu oſn o'r cwbl oll. a lleiaf bendithgar hefyd, y pryd mwyaf diofal, mwyaf oll anedwydd pryd lleiaf greſynus. Gan fod llawenydd yn y byd hwn yn fwyaf melldith, o herwydd ei, fod yn gyfran dyn a nodwyd allan i anedwyddwch tragywyddol. ochoch pa ynnill yw ychydig ſomedig lawenydd bydol, agofidiau, oll, a thragywyddol ar ei ol, ac nid heb rai ynddo.

Gen. 3. 17. Entailio rhoi i gyfriw. Job 6. 7 Iſa. 17. 14

Fynghalon. Os darfu i ti gamgymeryd yn dy ddewis, bydded hyn i yſgar y briodas; Câr y ddauar pan fyddo yn gu genit ofid, ac heb arſwydo vffern.

Ti gai *Alimoni* neu gynhaliaeth da yn ol yr yſgar yma. Ti a gai, fyddi fyw yn well a marw yn odidog oi

Gyfran.

oi blegir. Ti a groeſawi Angau megis ymwarediad oddiwrth ei ddrygioni, daioni yr hwn a ddirmygi. Ac a dderbynni, ac a ddarllenni y rhybydd oth terſyn nid megis *arreſtio* neu alw ir Farn, ond yn rhydd-hâd oddiwrth flinderau. Ti roddi dy olwg ar y nefoedd, megis dy wydd-dŷ o orphywyſdra, ac a flini ar y byd megis ar ſôr o drueni. Ti a fyfyrri i lywio, ac vnioni dy yrfa wrth *Gard* neu ddrych o ſewn cylch neu reol y Gair diſommedig, i wybod ac i fyned y ffordd vnion ir nefoedd.

Dyſun.

Cyn ddaed yw *wermod* y byd (gwell nai fêl) er mwyn iechyd yr enaid os cymerwn, ai archwaethu ef yn vnion; a'n trueni a ddaw yn drugareddau mawrion, o herwydd eu bod yn ſeddyginiaeth dda ir iechyd dedwyddol hwnnw. Pe bair ddauar yn caniatta i ddyn pechodlawn cwympedig vn *Peradwys*, prin yr edrychai ef am ddwy. Yn awr pam fyddo ef yn ei gweled yn burdân iddo, y mae hi yn ei yrru ef ir wir beradwys, ac yn ei ddwyn ef yn gynt ir llawenydd hwnnw, wrth bryſuro y gofidiau hynny, yr rhai a wna frys mwy tu ar nefoedd, pa drymmaf a fyddont ar y ddauar.

Card drych y moriwr.

Gwaſanaeth

Gwaſanaeth ddydd Mawrth.

Yn erbyn gwâg oferedd y byd.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſa. 39. neu 37. 102. 104.	*Pſa.* 52. 62.
Llithoedd.	Llithoedd.
Ecl. 1. 2. neu vn a honynt. *Mat.* 16. neu *Luc.* 12.	*Eccleſ.* 3. 4. &c. *Heb.* 2: 1 Tim. 6.

Colect ddydd Mawrth yn erbyn gwageddy byd.

O Arglwydd! Yr hwn a wnaethoſt y byd yma i mi, a minnau i vn arall ; Na âd mom dwyn ymaith gan wagedd y byd yr hwn ni eill *fodloni* mom henaid, ac ni phery gyd a myfi. O bydded ſynghalon Yn ddifigl ar bethau vchod, na ſymudir mo honi byth gan wagedd bydol, mâl pryd y diweddo y byd hwn i mi, neu fi iddo ef, y gallwyf fwynhau yr anrhydedd ar llawenydd ar daioni yr hwn ſydd heb drange na gorphen, gyd a thi, ath Angelion ath Seinctiau mewn byd gwell trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Myfyrdod

Myfyrdod am wagedd y byd.

NId yw r byd ond *Siop* o wagedd; *Anrhydedd*, *cyfoeth*, *diſyrrwch* y prif bethau buddiol: y Cythrael meiſtr y *Siop*, a dyn ei gwſmer neu ei ddefodwas truan. Y pris cyffredin yw ein eneidiau, yr rhai yr ydym ni yn eu rhoddi iddo ef i gael y pethau hynny; ac etto heb feddiannu dim (llai a gwaeth na dim, yw r cwbl a gawn) yr hyn yw r gwageiddiaf wagedd hwnnw o wagedd. Pa ham y mae da darfodedig yn dy hudo di, yr hwn ſydd it ac yſpryd anfarwol? Pa ham y mae llawenydd *dy ſynhwyrau* ith ddwyn ymaith, yr hwn ſydd a rhodd it i ddeall yr vchel ddawn daionus. gwybodaeth o dragywyddoldeb.

Senſibl. Eſa. 55. 2.

Och fi wr, ti a elli cyn gynted lenwi gogr a dwfr, ath enaid ar byd; a phe gellit ti roddi iddo ei lonaid, mewn amſer byrr (ith colled ath cyſtudd trymach) y rhedai ef allan drachefn. Bydded y byd gan hynny nid yn ddelw, ond yn ddirmyg genit. Coelia ef os da bydol yw dy *ddiwioldob*, os ei ogoniant ei fudd ai ddiſyrrwch ef yw dy *drindod* ni lanwant hwy, hwy ballant ac a garugant dy galon; ac felly rhoddi i ti yn llawenydd dridyblyg o anedwyddwch: gorthrymder yw eu bodlonrhwydd cyflawnaf, au diben nid yn ddiboen, eithr yn drwm gerydd. anherfynol a thragywyddol ddaioni yw yr hyn ſydd raid iddo roddi i ddyn ſydd o anfarwol yſpryd, fodlonrhwydd. Yn y dwywawlder hwnnw, y mae ei orphywyſia ef, ai ddedwyddwch yn y drindod honno yn vnig.

Bydded Duw gan hynny (fal ymae) yn orſeddfaingc it, y byd (fal y dylai fod) yn droedfaingc it. trwy ddaioni hon dring i fynu at Dduw, cais i fynu felly: Amlder o ddaioni a ymddengys yma yn wych; y cwbl oll yn y nefoedd yn ddiau ſydd felly? Pa beth yw r *ſylwedd* pan fyddo y cyſgod yn gyfriw? Beth ydyw cael yr holl bethau, os dibriſir hwynt felly megis heb cael dim?

dim? Pa lawenydd ſydd iw gael yn y drindod o ddaioni digreuedig, pan ydis yn rhoi felly gimaint o hoffder yn y tri truandlawd digreuedig ddoniau or ynfyd ffôl ddychymedig Dduwdod hwnnw?

Beth er bod it ſynhwyrau, trwy yr rhain y maent, (ſef anrhydedd cyfoeth ai difyrrwch hwy) yn denu a hudo dy gariad? Onid oes ith enaid allu i lywio a llywodraethu y llaforwynion hynny? O ddyn dy ſynhwyrau ydynt yn dy enaid. Anghenfil wyt os rhoi dy enaid yn dy ſynhwyrau: Dyn o Reſwm, na fydd anifail o ſynwyr. bydd fyw a char vwchlaw gwagedd bydol, gwel ac hiraetha am gael diogel bur, ſodlonawl ddedwddwch enaid; onid e(er dy gael dy hûn nid oes dim ac ni eill dim fod mor wagaidd.

Gwaſanaeth

Gwaſanaeth ddydd Mercher.

Yn erbyn ffieidd dra drygionus y byd.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſal. 12. 14. 120.	*Pſa.* 18. 55.
Llithoedd.	Llithoedd.
Gen. 6. neu 19. *Mat.* 24.	*Jer.* 5. neu *Eſa.* 13. 2 *Petr.* 2. neu 1 Joa. 5

Colect yn erbyn ffieidd-dra y byd,

O Arglwydd, gan fod y byd yn *Sodom*, bydded i mi fod yn *lot*, yn ofidus nid yn ymddifyrru yn ei *budreddi*. gan ei fod yn *Meſech* bydded i mi fod yn *Dauid*; nid wedi fyn nal, ond wedi fy mlino gan ei thrueni. Arglwydd. Pa ham y caiff fy llawenydd fod yno, lle na eill fy enaid fod yn rhydd oddiwrth beryglon, nath ogoniant ti oddiwrth friwiau? lle y mae cabledd mor gyffredin a'r awyr, a *thrais*, ar ddauar, lle y mae anwiredd yn llifeirio mal dwfr, a thrachwant yn enynnu mal tân. Pa ham y byddaf fi mewn cariad ar hwn fydd mewn câs a thi? lle o chanllynaf ei gylch, yr af i ddamnedigaeth byd arall; ac o gwrthwynebaf fi ef, ni chyfarfyddaf a dim ond gorthrymder yn yr holl ffordd. O Arglwydd, er fy mod ynddo na âd i mi fod

Gortrechiad.

fod o hono. os anwireddus a fydd ef, gad i mi fod yn dda; ie pe dryccaf ſo ef, wellwell a fyddo i, mal y delych di fwyſulw yn drugarog ar ſy naioni. Ac o herwydd fod yn anawdd anadlu mewn awyr lygredig, heb heintio neu *glwyfo* yr ymwareddiad; bydded i mi yn ewyllyſcar fyned yn lan oddiwrtho, a dyfod attad ti, lle y mae llawenydd yn bur, heb ddeigr na llwgr. Cymer fi oddiwrth Gythraeliaid y byd, ar dy Angelion di O Ddduw. Yn y cyfamſer bydded i mi fyw yn Sanct ym mhlith Cythraeliaid, mal y galliwyf (or diwedd) fod yn Sanct ym mhlith Angelion: ie megis yn oth Angelion, yn y byd hwnnw, lle nad oes na galar na drygioni, pechadur na Satan, ond dy vndawd bendigedig gyd a Chymdeithas ſanctaidd a dedwyddol o ddynion gogoneddus ac Angelion, yn meddiannu, moliannu, addoli ath wafanaethu di byth bythol: ſelly y byddo er mwyn Jeſu Criſt. *Amen.*

Dad. 3. 12

2 Cor. 6. 17.

Luc. 20. 36

Yno gweddiau beunyddol.

Myfyrdod am ffieidd anwireddau y byd.

MAm yr holl *gamweddau* ar *drygioni*, pa pryd y caf fi wared o honot, carchar ſy enaid, a durdor ſy iechydwriaeth? Bryn o forgryg trueni, yn gweini i tynu ac i wared ydwyd pan ſych orau; vffern o yſprydiau damnedig erchill, (yn y gwaethaf) ffynon pechod, Engian vffern, a maes o bobrhiw brofedigaeth.

Os caraf ſy Nuw, rhaid i mi dy gaſhau di, oblegit dy fod yn elyn iw anrhydedd ef: os caſhaf fi y Cythrael, nid rhaid moth caru di, oblegit tydi yw ei gleddyf ef i ddiniſtrio; oni allaf garu y cnawd, ni allaf garu mo honot ti, o blegit tydi yw yr ffon fagl iw gynnal ef, oni

allaf garu drygioni, mae yn rhaid dy ffieiddio di, oblegit tydi yw meiſtres Gwagedd, os rhaid i mi garu Grâs, y mae n rhaid i mi dy gaſhau di, oblegit llyſ-fam rhiwedd ydwyd.

Hynlle.

Wŷll Satan, Câs y nefoedd, yſcôl drygioni, mamaeth-lwyn, amryfuſedd, mam pechaduriaid, llyſſam Seindiau, haint yr yſpryd, Tadmaeth y cnawd. Yr hwn trwy dy gynghorion *drwg* ath *eſamplau*, a gynyddaiſt y lledfegyn gan bechod yn dy groth felldigedig, ac a roddaiſt fronnau a maeth cynnes iddo ath fwyniant ath ddifyrrwch di, dy gyffuriau ſugnedig. gwae fi, rhaid i mi aros ynot. gwarth i mi os caraf di, dy bethau gorau ydynt wagedd or ddauar, dy bethau gwaeth haſ anwireddau yn erbyn y nefoedd. Pa beth a allaſ ei garu ynot?

Jac.4.4. 1 Joa.21.

Er dy fod ti yn buttain, ni byddaf fi yn odinebwr im Duw; mor ffieidd a charu y cyfriw buttain, mor ffieidd ath wneuthur di yn fwy puteinig rhwydd-dwll o ran dim om trythyllwch i; a thrwy chwanegiad fy nhrygioni neullduol i, i gynyddu dy butteindra: mi a gymeraf ofal (gimaint ac allwyf) na byddwyf gyfrannog oth enogrwydd; eithr byth ni byddaf fi blaenorwr ith rhyfelgarwch; ni fynwn gael moth ddihenydd diweddaf, am hynny y gochelaf dy lwybrau. Yr wyf yn diolch i ti O dduw, am dy yſpryd daionus, yr hwn ſydd im dwyn yngwrthwyneb ffrwd fy llygredigaeth, a gorllanw y byd: (ni allaf fi fyned ond yn nerth yr yſpryd hwnnw yn erbyn y fath lanw a llifeiriant:) mi Attolygaf i ti O Dduw fod i mi barhau fy yrfa na chwympo yn y diwedd i fôr dy ddigoſaint; a phan derfyno y byd o naturiaeth, gael fynghoſbi gyda bydoedd *o bechaduriaid, fyd heb derfyn byth bythoedd. Amen.*

Gwaſanaeth

Gwaſanaeth Ddydd Jau.

Am farwolaeth.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol.
Pſal. 39. 49.	*Pſal.* 90. 23.
Llith	Llith.
Gen. 3. neu 5. *Luc.* 16.	Eccleſ. 12. Rhuf. 5.

Y Colect, ddydd Jau neu weddi ynghylch, neu am farwolaeth.

O *Arglwydd* yr hwn a ordeiniaiſt i bawb farw, *pâr i mi fod fyth yn gofgar om fy ymddattodiad, mal y rhoddwyf lai ſerch ar wagedd y bydhwn, a cheiſio yn chwanoccach ddedwyddwch bywyd gwell: lle nad oes nag Angau, na dirwyon; eithr cael bod fal Angelion* Duw *yn iachus, yn nerthol, ac yn ddedwydd byth bythol.*

O bydded i mi fyw bob rhiw ddydd mal y delwyf ir bywyd hwnnw pan fyddwyf farw: ac o ble-

git fod ar y bywyd gorau arweinir eiſiau peth a
ſer i baratoi at farwolaeth: Oth fawr drugare
(mi attolygaf i ti) cadwfi oddiwrth galon a
harodaidd, a therfyn byrbwyllig. *a hyn er ei fw*
Di ddiſg- *ef, yr hwn a gafas ei hunan echryſder marwolaet*
wyledig. Jeſu Griſt *ein Harglwydd.* Amen.

Yno y gweddiau beunyddol.

Myfyrdod am farwolaeth.

Marw ſydd raid i mi, ac yn ol hynny byw, mewn hyfrydwch neu alaeth, yn dragywydd, ac nid oes vn amſer ar ol hynny i roi heibio y galaeth o chollai yr hyfrydwch: mal, yr wyf yn priſio gan hynny mewn tragywyddoldeb, bydded i mi edrych ar fy mywyd.

Marw ſydd raid i mi, ac heb wybod ym mha le, ai yn Ty, ai yn yn y maes, ai ar dir; ai ar ddwfr; ar wely neu ar fwrdd; ym mhob rhiw fan, am hynny bydded i mi wilied yr amſer.

Marw ſydd raid i mi, eithr nid oes wybod ym mha fodd: Pa vn ai o glwyf naturiol, ai o nerth damweiniol, ai o wendid ai o haint; ai yn nychlyd, ai yn ddiſwtta: ym mob modd gan hynny bydded i mi edrych am farwolaeth.

Marw ſydd raid i mi, eithr nid oes wybod pa amſer: ai lliw nos, ai lliw dydd, hwn, ai dydd arall, y neſaf ai hwn. Yr awr hon neu vn arall. y munud hwn, neu arall, y pryd hwn neu arall. *Borau, canoldydd neu hwyr,* heb amſer gan hynny bid i mi edrych am dani.

A Pha fodd yr edrychir yn well am dani na chwilio allan am y llofrudd, ai farnu i farwolaeth? *O bechod,* a gai di orwedd yn ſy monwes; yr hwn a oſodaiſt holl ddynol ryw yn y bedd? mi ath fynnaf di at y Groes

am

am hynny, ie ac hyn hefyd, rhag i ti chwanegi llofruddiaeth at lofruddiaeth, a lladd fy enaid ar ol fynghorph.

O pa fath awr drift o ymadawiad a fydd honno; os bydd Duw yn gadael yr enaid i fod yn ddammedig, pan fyddo yr enaid yn gadael y corph iw farwolaeth. eu gyd yn llawn o ddychryndod ac yn ddigyffur ollawl, pryd y dylai ef fod yn ddiddanudd pennaf ir corph.

Eithr Cryfder nid oes i ti mo gael marwolaeth tan dy draed, heb Grift yn dy freichiau. Ni elli moi chroefawu hi heb ofn, nes i ti ei gofleidio ef yn dy ffydd. At bwy gan hynny yr edrychaf ond attad ti, O Arglwydd, yr hwn wyt fy Jachawdwr? ac am ba *beth*, ond am fy mhechodau fy vnig ddiniftr? a pha fodd ond trwy edifeirwch, yr vnig ymwared im pechodau? A pha amfer, ond yn fy mywyd yr vnig amfer om edifeirwch? Ar *dydd hwn, ar awr hon, y munud hwn*, yr hwn a ddichon fod yn olaf om heinioes. O Jefu, mal yr wyf yn pechu felly bydded i mi edifarhau beunyddiol: mal pan fyddwyf farw (fal y mae yn rhaid i mi) y gallwyf fyw yn dragywyddol gyd a thi a thrwyddot ti. *Amen. Amen.*

Gwel y neullduol draethawd pen.

Gwaſanaeth ddydd Gwener.

Am y Farn ſydd i ddyfod.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſal. 50. 143.	*Pſa.* 98. 99.
Llith.	Llith.
Dan. 12. *Mat.* 25. neu *Act.* 17.	*Eccleſ.* 11. 2 *Cor.* 5. neu 2 *Theſ.* 1.

Y Colect, neu weddi ddydd Gwener Am y Farn ſy i ddyfod.

Act. 17. 31 O *Arglwydd ollalluog. Yr hwn a benodaiſt ddydd, yn yr hwn y dygi di holl ddynion a phethau eraill i farn: Par i mi broſi fy enaid beunydd o flaen llys fynghydwybod. mal gan fy marnu fy hunan am fy mhechodau, na fyddych di im condemnio yn dy orſeddfaing ofnadwy.*

Ac O Arglwydd, bydded y dydd hwnnw yn fynych yn fy meddyliau, mal y byddo ei ofn ef a thithau byth gar bron fyngolygon; ac mal y cadwer fynghydwybod yn lanach trwy

trwy nerth yr ofn hwnnw. hyn'er mwyn ei drugareddau eſ, yr hwn a ſu yn Brynwr i mi, a fyddyn Farnwr, ac ſydd yn ddadleuwr troſof Jeſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Gweddiau beunyddol.

Myfyrdod am Farn.

O Y mae yn rhaid i mi ymddangos gar bron brawdle yn y Cymylau, gwae fi y pryd hynny os cair fi yn euog; ac yn awr oni ochelaf hob bai ceryddus: os pechaf yn erbyn goleuni fy meddwl, ac yn erbyn grâs Duw mawr, ai ddaioni; Canys yno yr wyf yn droſeddwr ceryddol: os gwnaf fi, yr hyn tan boen marwolaeth y mae Duw yn ei wahardd i mi yn ei gyfraith neſol; Canys bai yn haeddu marwolaeth yw hynny. Am hyn, ar llall, oni farna Duw fi? Pa ham? am hyn y byd am barna am y llall, cydwybod am condemna i, a Duw am yngwaneg; Canys os geill cydwybod fynghyhuddo i yn fwy na r byd, ſe ddichon Duw fynghyhuddo i yn fwy nam cydwybod. Ir byd peth *eglur*, a pheth *dirgel* ydynt, ddau beth, eithr i gydwybod vn ydynt. I ſod, ac iw adnabod, ydynt ddau beth gan gydwybod; ac iw gofio ac i wybod eithr yr hyn a welir gan ragweliad, byth nid yw allan o gof, os gwelir vnwaith. Cuddio haeddiant, neu euogrwydd, y pryd hynny nid gwiw ac ni waſanaetha; iw ollwng ymaith neu iw angofio, nis cyfiawnha. Y mae Duw yn dal ſulw bob mymryn o amgylch, fillaf, neu feddylfryd ac yn argraphu i lawr pobrhiw weithred, meddwl, neu Air, pa beth bynnag a *ddywedwyf*, a *feddyliwyf*, neu a *wnelwyf*, er dirgeled cuddiediged a fyddo.

2 Cor. 5: 10.
1 Theſ. 4. 17.
Dad. 6. 16.
Joa. 12. 48
Heb. 10. 26, 27.
Rhuf. 1. 29
Gal. 5. 19.
I ddiſdewi

Nid oes vn ffordd i ſod yn gadwedig, ond i geiſio pardwn cyn y Farn. na dim i atteb am hynny, ond gwaed Criſt: nag vn cyfryngwr ond Jeſu: Na thaledigaeth ir cyfryngwr hwnnw ond fy nagrau. nid fy

mhwrs ond ſynghalon, ſydd raid iddi waedu i erfyn ei drugaredd ef, ac yno ef a wna ſy heddwch am cymmod; edifeirwch ai oglyd ar ei haeddedigaeth, ai gyfyngdod ei hunan, ni fetha byth gael Pardwn, oblegit ni fetha ef byth yn ei addewid. Y Seſſiwnau neulldual hynny arnaf ſy hûn, aragflaena ei Seſſiwnau cyffredinol ef; ſym mhenyd yw ei ddial ef.

Na ceda dy Bardwn, rhag cael dy farn o'i flaen ef. Act. 3. 19. na ſydd iw geiſio, pan ddylit ti fod iw ddangos: i Heb. 9. 27. dynnu dy achwyn, pan fyddo dy ddihenydd yn dechreu. Ac na teddwl a hanner edifeirwch, gael Pardwn cyfan. Edifeirwch am bechod heb well hâd, nid yw ond hanner: A marwolaeth yw dy ddydd farn bychan; (nid oes mor gwellhau yn ol hynny.)

O Arglwydd, Bydded i mi fy euog farnu fy hunan, mal y byddwyf yn ddiangol oddiwrth dy farn di: yn gondemnedig yn ſynghydwybod, nid trwy ymdrech nerth, neu ynfydrwydd or camwedd, eithr trwy ewy- 1 Cor. 11. llyſcar lân *edifeiriol ſyneddiad.* gâd ith lan-raglaw ſy 31. marnu ſelly, mal na byddych di yn *condemnio*, bydded i mi gwympo gar fy mron fy hûn, mal y gallwyf ſefyll gar bron dy frawdle di O Criſt. Dy Bardwn di am cyfyd o'r cyfriw gwymp, ac yn y nerth hwnnw o râs, a thrugaredd, och flaen di y ſafaf. Rhag cael fy mwrw gan dy enau cyniſed ac vffern, rhag cwympo oddiwrth dy frawdle ir pwll heb waelod, ar carchar eithaf, gwiria di fy enaid, Gwared fi Jachawdwr anwyl, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

Y chwaneg o hyn, gwel y neull-duol draethawd. pen.

Gwaſanaeth Ddydd Sadwrn.

Am boenau vffern.

Boreuol Weddi *Pſa.* 11. 2.	Prydnawnol Weddi. *Pſa.* 9.
Llith. *Eſay* 66. *Luc.* 16. neu *Mar.* 9. *Mat.* 24.	Llith. *Deut.* 32. neu *Eſa.* 30. *Jude* 2. 2 *Pet.* 2.

Y Colect Ddydd Satwrn neu weddi rhag poenau vffern.

O *Fawrhydi ofnadwy, yr hwn ſydd i't, ar ddaear yn* droedſaingc *ac vffern yn Garchar: oth trugaredd madden i mi yr haeddiant, yr hwn*

yn

yn oldy gyfiawnder am dygai ir carchar echryſlon hwnw.

Arglwydd, gad i mi feddwl yn fynych am vffern, mal nad elwyf fyth iddi. a bid i mi yn ddifrifol fyfyrrio ar y tân aniffoddadwy hwnnw, mal y gallwyf yn ofalus ei ochelyd ef, a phechod, y tanwydd ar ffordd iddo.

O Na Chynwys mo honof i brynu pechod mor ddrud ar y ddauar, a cholli nef oi blegit, a dioddef yn vffern yn dragywydd am dano. Jachawdwr anwyl, yr hwn a orfoleddaiſt arno ef, ymddiffyn fi oddiwrtho, trwy haeddedigaethau dy waed ath ddioddefaint gwyrthfawr, O Arglwydd. Amen.

Yno gweddiau bennyddol.

Myfyrdod am vffern.

Luc. 16. 30 NAg e os â vn oddiwrth y meirw attynt; *hwy â ediſarhant!* Nag ê oni bydd Pregerhwr yn y Pwlpud ni ddaw yr vn or bedd, yn enwedig mewn pwngc or cyfriw grediniaeth gyffredinol, ſydd iddi nid yn vnig Eclwys lawn, ond byd llawn o Bregethwyr. Pwngc or fath eglur olaurwymedig deſtiolaeth, ſydd yn denu yr rhai oedd fwyaf anghredadwy iddo, yn brophwydi o hono. Pa beth arall y mae r dynion didduw ac Epicuriaid ai hawl hwynt yn ei bregethu? Oni chlywant hwy hyn ym mhwlpud eu dwyfronnau, yr rhai ni ffrifiant mewn Eclwys? y dychryn yn eu bywyd, ai hoſn wrth farw, ond ffaglau ydynt or tan tragywyddol, yr hwn a fynnent eu ddiffoddyd? Prophwydoliaethau or peth ni fynnent ei gael,

el, ſef vffern? yr hon, o herwydd bod eu haeddiant yn eu barnu hwynt iddi, am hynny ni fynnant, yn hytrach nag ni allant gredu? *oth fewn di, neu oddiallan, mewn dwyfron neu* lyfr, *Talmud, Alchoran, Bibl*, Eclwys neu fyd, Ti ddyn Euog; y mae vffern itti. Am hynny y mae dy *boenedigaeth* yn dy fywyd, pan fyddo caledi yn gofod euogrwydd ar waith, ac vffern yn ymddangos oth fewn; a dychryndod ym marwolaeth, pryd yr ymddangoſo hi i ti.

Nid rhyfedd: Canys (os tra Chredadwy yw) beth fydd fwy echryſlon? Os llys Duw yw r lle gorau ſef: (y nefoedd) ei garchar yw y lle gwaethaf ſef: vffern. Os yw llawenydd y naill tu hwnt i bob dealltwriaeth, y mae poenau y llall vwchlaw ein amgyffred ni. ymreſymiad a ddichon eu gwneuthur yn fawr, profiad a wnaiff ychydig o hynny. Meddyliau pruddion am hyn ydynt dda bod yn meddwl am vffern ydyw y llwybr i gadw yr enaid allan. A chymer feddylfryd am dani, canys os ai vn waith i mewn, nid oes mor dyfod allan. O Epicur glwth, celfyddyd yr hwn yw rhoi pobrhiw feddwl o vffern oddiwrthit, o hynny y mae yn *neſach* ac yn drymach i ti. Pan fyddo y corph (yr wyt iw ſechi) yn marw i borthi pryfed; ath enaid yr hwn a fynnit ti ei gladdu gyd ag ef, yn fyw i wledda cythreuliaid; hynny a wna i ti arſwydo golwg ar farwolaeth megis vffern, a meddwl am dani megis am ddiofliaid, o herwydd bod diofliaid, ac vffern, yr hyn yr wyt ti yn ei wadu, eithr yn ei ofni: nid oes neb a mwy dychryndod iddo am danynt na thydi, yr hwn a ddywedi nad oes i ti mor cyfriw ffydd.

Gwcl ychwaneg, Neullduol draethawd pen.

Mal hyn y terfyna, y ſaith waſanaeth ir wythnos gyntaf,

Saith waſanaeth ir ail withnos.

Gwaſanaeth ddyd Sûl.

Yn erbyn eſceuluſo Gwaſanaeth Duw:

Boreuol Weddi. *Pſal.* 5. 27. 42.	Prydnawnol Weddi. *Pſa.* 95. 122.
Llith. *Gen.* 28. neu *Jer.* 17. hyd adn. 17. *Mat.* 11.	Llith. *Eccleſ.* 5. 1 *Cor.* 11. neu *Heb.* 6.

Y Colect. neu gaſgliad yn weddi yn erbyn eſcenluſo gwaſanaeth Duw.

OArglwydd ti addunedaiſt le ac amſer ith Addoliad, *A ſanctei iddrwydd a berthyn ith* dy *di yn draywydd.*

Par i mi fyth fod yn ofalus i dalu i ti y pryd ar lle, y lyledion cyſaddas i Grefydd, yr rhai a ddylwn i ti. ,an wilio yn barchedig ar dy Fawrhydi ym mhlith dy weiſion

weiſion, yn dy lys ath noddfa : bydded i mi ſod yn ddiwyd yn dy waſanaeth, ac yn anrhydeddgar iddo. Mal y gallwyf (megis dy Seinctiau ath Angelion yn y neſoedd) dy waſanaethu yn ddibaid, gyd ath Seinctiau ar y ddauar. yn gyfannedd dy addoli di, nes y delom oll ynghyd ith clodfori yn dragywydd: a hynny er ei ſwyn ef, bwyd a diod yr hwn ydoedd dy waſanaethu di, *Jeſu Griſt* ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddiau beunyddol

Ymwared yn erbyn eſceuluſo gwaſanaeth Duw.

1. NI chais Duw vn amſer in gwaredu ni, oni cheiſiwn i vn dydd iw waſanaethu ef. Pſa.2. 11.
2. Ydym ni yn cael chwech yn yr wythnos, ac oni chaiff Duw vn dydd? 12 Act.26.20
3. Addoliad cyhoeddus yw colofn creſydd, ac vchel waſanaeth yr holl alluog Dduw. Exod.20: 9.
4. Os cymer pob vn ei *garreg* ymaith, ni a dynnwn ilawr y golofn i anrheithio a diniſtrio Creſydd Gen.4.26. Galat.2.6.
5. Yn yr Ecclwys yr ydym ni o flaen wyneb Duw, gyſtal ac wyneb dyn. Pſa.95.6.
6. Y mae yn wradwydd i ddyn ac yn ddirmyg i dduw, ſod yn ddianrhydeddgar yn yr Eclwys; i teiddio gwatwor Duw o flaen ei wyneb. 1 Cor. 11. 22. Eccleſ.5.
7. Y gyffelybiaeth neſaf ir Seinctiàu gyda Duw yn y neſoedd, ydyw cynylleidſa greſyddol yn addoli Duw ar y ddauar. 1:2. Dad 4. 10 Gen.28.17
8. Ni allwn ni wneuthur dim well na myned ir neſoedd, na dim gwaeth na gwneuthur dim yn ddrwg, neu yn anweddaidd ynddi. Jude adu. 6.
9. Cam-ymwareddiad y cythrael yn y nef ai tafledd ef i vffern. *Riſus in eccleſia diaboli*
10. Yr hwn a chwarddo yn yr Eclwys, a ogleiſir gan y Cythrael. *opus eſt.*

Gwaſa-

Gwaſanaeth Ddydd llun.

Yn erbyn oedi yr amſer.

Boreuol Weddi. *Pſal.* 95. 7.	Prydnawnol Weddi. *Pſa.* 4. 90.
Llith.	Llith.
Diha. 1. *Mat.* 25. hyd 14. neu 24 hyd 36. neu *Act.* 24.	*Eccleſ.* 8. *Dad.* 21.

Gweddi yn erbyn oediad.

ARglwydd cadw ſi rhag oedi Janctaidd ac angenrheidiol ddyledion. Gwna i mi yſtyried pa niferoedd ydynt yn awr yn trengu yn vffern, am eſceuluſo yr amſeroedd ith ymweliad graſuſol di ar y ddauar. Mal tra byddo yſpryd gras a bywyd yn anadlu chwthu arnaf, y gallwyf wellhau yr anadl hwnnw i bwrcaſu a pharatoi im fy hunan eſtât ym mywyd y gogoniant ac anfarwoldeb. Er ei fwyn ef, yr hwn ni eedodd amſer i dy-
Luc. 12. 50 wallt ei waed im gwaredu i, Jeſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Rhwymedi

Rhwymedi yn erbyn oedi neu ſwrw heibio.

1. YMae yn *anheilwng* gennit Dduw y mae ef yn galw heddyw, a thithau a ddeui y foru? y Cythrael yn cael *blodau* yr einioes a Duw y *gwehilion*? Diha. 25. 1. Jac. 4. 13.

2. Nid yw ddiogel i ddyn, anturio am enaid anfarwol, ar ddau ſiccrrwydd mawr i ddyſod; gan fod i mi anadl ac yſpryd Duw: Os metha yr vn o honynt, colledig wyf yn dragywydd. Ac fo wyr Duw, aneirif eneidiau a gollir mal hyn yma. Joa. 3. 8. *Cæſarius Innumerabiles animæ ſic periere.*

3. Y mae yn anoeth. Y mae Tŷ fy enaid wedi oſod ar dân gan euogrwydd heddiw, ac ef ai diffodd ef y foru, yr wyf yn cwympo mewn pwll pechod yr wythnos hon, ac a gyfodaf y neſaf? Levit. 2. 12. 2 Tim. 2. 26.

4. Y mae yn *anghyſſurus:* Canys pa hwyaf yr ymgadwaf fi oddiwrth Dduw. Dih. 5 22. Jer. 12. 13

1. Mwyaf amheuus yw *derbyniad* Duw. Canys am flaenffrwyth ar cyntafanedig y mae ef. St. *Bernard.*

2. Y mae *cyflawniad* dyn, yn anhawſach: O herwydd y mae rhwyſg a gallu mwy i Satan arnaf fi, a phechod ynof fi, trwy nerth defod ac arfer, gorchfygu yr hyn ſydd wrthiau rhyfeddol. Eſa. 1. 16. 2 Pet. 2. 20.

3. Y mae taſg fwy i *edifeirwch:* mwy o frychau iw golchi, o glymau iw rhyddhau, mwy o wreiddiau iw palu, o elynion iw lladd. Pechod mewn amſer, o bleſtyn a gynydda yn Gawr oi nerth, a Trhachwant a gladd mal pyſgodyn mewn rhiſedi. Jer. 4. 5. 1 Pet. 2. 12

Os yw ef yn awr yn ddeg o gryſder, y flwyddyn neſaf ef fydd yn gant, ar flwyddyn neſaf yn fil, &c. 2 Cor. 7. 8, 9.

4. Y ffrwyth gorau o bechod yw edifeirwch, ar cwbl araall yw Cywilydd a marwolaeth. Rhuf. 6. 21

5. Y mae yn *anfuddiol* yn y fan orau. Canys pa leiaf 23
o hâd lleiaf oll y cynhauaf. Pa leiaf o ddaioni, lleiaf 2 Cor. 9. 6
o ogoniant, a pha fwyaf o amſeroedd Gwanwyn a Rhy 2. 7.
gollwyf, mwyaf amſeroedd hâd o ddaioni a gollaf, Gal. 6. 8.
felly mi fedaf lai cyſur am a aeth heibio, ac o obrwy am Eſa. 38. 3.
ſydd i ddyfod. Gwaſa- Luc. 19. 16

Gwaſanaeth ddydd Mawrth.

Yn erbyn rhyfyg.

Boreuol Weddi. *Pſal.* 7. 19.	Prydnawnol Weddi. *Pſal.* 68.
Llith. *Deut.* 29. neu *Leuit.* 26. *Mat.* 24:	Llith. *Eccleſ.* 8. 1 *Theſ.* 5.

Y Colect neu weddi yn erbyn Rhyfyg.

CAdw ſi O Arglwydd rhag dioſalwch cnawdol, o chwympaf i fewn pechod, na ad i mi orwedd ynddo, allan o ryfyg ith trugaredd di, eithr deffro di fi i edifeirwch, a chyfyd fi yn dy ddaioui.

A chan nad yw edifeirwch yn fyngallu i, gwna fi yn ofnus i gwympo mewn pechod mewn gobaith oth râs ath drugaredd, ac yn fwy arſwydus i aros ynddo os cwympaf, rhag i mi gyſgu heb ofn, nes i ryw farn ddiſymmwth fy neffroi, a rhoi om blaen echryſder y farwolaeth dragywyddol.

Rhag *marwgwſg* mewn pechod, O tydi Phyſygwr ſanctaidd yr eneidiau gwared fi yr awrhon ac yn dragywydd

gywydd Jachawdwr anwyl mi attolygaf i ũ *Amen.*

Gweddiau Beunyddol.

Rhwymedi yn erbyn Rhyfyg.

1. GWaith y cythrael yn ſûo i beri cyſgû amſer Jechydwriaeth mal y gwnaeth y pumb morwynion ffolion. Mat. 29. 7.

2. Priflwybr y Cythrael yw anobaith. Diha. 1. 28

3. Ni ſugna neb ond yſpryd gwenwynig nerth pechod allan o flodau trugaredd. Ecl. 9. 11.

4. Gwneuthur *Amrafaelion* rhwng priodoliaethau Duw, iw rhoddi dirmyg ar ei gyfiawnder mewn hyder o drugaredd. Iſa. 1: 2. Rhuf. 2. 4.

5. Hynny yw gadael yr enaid or diwedd heb ddim gobaith nag ymadferth na Seintwar; Canys ni eill euog ffo at Gyfyiawnder briwedig na chael noddfa arall ond trugaredd cam driniawl. Gen. 3. 10. Rhnf. 2. 4:

6. Seinctiau gorau Duw a fuont wyr ofnog, ac a fydd pechaduriaid yn wyr rhyfygus? gwel hyn yn *Job*, *David*, *Paul*, ac eraill. Job 9. 28. Eſa. 119: 20

7. Yr wyf yn rhyfygu o beth nid yw yn fy eiddof fi, ond yn eiddo Duw; bywyd a Grâs, heb bob vn or rheini fe ddarfu am danaf yn dragywydd, ac etto yr wyf yn digio Duw heb drugaredd yr hwn ni allaf gael yr vn. 1 Cor. 9. 27 Jac. 4. 14. 2 Tim. 2 25

8. Pwy a rydd friw marwol iw ben mewn gobaith i gael meddyginiaeth odiaethol? etto mi roddaf im henaid rai briwiau mewn gobaith o rwymedi a chywair anhygoel. Eph. 2. 5 Rhuf. 2. 5 Eſa. 1. 6 Jer. 51. 8, 9

Gwaſanaeth ddydd Mercher.

Yn erbyn Anobaith.

Borebol Weddi. *Pſal.* 103. 44.	Prydnawnol Weddi. *Pſa.* 130. 147.
Llith. *Jer.* 3. neu *Mic.* 7. *Luc.* 7,	Llith. 2 *Croni.* 33. 1 *Tim.* 1.

1. *Gweddi yn erbyn Anobaith.*

ARglwydd cadw fi rhag anobeithio dy drugaredd: na âd i mi geiſio ar vnwaith ddiniſtrio fy enaid, am Jachawdwr, gan gredu fod fym mhechodau mor fawrion ac ni eill dy drugaredd di eu pardynu; *neu fynghydwybod i cyn frynted, mal na allo ei waed ef eu lanhau. Ymddiffyn fi rhag pob pechodau O Arglwydd, either oddiwrth hwn yn enwedig mi attolygaf i ti, er ei fwyn ef, yr hwn yw gobaith Iſrael,* ac or holl rai a breſwyliant yn nherfynau y ddaear, *Jeſu Criſt ein Harglwydd.* Amen.

2. *Ail*

2. Ail *weddi yn erbyn Anobaith.*

O *Arglwydd myfi a fum yn droſeddwr mawr, eithr na ad i mi fod yn bechadur dibris anobeithiol, mi anogais lygaid dy ogoniant yn draan wireddus, eithr na âd i mi yn fwy melldigedig dywallt ymwaſgaroedd dy drugareddau: mi deflais dy gyfraith tu hwnt im ceſn, eithr o na âd i mi ſathru dy waed tan fyn nhraed.*

Yr wyt yn cadw porth dy drugaredd yn egored, na âd i mi ei chau arnaf. ni fwriaiſt ti etto mo honof i fewn, cadw fi rhag neidio i bwll diniſtr, er i gamweddau ac anafau yngwneuthur cyn ddued ac ellyll, etto nid wyf yn vffern, or hon nid oes ymwared. Iachawdwr Anwyl, gydath di y mae trugaredd a chyfiawnder, ir holl fyd o bechaduriaid; mwy o lawer i vn, er ei fod yn fwyaf pechadur or byd. Ail fywhâ yr enaid hwnnw ath Râs, yr hwn a brynaiſt ath waed. Rhyddhâ yr enaid hwnnw ath trugaredd am yr hwn y gwnaethoſt fodlonrhwydd yn dy gyfiownder. golch ymaith fy mryntni, tor ymaith fy rhwymau, tyn ymaith gadwynau Satan, Gwared fi rhag fy mhechodau. maly gallwyf fyw yn eſampl oth trugaredd, yn gyſſur i Edifeiriaid truain, yn llawenydd i Angelion, yn gefaill i Seinctiau, yn was ith Fawrhydi, felly y byddo Iachawdwr Anwyl. Amen, Amen.

Pſa. 130: 4. 7. 1 Joa. 22:

LETANI.

Gweddiau Beunyddiol.

Rhwymedi ac ymwared yn erbyn Anobaith.

Eccleſ 9.4 PEchod vffern. Ir meirw ar damnedig, nid addas
Pſa.42. 11 ir rhai a fyddant ſyw ar y ddaear, yr rhai a allant
Jer.18. 12. fod mewn cyflwr o ddamnedigaeth, eithr heb eu con-
Jude 13. demnio heb obaith i fod yn gadwedig: yno ni adawai
23. St. *Hierom* y barnwr vddynt fyw.
Mic.7. 18. 2. Pechod yn *erbyn y nefoedd*, nid traeturiaeth yn er-
Rhuf.5. 9. byn Duw, eithr *llofruddiaeth* o'r Dawdab. Yn yr
Heb.9.13. hwn y pechodd *Judas* fwy, nag yn ei fradwriaeth.
14 3. Y pechod ar y ddaear eill gael *meddyginiaeth* ddwy
1 Pet.1.19 ffordd; wrth yſtyriaeth a gochelyd.
1 Joa. 1. 1. Yſtyria.
7.2 Os byd o bechod a fydd i mi im damnio, y mae gan
9Eſa.i. 16. Dduw fôr o drugaredd iw foddi ef.
Act.2. 39. Ni eill na budreddi nag enogrwydd wneuthur ſy
Pſa.5.1. enaid mor *wael*, na wna gwaed Criſt ef yn fwy gwerth-
Pſa.32.5. fawr.
2 Sam. 12. Meddyginiaeth edifeirwch trwy nerth trugaredd, a
13 rhinwedd y gwaed hwnnw, a iachadd dra ddamnedig
Mat. 16. anobeithiol bechodau a phechaduriaid. Dauid, Petr,
75 Magdalen, Paul ac eraiil.
2 Cron.33. 2. Gochel ym mhlaen y pechod mynweſig.
12 1. O hyſyg. or dibyn hyn o gau obaith, y digwydd
Luc.8.2 yn fynych y codymmau ofnadwy tynghedol i ano-
Luc.7.37. baith:
47 2. Pan Demptir di i anobaith, mogel gadw yn ddir-
1 Tim.1. gel yr ymdrech: Canys gwae fi, pryd y byddwyf fy
13 hûn ar Cythrael yn elyn i mi, oni bydd i mi yn dyn i

Dduw

Dduw im cynorthwy. Angan diſymmwth, a therſyn byrrbwyllig a iachauſit â r cyffriw *Gyffeſiadau.*

Y Gwaſanaeth ddydd Jau.

Yn erbyn Tyngu a chymeryd enw Duw yn ofer.

Boreuol Weddi. *Pſal.* 15. 99.	Prydnawnol Weddi. *Pſa.* 50. 111.
Llithoedd.	Llithoedd.
Zachari 5. neu *Mal:*3. *Mat.*5. ver. 33.	*Eccleſ.* 9. *Jac.* 5

Colect neu weddi yn erbyn tyngu a chymeryd enw Duw *yn ofer.*

O *Arglwydd* Sanctaidd ac ardderchawg yw dy enw di. *Na âd i mi feiddio ei halogi ef. Am hynny Angelion ath ofna ac ath addola di, ac a ddirmygaſ fi dydi? ti a fyni di gyfrif o bob gair ofer; os dy enwau parchedig a amherchir, ac a* ſethrir *yn fy niſyrrwch ofergoeg, ac a gamarferir* Exod. 20. 7

Fethrir. *gamarſerir i lenwi fy ymadroddion ſegur, pa ſodd yr Attebaf i ti? Cadw fyn nbafod oddiwrth y cyfriw* arferion, *O Arglwydd a bydded gofali wiliо fyngwefuſau, na chaffwyf mor faith dafod, a bydded dy ofn di yn wiliadwraeth im calon, mal na byddo mor cyfriw eiriau yn tarddu oddiyno im gwefuſau. Yr hyn a aeth heibio maddeu, mi ai attolygaf i ti oth drugaredd; yr hyn ſydd i ddyfod, rhagflaena ynof trwy dy râs, Er mwyn Jeſu.* Amen.

Gweddiau beunyddol.

Rhwymedi neu ſwyn gyfaredd yn erbyn Tyngu, a chymeryd enw Duw *yn ofer.*

1. YMae drygioni mawr yn y pechod yma.

1. Yn erbyn y Creawdwr, Duw yw hwnnw. Cabledd bychan or lleiaf: ſe rhoddai yr Juddewon eu byſedd yn eu cluſtiau rhag ei glywed: ac a feiddia Criſtianogion egoryd eu geneuau yn ei blaid ef?

Act. 7. 55. 2 Bren. 19. 22. Pſal. 55. 8. 1 Cor. 6. 15

2. Traturiaeth bychan derchafu y rafod yn erbyn y Mawrhydi dwywawl, ei archolli ef, ai ddwyn mewn dirmyg.

3. Aniolchgarwch tramawr i Dduw. im Tafod i, yr hwn a wnaethbwyd iw glodfori ef, wneuthur ammharch iddo. A henwau ac aelodau Criſt iw gwneuthur yn offerau o bechod.

2. Yn erbyn y Creadur.

Pſal. 19. 1. Gwrthryfel creulon. Dyn, tafod y creaduriaid i foli Duw, yn eu gwneuthur hwynt yn fudion i ddatcan ei ogoniant ef, ac yn euog oi eſceuluſo ai ddirmygu ef, ac ef ei hun yn waeth na hwynt oll.

2. Y

2. Y mae perigl mawr mewn tyngu. Y gyfraith a ddywaid. Canys nid yw yn ddieuog yr Eſengyl a ddywaid. fod y tyngwr yn euog o farnedigaeth. Ex. 20. 7.

3. Nid oes budd mawl na difyrrwch ynddo, gwirbur bechod heb gynwrf iw eſcuſodi.

4. Defod ac arfer ai geſyd yn ddi-yſgog: mal y baeddia vn geiſio a chadw y cyflwr neu r *ymwiſgiad* hwnnw yn erbyn y nefoedd.

5. Mi allaf, arfer moddau i golli, gyſtal ac i gadw y ddefod yma. A cherrig y darfu i *Socrates* iachau ei ymadrodd drwg.

1. Am enwau Duw. O Arglwydd, Jeſu Griſt. arfer eiriau eraill, O Aruthrol, Anaml, oh fi, &c. a chyſtal ſynwyr a llai pechod.

2. Coſpa dy lithriadau. brath dy dafod. dyro eluſeni. dywaid weddi yr Arglwydd yn ol pobrhiw lithriad.

Gwaſanaeth ddydd Gwener.

Yn erbyn Celwydd.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſal. 34. 52. 63.	*Pſa.* 59. 101.
Llith.	Llith.
Dihar. 6. neu y 12.	*Jer.* 9. *Col.* 3. neu *Ephe.* 4
Joa. 8. adn 44.	*Dad.* 22.

Colect neu weddi yn erbyn celwydd.

O Dduw yr Gwirionedd, cadw fi rhag gwefus i adrodd celwydd, gan fod y Cythrael yn yſpryd celwyddog, na âd im genau i fod yn ſeddiannol o hono. gan wybod mai ef yw r tad, na âd i mi fod yn blentyn i gaudeb neu gelwydd. pâr im calon ddeall perthau yn vnion, a bydded im tafod ddwyn allan yn vnion, yr hyn a ddeallodd fynghalon. Na chynwys i mi er hudoliaeth vnrhiw drachwant, ollwng fyn nhafod allan i waſanaethu twrn Satan. yn ymroi i falais, gan ddwedyd celwydd i wneutbur drygioni, neu yn ddad-

leuwr

leuwr i gyſeillach, gan ddwedyd celwydd i wneuthur daioni neu i eſcuſodi cywilydd y drygioni. na âd i mi gyfleidio drwg i wneuthur daioni, llai o lawer chwanogi pechod at pechod, gair at weithred, ar vnrhiw achos, yn enwedig ar achos ſechan na fydded fy meddwl i am tafod yn yr vn cawell ar cyfriew ſeiau. Gwrthuni i Griſtion, ac i ymwareddiad dynol. Haint yn gyſtal ir Eclwys ac i *ddynol ryw*. Ac mal y gallwyf ffleiddio celwydd gwna i mi garu gwirionedd a chyfiawnder, Je er ei ſwyn ef, yngenau yr hwn ni chaed dim twyll. Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.* Rhuf. 3 8.

Gweddiau beunyddol.

Ymwared yn erbyn celwydd.
Yſtyried.

1. Y Cythrael yn gyntaf, ai llefarodd, a byth er hynny a ddyſcodd yr *iaith* hon. Joa. 8 4.

2. Marwolaeth dynol ryw, a dynwyd yn gyntaf oddiwrth yr anadl hwnnw ir Sarph. 1 Bren. 22 22

3. Ymadrodd a escor ar gelwydd, a feichiogodd mewn godineb. Gen. 3. 4

4. Pryd y byddwyf yn caru celwydd, yr wyf yn yſgar fy enaid oddiwrth wirionedd, merch Duw, ac yn ei briodi ef a gaudeb neu *ffalſter*, merch diafol. Dad. 21. 8

5. Cynhyſgaeth merch diawl yw damnedigaeth, felly y mae i gelwydd, pechod o'r awyr, eithr yn diwedd yn tân. Eph. 4 24

6. Criſtion a chelwyddwr, anghenſil yw. dyn newydd, a thafod hên. Tafod diafol ym mhen Criſtion.

7. Ail i *Luſifer* yw dyn celwyddog Y mae ef yn rhoddi *bodiad* i'r hyn nid oes iddo ddim, ac felly yn ei gyſtadlu ei hun a Duw, yr hwn yn vnig a ddichon ac a wnaf.

8. Y

8. Y Chriſtianogion cynfydedig a gymerent farwolaeth yn hytrach na dywedyd celwydd. gan ddewis yn hytrach golli en bywyd na bod y cyſriw frychewyn ar y cydwybod.

Yr yſtyriaethau hyn a ddichon wneuthur i ni ei ffieiddia ef ai adael.

Gen. 18. 12 1. *Na wna ddim gwrthun, i gywilyddio oi achos, ac nid rhaid mor dywedyd celwydd iw ddarnguddio.*

Jer. 6. 3. 1 Bren. 14 2. 16 2. *Oni wêl golwg dynion, Duw a wêl y gwirionedd or cwbl bethau.*

Pentyrru. Pechodau beehod. 3. *Yma y mae r guddwiſc yn wrthunach nar wyneb (onid yw wrthun iawn) or lleiaf y mae yr wyneb yn wrthunach ir wiſc hagrlaw.*

1 Cor. 4. 5 Eſa. 28. 15 Eſa. 59. 4. 4. *Amſer a ddaw, y goleua r Arglwydd ddirgelion y tywyllwch, ac y tynnir Maſcau oddiar wynebau, a pha ddaioni a fydd y pryd hynny yn noddfa y Celwyddau.*

Y Gwa-

Y Gwaſanaeth Ddydd Satwrn.

Yn erbyn enllib, neu Athrod a chablu.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſal. 10.15.50.	*Pſa.* 64.101.140.
Llith.	Llith.
Jer. 9 neu Ieuir. 19. ad 11.	*Jer.* 9. *Jac.* 4. neu 1 *Pet.* 2. hyd ad 21. 1 *Pet.* 3. hyd ad 14.

Gweddi yn erbyn drwg-enllib.

O Arglwydd. Gan fod yr enllibiwr yn Gythrael, na âd i mi fod yn vn. na âd i mi lawenychu yn gwrando enllib neu ddrwg abſen, rhag iddo eiſtedd yn fynghluſt, na âd i mi ei ddatcan, rhag iddo rodio ar fyn nhafod, eithr vwchlaw r cwbl oll, na ad i mi ei ddychymyg, rhag iddo ef orwedd yn fynghalon. Na âd im Cluſt, tafod, a chalon, fod yn gadair, ty, a gwely ir Cythrael. Bydded dy yſpryd glân o gariad im meddiannu i yn ollawl, mal na chaffo ef vn rhan ynof fi. Ti a fynnit gael fynghalon i fod yn deml i ti, am gwefuſau yn ddorau, na âd i mi wneuthur dy deml yn ainion

ainion i luniaw, ath ddorau yn Siop i faſnach ei fudreddi ef. Rhag yn dy gyfiawnder itti roddi i mi fyng hyfran gyd ag athrodwyr, a melldithwyr, a chableddwyr, yn ei bair tanllyd ef.

Mal y ffieiddiaf fi lofruddio fynhymydog yn ei fywyd, felly gwna i mi ofni diniſtrio ei enw da ai gymeriad: rhag i mi anafu wrth hynny, a lladd ar vnwaith ei eirda ef am Cydwybod innau. Cadw gleddyf athrodiaith allan om genau, mi attolygaf i ti, na laddwyf mom cymydog goganawl a myfi fy hunan: a briwo cyniſer ac a *glywo* ac a *goelio* i mi, Rhag Cymeryd neu roddi y cyfriw friwiau Arglwydd, bydd darian i mi, ac achub fi, er ei fwyn ef, yr hwn er ei ddifenwi ni ddifenwodd dracheſn: *Jeſu Griſt* ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddiau Beunyddol.

Meddyginiaeth yn erbyn enllib.

Eph. 4. 27 Diafol neu enllibwr vn ydynt.

1. Y mae yn gwneuthur geneu du, a ninnau i boeri inc yn wyneb ein brawd, neu dân, mal Cythrealiaid.

2. Mor waedlyd ac mor ddu llofruddiaith o beth mwy gwerthfawr na bywyd, geirda vn arall a lladd fynghydwybod.

3. Mor ffieidd ac mor waedlyd. I Dduw ac i ddyn, yr enllibwr goganwr, yn llefain allan am ei oganu ef, ac yn hynny yn ei gondemnio ei hûn, am ei fod yn ddyn brwnt gan ei fod yn oganwr.

Zach. 2. 8 Pſa. 105. 9 1 Tim. 5. 19 1 Tim. 3. 7

4. Briwo enw da dyn, peth traffieidd yw, taflu budreddi yngolwg Duw, gan ei fod ef yn ſanctaidd i Ddûw, math ar gyſſegr-yſpeiliad yw hyn.

5. I friwo *dyn i dduw*, felly, ſydd waeth etto. lladd y mae cynifer o eneidiau ac a goelio ir enllibwyr. Y mae

mae ei weinidogaeth yn gorwedd yn waedlyd, os derbyn ef friw yn ei Gredyd, neu ei ymwareddiad. 1 Sam. 3. 17

Tri chadernid ſydd angenrhaid i ymddiffyn yr enaid, rhag y pechod hwn.

1. *Yn y gluſt iw gadw ef allan, o'r tafod. i ſodyn ſyddar i anair, ydyw y ffordd naturiol i ſod yn ſud idde.*

2. *Yny llygad, iw gadw ef allan or gluſt. ni ddaw goganair lle byddo* digofaint *iw groeſawu.* Pſa. 15. 3 Dih. 25. 23

3. *Yn y galon. iw gadw ef allan or cwbl oll. Prif gadernid y cwbl.*

1. *Mewn*, doethineb. *nid coelio chwedlau diffaeth.*

2. *Nid iw dychymyg hwynt.*

3. *Cariad perffaith. Os gwir, ei gelu, nid iw llefaru: gan fwrw fod bywyd yn arall, mal y pren gwaharddedig, yr hwn nidyw fyn nhafod i iw gyfwrdd.*

Felly terfyna y Saith waſanaeth ir ail wythnos.

Saith

Saith wasanaeth yn erbyn Saith arall a elwir yn gyffredin pechodau marwol.

Gwasanaeth Ddydd Sul.

Yn erbyn Seguryd.

Boreuol Weddi. *Psal.* 104.	Prydnawnol. Weddi. *Psal.* 147. 128.
Llithoedd.	Llithoedd.
Gen. 2. *Exod.* 16. 48. *Mat.* 20. hyd 27.	*Dih.* 6. 2 *Thes.* 3. neu 2 *Tim.* 5.

Cotect, neu weddi yn erbyn seguryd.

O Arglwydd. Ti a wnaethoſt yr holl bethau i ryw ddeunydd, a dyn vwchlaw oll i ymarfer a phethau ſanctaidd a chanmoladwy. Cadw fi rhag y mawrddrwg o fywyd ſegurllyd. Na âd i mi draelio fy nyddiau gwerthſawr yn ofer, eithr eu goſod ar wellhâd yn y cyfriw

cyſriw *orchwylion* a fyddo cyſaddas im galwedigaeth, buddiol i eraill, ond vwchlaw oll, cymheſur ith waſanaeth di, a thueddawl at ſy iechydwriaeth dragywyddawl innau.

O Gâd i mi waredu yr hyn a gollodd om hamſer, a thraelio y rhan ſydd yn ol or treſawr gwerthſawr hwnnw ir deunydd y rhoddaiſt fi i ſyw yn y byd. ſef i ynnill i mi ſy hunan ddedwyddwch yn y byd a ddaw: trwy ei haeddedigaethau ef. Bywyd yr hwn oedd laſur beunyddol; i wneuthur oll ddaioni i ddynol ryw, Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddiau beunyddol.

Rhwymedi yn erbyn Seguryd.

YN erbyn holl ſeguryd: Yſtyrriwch:

1. Byw a bywyd ſegur ydyw, claddu vn yn fyw. Mat. 25. 30

2. Amſer ſydd Dreſawr am ei dreiliaw, rhaid i ni rhoi cyfrif caled ryw ddydd. 1 Tim. 5. 8

3. Os byddwn ni yn ſegur tu ac at Dduw, ni fyddwn drafferthus tu ac at ddiafol. Canys y mae dyn o yſpryd bywiog, ac ni fydd yn ſegur ym mhob ffordd. 12 Eph. 5. 16

2. *Yn erbyn ſeguryd yn ein galwedigaeth amſerol.* Joa. 6. 27

1. Clyſtog y Cythrael yw, ar yr hon y mae yn eiſtedd ac yn *llunio* yr enaid i bob profedigaeth. Rhoi llun 1 Tim. 5. 13

2. Grawn trachwant yw: megis y llygra dwfr llygredig yn gyntaf ac yr ymleinw o greaduriaid diffaeth: 2 Sam. 11 3

3. Cywilyyd dyn yw: A Gwrengrwydd is law oll greaduriaid, o'r morgrugyn hyd yr Angel. nid oedd Ardderchawgrwydd dyn ym mheradwys yn goddef mor ſeguryd. Gen. 2. 15

4. E fydd yn alar iddo. Yn fynych yn famaeth eiſiau yn y byd hwn, ac yn oeſdad, yn magu tylodi tragywyddol yn y byd a ddaw. dim llafur yn y winllan, Mat. 25. 8

dim

dim arian, cuddio y Dalent, a cholli y cwbl oll.

Mat.25. 3. *Yn erbyn ſeguryd yn ein galwedigaeth yſprydol.*

Dad.3.11 Y neſoedd a dal lafurio am dani. (tragywyddoldeb) yw traul amſer bychan.

1.2.12 2. Ni chair mo honi yn ddi-lafur, a gwae ni oni bydd iw chael.

26.24 3. Y Bywyd yw amſer llafur, a Duw a wyr pa hyd y pery hwnnw.

9.4 4. Y llafur a draeliwn ni i fyned i vffern, á ddwg ir

12.20 neſoedd: Cimaint yngwaſanaeth Duw, ac ar ein trach-

Dih.4.16 wantau an pechodau ein hunain:

Ezech.7. 5. Attalion a chyffion tramgwydd yn ein ffordd ir

16 neſoedd yw yr holl bechodau, ſymud yr rhain ſydd la-

Luc.2.49 fur dirfawr a daionus.

& luc.22 6. Ef a gymerth Criſt boenau i wared dy enaid di, y

44 Merthyron a Chwyſaſant ac a waedaſant i achub eu hu-

Heb.11. nain, oni chwyſi di i wared dy vn dy hunan?

33,34 7. Y mae r Cythrael yn drafferthus beunydd, i ddi-

1 Pet.5.8, ſetha dy enaid, oni Chymeri *di ddim poen iw* achub

7. eſ?

Y Gwa-

Y Gwaſanaeth ddydd llun.

Boreuol Weddi. *Pſal.* 4. 34, 49. 52.	Prydnawnol Weddi. *Pſal* 37. 62. 127. 145.
Llith. *Gen.* 14. neu *Eccl.* 2. *Hab.* 2. *Luc.* 12. neu *Mat.* 16. 19.	Llith. *Eſa.* 15. neu *Job.* 1. *Phil.* 4. neu 1 *Tim.* 6. *Heb.* 13:

Colect neu weddi yn erbyn cybydd-dod.

IAchawdwr anwyl. Yr hwn ni chwenychaiſt ddim or byd, na âd i mi chwenych *llawer.* Llawer ſydd fwy nag ſydd reidiol im bywyd. llawer ni wna Luc. 12.
ond *gorthrymder* a *phrofedigaeth* fwy. Llawer ni wna 15
ond ſy *helbul* am *cyfrif* yn fwy. eithr wrth chwenych Luc. 12.
llawer, nid wyf yn gwrthwynebu vn pechod, ond 48
llyncgu pob temptaſiwn. Y Cyrhael a fynnai i mi ddýmuno llawer yn y byd yma, mal na chawn ddim yn y llall: Eithr tydi O Criſt yr hwn a geri ſy llawenydd a waherddi ſy awydd. Arglwydd gwna i mi wneuthur yr hyn yr wyt ti (nid ef) yn ei garu yr hyn am digono i ar y ddauar im dwyn ir nefoedd, dyro di i mi, a nâd i mi chwenych mwy na hynny, Arglwydd os rhaid i mi fod mewn angen mewn vn byd (hwn neu

Dih. 30. 8 hwnnw) bydded i mi yn hytrach fod yn gardotryn ar y ddauar nag yn adyn yn y nefoedd, a goddef eiſiau tros amſer na thros byth, Eithr (os dy ewyllys bendigedig yw) na âd i mi gardotta neu fod mewn priniaeth yn yr vn or ddau, eithr trwy gymmorth dy ragweliad cael peth i fyw ac i roi *ymwared* : a thrwy râd dy lân yſpryd, mwynhau a chyfrannu yr hyn a ſeddwyf ar y
Mal. 6. 20 ddauar, mal y gallwyf ei dderbyn ef drachefn genit ti
1 Cor. 9. 12 yn y nefoedd. A bydded i mi ſelly edrych am *ddaio-*
1 Tim. 6. *ni*, a rhoi allan ſyn nâ, mal y gallwyf ynnill meſur da o
19 ogoniant i ti ac oddiwrthit ti.
Joa. 5. 29 Trwy werth dy haeddedigaeth (O Criſt) awydd yr
Joa. 4, 34 hwn yn vnig oedd i waſanaethu Duw a gwared enei-
Luc. 22. 15 diau. O ddiwrth yr hyn a ddiniſtr dy waſanaeth di
Mat. 12. 20 am Jechydwriaeth innau, Gwared fi Jeſu anwyl er mwyn dy drygareddau. *Amen.*

Gweddiau beunyddol

Meddyginiaeth yn erbyn cybydd.dod.

2. Byddwch Griſtion, ac ni ellwch chwi wneuthur y pechod yma; yngwrthwyneb i fywyd ſanctaidd a chyfraith Griſt: Canys pryd yr anogwyd yn ſawr.
1. Efe a geryddodd ei ddyſcyblion, am alw am dano. Luc. 9. 55.
2. Y mae ef yn gorchymyn cariad perffaith i bardynu cammau: ammynedd iw goddef hwynt; a rhywiogrwydd, iw gorchfygu hwynt, Joa. 15. 12 Luc. 21. 16 2 Tim. 3. 2
3. Y mae yn gorafun *ſerch iddo ei hun*, y *fam* a llid y *Tad*; y ddau hyn a ymddwyn ac a eſcor ar ddial. Eph. 4. 31 32.

Gwaſanaeth

Gwaſanaeth edifeiraiddiol, gweddaidd i enaid gorthrymedig i ymprydio, a gweddio am drugaredd a Gras, ddydd Mercher neu ddiwrnod arall.

Boreno i Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſa. 6. 38. 51. 130. 143.	*Pſa.* 40. 42. 43.
Llith.	Llith.
Eſay 1. *Mat.* 11. neu *Act.* 3.	*Iob* 9. neu *Ezec.* 18. neu 33 2 Cor. 7.

1 *Colect neu weddi i ddyn edifeiriol.*

O Arglwydd yr wyf yma yn ſy naroſtwng ſy hun oth flaen di. O na fwrw fi ymaith oddiwrthit. ni allaf fi ſefyll gar bron brawdle dy gyfiownder, yr wyf gan hynny yn gorwedd i lawr wrth droedfaingc dy drugaredd. Yr wyf yn ſy euog farnu ſy hunan am fym mhechodau, Arglwydd na farna di mo honof, dileua ſy mhechodau yngwaed ſy Jachawdwr, a golch ſy enaid yn llifeiriant dy drugaredd er eu bod *cyn goched ar egroes, porphor, neu yſgarlat*, ti addewaiſt ir edifeiriol y *byddent cyn ŵynned ar eira*, o glanha yr enaid pryderus
Eſa. 1. 18 om heiddo mi attolygaf i ti, na fydded ſy euogrwydd mor ddu ac vffern oth flaen di, golch fi oddiwrthynt a maddeu hwynt i mi. ac oblegit na waſanaetha mor maddeuant am hyn aeth heibio, os cwympaf ir beiau or blaen drachefn: O Dduw ollalluog, mi attolygaf i ti, felly faddeu i mi bechadur, mal im gwnelych yn Sanct. dyro i mi nerth ſanctaidd i farweiddio fyn nhrachwantau a gofal ſanctaidd i wilio ac i wrthſefyll holl achoſion a phrofedigaethau o anwiredd: Yn enwedig y rhai ydynt trwy naturiaeth, arfer, neu gyflwr o fywyd parottat im hudo i, gwna i mi wilied a gochel a gweddio yn eu herbyn hwynt, ac ymdrechu yn ddiwid ac yn ofalus. A bydded ith lân yſpryd fyngynnorthwyo

northwyo am nerthu i gael y fuddygoliaeth, er mwyn ei haeddedigaethau ef, yr hwn a orchfygodd y byd trosof fi, blaenor fy Jechydwriaeth, dy fab anwyl Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

---

2. *Colect neu weddi i ddyn edifeiriol.*

O Ddnw, a chorph gostyngedig ac a chalon o waedlif y cyffesaf yn vfudd, ac y gresynaf fy natur druan, am bywyd anwireddus oth flaen di. Am fy meddyliau fy nhrachwantau, fyngweithredoedd am geiriau aethant heibio, y mae fynghydwybod yn llefain im yma meherbyn; mor ofer, mor wael, mor frwnt, mor ddrwg a ddwl am fuont oth flaen di. A thi wyt fwy nam calon, a thi a elli rai neullroddi mwy yn fy mauch nag a wyr fynghydwybod om uol a dyhamgylch. waid:

O Tydi Chwiliwr yr holl galonnau ar ffyrdd, mor fynych yr addunedais i ti well gwaſanaeth, ti a wyddoſt; ac a dorrais yn gywilyddus fy ffydd a thi. mi fum weithiau yn dechreu ceiſio myned ar dy ol di, eithr yn fuan a gollais fy hnnan dracheſn yn y ffyrdd or blaen mewn gwagedd. Mal *mynyddoedd* felly y bu fy ſerch i bethau ofer, eithr fy naioni mal y gwlith boreuol, yr hwn a ddiflanna yn ebrwydd. Ac am hyn, ie om genau fy hun ti a elli dracheſn fynghondemnio.

Je Arglwydd. trwy *gyſtudd* calon a *chywilydd* im hwyneb, yr wyf etto yn cyfaddef ym mhellach, ac yn galaru yn chwerwdoſt, fy mod (mal pe buaſai yn beth bychan i mi fod fy hunan mewn pechodau ac arfau yn dy erbyn di) yn flaenor i eraill i wrthryfelgarwch, ac felly wyf yn bechadur ac yn Demptiwr oth flaen di; mi *ddangoſais wyneb* vddynt hwy, lle y dylaſwn eu condemnio; ac ai cyſſurais lle y dylaſwn eu ffeiddio.

Ac felly mal yn briſmal neu garn cn drwg fy hun, mi am gwneuthum fy hun yn *acceſſari* neu gyd-ddamweinydd i ddrygau rhai eraill, a chan faethu gweithredoedd oi pechodau hwynt, a grynhoiais eu euogrwydd,

wydd, am yr hyn y gelli drachefn fy euogfarnu, gan olod eu hanwiredd ai drygioni arnaf fi. Acer fy mod, os wyf y dydd hwn mor euog, yn alltud gwael anheilwng, yn dy erbyn, O mor ddaionus a grasusol o Dduw a fuoft ti holl ddyddiau fy mywyd, ac wyt yr awr bresennol i mi. Er fy mod i yn haeddu holl ddial ie hyd tragywyddol farwolaeth, dy drugareddau fuont ac ydynt yn oeftadol yn fawrion arnaf.

O Dduw yr holl drugaredd ar ammynedd, fe am lliafwyd wrth yftyrrio dy ddaioni dirfawr di, am anwiredd innau yn dy erbyn di. Am hyn, cywilydd a gwradwydd im hwyneb a allai yn gyfion yngorch guddio i yn dragywydd.

Eithr Arglwydd er fy mod i ym mhob modd yn bechadur truan, yr ydwyd ti yn anfeidrol yn fwy trugarog o Dduw. Y mae gennit ti Aberth i roi iawn tros bechod vwchlaw fy holl anuogaeth i. *Mair Fagdelen* oedd frwnt gan drachwant etto hi gas faddeuant. Saint *Petr* anudonwr, etto a bardyned, St. *Paul* a wnaeth i eraill gablu, etto a gafas drugaredd: O Arglwydd, er mwyn dy drigareddau anherfynol, bydded fy mhechodau yn faddeuol i mi. er mwyn fy Jachawdwr, na chofpa fi yn ol fy haeddiant. Selia im henaid dy *bardwn* yn ei waed ei yr hwn a dywallttwyd im gwaredu.

Ac am yr amfer i ddyfod, bydded dy lân yfpryd im cynnorthwyo i fyw yn fwy cydwybodus, a llai pechod oth flaen di. golena fy meddwl a llewyrch dy wirionedd, ac enynna fynghalon a chariad ith fawrhydi: mal y byddo gwagedd y byd yn ddirmygus gennyf, ath ogoniant ti yn vnig hoffder cynnefawl gennyf, ath ofn fy vnig ofal, mal y llwybr ir gogoniant hwnnw.

Yn y ffordd honno arwain fi, cadw fi yn oeftadol ath lân yfpryd mi attolygaf i ti; bydded i mi arferu feilly dy fendithion dauarol, mal na allont mom rhwyftro i. Tad y drugaredd ar gwir Dduw Rhadol cannia atta hyn mi attolygaf i ti: trwy gyfryngdod a haeddedigaethau bendigedig Jefu Grift. *Amen.*

Gweddi

Gweddi yn edifeiriol yn cyffesu ei bechodau ac yn ofni barnedigaeth.

O Tydi Fawrhydi ſanctaidd ac ofnadwy, y mae yn gywilydd gennyf godi fyngolwg attad ti, o ran y pechodau a wnaethym ith erbyn, mae galar im gwywo am y *meddyliau* anweddaidd, ar *chwantau* ar *geiriau*, ar *gweithredoedd*, am yr rhai yr wyf yn ſefyll yn euog gar dy fron di.

Mi ddifrodais (yn gyffelyb ir *mab afradlon*) y da ar dyddiau, mewn difyrrwch o wagedd, yr hyn O Dâd a roddaiſt ti i mi, nid i bechu ond ith waſanaethu di. A hefyd am yr ychydig orriau a dreuliais i yn orau, yn neullduol yn dy waſanaeth ac yn dy Seintwâr, y mae yn angenrhaid i mi ofyn dy ſaddeuant ath drugâredd: mor oer, mor ddiofal, mor waſgarog, mor ddianrhydeddus y darfu i mi y pryd hynny yno fy ymddwyn fy hûn oth flaen di.

Trwy dy gyfreithiau ſanctaidd, trwy dy amriw drugareddau, trwy fy addunedau mynych am addewidion, yr wyf yn ſefyll y dydd hwn yn rhwymedig ddirfawr i ti: eithr mi a dorrais yr holl rwymau hyny, ac hyd yr awr hon nid wyf ddiangol o wyrthryfela yn dy erbyn di.

Am hyn y cyffeſaf, y gellit fy marnu i gynifer o farnedigaethau ac yw dy drugareddau, ar rhai y bendithiaiſt, ac wyt etto yn fy mendithio i. Ti a alleſit daflu ymaith yr enaid, yr hwn a lygrais i gymaint â phechod, a tharo y corph yr hwn oedd waſanaethydd mor vfudd iddo yngorchwylion Gwagedd. Ti a alleſit ddwyn ymaith bob gobaith a chyſſur oddiwrthwyf fi, ac ar vnwaith fy nifuddio om corph am henaid.

Or holl blauau hyn, tra euog wyf herwydd fy mhechodau; a phe dygit ti yr holl ddialeddau hynny arnaf, ni byddit ti ond cyfion yn dy farnedigaethau. *Eithr mewn Barn Arglwydd Cofia drugaredd:* ith was tlawd, ith edifeiriol ddaroſtyngedig blentyn, canniattâ

canniattâ dy bardwn, Anwyl Dad, ac eſtyn im henaid law dy drugaredd. *Euog* wyf fi, *Gwaed* ſydd i tithau, o Brynwr bendigedig, mae arnaf fi feiau, eithr *Gras* gyda thi O Ddiddanydd ſanctaidd. y gogoned lân ſendigaid a thra-gogoneddus Drindod arbed ſy mywyd a gwared ſy enaid, mi a'tolygaf i ti, yr hwn am heuog tarnaf ſy hunan am bechu cimaint, ac a ymroaf trwy dy ras ith waſanaethu di yn fwy cydwybodus.

Ac Arglwydd. gwared dy druan ecclwys wahanol, O maddeu ei phechodau ac adeiladai fynu ei chaerau. Ac ynddi hi ymddiffyn yr holl rai ydynt blant vfuddol a ffyddlon i ti, ac iddi hithau; yn enwedig y rhai ydynt mewn lle a gallu iw hymddiffyn hi; Arglwydd ymddiffyn di, y hi a hwythau, ar holl rai ydynt anwyl ac agos i mi ac i tithan. Cyſſura y rhai oll a daſlwyd i lawr, yn enwedig y rhai y mae eu heneidiau yn wylo am eu pechodau, holl edifeiriol ddrylliedig yſprydoedd. Bydd drugarog Arglwydd i roi cyſſur ynddynt hwy, ac iacha hwynt (Tydi y phyſygwr da yr hwn yn vnig a ddichon eu helpu) trwy werthfawrroccaf archollion, marwolaeth, a dioddefaint gwaedlyd *Ieſu Griſt*, ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddiau Beunyddol.	Efengyl Luc. 13. 3,
LETANI.	Gweddi tros yr
Y Deg gorchymyn.	Ecclwys Gatholic.
Epiſt. Dad. 2.21.	

Gwaſanaeth yn erbyn Anioddefgarwch, ddydd iau neu ddydd arall.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol We ddi.
Pſal. 7.37.	*Pſa.* 106. 145.
Llith.	Llith.
Iob 2. neu *Prov.* 25.	2 *Sam.* 15. neu *Rom.* 12.
Mat. 18.	*Iames* 5.

1 *Collect, neu weddi yn erbyn Anoddef,*

O Arglwydd na fydded yſpryd *anoddef* yn berchennog arnaf, trwy yr hwn nid wyf ond annog dy ddigofaint di, a derchafu fy nhrueni trwy-

ddo

ddo ef ni allaf na chael dy ſendith, nag eſmwythau ſy mayeh, (eithr tynnu dy ſelldith a dyblu y groes arnaf. ti wyt ſyngwneuthurwr ni allaf ymdrechu a thi: am trueni, yw dy waith di, ni rymryſonaf ag eſmi allaf wingo dan yr iau, ond beth a ynnillaf ond buſtl ac euogrwydd wrth yr ymryſon? (buſtl im gwddwf ac euogrwydd'im cydwybod?) gan hynny mi gaſanaf dy wialen, ac a ymgrymaf ir hyn ni allaf dorri, dy iau di: tan yr hwn y tynnaf im cylch gyd a mwy goſtyngeiddrwydd a gofal: yn *brudd* am i mi droſeddu, a *gofalus*, rhag i mi droſoddu; felly y derbynnir ſy vfuddod, ac y pryſurir ſyngwarediad. Canys O Arglwydd, nid ſyngheſp ond ſyngwellhâd yr wyt yn ei geiſio, ac am hynny wyt yn anſon caledi im gyrru im dyledus vfudd-dod. Yr hyn pan ddyfgwyf gan dy wialen ath iau, ti ai gadewi hwynt ymaith, ac a ymddangoſi mewn agwedd mwy cyſſururus i mi: ac a roi dâl da im ymynedd, er mwyn ſy ymddygiad gwell yn yſcol ſyn nhrueni. Arglwydd daionus bydded i mi ddyfgu addywedech, mal y gallwyf dderbyn yr hyn a roddech, yr anrhydedd o gael ſyngbymeryd yn was ffyddlon i ti tan y *Groes*: ar gogoniant o gael *Coron* am ſyngwaſanaerh. nid er mwyn ſy haeddedigaeth i, ond er mwyn dy anerſynol drugareddau: ai haeddedigaethau ef, yr hwn yw r Athro mawr, a *dillyn* holl ymynedd a pher-ffeiddrwydd Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Eſa. 45. 9.
Pſa. 39. 10
Gal. 3. 27.
Jer. 28. 13
1 Pet. 5. 6.
Hoſe 5. 15.
Dad. 3. 10
Ac eſampl neu batrwm.

2. *Gweddi yn erbyn anoddef.*

ARglwydd. Cadw fi rhag anoddef, ſydd gimaint o *boen* ac o *bechod* yn dy erbyn di, (y doeth gyfion Roddwr a llywawdwr gorchwylion dynol) y mae yn *bechod*, (ymrafaelio ac ymladd ath rhagymweliad) i mi greadur truan-dlawd ſerfyll, yr hwn ni allaf gynal ymdrech yn erbyn ſyngwneuthurwr, ni bydd ond *poen*. os dy law di a eſyd y bauch arnaf rhaid i mi ymroi; ni allaf morh wrthwynebu di:ei ddeifyſu ymaith a allaf, ni allaf ei daflu oddiwrthwyf: ie ceiſio i ſwrw ymaith

Job 2 10.
Eſay.

ymaith yn anoddefgar yw r ffordd im ſoddi i, O na âd i mi ymddigrifo ar vnwaith yn dy anfodloni di am gorchfygu fy hunan.

Yr wyt ti yn *gyfion*. os drwg a ddaw i mi, hyn yw r peth a haeddwn. yr wyt ti yn *ddaionus*: os ymrof ith ewyllys, ti a weithi fy naioni allan or drwg hwnnw. yr wyt ti yn *gadarnfawr*: oni ymrof fi om bodd, om hanfodd mi ddaroſtyngir ith ewyllys. Pryd gan hynny y byddo drwg arnaf fi (er maint a fyddo) bydded i mi *edrych i fyny* (attad ti) oddiwrth yr hwn y lliſeiria. bydded i mi edrych i fewn; (at fy mhechod) am yr hwn y daw. bydded i mi edrych arno; (im daioni) at yr hyn y mae yn tueddu. felly y caf fi eiſtedd i lawr mewn ymynedd tano, a goſtwng ar liniau i lawr mewn gweddi i gael ymwared o hono; gan wiſied yn oſtyngedig nes i ti fyngoſod vwch ei law ef. Ac felly dod i mi râs i wneuthur a dywedyd, am fynghroes am poen, mal y dywedaiſt ti fy Jachawdwr am dy gwppan chwerw ath ddioddefaint, *fyn nhad*, os yw *boſſibl aedy cwppan hwn* heibio oddiwrthy fi, etto nid fal yr ydwyf fi yn ewyllyſio, ond fal yr ydwyt ti. *Amen, Amen.*

Meddyginiaeth yn erbyn Anioddefgarwch.

1. *Codi* yn erbyn llywodraeth o Ragluniaeth ollalluog a daionus; ac am hynny *cynhwynol* a *brwnt* aruthrol.

2. *Pechod*, a roddwyd yn dragywydd, oblegit ſod dyn mewn ſymudiad beunyddoll o drueni; nes ei orphywys yn y nefoedd.

3. *Pechod*, yr hwn a geidw ddyn rhag cynnyddu i vchder Duwioldeb (i ddiolch i Dduw am adfyd) gan ei wneuthur ef, megis Corr o vffern gan roddi iddo ef (onis cabla a melldithia) gaingc o chwerw-dderder yn lle diolch.

4. *Pechod* yr hwn a deifll ddyn i ddyſnder anwiredd. Athro i *anobaith* Tros weithiwr neu *factor* i *wrthgiliad*.

5. *Pechod*

5. *Pechod* yr hwn a egyr adwy i bob profedigaeth, Heb. 12. 1.
a chroth ir holl ddrygioni. Gelyn ir nefoedd, a Gal. 5. 7, 8
phorthwas vffern. Mat. 13.
21

6. *Pechod* yr hwn a wanhycha ac a gnria yr enaid, *Malum im-*
gan dorri i lawr fur ei chadernid, gan roddi ei hyſg- *patientia*
wydd allan or cymal; ar Corph alian oi dymerwch. *eſt boni*
Tertul.

7. *Pechod*, yr hwn a wanha ac a flina einioes dyn Dih. 25. 21
gan ei ddiſuddio ef o dawelwch cydwybod, mewn Luc. 21. 19
temeſll o orthrymder: gan wneuthwr y cyſgod (yr
hwn a ddylai ſod) yn *ddyccin yſſol*: a dyn (ſef cnawd
ac yſpryd) yn draflyngcedig i fynu yn nhrueni y ddau.

8. *Pechod*. yn rhwyſtro i ddyn roi ei fywyd ar y gorau Jac. 1. 20.
(i farw yn Ferthyr) ac ni chynwys iddo yn dda, fyw
yn *Sanct*.

Y Pechod hwn, or cyfriw gynneddf felldigedig ac
echryſlon, a ochelir neu a adewir ymaith os cawn:

1. Ni *wybod* a *chredu*: mai rhaglunaeth Duw ſydd Job 1. 21
yn llywodraethu y cwbl oll, ac yn *dda*; a bod ein pe- Col. 3. 39
chodau yn haeddu oll yn ddrwg a ac yn waeth, yn Gal. 3. 22
gynt.

2. Os *gwelwn* ac *yſtyrriwn*: blinfyd ſydd *dynged* gy- 1 Cor. 10
ffredin: oddiwrth yr hwn nid oes nag i Seinctiau nag 13
i dywyſogion le i ddiange. Nag iddo ef yr hwn oedd Jac. 5. 10
frenin ir Seinctiau ar Brenhinoedd. yn enwedig os ni. Heb. 5. 8.

3. A *feddyliwn* ac a fyfyrriwn fod *Croes* Criſt yn te-
ddyginiaeth barod, nid oes vn dwfr mor chwerw, yr
hwn ni wna y pren hwn, yn felus, nid oes vnrhiw rwyd
nad a i wared gyda ai *finegr* ai *fuſtl ef*. nid oes dim mor
galed yr hyn ni wna ei ddioddefaint ef yn hawdd; Exod. 15.
del ith cof pwy a ddioddefodd ar groes; gwr diniwaid, a Duw hefyd (Duw-ddyn?) pa beth? mwy
nag a wnaeth dynol ryw erioed, ne a allai ei ddwyn,
paham? Am dy feiau neullduol di-ymghyffredinrhwydd
holl ddynol ryw. Pa fodd? ag yſpryd cyſſurus ac enaid
goſtyngedig, a thi fwri allan oth calon anioddefgarwch,
vn ai am dy bechod, neu rhag cywilydd. nid oes mor
fath phyſygwriaeth i iachau dy wynniau. na r cyfriw
lyfr i ddyſgu, na r cyfriw bulbut i bregethu ymynedd,
nag vnrhiw eli, gwerſi, pregethau mor effeithiawl, nar
rheini, yn y modd hwnnw ar lyfr, a phulput. trwy
weithrediad ei yſpryd ef, hwy a fyddant felly, os o-
ddiyno y cawn ni ras, i

4. I *Ladd* ac ymddiffyn. Lladd yr hyn ſydd yn bywhau ac yn crythau anoddef ynom. Ac ymddiffyn yr hyn a ſo yn cynedfa a macthu y bywyd hwnnw, yr hwn ni ad iddo ſywhau.

Mat.15.14 1. Neullduol ſerch a balchder, ſydd yn rhoi bywyd a nerth ir pechod hwnnw. Y naill yw y groth, ar llall ei Dad ef. Os gwadai fy hûn, yno mi a gymeraf i fynû fyngrocs: os fyngharu fy hûn, yno ni allai oeddef mo honi. i groeſi neu wrthwynebu y cnawd, ydyw y ffordd i ddwyn y groes. a goſtyngeiddrwydd a bair i mi blyga, ai chymeryd arnaf; *Balchder* a *chwydda*, oc oi chwyth ymaith; neu a eſgydiga i fyned tani. bod yn ddifalch yw r ffordd i fod yn ymmyneddgar, ac yn gyntach:

2: Trwy ddiniweidrwydd, gobaith, a chariad, yr hyn a rydd fowyd i ymvnedd.

1. Diniweidrwydd a bair feddwl heddychol a llonyddol, nal y pair meddwl euog, orthrymder. Ac edifeirwch a dywyſa arni, gan na ddaw dyn a daflwyd allan vnwaith i Stât berffaith o ddiniweidrwydd. Merchyron gan hynny ac edifeirwyr ydyw yr ymmyneddwyr mwyaf. o herwydd yr rheini a *geidwir*, ar rhain a *olchir* i ddiniweidrwydd.

2. Gobaith a wna galon gadarngref. Y mae yn rhaff angor iddi ar ddrygcin, ac yn ei dal i fynu tan ddrwg: oni bai hynny hi ſoddai mewn cyſtudd, neu dorri a chwympo mewn troeni.

Heb.9.2. 3. Car: Duw, a oddef oll er ei ſwyn ef, ac a ddioddefai y chwaneg, yn enwedig oddiwrtho ef. Y mae yn edrych megis ar y fflangell, y *llaw*, ac yn cymeryd y cerydd yn llonyddol oblegit ei bod yn wialen y Tad

---

Gweddiau

Gwaſanaeth y Dioddefaint, gweddaidd ar wener neu ferchet.

Borenol Weddi..	Prydnawnol Weddi.
Pſal. 22.	*Pſa.* 88. 110.
Llith.	Llith.
Eſa. 53. *neu* 63.	*Zach.* 11. & 12.
Mat. 26. *neu Marc.* 14.	*Eph.* 1.
Luc. 22. *Joa.* 13.	*Col.* 1.

Co'ect neu weddi amy dioddefaint.

ODdaioni a thrugaredd diymgyffred, yr hwn a anfonaiſt dy ſab dy hûn ir Groes, im dwyn i ith coron: a thrwy werth ei ddioddefaint gwaedlyd i brynu fy iechydwriaeth i; O bydded y cariad hwn yn oeſtadol yn ſynghof am calon, ar ffrwythau o honaw gynyddu amlhau gyda a myſi mewn holl ymddygiad ac ymwareddiad ſanctaidd ei gwna i mi gan hynny gaſhau fy mhechod yn fwy na marwolaeth, yr hyn a wnaeth ith fab di farw; ac na ſydded na budd nac anrhydedd na rhydd-dyd na bywyd yn anwyl i mi er mwyn fy Jachawdwr, yr hwn a wnaeth i mi felly fyw.

Arglwydd bydded i mi aberthu y cwbl oll a feddaf, ac ydwyf i ti, yr hwn a roddaiſt dy hunan anwyl yn aberth troſof fi. bydded i mi ſychedu i golli fyngwaed, ac i farw am dy wirionedd; a bydded yn fwyd ac yn ddiod gennyf fy holl ddyddiau wneuthur dy ewyllys a byw ith ogoniant: mal y gallwyf or diwedd trwy haeddedigaethau dy werthfawr waed ath ddioddefaint; breſwylio gyd a thi yn dragywydd. gyda ath i Seinctiau ath Angelion bendigedig, yn rhoi holl foliant, addoliad, anrhydedd, i ti yn oes oeſoedd. *Amen.*

Gweddiau Beunyddol.
LETANI.
Deg gorchymyn.
Epiſt. *Tit.* 2. neu *Heb.* 9.
Efengyl *Mat.* 26. neu *Joa.* 3.
Gweddi tros yr Eccl wys Gatholic.

Myſyrdod am ddioddefaint Criſt,

Amor meus crucifixus. croeſhoelwyd fynghariad.

O Criſt. Dy ddioddefaint ti am lleinw o ddigoſaint. Yr wyf mewn cariad a chas; y mae n hawdd ac yn anhawdd genyf, yr wyf yn gorfoleddu ac yn pryderu, yn gobeithio ac yn ofni, yr wyf yn ddigllon, mewn llewygdrais cariad.

Heb. 1. 2. *Col.* 2. 3. 9. 1 *Pet.* 1. 12

1. *Yr wyf mewn cariad.* A Phwy ond a thydi O Jeſu, ſe enynnodd ſerch dy berſon ynof. Duw ddynmab Duw, hawddgarwch nef a daear. Canol fan holl greadig a digreadig odidawgrwydd. Aruthrwydd y Duwdab, rhyfeddod Angelion. Gogonedd dynolryw yr wyf yn berwi gan gariad i't. Pa ham cimaint (gormodd) O Arglwydd Onid oedd ddigon adael yr orſedd faingc er fy mwyn i, ond rhaid i ti orwedd

1 *Cor.* 11. 3. 7. *Minus amor* gormodd cariad.

mewn preſeb gwael. ſe'yll o flaen filer gwael, Crogi ar groes felldigedig; nid am danat dy hun ond troſof fi (herwydd fyngenedigaeth, trachwant, bywyd) ynifail, alldod, drwgweithredwr im Duw. Tydi a ſerifenaiſt dy gariad i Lazarus ath ddagrau yn ddarllennedig, oni chaf finnau ei ddarllain yn dy ſriwiau?

Joa. 11. 36. *O duri & indurati & obdurati, &c. quos non emollit tanta Hamma. & Bern.*

oeddynt hwy yn ei weled yn diferu oth lygaid, oni chaf finnau oth yſtlys gwaedlyd? hwy yn y dwſr poeth a roddaiſt ar ei gorph marw, oni chaf finnau yn y gwaed *ffrydiedig, tywalltedig* tros fy enaid *damnedig.*

O na fydded fynghalon fyth mor galed, i weled y briwiau hyny or fath ddirfawr gariad i mi, heb fod dim briwiau o ſerch i ti, troſot ti? A r holl rai yn y nef a'r ddaear a berthynant i ti O Criſt.

Yr wyf mewn cariad a thad fy Arglwydd Jeſu Griſt, yr hwn a roddai ei vnig fab, felly i ddioddef ar y ddaear

y ddauar tros amſer, mal na byddwn i yn berwi yn vffern yn dragywydd. Eſa. 61. 1.

Ac y mae cennif gariad i ti, O ſanctaidd yſpryd Duw, yr hwn a eneiniaiſt Jeſu i fod yn Griſt i mi; ac a brophwydaiſt ei Goron o ddrain ai ſwydd (er ei bod yn dragwaedlyd) ſendigedig.

O Drindod ſendigedig; yr wyf yn addoli yr hyn ni allaf ymgyffred, mal eich Perſonau neſawl, ſelly eich cynghorion. 1 Joa. 3. 7. Heb 10. 7.

Ac a chariad goſtyngedig ac anrhydedd ſanctaidd, wyf yn deiſyf ac yn bendithio eich bwriad am iechydwriaeth vn byd, trwy ei ddioddefaint ef yr hwn a dâl ſwy na mil. Yr wyf yn gweled ac yn rhyfeddu eich aruthrol *ddoethineb*, *ddaioni*, a *gallu*, a allai ac a wnaeth y cyfriw gyfamod. Ac (yn neſaf ich perſonau) y Drindod ſendigedig och perffeiddrwydd a garaf addolaf ac a ryſeddaf yn dragywydd. A neſaf at Dduw. Eph. 3 10, 11.

Y mae gennyf gariad i ti O ddyn. fab dyn, pwy bynnac wyt, trwy ei gnawd ai waed ef, ai ddioddefaint gwaedlyd a wnaethbwyd yn fab Dnw ac yn ſrawd i Griſt. Dy Groes di O Jeſu a gaiff wneuthur holl ddynol ryw yn gefeillion i mi, ath waed ti a *ſclowringa* ſynghalon at bob dyn. O Griſt pa ham y caſha i vn nebrhiw ddyn, pan ddarſn i ti ſelly garu oll. Pa ſodd y gallaf ſi ddibriſio vn, pryd yr rhoddaiſt ti waed dy galon am bobrhyw vn. a gaiff yr hwn ſydd ſrawd i ti, ſod yn gas ac yn ddirmyg cennyf? Col. 1. 27 Heb. 2. 10, 12, 14. Eph. 2. 13. 19 Neu *ludia*.

Ac o holl ddynol ryw mi ach caraf chwi y Seinctiau, yr rhai ydych ei frodyr ddwywaith (mewn yſpryd a chnawd) mor agos iddo yn y ddau, ach gwneuthur yn aelodau yn gyſtal ac yn frodyr. Mat. 25. 40 Rhy 12. 5. 1 Cor. 12. 27.

A Thithau o lân Ecclwys, ei anwylyd ef, ai mam ai corph hwynt, ie y corph am yr hwn (yn enwedig) y rhoddes ef ei waed ai hunan. Y mae genyf gariad gwreſog i ti, o anwylaf gorph Griſt, a dybiaf ſi ſod dim yn rhy dda i ti, am yr hon y rhoddes ef ei hunan? gan dy roddi di (ei ddirgel) o flaen ei anianol gorph? ac a hoffa i gefaill, neu gyſoeth, neu rydd-dyd neu ſywyd, neu vn rhiw beth neu yr holl bethau yn ſwy na thydi? Ac vwchlaw yr holl ſyd (er na addolwyf) y 2 Co. 11. 2. Col. 1. 18. Eph. 5. 23. Eph. 5. 25. Act. 20. 28

mae gennyf ſwyneidd-dra i chwi, chwi Angelion ſanctaidd Duw: y rhai er nad oes i chwi bridwerth, o herwydd nad oedd arnoch eiſiau gwaed y Prynwr; ac nid oedd gennych (mal nad oedd raid ddim i roi at y Prynedigaeth, etto am eich Zel ach bryd ſerch i Dduw, ach cariad i ddyn, ar mawl, ar llawenydd a wnaethoch ar enedigaeth Criſt mal pe buaſai yn dyfod yn ymwared i chwi, ai groeſawu megis Pe daethai yn
Luc.2.13. Jachawdwr i chwi Cennadau oi enedigaeth, Gwenidogion yn ei ſywyd, golygwyr ar eī farwolaeth; rhybuddwyr oi adgyſodiad ai aſcen'ad; gan roddi iw
Luc.2.11 gorph *anianol* bob dyledus waſanaeth ar y ddaear, a
Mat.4. 11. chan dalu troſlo et iw yn *Dirgel*, eich gweinidogaeth
Ioz.20. 1 ſanctaidd yr awrhon iddo yn y neſoedd. O chwi bur a
Luc 24:6 ſanctaiddlan yſprydion Duw, er na chawſoch moch
Act.1 11 diddanwch, ni chollaſoch ddim ganddo eſ y mae yn gadarnach i chwi, a chwi, yn vwch ynddo eſ trwy
Mediator confirmatis iſedi y cyrph gogoneddus, ſydd yn llenwi lleoedd yr yſprydion *gwrthgiliedig*, ich llawer mwy o lawenydd a diddanwch. Chwi ai cerwch eſ ai ddioddefaint
Heb.11. am hynny. a minnau chwithau am hynny. Chwi a
14. gerwch ddyn vwchlaw eich trywogaeth eich hûn am hynny, a minnau chwithau am hynny.

Mal hyn Arglwydd, y caraf ell er dy ſwyn di, a thi yn ell. ac yr awrhon, mi am caraf ſy hûn yn en plith inwyut. O Arglwydd, vn ydwyt yn yr hwn y mae dy gnawd ti (dyn) vn ydwyf, yn yr hwn y mae dy yſpryd ti (Criſtion.) vn ydwyf am yr hwn y collaiſt dy
Heb 3.12 waed; ar hwn y tywelldaiſt dy yſpryd (prynedig cyſnſedig ddyn trwyddot ti.) Ac a fyddaf fi
Ioz.3.5. mor chyd a hoſſi dom yn ſwy nath waed ti? (y byd yn
Heb.2.9. twy na thi) a gollai dy yſpryd ti am drachwant dy
Rhy.5.5. briſio di yn llai na r cnawd? a demptir ſi im rhoddi ſy
Eſa.43.4 human oddiwrthit ti ir cnawd a'r byd? ith caru di yn
Phil. 3 8. llai na diafol? O Arglwydd mi wna mwy parch a chyfoif oth waed, mi gadwaf dy yſpryd yn well. mi roddaf bris vwch arnaf ſy hûn, na rhoi ar werth yr hyn a brynaiſt ti yn fendigedig i ddiafol am ddarn gwael o gnawd neu ran ſechan or byd. felly yr wyf fi, a bydded i mi ſod mewn cariad a thi yn dragywydd, O Arglwydd.

2. Eithr

2. Eithr O Bechod. yr wyf mewn câs i ti, er ſy mwyn fy hûn am Jachawdwr. Ti a roddaiſt Dduw ar neſoedd mewn cyſyng gyngor (yn or ddau) ai i ddamnio fy enaid, neu i wneuthur mal hyn im Jachawdwr. O ti elyn Duw a dyn. Mor felldigedig wyt ti mwy nag Gal. 1. 12
a ddichon calon feddwl, ai gwnaeth eſt ef yn ſwy gilarus nag a welodd llygad. Ac O ddiafol. mi ath caſha di, yr hwn a hudodd ac a demptiodd ddyn allan o beradwys, ac felly tynu Criſt ir Groes, a phe buaſai dy brofedigaethau di yn *gallael cael y maes*, a th nerth ath allu i gymharu dy falais, ti a fwriaſit yr ail Adda allan hefyd; megis na byddai felly ir cyntaf nai hâd fyth ddyfod i mewn drachefn. Ac O fyd, yr wyt yn dy ffieiddio di megis blaguryn o ddiafol; yr hwn oi Iddewon ai genedloedd ef a fedraiſt gael dwylaw ir Act. 5. 27
cyfriw weithredoedd echryſlon; a phechodau, a wnaeth y dioddefaint gwaedlyd hynny. Pechod, diafol, Byd, am farwolaeth fy mhrenin am Uarglwydd am Criſt, Cymerwch (mal yr haeddech fynghafineb.

Yr wyf yn hiraethu am *yr Arglwydd*, *fy enaid a hiraetha am* Dduw, ie y *Duw* byw (ie y Duw a fu yn Pſa 42. 1.
marw) *pa bryd y caf ddyfod ac ymddangos yngwydd Duw?* Duw yn marw vnwaith, etto yn byw yn dragy- Dad. 1. 18.
wydd, pa bryd y deuaf o flaen *y marw fyw Dduw?* Heb. 2. 8.
Hiraethu yr wyt am y cerbyd am dwg i attad, ac ai 2 Tim. 2.
cuſanaf ef, pe bai *Croes*. 12

Hiraethu yr wyf am y dafarn yn yr hon y caf letty Phil. 1. 23.
yn agos attad ti ac ai cuſanaf hi pe bai y *Bedd*.

Hiraethu yr wyf am y gwely am derchafaf fi attat ti Act. 21. 13.
ac ai dringaf ef pe bai *grogpren* Pſa 119.
13.

O *Phiol* yr Jechydwriaeth. ni wrthodaf fi mo honot ti, er dy fod yn llawn (i feſur merthyron) o waed, Mat. 10. 39
os hono ef y byddi yn feddw: etto ni thybir o nonot 1 Cor. 10.
ddim i waed dy Jachawdwr. 16

Ac nes im henaid ddyfod at dy gorph croeſhoeliedig gogoneddus; yr wyf yn hiraethu am dy lyfoedd, lle r wyd yn breſenol mewn yſpryd ar y ddauar. I fod yn dy *deml* ſanctaidd (yr hon yw r ſtafell) wrth yr Allor ar bwrdd (yr hon yw cadair dy breſenoldeb) ie lle (mewn dirgelwch vchel anrhaethadwy) y caf breſenoldeb dy gorph: a chadw coffadwraeth a chymun o hono, ath waed.

O Arglwydd gan fy mod i yn dy garu gimaint, (nes yn dy olwg :) pa ham na hiraethwn am weled dy ddyfgeidiaeth, dy air : ath ſel (dy Sacrament:) ac nes mewn preſenoldeb bendigedig, gwiſgo hwnw megis modrwy oth coffadwraeth.

4. Yr wyf yn caſhau y bywyd yn yr hwn ni allaf moth weled ti: yn y gorau yn Aethwladwr) yn y gwaethaf yn flinder i ti. yr wyf yn fynghafau fy hûn, am daflu yng nariad ymaith ar fywyd mor wael ac an-
Act.9.24. heilwng. lle yr wyf yn ai dy groeſhoelio dy hun am
Heb 6.6 pechodau, neu dy friwo di am trueni. lle, (cyfriw yw
Eſa.63.9 dy zel ſanctaidd i Dduw ath cyſondeb, ath trugaredd
Eodem tyner im henaid:) yr adnewyddaf dy ddioddefaint
Crux quo trwy fy euogrwydd, neu dy ddirfawr ing trwy fy ym-
Chriſtus. rafaelion i.

Yr wyf yn caſhau y groes oſodedig ar fy nwyfron, yr hon am cyſſura i ith fathru di tan draed. mi allaf oddef
Heb.13. O Criſt dy weled ti mewn *delw* (llun fy anwyl gefaill)
13 eithr ffieiddio ei garu ef yn gyffe lyb i ti: neu i fwrw
2 Tim.2. heibio gimyn o amſer o deſoſiwn at hwnnw, mal y
12 gwnel i mi anghofio mwy ar fy Arglwydd, nam cofio
Heb.12. 1 fy hun yn ddyledus.
3 O Jeſu. Tydi dy hûn a gai fod yn *llun croes* i mi. nid
Zach.12 i grogi ar fy nwyfron, eithr yn tynghalon nid oes vn
10 cyffe ond honno yn ddigon cymmwys i ti: honno (yn
Luc.23. neſaf at ferrhyrdod) am tywys i yn gyntaf attad. oni
76 allaf ehedeg yrſa merthyr, mi a redaf yn Sanct attad.
Luc.2.27. a thiwy frys marweiddgylch, mi wna ffrwſt mwy ar
Col.1.20 dy ôl di.
Joa.19.30

Heb.10.11 5. Yr wyf yn ymhyfrydu yn dy groes. nid yn dy gy-
Heb.7.25 ſtudd, O Criſt a allaf fi weled archolli dy gorph am
Joa.16.33 calon heb waedu? y waiwffon i fod yn dy galon di,
1 Per.4.2. heb gleddau yn fy vn i? ni fynnai, ni allaf oddef O
1 Cor.15. Jeſu. Na wnaf yr wyf yn gorſoleddu yn y *gwreiddyn*,
54.57. dy anherſynol drugaredd o Dduw. Ac yn *ffrwyth*
Col.2.15. cyflawn waredigaeth dyn, *gorphenwyd.* ie bendigedig
Oſignum fyddo y gwaed ydoedd y Pris. Bendigedig y corph, a
fœlix, &c. roddais allan y gwaed hwnnw y bodlonrhwydd ar
c.1. iawn, oedd gyflawn. Jechydwriaeth fydd ddiogel. fe
Col.1.20. hoeliwyd pechod, gorchfygwyd vffern, Satan a rwym-

wyd

wyd mewn cadwaen ; y Byd a *gasei orfod :* y cnawd a anafwyd : Angau a lâs, y bedd a gladdwyd. Pob gallu gwrthwynebus a orchfygwyd gan Griſt orfoleddus yngherbyd ei Groes arnynt oll, oll a *gorphenwyd.*

O Bren ſych o ffrwyth fwy fendigedig nag a ddyg y ddauar erioed. Nage yn hytrach. O *gorph gwlyb* a wnaethoſt yr holl fyd yn ddedwyddol. (ſug a rhinwedd y pren dedwyddol hwnnw.) nid y pren, ond gwaed ar y groes a ddyg allan y ffrwyth. (prynedigaeth dyn.

A pha ddaioni nid yw yn tyfu oddiwrth, ac ar hwnnw, *Pulput* edifeirwch *Colofn* ffydd. Angor gobaith. Tryſordy cariad perffaith : Cell-arfau marweiddiad Yſcol ymynedd, rhyfeddol-ddrych vfudd-dod. Craig o ddiangwadalrwydd. Siop o oſtyngeiddrwydd, (holl *ddyladwaith* Criſtion, O ŵreiddyn bendigedig o drugaredd Duw, a ddygaiſt allan y ffrwyth dedwyddol o ras dyn ai ogoniant. O Bren y farwolaeth mwy bendigaid na phren y *bywyd*, ſydd i ti y cyfriw ffrwyth a gwreiddyn. mal hyn y mae fy llawenydd yn *orfoleddus yn dy groes di*

6. Eithr blin genyf fi weled dy groeſhoelio di *drachefn.* Heb. 6. 6.
O Criſt. Am henaid a groeſhoeliwyd am fod iddo law yn dy Groes di, gwae r byd am Gamweddau, yr rhai a wna i ti waedu oi newydd. ath ddwyn di ith croes drachefn, gwae fi weled dy groeſhoelio beunydd rhwng *hereticiaid* a *ſchiſmaticiaid* (lladron oth wirionedd) rhwng Rhagrithwyr ac ymryſonwyr (lladron oth Ras,) ym mhlith dynion o anhymerus boethni, neu oerni mewn crefydd (lladron oth anrhydedd di.)

Yr wyf yn *gofidio* weled dy groeſhoelio yn ofer, fod cimaint or byd yn golledig, wedi talu am y cwbl oll. Pris digonol i ryddhau- nid byd yn vnig, eithr llonaid vffern o Gythrailiaid, *effeithiol* yn vnig i ddyrnaid o ddynion.

Je o fewn dy geurydd ſanctaidd, lle dylid cadw dy waed, *bodo defnyn, gwae fi weled y modd y collir yn llifeiriant. lle y mae rhai yn dy roddi, eraill ni ad i ti nag vddynt* eu hunain, ddim. gan wneuthur yn ofer, trwy eu pechodau rinwedd iachauol dy waed ath friwiau. Trwy anghrediniaeth murdd allan or *ecclwys, a thrwy gamgrediniaeth miloedd ynddi, a thrwy draws-ymddygiad o fywyd*

murddiwn

murddiwn o filoedd o fewn ac allan. Y mae fyngha-
lon yn gwaed-weled dy *Gredoedd* heb ffydd ; dy ddeg
orchymynion heb vfudd-dod vddynt ; dy weddi heb
ei harfer, dy Sacramentau heb anrhydedd. Na i
weled ei gwneuthur yn ffydd cydwybod, defofiwn,
zêl, i fod heb ddim parch ir Sacrament, i weddi, deg
orchymyn neu r credo. mae fy enaid yn orthrwm we-
led yſpeilio dy gyſegr ſanctaidd, dy *anneddau* yn *gar-*
neddau gwer hu encidiau am arian, am yr rhai y telaiſt
ti waed ; Ac O Arglwydd Pa ddagrau o waed ydynt
ddigonol i dofturio, fod dy vn, vnig : rchymyn o *gariad*,
yr hwn ni eill yw yn vnmodd allan oth ecclwys ; oi
mewn hi yn cael ei ladd ai gladdu oll mewn ymdrech
a thywalldiad gwaed. O Criſt a eil fyngolygon dy
weled ti mal hyn wedi dy groeſhoelio *ddwywaith*, ac
yn ofer vnwaith, am calon heb ofidio. etto

7. *Mi Obeithiaf.* Ac ynot ti, ac yngwaed dy groes
yn vnig. Yr wyf yn gobeithio maddeuant o herwydd
yr wyf yn ei ddarllain yn ſeliedig yn dy waed. Yr
Col 2.14. wyf yn gobeithio Jechydwriaeth oblegit mi ai gwelaf
Act.20.28 wedi ei bwrcaſu tan y Sêl honno. oni wnai di yn dda
dy ſêl. oni chedwi di dy bridwerth ? nid pechod na
Rhy.8. 34 diafol gan hynny am damnia i, o Criſt : ni cheiff ef le-
35 dratta dy bwrcas di : na gwneuthur dy ſel yn ofer : dy
1 Joa.2.1. waed yw fy atteb yn erbyn y ddau. ynddo ef y gwelaf
1 Tim 2.5 fy mhardwn am Jechydwriaeth yn *ſo ifenedig*, ni waeth
genyf fi ; am y byddych di yn ddadleuwr, am Sanct
neu Angel i roi eu dwylaw. Ynot ti y gobeithiaf am
fy Jechydwriaeth.

Ac felly yr wyf am fy mam hefyd, yr Anwylyd a
brynwyd arh waed ti, ac a geri megis dy gorph. O
Arglwydd (trwy ymadrodd vnig) tydi ydwyt ei *Hia-*
chawdwr. Ac a fydd hi yn ol (or peth fydd arni fwyaf
eiſiau) dy *Jechydwriaeth* di. Y mae hi ar y Groes, Je-
ſu anwyl gwared hi, nerth oddiallan, ac ynfydrwydd
oddi fewn, ai croeſhoelia hi, Arglwydd ymwel a hi.
gelynion a phlânt ynghyd a gwympant arni, O Criſt,
achub hi. O nâ ad iddi eiſiau dy ymwaſgaroedd am yr
hon y rhoddaiſt dy waed. gwel ei thrueni. na âd fod
arni eiſiau ffynon i ymolchi, ir hon y mae i ti etto
waed ; maddeu ei phechodau : nes y byddo hwnnw

heb

heb rinwedd, nid yw hi heb obaith. Trwy haeddedigaethau dy *Golgotha* ſych ei *Aceldama*, trwy ddioddefaint dy *Calveri* tyn hi oddiar y Groes. O Criſt. Tra meddych vn deſnyn o waed, mi anobeithiaf am danaf fy hûn na hithau, tra byddo hwnnw yn wreſog, ni ddaw amrwd im hyſpryd i. Ac mi wn na ſyched ac na oered lliſeiriant dy waed ti i ddauar, a bod môr dy drugaredd yn rhedeg mor ſuan a llawn ac y bu erioed yn y nefoedd, oddiyno y gobeithiaf. eithr.

8. Yr wyf yn *ofni* heſyd. cfnaf *brofedigaeth*. dy Groes a wnaethbwyd o bren *Adda*, yr wyf yn ofni o herwydd ei gwympo ef. Arglwydd gwared fi. yr wyf yn ofni *gadawiad*: doethineb *Salomon* a gras *Dauid* ſydd arnai eiſiau, etto pe bai'r ddau mi gwympwn os gadewit ti fi. Arglwydd ar y Groes y gadawodd dy ddyſcyblion di, na âd i mi ſyth. os profedigaeth am dwg ymaith edrych ar fy ol i na ad ti mo honof fi byth yr wy'n ofni *Gwrthgiliad*. O cadw fi rhag y pechod hwnw oddiwrth yr hwn, dy waed, dy groes ni eill, ni fyn, moin cadw. Pa fodd y dylai, pan elwyf i ailadeiladu dy Groes ac i ſaethru dy waed? yr wyf yn ofni fy hunan er hyn ei gyd. mal yr hoeliodd fy mhechodau tydi wrth y groes, ſelly y mae llygredigaeth yn fyngwrthhoelio am *ryfedio* yn fy mhechodau. ni fydd diffyg mwrthwl ar y cythrael, tra byddo byd gan Dduw; nag eiſiau hoel tra fyddo calon gan ddyn. O Arglwydd y mae genyf fi vn, ac eingian o ddyſeifiau drygionus a thrachwantau ynddi, llawn o bob twyll a dichellion anelldigedig. Oddiwrth rûthr gan hynny o brofedigaethau, oddiwrth ſugnedd o ymadawiad yſprydol, oddiwrth y diffwys o wrthgiliad diweddol, trwy rinwedd dy groes gwared fi. Oddiwrth fy hûn o flaen pob peth, am calon (vwchlaw oll) ynof fy hun gwared fi Arglwydd daionus. ofni rwyf y diffwys, y ſugnedd: y rhuthr, eithr yr eingian yn fwy na'r cwbl oll. heb waith a dichell yr hon, ofer yw i ddiaſol demptio; na âd Duw mo honof fi, ac ni adawaf fi Dduw. *llygredigaeth* a'r *cnawd* yma, yr wyf yn edrych ar nynt trwy ddychryn, megis ar yr *eingian* yn yr eſail: ar yr hwn y mae y *diaſol* ac yntau, yn mwrthoelio, llunio, a churo allan ei holl orchwylion. Pe beth am ceidw i

oddiwrth

Gal. 3. 13

Mat. 26. 56

Apoſtaſie.

Heb. 10. 26, 27

1. Pet. 2. 24

oddiwrth rinwedd dy groes am llawenydd Arglwydd Jeſu. honno a gaiff (a bydded iddi byth gael) fy ofn.

Ira & dolore impleor pro Chriſto meo. Naz.

9. A pha fodd y mae fyngwaed yn berwi yn fyngwithennau i weled yſpeilio dy groes oi rhinwedd? O Criſt, y mae fy yſpryd ar vnwaith mewn cyſtudd a digofaint troſor. Jeſu yr wyf yn llawn o lidiawgrwydd am y dirdra ar cammau a wnaed ath di, i weled dy waed *tywalldedig*, yn *ddirmygu*. I weled abergofi dy *ddioddefaint* neu ei *gamarfer*. dy gariad, heb pris ne' goffadwriaeth; dy boenau heb *grediniaeth* neu *doſturi*. Pwy a eill pwy a ddylai oddef, O Criſt, weled gwneuthur dy groes yn lluniau, neu ſaner ir Cythrael. allan o'r ecclwys yn gyff-tramgwydd, a chraig o drawſedd; oi mewn, yn ddelw ac yn bren o ofer-goeliad. I weled dy friwiau (achles pechaduriaid) wedi eu troi yn ddinaſoedd o *ymddiffynfa* i bechaduriaid. dy haeddedigaethau eu *noddfau* hwynt, dy waed eu *bywyd*. dy hunan eu *patron*. dy ddioddefaint mamaeth eu *Rhyfyg*. dy drugaredd, llaeth yr holl ffeiddi-dra. Dy leidr da a wnaed yn yſpeiliwr mwyaf i ddynol ryw, am fod yn achos on rhyfygiad i fyned rhagom mewn pechod, ath toſturi di yn brifgarn or yſpeilfa.

1 Cor. 1. 23

Eccleſ. 8. 11

Rhyf. 6. 1

Ac yn nerth y waelwâg hyderoedd hynny, ar dygiadau cabledd-goel oddiwrth dy Groes, pwy eill yſtyried heb ddigofaint beth a wnair yn dy deirnas di? Pa gorſennod a wnaethbwyd oth Teirnwialennod? Pa gadairiau, dy orſeddfamgciau di? pa drouau dy drefnau? pa hyllrwyd dy waſanaeth? Pa wibliaid dy addolwyr? Pa *ddibennau* dy waſanaeth, pa *loerigrwydd* dy Ddadcuddiadau? Pa *gythreildeb* dy yſpryd, pa *grwydri*, dy gynhyrfiadau.

Gwneuthur pob drygioni, *yn dy enw di*, *ith ogoniant ti*, trwy dy *warant ti*, ar rhan fwyaf tan *fêl* dy groes di. gan y rhai a wiſcant dy *lifrau*, a haerant fod ith *waſanaethu*, ac a broffeſant dy *anrhydedd*, yn ymddangos i ddymuned *gwybod* dim ond *tydi*, ac iw gweled eu hunain yn groeſhoeliedig, megis dynion gwir

gwir ſarweiddiol, yr rhai ni cheiſiant ddim llai na hwynt eu hunain; etto a rwygant ar vnwaith, dy gyfreithiau ath aelodau, a dynnant i lawr y *ddau*, dy groes ath dy, ac a oſodant ynghyd dy addoliad ath waed yn y *llwch*. O *Jeſu* yr hwn a fflangellaiſt y prynwyr, ar gwerthwyr, allan oth Teml di. Pa le y mae dy *Zêl* am dy *Eccluys* ? am danat dy hun? am dŷ dy Dad ? Ti elli weled, ac etto oddef y cammau hyn ith anrhydedd ath waed. Pryd y byddo llidiawgrwydd yn enyn yn enaid dy was truan, wrth weled y fath ddiyſtyrwch, Pa fodd yw na chynneu digofaint allan yn dy vn di? ie felly y mae, oblegit tydi wyt Jeſu. A geri gadw, anawdd genit ddiniſtrio, gwilio yr wyt am ediſeirwch, troi heibio dy ddialedd tros amſer.

10. Fe am treiſwyd gan ſerch ir yſpryd daionus. O Criſt hwn oedd gennit ar y groes, ac ai cedwi ar dy Luc.23.34
Orſeddfaingc. lle yr ymddengys ſe am treiſia i. yn Joa.19.28
dy weſuſau gweddiaiſt ti am eu *pardwn*, yr rhai oeddynt yn tywallt dy *waed*. ſychedaiſt di am eu hiechydwriaeth, yr rhai oeddynt yn cigyddio dy gorph. yn dy *freichiau*, eſtynnaiſt i gofleidio yr holl ddauar, am hynny ni *tharawſant* er bod ynddynt holl nerth y nefoedd. yn dy olygon, mal y bueſt gyda ac *vn* cm mamau *ſe am treiſwyd o ſerch* ith vn di. dy *boethineb* am dy- Can.4.9.
chrynodd. dy ffafor yw r *vn* hwnnw. y llygad, ar hwn Dygaiſt
yr edrychaiſt ar y lleidr truan, ac a roddaiſt iddo dy ſynghalon
bardwn ath *peradwys*. y llygad ar hwn yr edrychaiſt ar
dy fam anwyl (ac ynghanol dy friwiau) dewis ymge- Luc.23.
leddwr iddi, a chymetyd gofal am dani. y llygad 43
a'r hwn yr edrychaiſt ar y diſcibl anwyl, ac lle Joa.19.26
yr oedd ef yn was i ti, ai gwnaethoſt yn fab ith fam, Joa.19.27
y llygad a'r hwn yr edrychaiſt ar bechaduriaid tru- Eph.5.25
ain iw gwaredu, *Eccluys* iw phrynu, a byd iw Joa.12.42
ryddhau. Eithr yn dy galon. O Pa fath *olygiad* a welai
yno? trwy ddŵr waeclyd dy fron friwedig tŷ yn llawn
o ddim ond daioni, ymynedd, tofturi, a thrugaredd. O Joa.19 24
pa fath olwg ſydd yno y ffordd yr ai y waiwffon, i Joa.5.6.8
weled amlygiad vnig ddiſyrrwch pechadur truan,
Calon lawn o Ras o ffafor yn nwyfron Jeſu
(calon Jachawdwr. Oddiwrth y galon honno

ar

ar llygad hwnnw, O Criſt gwel dy ſam gyſtuddiol (yr Eccl wys ath ddiſcibl anwyl (ei mab) anadla gyſſur iddi, am yr hon y rhoddaiſt *waed*. Ac iddo ef yr hwn yw mab ei chyſſur. Gwna heddwch rhwng mam a phlant, lle dylai gariad fod. bydded vddynt fyw trwy yr vn yſpryd, yr rhai a brynwyd ar vn *gwaed*. Ac na fyddont mwyach yn groes y naill ir llall, eithr vn i ddwyn bauch y llall.

Piccella Arglwydd, oddiwrth y llygad bendigedig yna oth toſturi, y ffafor ar bendithiau hynny ar wyneb y corph gwaedlyd hwnnw; Ac ath freichiau (hoeliedig vnwaith ar Groes, eſtynnedig yr awrhon ar orſeddfaingc) cofleidia hi a chynnal hi mewn bywyd, derchafa ei gorſedd hi, am yr hon y dioddefaiſt ti y groes. O Tydi yr hwn ath fyſedd a weithiaiſt nef a dauar, *ac a gynhali bob peth a gair dy nerth*. yr hwn y mae r byd yn ei ſaethru tan draed, Cymer di ith freichiau. yn dy *freichiau* bendigedig, o ti ollalluog a thrugarog wneuthurwr ac Jachawdwr y byd. yn dy *freichiau* bendigedig di, y gadawaf y *fam* friwedig, ac wrth dy *draed* y goſodaf y plentyn yn gwaedu.

Pſa. 8. 3. Joa. 1. 3.

Jeſu. Maetha yr anwydau ſanctaidd hyn ynof, yr rhai a feddyliodd ſynghalon ac a ddyg fyn nhafod yn awr allan, oth flaen di, bydded dy ddioddefaint bendigedig di iw cynnyddu bych ynof, ath yſpryd glân iw magu hwynt i ti. ie er mwyn haeddedigaethau dy ddioddefaint gwaedlyd mi attolygaf i ti, *Amen, Amen.*

Heb. 1. 2.

Gwaſanaeth

Gwasanaeth o ddiolchgarwch neu o ymbaratoad ir Cymun sanctaidd ddydd Satwrn neu ryw ddydd arall.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol weddi.
Psal. 26. 74. 146.	*Psa.* 35. 67.
Llith.	Llithoedd.
{ 2 *Cron.* 30. *Mat.* 26. hyd adn. 46.	{ *Esa.* 55. 1 *Cor.* 11. neu 10.

Gweddi cyn dyfod ir Cymun sanctaidd gan gydnabod ac ymofidio am ein haneilyngdod.

O Arglwydd. Yr wyf ym mhob man yn dy ŵydd, a than dy olwg di, ac am hynny ni ddylwn fod yn halogedig mewn vn lle: eithr dy bresenoldeb yn enwedig ath wyneb sydd yn dy deml, yno gan hynny y dylwn fod yn fwy sancteiddiol. Ath cadair ath *côr* sydd ar dy swrdd, yno gan hynny, y dylwn etto fod yn fwy sanctaidd. ie yr Angelion nid edynt ddigon *pur* ir cyfriw bresenoldel nefol, pa fodd gan hynny y geill pechadur marwol truan ymddangos yn y fath wasanaeth tra-vchel a sanctaidd? Pa fodd y baiddiaf fi, Gymuno gyd a thi, yr hwn ni haeddwn ddyfod oth flaen di. Arglwydd gan na allaf ddyfod (mal y dylwn) *yn bur* mi a wna yngorau trwy dy râs ar ddyfod (mal y gallwyf) *ynedifeiriol.* mi syddaf mwy gostyngedig, am fod yn llai sanctaidd; a mwy golchedig, o ran bod yn fryntach. Ac o Arglwydd dod i mi râs felly i ddyfod, bydded i mi edrych tros fy mywyd yn nrych dy gyfraith (bydded im cydwybod fy helpio i edrych) a pheri i mi olchi am dagrau, yr hyn a lygrwyd yn fy llwybrau; a glanhau yngwaed Crist, yr hyn a olchwyf am dagrau

Ath eisteddfod.

Act.2.27. dagrau. O Arglwydd mewn golchfa or dwfr yma
Act.16.14 poethedig yn y gwaed hwnnw yn llifeirio oddiwrth
Eſa.1. 16. galon pechadur yn gwaedu, ac yn yſtlys waedlyd yr Jachawdwr, oni byddaf fi glan os ymolchaf? trawana fynghalon mal y credwyf, egor fynghalon mal yr edifarhawyf, mal y gallwyf ymolchi felly a bod yn lân. Er na bum fyw yn vnion, par i mi gredu yn vnion: a phar i mi garu yr hwn yr wyf yn ei gredu. tydi O Arglwydd Tad ein Harglwydd Jeſu Griſt. Yr hwn a anfonaiſt dy fab i dywallt ei waed er ein prynu. Tydi o fab Duw, yr hwn a ddaethoſt, ac a dywelldaiſt dy waed i wneuthur Golchfa, im iachau i. Tydi lân yſpryd Duw, trwy ſâs a gweithred yr hwn ar fynghalon, y deuaf i gael donniau y gwaed hwnnw ar hwn a garaf na âd i mi ei ddigio. Arglwydd na âd i mi mwy dy anfodloni di bydded fynghalon yn oſodedig ith waſanaethu di, yn ymroi i ryngu bodd i ti. A Derbyn di fi, Tad a mab, ac yſpryd glan. *Amen.*

---

2. *Gweddi o flaen y Cymun ſanctaidd i gael maddeuant ac ymbarato ad atto.*

JAchawdwr anwyl. yr hwn a roddâiſt dy gig ath waed i fod yn fwyd ac yn ddiod i mi, ac yr awrhon am gwahoddi at y dainteidd-fwyd nefol hwnnw. Pwy ydwyf fi (ddyn truandlawd galar-lawn) i feiddio dyfod am dwylaw anheilwng i dderbyn y dirgeledigaethau tra-vchel a ſanctaidd hynny? yn aflan *ddechreuol*; yn iwyn *weithredol*; a chwedi dyfod i Gymuno ddiwaethaf (er maint fy *addunedau* am *addewidion* oth flaen di) drachefn, a thrachefn, yn *llugredig*. Yn yr ingar cyfyngder hyn om hyſpryd, pa fodd y bodlonit fy enaid? oni ddeuai ar dy alw, yr wyf yn gwrthryfela yn erbyn dy *drugaredd*: os deuaf mi wna gam ath *purdeb* O fy nuw. Ni ſafai allan yn wrthryfelwr, eithr yn hytrach cwympo i lawr yn ymbiliwr goſtyngedig oth ffaen di. Yr wyf yn euog Arglwydd Pardyna fi. Yr wyf yn aflan Arglwydd Pura fi. er bod yn euog

ac

ac yn aflan, dy enaid pryned'g wyf, waredydd anwyl gwared fi. bydded haeddedigaeth dy werthfawr waed im glanhau oddiwrth yr euogrwydd ſydd arnaf. bydded rhad dy lân yſpryd im ſancteiddio oddiwrth y bryntni o mewn. bydded yr ocheneidiau ar dagrau, yr rhai a ddaw oddiwrth waedlif ſynghalon, i olchi ymaith y brychau hynny, trwy rinwedd y gwerthfawroccaf waed hwnnw. bydded y llefain ar gweddiau, yr rhai yn awr a ddaw oddiwrth fy enaid *credadwy*, i ſwynhau y rhadau hynny oddiwrth dy lân yſpryd. Gwir edifeirwch a goſtyngeiddrwydd, ffydd fywiol, a chariad perffaith, gyd ar holl *feddyliau* ac *amcanion* nefol a ſanctaidd hynny yr rhai a eill ſyngoſod am paratoi i ti. Trwy yr rhain, cymhwyſa fy enaid i ti dy hûn, am corph gyd am henaid i fod yn dŷ ac yn *drigfa* i ti, Eled dy lân yſpryd ath corph i fewn i mi. Tyred Jachawdwr anwyl tyred at werth dy waed, meddianna dy eiddo ac achub fi, mwynha fy enaid, portha fi ac ymddiffyn fi. bydded i mi fwy Gras o hyn allan nath ddigio di. par i mi ofalu i gadw ſynghorph (dy deml) yn burach oddiwrth bechod, ac yn ſanctaidd i ti; am calon (dy wely) yn lanach oddiwrth drachwant ac yn ddi frycheulyd oth flaen di. yn dy nerth di y bara bywiol, bydded i mi gynyddu yn gefnoccach ith waſanaethu di. A thrwy rinwedd yr vndeb a chymundeb mor agos a thi, na âd im vn i, ond dy *yſpryd glân* di, o hyn allan, *lewyrchu*, *arwain*, am *bywhau* i. mal y gallwyf ochel pechod yr hyn a gaſhei, a gwneuthur beunydd y dledion o ddefoſiwn a chariad perffaith yr hyn a rynga bodd i ti. felly gad ir Sacrament hon ar vnwaith ſelio i mi dy drugaredd ath ogoniant. lle y caf yn dragywydd gymuno gyd a thi mewn perffeiddrwydd purdeb a dedwyddwch. Ir Cymun dedwyddol hwnnw, trwy dy ras, Jachawdwr anwyl yn oeſtad paratoa fi. Ac yn awr am gymun ſanctaidd gyd a thi. *Amen*, *Amen*. dywaid, *Amen*. Arglwydd, *Jeſu*.

3. *Gweddi, ar ein dyſodiad ir Cymun ſanctaidd.*

ONi bai iti tyngwahadd ith fwrdd ſanctaidd. O Arglwydd; ni buaſwn mor hyf a beiddio dyfod. yn awr iin gelwi. ni feiddiaf ym-gadw ymaith. Ac ettto pan yſtyrriwyf *pwy*, a pha beth ſydd yma, yr wyf yn ofni ac yn arſwydo dyfod. Tydi O Arglwydd wyt o fawredd ſanctaidd ac ofnadwy, ac felly y mae dy farnedigaethau : *bara* ſanctaidd a *gwin* ſanctaidd. *Corph* tra-ſanctaidd a *gwaed*. (nid oes vn brychewyn yn ei waed yr hwn ſydd Dduw, ac Arglwydd mal tydi) oen Duw *difrycheulyd*, dilygredig, heb friwſionyn o lwgr, oll yn bur (travchel a ſanctaidd.) Eithr och wae : *Aflan, aflan, aflan*, wyf-fi ddechreuol weithredol, (ym mhob modd) yn y galon, llaw, gwefuſau, (ym-hob rhan) trwyddo, bacheneiddrwydd, ieuengct'yd, gWrolaeth (pob oedran) tra anheilwng i dueddu at breſenoldeb mor bur, yr hwn wyf mor anuwiol ac aflan.

Gwir Arglwydd. Eithr yr wyf yn greſynu fy aflendyd, yn rhoi heibio fy nheilyngdod fy hûn dyfod yr wyf nid o herwydd fy neilyngdod eithr yn *nifyg*, dyfod yr wyf i fod yn *lân* a *theilwng*. y corph hwnnw ar gwaed a ddichon fyngwneuthur yn lân (corph fy Jachawdwr yw) ei haeddedigaethau ef a ddichon ymheri yn *deilwng*. (rhai dy fab ydynt) ac yma y mae *troſglwyddiad* or corph ar gwaed bendigedig hwnnw (dy *Sacrament* yw :

Troſgludiad.

Arglwydd. Cymer fi yn deilwng er ei fwyn ef, a gwna fi yn deilwng er mwyn dy drugareddau, wrth fy *nyfodiad*. Dyro im pechodau dy faddeuant, im henaid dy Râs : im fy hun dy dderbynniad, yn dy anwylfab. Ar hyn yr wyt yn ei droſglwyddo, ſelia i mi, trwy yr hyn yr wyf yn ei dderbyn gennit, bendigedig corph a gwaed Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

4. *Gweddi*

4. *Gweddi o ddiolchgarwch yn ol derbyn y Cymmun ſanctaidd.*

MAddeu, O Dâd ith plentyn truan y gwendyd ar beiau a wnaethbwyd yn dy waſanaeth ſanctaidd: Pa vn bynnac ai *ymlaen* ai yn ol ai wrth dderbyn dy Sacrament. Ac ynddi am werthfawr waed dy fab ſanctaidd Jeſu or hwn y derbynniais y *Cymmun* ſanctaidd, ſelia i mi faddeuant. A gwêl a derbyn dy was a chalon lawn oth cariad, yn rhoddi allan foliant i ti am y donniau anrhaethawl a dderbynniodd yn yr vchel a ſanctaidd ddirgeledigaethau hynny. Beth wyf fi O Arglwydd, neu beth ſydd ynof fi, mal y gwnaiſt yr anrhydedd mawr ar ffafor hon i mi? anheilwng wyf i gyfwrdd a throthwy dy dŷ. a thi am cymeraiſt i ith fwrdd. nid wyf deilwng i ſefyll ym mhlith dy Seinctiau, a thi a wnaethoſt i mi eiſtedd gyd am Jachawdwr. Nid wyfi deilwng i ddyfod oth ſlaen di, a ſyrthio i lawr o flaen dy droedſainge; ac ef a ryngodd bodd i ti ddyfod i mewn i mi, a gwneuthur ſynghalon yn orſeddfainge itti. nid wyf *deilwng* i *fwyta* bara dynion, a thi a roddaiſt i mi ſara Angelion: ie Arglwydd y mae r Angelion yn newynu eithr ni chânt mor bara hwn. Yr hyn a ryfeddant hwy a dderbynniais i, yr hwn a addolant hwy, a groeſawais i. Corph a gwaed Criſt eu drychol-ddrych hwy yw ſy ymborth i. Criſt ac hwynthwy ydynt ddau; eithr ſyfi am Iachawdwr vn ydym, cnawd oi gnawd, ac aſcwrn oi aſcwrn. vn gwaed vn corph. O ddirgelwch anrhaethadwy, O drugaredd digyffelyb.

Arglwydd, mi attolygaf i ti, gan na allaf o honof fy hunan dy glodfori yn ddigonol, gwna fi (ryw fodd) yn deilwng o honot. Par im dwylaw, yr rhai a dderbynniodd dy fendigedig gorph a gwaed, ſod yn ſanctaidd o hyn allan, ac na wnelon vnrhiw weithredoedd a fyddo ith anfodloni di. bydded im gweſuſau yr rhai a gyffyrddodd y dirgelion ſanctaidd ſod yn ſanc

ſteiddiol i ochel holl eiriau ath ddigio di. A bydded im calon fod yn breſwylfa im Harglwydd am Jachawdwr, ac o hyn allan yn ſanctaidd mal na letyfo ofer feddyliau am mewn. Megis ac yr wyf yn vn ag ef mewn corph a gwaed, bydded i mi fod yn vn mewn yſpryd. yſpryd *doethineb* cariad a ſanctteiddrwydd; yn vnion ith adnabod ti, ith waſanaethu, ac i lynu wrthit. Trwy Sacrament ſendigedig ai gorph ai waed *darlunia* hyn i ni. cydffurfia hyn ynof. bydded im henaid yn *ſined* neu arwydd oth cariad, ath ſel oth ogoniant ti. Ac er mwyn haeddiant gwerthfawr y gwaed ar coprh hwnnw, derbyn fi atto mi attolygaf i ti, mal y byddwyf yn vn *mewn vndeb* a *chymundeb* tragywydd gyda thi er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

Diolchgarwch ar ol y Cymun, gweddus i vn creſyddol, yſprydolſerch iddo.

TYdi yr hwn a roddaiſt y bara or nefoedd, im ymborth i. O dyro i mi dafod Angel ith foliannu di O Arglwydd. nid yw yr Angelion eu hunain wedi eu bendithio ar cyfriw fara. O Pa ddirgelwch tra vchel a thrugaredd yw hyn, fod fy Jachawdwr yn *ymborth* i mi. ai gwneuthurwr hwynt yn *lluniaeth* i mi. Corph a gwaed Criſt tragywyddol fab Duw, i fod yn *Gymun* ſanctaidd iw ſwyta ac iw yfed gan enau dyn marwol. O anherſynol ddaioni Duw graſuſol yn cyd-ddeſcyn, i wneuthur ſynghalon oſtyngedig yn breſwylfa iw ſanctteiddrwydd. I ddyfod attaf fi, i fyned i mewn ynof fi, ac i fod yn vn. nid trwy gymod yn vnig eithr trwy nefol *vndeb* a *Chymun* gyda mi. O *vndeb* rhyfeddol. O ddirgelwch corpholedd. O enaid dedwyddol, yr hwn wyt mor agos ith Jachawdwr. O enaid truanaidd os bydd dim yn rhy anwyl gennit ti ir cyfriw Jachawdwr na fynnit roi dy gorph ath waed am ei wirionedd ef: na fynnit roi dy fywyd iw ogoniant ef. O Arglwydd-

bydded

bydded im henaid yr hwn a wnaethbwyd trwy dy Sacrament mor ddedwyddol na wneler ſyth mo hono trwy bechod yn reſynol ac yn anedwydd. Tydi yr hwn aethoſt ath corph ath waed ynof fi, trwy dy yſpryd cymer feddiant ynof. Arwain fi, gorchymyn fi, rheola fi, cynhyrfa fi: bydd di yn yſpryd im henaid, ac yn enaid im corph. Na âd ir cnawd, y byd neu y cythrael o hyn allan gael dim nerth na gallu ynof. O bydd di fyw ynof O Criſt, yn dy dŷ dauarol, a bydded i minnau fyw yn dragywydd gyd a thi yn dy breſwylfa nefol. A hyn trwy haeddiant a rhinweddau dy werthfawr gorph ath waed Jeſu hael fy Arglwydd tirion-ddoeth am Jachawdwr anwylgu, mi attolygaf i ti. *Amen, Amen.*

Yſgwſlgwyn yſprydol-ſerch iw adrodd gan vn, yn ol Cymuno yn greſyddol.

O Arglwydd. Lle yr wyt ti yn byw ydy w r neſoedd: nid yw r nef gan hynny y dwthwn hwn, nid mwy vwch fy llaw nag ynof fi: Pa fodd gan hynny y geill fy enaid vnig dy addoli di, am tafod dy glodfori yr hwn a wnaethoſt ith was nef ddeublyg. O Arglwydd. bydded y cwbl oll ſydd *om mewn* i, ac oll ſydd allan i mi (ſef *meddwl, calon, tafod, llaw*) oll a blâs y nefoedd ſydd om mewn, i oſod allan dy ogoniant a bydd dithau yr hwn y dydd hwn a ddarluniaiſt y neſoedd om mewn i y dydd hwn, yn fy awr alaf i droſglwyddo fy enaid ir nefoedd. mal pa beth bynnac ſydd yma yn niffyg oth foliant dyladwy, y gallwyf ei dalu yno mewn *Haleluiau* tragywyddol. ie ſelly Arglwydd, gogoniant a ſyddo i ti yn dragywydd, am y ffafor anrhaethadwy, ar anrhydedd a wnaethoſt ith waſanaethwr. Am y cyfoeth ar treſawr anchwiliadwy cynnwyſedig yn dy Sacrament; ſef bendigedig gorph a gwaed *Jeſu* Griſt fy mhrynwr anwyl am Harglwydd, am Jachawdwr. *Amen, Amen.*

Myfyrdod am y Cymun ſanctaidd.
ar 1 *Cor.* 11. 24, & 25.

Gwnewch hyn er coffa am danaf,

Gwnewch.] Oni bai dydi Ieſu anwyl, ſe am *daddwneithid* yn efrydd yn dragywyddol. i ti ac er dy ſwyn di pa beth yw nas dylwn i ei wneuthur?

Mat. 8. 11

2. Dy ddymuniadau di ydynt orchymynnion *arnaf fi:* y mae Awdurdod ddigon yn dy *gariad*, i beri i mi wneuthur y peth a fynnych. *dywaid* Arglwydd yno dy was a glyw, pa beth bynnac yw dy ewyllys hynny a wnaf.

3. Gan na fynnitti vn cnawd ond cnawd fynghorph, ni fynnai vn ewyllys ond ewyllys dy enaid. Pa beth bynnac yw dy ewyllys di, a gaiff ſod yn ewyllys i minnau O Arglwydd, iw wneuthur yr hyn a fynnit ti i mi ei wneuthur.

Heb. 10. 5

4. Ni feiddiaf fi ddywedyd felly wrth vnrhiw ddyn, O Arglwydd, (er duwioled fyddo neu er maint yn dy eiddo di:) ſe ddichon ei ewyllys ef ſod ac amryfuſedd im tywys, ac yn ddrwg im cefeillach: Eithr *o ſanctaidd vn i dduw* ni edwyn dy feddwl di vn bai nag amryfuſedd; nath ewyllys ddim gwyrgamni. mi feiddiaf wneuthur bob peth bynnac a ewyllyſych.

5. Beiddio gwneuthur? ni feiddiaf ond ei wneuthur, os dy ddymuniad a ddaw allan vnwaith mewn *cyſylltiad*, neu arwyddocau dy ewyllys mewn *gorchymyn*; mi ddylwn nid yn vnig o ran fy rhwymedigaeth, eithr y mae yn rhaid i mi tan boen *fy vfudd-dod* i ti brenin yr Eccluys: ar llywawdwr yn gyſtal ac Jachawdwr fy enaid, ni waſanaetha i mi *ddadleu* nag oedi, ond gwneuthur, ac am hynny, ddylwn rhaid ei *wneuthur*.

Iniunction. ablegeance.

Mat. 17. 5. Act. 3. 23 Act. 9. 6

Hyn.]

Hyn.] Canys Arglwydd pa beth yw, yr hyn a fynnit ti i mi ei wneuthur? ai dringo croes? i oddef Poenau chwerwdoſt? a hynny er dy fwyn di, ni ddylwn dybied yn fawr ei wneuthur, yr hwn a wnaethoſt fwy troſof fi. Beth yntau, pryd nad yw gimaint a hyn? nid myned i *Scaffold* eithr dyſod ith ſwrdd di? nid myned i ſedd ond i wledd? nid i waedu neu loſci, ond i ſwyta ac yſed? nid i *oddef* hynny, ond i *wneuthur hyn.*

2. A pheth yw yr hyn yr wyf iw ſwyta ai yſed? ai bara cyſtudd a dwſr adſydwch, yr hyn a laccâ ſy yſprydoedd? nagê Ieſu anwyl, bara a gwin i gyſſuro a chryfhau ſynghalon. Nid bara *cyffeſwr* (dagrau) na Phiol Merthyr (Gwaed) ond ymborth ein Iachawdwr (bendigedig win a bara) ie ynddynt hwy, (y peth *yw* r ddau, bendigedig ac a *wna* r ddau, bod yn ſendigedig) *corph* a *gwaed* ein diddanweh. Dy ſendigedig gorph a gwaed Ieſu anwyl. *Bwyd* a *diod*, yr hwn a lawenychâ ſynghalon, ac a *ware*d ſy enaid; *bara* y bywyd a ffynon y bywyd. O hynny, O Arglwydd y bwytaf yn dy ſara, ac yr yſaf hyn yn dy Phiol. o ran yr wyt ti yn y ddau, yr hwn wyt *Arglwydd* ar y *bara*: ffynnon ac Arglwydd y bywyd: Oedd y Paſc yn wledd, ac nid yw dy Swpper di? lle nad oes dim Hyſau ſurion ond melyſion nefol, iw gwaſanaethu yn y wledd? Os hynny yw dy orchymyn O Chriſt, yr wyf yn wrthryfelwr (ac yn gimaint, im daioni ac ith gyfraith (gwrthryfelwr melldigedig) onis gwnaf fi *hyn.* Ioa. 6. 48. 53, 54

3. Ac yn gyfrgoll-ddyn, onis gwnaf fi y cwbl oll, eithr peidio ar hanner. nid wyf yn gadwedig ond trwy dy gorph, mi fyddaf yn ddamnedig heb dy waed, ni bydd arnaf eiſiau na gwaed na chorph am fy *aberth* i, ac oni chaf fi hwynt hwy eu deuoedd yn dy Sacra ment ti? A offrwmaiſt ti. dy waed troſof fi ar y groes? ac oni chaf gymeryd yr arwydd oddiwrthit ti, ar dy Swpper? ydwyd ti yn rhoddi i mi *hawl* yn dy waed ac a gaiff vndyn ſynghadw i allan o feddiant? fy anrheithio i oth trugaredd, am cyfiawnder, dim llai na phris fy mhrynedigaeth? wyt ti yn rhoi i mi y prynedigaeth yn dy waed, ac a gaiff vndyn fy neccau or Sêl yn yr Ecclwys, dy vn di, O Criſt. Pa fodd y geill yr 1 Per. 2. 24 Heb 9. 12. 21

Eccl wys honno ſod yn dy eiddo di, a feiddiâ ſod yn euog or cyfriw ddirfawr wrthryfel ac yſpeilfa? i wrthwynebu ar vnwaith dy ewyllys, ath ſel; i ledratta ar vnwaith dy *Phiol* ath *Teirn wialen?* yn erbyn dy *Deſtament* ath ewyllys? dy dreſn ath ewyllys amlwg, ac eglur i wneuthur hynny? a ddichon bod hyfach, a mwy *gwrthryfelgarwch?* I gymeryd y Phiol oddiwrth y bobl, ar deirnwialen oth law di (i ddifuddio eu heneidiau oth waed, a thi dy dun oth Awdurdod) a eill ſod yſpeil waeth? Ac i gyfaddef y gwaith, ac i gyfiawnhau, yr hyn a wneid (o ti frenin neſoedd ar Eccl wys) a eill vn llaw ſod mor *vchel* yn dy erbyn, neu weithred mor *greulon?* Beth gan hynny a wnaf fi, Jeſu Anwyl, y pryd ar lle, na allwyf wneuthur hyn? lle, er ei erfyn na allwyf gael dy phiol? a gymeraf fi hanner, neu ſod heb ddim?

O Arglwydd, yr hwn nid wyt i dderbyn hanner gwaſanaeth, nid wyt ti i dderbyn hanner Sacrament. tydi yr hwn nid edrychi ar hynny, ond mal peth *heb ddim*, a gymeri di hon am vn? Ac oni ddylent hwy ofni yn gyfion, yr rhai ni wnant ond hanner hyn? nad ydynt (pan wnelont y cwbl) yn gwneuthur dim? O herwydd trwy dy Awdurdod ath treſnedigaeth ſanctaidd, ac arfer yr Eccl wys bur or cyſyd ni oſodwyd ac ni arferwyd wneuthur felly? Jeſu anwyl trugarha wrth y bobl ſydd yn dioddef y *camwedd* hyn, a'r naill, ni cheiſiant, ai ni fedrant gael yſmwythdra, oddiwrth y fath greulondeb tramawr. A Chyfiawna di eu hachos hwy O Criſt yr rhai er mwyn eu hiachawdwr, ai heneidiau eu hunnin ni roddant y llaw ddehau o Gymdeithas, ir rhai ath yſpeiliant ti mal hyn, oth Addoliad. Gan ymneullduo oddiwrth eu gwaſanaeth hwy, yr rhai a wahanant dy Sacrament: oblegit ni feiddiant gymeryd vddynt y peth y mae y lleill yn ei ddwyn ar dtais, ai gamarfer, gallu i newid yr hyn a *oſodaiſt ti ar lawr.* Na ſelio yr hyn a ordeiniant hwy, Gweithred gyfaddefol yn erbyn dy *ordinhâd* di: na gwneuthur, yr hyn a orchymynnont, troſeddiad ith *ſel* ſanctaidd ath Sacrament. Pa ſodd y corpholiaethaf fi gyd a hwynt ſydd yn cadw dy waed ti oddiwrthyf fi? Pa ſodd yr

vna

vna ſy enaid a hwynt, yr rhai ni roddant i mi ond hanner Jachawdwr? oni chiliaf fi oddiwrthynt ollawl, yr rhai ni roddant y *Sacrament* yn *gyfan*, elthr yr *hanner*? Os naccânt hwy fi oth *Phiol* di, a gant hwy ſynghymun i?

O Arglwydd. Pa fodd y gallwn ni gymuno gyd hwynt yr rhai ſydd yn cymeryd fyn nealldwriaeth ith waſanaeth (ſef mewn iaith ddiadnabyddus) ar Scrythyr oddiwrth fyngolwg, felly dy *phiol* oddiwrth fyngwefaſau.

Os gorchymynnaiſt i mi tan boen fy vfudd-dod, heb dy *felldith*, ni allaf na wnelwyf hynny.

4. *Gwnewch hyn*,] A gwelwch na wneloch hynny? Pa iaith yw hon gadewch yr hanner hyn *heb wneuthur*, Pwy a feiddia mal hyn ddywedyd yn dy erbyn di O Criſt. Ai dy *vicar* ai dy *Feiſtr* yw ef, a feiddia ddywedyd hyn? Ai coloſn y gwirionedd ywr hon ſydd yn tynnu i lawr goloſn y Sacrament, (ſef coloſn yr Jechydwriaeth? a dynn ymaith y gwaed, *gwniad* y goloſn ſanctaidd? Ac felly a dynn (oni thynn y cwbl, or lleiaf) yr hanner i lawr.

A gaf fi fodloni fynghydwybod a *ſynwyr?* yn gyntaf *dyfeiſio*, ac yno *credu*, y gwaed a roddir yn y corph? Eithr yn y *Sacrament o ddiolch*, dy waed ti a roddir megis tywalldedig nid cadwedig. A pham gan hynny y cai neb y Phiol, gan fod, rhedegſa y gwaed yn y corph? A gymerodd yr Apoſtolion y Phiol yn vnig? ni waſanaetha gan hynny i wyr llyg fwyta y bara, ac felly eu torri allan o'r Sacrament o Jechydwriaeth, gorph, a gwaed? Oni ragwelaiſt ti hyn O Arglwydd. Ac am hynny y dywedaiſt yn hynodol, nid bwytewch chwi bawb, eithr yfwch chiw bawb o hwn (i ddangos, nad oes vnrhiw ddyn iw gadw allan oddiwrth y phiol? felly trwy dy ras di ni wnaf fi fyth mo hynny; megis yr ordeiniaiſt myfi ai cadwaf *ac a wna hyn*.

5. *Hyn*] nid *mal hyn*, nid yw yn rhwymo wrth yr amgylchiad ond ſylwedd y gorchymyn. nid lle, nag amſer, na rhif, (cyfaddefir.) Canys felly deuddeg yn vnig a Gymunent mewn Stafell vwch ben, a lliw nos: nid ſefyll ar ymddygiad chwaith, os digwyddodd

ddodd hefyd, (er bod yn eglur y modd yr oedd) yr oedd gallu ir Ecclwys iw ofod, ac mi allaf a chydwybod dda gynnal ei gofodiad ai threfnedigaeth: ac er nad oedd felly nag felly, etto *gwneweh hyn.*

Er coffa. Yr wyf yn cywilyddio Arglwydd: wrth weled fod arnaf fy hun eiſiau *coffadwriaeth* i goffa hyn. Oes gennyf fi giſt i gadw celfioedd a ffardial y byd, ac heb vn *Stafell* i ti fyn nhreſawr nefol? cof am y peth a fynnwyf, heb ddim am y peth a ddylwn? *Tydi a wnaethoſt felly dy wethredoedd rhyfedd, maly dylent gael coffadwriaeth,* O Arglwydd. A thi, *enw yr hwn ſyddryfeddol,* ath holl weithredoedd mal dy *enw,* ac yn hyn, vwchlaw dy holl *weithredoedd,* a allaf dy anghofio di?

Pſal. 141. 4

2. A allai fy anghofio fy hun, cym mhelled? yr hwn nid wyf yn anadlu vn munud ar y ddauar, neu allan o vffern, hebot ti: Os anghofiaf tydi O Ieſu, *glyned fyn nhafod wrth daflod fyngenau. Anghofied fy llaw ddehau ei chelfyddyd.* Yn ddiammau ni buaſai y Delyn honno yn adnabod tôn o lawenydd, ac ni buaſai ir llaw ddim iw wneuthur byth ar delyn, oni bai i ti roddir byd (yr hwn oedd oll allan o drefn) mewn trefn dracheſn, a goſod y cwbl mewn Cywair?

3. Ai hynny yw r cwbl, pryd y dylwn filoedd o fywyd i ti, i beri nid im corph, eithr im meddwl ddywedyd, *Cofia?* nid i oddef angau i farw troſot ti, eithr i luddies dy goffadwraeth i farw ynof. A wiſgai ben Angau mewn modrwy, i gadw yn fyw goffadwriaeth om cefaill anwyl? Ac o garedig a bendigedig vwch law pob anwylion, pryd y byddo dy ddioddefaint ti mewn dirgelwch ſanctaidd wedi ei argraphu, o waith dy law dy hûn, im meddwl i iw wiſgo. O ni chaiff y fodrwy fod ar fy mys? O ni chaiff fynghalon gadw a gwiſco dy fodrwy di?

1 Cor. 1. 10
Eph. 5. 19.

4. Eithr ai hynny yw r cwbl Ieſu anwyl. Ai dyna y cwbl ſydd raid i mi wneuthur, goffa am danat? Diau gan hynny mai hynny ſydd orau or cwbl oll. O Tydi y *manna* a ddaeth i lawr or nefoedd, Crochan o aur ſydd rai'd ith cadw di? rhaid iw bod cof gwerthfawr gan fy enaid am danat ti buan nid araf, goſtyngedig, nid hyf, tyner, nid caled; gweithgar, nid meddylgar

yn

yn vnig, (yn blwm, yn efydd, yn haiarnaidd, ond yn arian (os daw ar y gorau,) yn wrthodedig (os ar y gwaethaf) y caf yr hwn a gynhyrfa oll amcanion da ynot ti, ac a dderchafa bob gallu i ti, dyna y crochan euraid ſydd raid ith cadw ti. felly y mynnit ti gael y cof yma, o herwydd ef a feddwl ac a wna bob *peth dyledus*; dy ryfeddu ath *caru*, vfuddhau, ymaros gwneuthur a dioddef troſot. Ef a gadarnhâ *ffydd*, a annog i *edifeirwch*, a enynna *gariad*, a gynnal *waſdadrwydd*.

O Tydi *ryfeddod* y Duwdod, hawddgarwch y byd, rhagorol vwch law Angelion. vchel vwch pawb oll. Arglwydd yr Arglwyddi Brenin y brenhinoedd. hynny ydynt dy *enwau cyſion*. a chof ſanctaidd, ſydd *Dryfordy* llawn a chyſoethog, i *dalu* y cwbl oll, ac am hynny y dywedi *cofia fi*. ni allaf na *chredwyf*, edifarhauwyf a charu hyd y diwaethaf, os byddi di yn *ynghof* os methaf *daledigaeth* o vnrhiw ddyled i Dduw, neu ddyn, o ran dy fod ti allan om meddwl am cof yw hynny. Eithr ith coffa di Jeſu anwyl; Peth yw a ddylwn i ei wneuthur? O Arglwydd Ti a fynnit ti *wneuthur hyn*.

5. *Er coffa am danaf.*] Dy ddioddefaint, hynny, hynny ſydd raid iddo ſod yn fynghof: a thi ſydd raid i i mi goffa yn hynny. Dy Sacrament gan hynny yw r maen hynod o gaffadwriaeth dragywyddol, oth *ddioddefaint*. *Pyramid* neu gyſſergrſan tragywyddol bryd, wedi ei oſod i fynu yn yr Ecclwys am goffadwriaeth arbennig oth farwolaeth. Ac Arglwydd, cyn fynyched ac ar eſceuluſwyf ef, beth yr wyf ond tynnu i lawr dy adail vchelfraint, ath *Pyramid*? Ath claddu di ath haeddedigaethau, (mal y gwnaeth yr Iddewon ith aelodau) eithr mewn bedd gwaeth (nid mewn *gardd*) ond mewn anialwch (bedd o angof.)

2. A pheth Arglwydd a gofiaf oth ddioddefaint? Pa beth, ond dy wneuthur di tragywyddol fab Duw yn *ddyn* i ddioddef hynny: wedi dy gynhyrfu gan wir gariad (anfeidrol gariad) i fyned tan y boen: A minnau (greadur truan) pechadurus fab dyn, dyn ai *parai*) yr hwn oni bai hynny a fuaſai yn golledig ac yn ddamnedig yn dragywydd? Ac mal hyn, y darfu i anherfynol *ddoethineb*, *drugaredd* a *gallu* Duw, yn rhyfeddol

ddol weithredu Jechydwriaeth dyn. Y dirgelwch anrhaethadwy hyn o Jechydwriaeth trwy aruthrol ddioddefaint mab Duw, yr hyn a ddioddefaiſt a fynnit ti i mi *goffa*. Ath Sacrament ti yw r *arwydd* i barhau cyhyd ath *Ecclwys*; mal tra byddai im i fywyd ac enaid, y parhawn i ymddiffyn a chadw coffadwriaeth ſanctaidd om Jachawdwr.

3. A pha fath adyn truan wyf fi, ſydd arnaf eiſiau y cyfriw help im cof, ac yſpardun im dwyn ar gof om dyled, ac ydyw *gorchymun* a *Sacrament* am y ddau? y mae yn rhoi gwradwydd arnaf o Criſt ddarfod i ti roi dy gorph troſof, a minnau yn brin roi fy meddwl i ti? fy mod i yn cael cimaint o gyfle yn dy galon di, a thithau yn anawdd yn cael dim yn fy yn i? dy fod ti yn barottach i waedu troſof fi, nag wyf fi i feddwl am danat ti? Ieſu Anwyl. a dywelldaiſt yn wag dy holl wirhennau troſof fi, oni chaf finnau leſtr i gadw dy waed gwyrthfawr. Onid wyf yn colli yr hyn a dywelltaiſt, os gadawaf iddo redeg allan om coffadwriaeth. ettorhaid yw erfyn arnat ti am roddi y *gwaed* ar meddwl. A phan wnelych y cwbl hynny oll, allan oth cof am danaf fi (rhag ei anghofio) a ordeiniaiſt y cyſſegriad ſanctaidd ar Sacrament ac a ddywedaiſt *gwnewch hyn er coffa am danaf*.

4. Eithr truanach wyf fi onis gwnaf fi hynny a chofio. Canys Arglwydd, os gwnai anrhydedd i ti, oni wnei di ffafor i mi am dano? os rhoddai i ti anrhydedd, y mae yn fwy dyledus arnaf nag yw o *ddedwyddwch* am ei wneuthur. Os dy Sacrament ti onid fy mudd i yw? onid wyf yn derbyn anrhydedd mawr yn ddi? onid wyf yn cynnill *donniau* mawr oi phlegit? onid yw hi yn dwyn y gwaed ardderchawg or neſoedd i mi, ac onid wyf yn gâr, brawd i Ddnw, yn etifedd a thywyſog or neſoedd, trwy rinwedd y gwaed hwnnw? onid yw r Duwdod yn gor-phorol ynghriſt? Ac onid yw ei gorph ef trwy ddirgelwch ynof fi? A minnau yn gâr agos i Dduw trwy Gymun y corph hwnnw? Ac a eill fod arno ef eſiau meddiannau, y cyfriw Dywyſog a hwn? ond dy rodd di yw r *Ddauar* ar *neſoedd* yn dy allu di Jeſu, tydi fab ac Aer or cwbl? Ac onid oes gennyf fi dy yſpryd ti ath *cnawd* yn *wyſtl* am y cwbl? yr

Cydgorpholiaethu cydwaedolaethu Baſil.
Col. 2. 9.
1 Cor. 10 16.
Pſa. 2. 8.
Mat. 28. 18

Scrifennadau

Scrifennadau yn ſeliedig yn dy waed, ath haeddediga- Heb. 1. 2.
ethau, we di eu rhoddi ai ſiccrhau yn dy gorph? O Eph. 1. 7
Arglwydd. y mae yn ſefyll arnaf wneuthur yr hyn a Mar. 1. 22.
erchi or nawyn ſy anrhydedd am cyflwr, hynny os Rhy. 8. 32.
yſtyrriaf fy hunan, mi ddylwn ei wneuthur *er coffa am* 1 Cor. 3.
danaf ſy hun yn gyſtal a thithau. 22, 23

5. Eithr pa beth Arglwydd ſydd raid i mi wneuthur Mat. 26.
ſelly: credu dy ſod ti yn breſennol yn dy Sacrament 26.
ſanctaidd? Ar dy air yr wyf yn credu. Eithr rhag *Fe ellir*
derſynedig nawn modd *anianol* a *chorphorol* o breſe- *Credu yn*
noldeb? Ar dy Air, nid wyf yn credu ſelly, yr wyt yn *iachuſol*
yneſcedd ac a ſyddi hyd oni ddêl y Dydd mawr; *ond nid*
nid ar y ddauar ſelly. Y ccffadwriaeth hwn ſydd yn *chwilio*
dyſcu i mi yr *Abſen* yna. Pa bait ſelly yn breſennol, *yn iachu-*
mi gawn dy weled ti, nid dy gcffa di. Ti a ogone- *ſol. lumb.*
ddir yn y *nefoedd*, ſe ath croeſhoeilwyd ar y ddauar,
hynny yr wyf yn ei *geffa*.

Yr wyf yn *coffa*, eithr nid yn aberthu hwn. hynny a
wnaethoſt ti vnwaith; yr wyf yn ailgoffa, nid yn my. Heb. 92. 5.
nych offrymu; Aberth trugaredd ſydd eiddot ti, talu 6. 28
diolch, eiddof finnau honno oedd ar y groes, hon ſydd Heb. 9. 24.
yn y *Sacrament* o dalu diolch, hon yr wyf yn ei wneu- Col. 1. 10.
thur, ar llall yr wyf yn ei *goffa*. Coffadwriaeth honno 2 Cor. 11.
yr wyf yn ei offrwm, y *celanedd* nis gweithredaf. yr 26
hyn oedd yn yr *Aberth*, ſydd yma yn y *Sacrament*. Hyn
yw r cwbl a wnaf fi, ac ſydd raid i mi wneuthur, ac a
allaſ wneuthur, ar cwbl oll er *coffa am danat*.

Felly gan hynny, y mae ſy enaid am corph ill dauwedd
im gytrannu yn hyn o orchwyl oth eiddot; eithr ſy
enaid yn ſwy nam corph, ſy enaid ywr Gwenidog Clywed
pennaf, i wilio arnat ti yn y dirgelwch yma; ſy ſyn- allan yn y
hwyrau nid ydynt ond llawforwynion i wilio ar ſy e- Saeſo-
naid, *gweled*, *teimlaw*, *archwaeth*, *arogl*, ollith ddwyn naeg.
di yn well im cof, ath cyrraedd di nês im coffadwri-
aeth.

Dy broſenoldeb corphorol, a wna Sacrament vnion:
Imi (Os ymaith y bydd ſy meddwl) ni wna ond *gwat-*
worol Sacrament; ac i ti ond gwatworol waſanaeth, ac
addwg i mi *wir farn* eithr *gwatworol Jechydwriaeth*.
yr hyn a wnelwyf, nid yw i ddiben (heb ffurf ac yn
ofer) onis gwneir a meddwl trafferthus ddefoſionol,

megis

megis corph vnion grefyddol addunedig; a gwneuthur cwbl oll er coffa am danat. yn anianol, mi allaf wneuthur *rhyw beth*; a gweled rhyw *gorph*, eithr yn Sacramentaidd *dim* oni chanffyddai dy vn di.

7. Rhyw beth gan hynny ſydd iw wneuthur o flaen i mi wneuthur hyn. rhaid i mi gael newyn ſanctaidd, cyn i mi ſwyta ac yfed, (yr hyn fydd trwy *edifeirwch*) a dyfod a genau nefol at y bwyd (yr hyn yw ffydd) A llawer ſydd iw wneuthur ar ol. hyn ſydd raid i mi ei gyfleu felly yn ſynghydwybod, i gael *yſpryd* daionus oddwrtho, ac ynnill y fath nerth trwy ei gyfleâd, mal y rhodiwyf yn fwy ſanctteiddiol, ac i cynnyddwyf yn well oi blegit: onide beth yr wyf ſi ond gwrthuno dy gorph, ac halogi dy waed? hynny ſydd raid iddo dderchafu ein meddyliau an chwantau ir coffadwriaeth hyn, iw cadw hwy i ſynu, mal y rhaid i mi wneuthur hyn er coffa am *danat*. Rhaid i mi wneuthur hynny, er coffa am hyn; ar peth a wnaethbwyd, nag anghofiwyf fod yn ei wneuthur: ath fwrw di yn ol hynny allan om *coffadwriaeth*.

Luc. 23. 42 Jeſu gwna i mi wnethur yr hyn a ddylwn, nag eſceuluſwyf mo hono, rhag i mi eſceuluſo ar vnwaith ſy

Luc. 23. 30 Jachawdwr am henaid. Nid ei wneuthur megis gweithred o *gydrediad* ar amſer, neu megis dyledus

Luc: 22. 30 mwy o ran defod ac arfer, nag o ran eydwybod (yr hyn ſydd cyn ddrwg ar llall) nag mewn hyll anſan-

1 Cor. 13. 12 ctaidd amharodaidd, diamrhydeddus, hyf ymddygiad, a hyderwch (yr hyn ſydd waeth nag eſceuluſiad.)

Jeſu. Dyro i mi Ras, felly i wneuthur, felly ith coffa dî ar y *Groes* mal na byddych di im anghofio i yn dy *deirnas*. felly ith coffa di ar dy ſwrdd, mal y gellych di ſynghofio i ar dy orſeddfaingc. lle troir *Coffadwriaeth* yn *weledigaeth*; lle y caf nid Sacramentaidd ond bendigedigawl Gymun: lle ni chaf wiſco moth ſodrwy, ond gweled dy wyneb; nid dy goffa di ond dy weled ti. nid mewn ffydd, ond mewn eglur a chyflawn *fwyniant*. felly bydded O Arglwydd. Portha fi ar hynny mewn ffydd a chariad: felia hyn, i mi mewn *yſpryd* a *chywybod*. Arglwydd cymer fi mal hyn, a gad i mi dy gael di yn dragywydd mewn coffadwriaeth. *Amen*.

Cyng-

Cynghorion ynghylych y Cymmun ſanctaid y modd in paratoi tu ac atto.

1. Ynghylch gweddiau o ymbaratoad iddo.

AR ddydd Mercher or blaen. Darllenwch y gwaſanaeth am edifeirwch.

Ar ddydd Gwener y gwaſanaeth ar y *Dioddefaint*.

Ar ddydd Satwrn y gwaſanaeth o ymbaratoad ir Cymun ſanctaidd.

Ar ddydd Sûl, rhai or llithoedd or Scrythyr ar gweddiau perthynaſol ir dydd, ar myſyrdod ar hynny.

2. Ynghylch Holi ei hunan, gwaith rheidiol cyn cymuno.

YMae yn rhaid i chwi eich holi eich hunan ynghylch eich ffydd ach bywyd. 1 Cor. 11. 28

1. Eich ffydd ſydd vnion; os ydych chwi yn credu am Dduw ai Ecclwys, yn ol ei rheol hi, cynhwyſedig yn gryno yng Gredo yr Apoſtolion a dderbyniwyd gan holl Griſtianogion.

2. Eich bywyd ſydd vnion, os cydhuna ai rheol hi, cyfraith Dduw ymgyffredig neu gynwyſedig yn y deggorchymyn, i gael gafael ar yr rhain.

1. Rhaid i chwi yſtyried pob gorchymyn yn neullduol, ar yſtyrriaeth neu yr achlyſur o hono; Pa *ddyledion* y mae yn eu *ofyn*, Pa *bechodau* y mae yn ei *wahardd*: ac yno goſynnwch ich cydwybod, pa fodd yr ydych chwi yn lân oddiwrthynt.

2. Lle gweloch wrth ſanwl holi yn vnion, ddarfod i chwi arwain eich bywyd yn ol cyfraith dduw, mewn Duwioldeb tu ac at Dduw, a chariad perffaith at Ddyn, diolchwch i Dduw am ei Râs, lle caffoch chwi weled eich pallu neu fethu, Goſynnwch i Dduw faddeuant.

3. Ac o herwydd na eill neb ond *Edifeiriaid* ofyn a chael pardwn gan Dduw; *Triſtwch* yw y gwreiddyn a *chyffes* y gangen, a gwellhâd buchedd, ffrwyth edifeirwch, edrychwch gan hynny yn ofalus ar y cwbl; ac yn gyntaf.

1. *Am Driſtwch.*

GWaedu y mae r enaid wedi ei gyfwrdd a dwysbigiad am bechod: Ac os rhaid cymeryd goial mawr (am waed y corph) mwy o lawer am waed yr enaid; am iddo waedu.

1. Yn *ddoethgwbl.* Am wneuthur Drwg, nid da (hynny yw gollwng: y gwaed da allan, a chadw r drwg.

2. Yn *rhywiog*, am wneuthur drwg, megis yn gamwedd yn erbyn Duw yn bennaf. nid yn gimaint rhag ofn damnedigaeth, ac am anfodlonrhwydd ei Ddaioni ef.

3. *Yn vnion.* Am y pechod a wnaeth fwy o anfodlonrhwydd i Dduw, ac ſydd yn brif-bechod ynoffi: dyna daro y withen vnion.

Pſa.51.14. 1 Cor.15. 4: Yn rhwyddlan. Rhaid ir galon waedu tros y cwbl, a hynny tu hwnt ir cwbl oll. nid tynnu dwfr allan or llygad, mal tân allan o galleſtr: eithr (os natur ni attal ei redfa) llifeirio megis o ffynnon lawn, yn naturiol ac yn helaethlawn allan. Etto,

Pſa.6.6. Mat.26. 75 5. *Yn dymherus* hefyd. nid gwaedu hyd at Angau Anobaith, eithr felly i gadw yn y galon fywyd o obaith am drugaredd a chynnorthwy. (gan fod y cyſtudd i foddi pechod ac nid y galon.)

Luc.7.38. Joa.2.12. Ir deunydd hwnnw y rhoddes Duw ir enaid, y llygaid megis am *ffoſydd* i ollwng allan ddagrau o drymder, pryd y chwyddant ynghylch y galon ac ydynt barod i lifeirio troſdi; felly fflodiart yr argae yn y genau, iw gollwng trŵodd rhag digwydd llifeiriant o drymder.

Jer.13.17 Pſa.39.4

Ac mal y mae dagrau yn traelio cyſtudd trwy y llygad, Cyffes ai bwrw allan trwy r genau, am yr hwn y mae yr ymofyn neſſaf.

2. *Am Gyffes.*

MAwrhydi Duw y mae pechod yn ei anfodloni, gandeo ef y mae Ceifio maddeuant; a chyffes yw r ffordd iw gael ef, heb yr hwn yr ydym yn ym-ddangos, vn ai naid rhaid i ni wrth bardwn ai na cheiſiwn a duw wedi rhyngu bodd iddo, ddwy ffordd i roddi Pardwn, vn yn *ddi-gyfrwng*, trwy ei allu oliaiuog, ynddo ac o hono ei hûn, ar liaſl trwy * gyfryngdod gweinidogaeth dyn, dewiſedig ganddo ef i ſelio pardynau yn ei enw, a thyngnhefedd ir eneidiau: O ddiyma y mae i ddyn ddwy ffordd i wneuthur ei gyffes, neu adrodd ei enogrwydd i Dduw: vn yw i dywallt allan ei enau i ſonwes Duw, gan fod iddo ddigyfrwng tyniad am drugaredd ar Dduw ei hunan. Y liall yw i *gluſt* Duw, gan ein dwyn ein hunain er mwyn yſprydol ddaioni a chyffur o flaen rhyw wr Duw. Ac megis mewn rhyw achoſion, y mae yn *anghenrhaid* telly am amryw gyflwr, ie ddichon ddigwyddo lles a budd mawr o hynny.

Pſa. 51. 13
Eſa. 42. 25
Dih. 28. 13
1 Joa. 1. 8.
Leui 5. 5.
joa. 20. 23
2 3or. 7. 10
* Yn lle
hwn a
eſyd y trediad
Luth.
Gwneler
ir bugail
neu yn
hytrach i
dduw
o flaen y
bugail.
Zanch. ar

1. Mewn temeſtl o gydwybod nid diogel yw ſod heb pilad neu lywawdr, rhag, lle byddo eiſiau hyfforddiad gwell neu gynnorthwy, ir enaid gael ei lyngcu i ſynu yn ei dyfnderau ei hûn, neu ſuddo mewn rhyw ſing edd o brofedigaeth, mal Duw ai gwyr y mae llawer yn myned beunyddiol. *

2. Neu os y meddwl a *gwbwſan*, ac ni cill orphywys yn fodlonol yn ei gyflwr yſprydol, y mae yn berigl or cyfyngderau ar gorthrymderau hynny; Gynghorwr dwywawl i holi ein cyflwr; ac (os bydd achos) i ſelio oddiwrth Dduw ein Eglurwch weithredawl am y nef, gan roddi ei bardwn ir hyn ſydd yn bygwth vffern.

1 Joa. 1.
* Damnebeidio a cheiſio tywyſwr gan Dduw in harwain allan dig wyt yn ddiſdaw yr hwn pe cyffeſit a elli gael dy ryddhau. *Aug.*

Canys y mae diaſol yn hyfedr ficer i roddi ar yr enaid, yr hwn y mae yn ei gael mewn nig a phetrûſder,

der, ac a ddichon ei ddifa ef oni chaiff ef ddim ond ei ymwared ei hunan. Mal Duw a wyr y gwneiff yn oeſtadol. *

1 Cor. 2. 11 * Mal Porthladd neu noddfa ir rhai y mae diafol, &c. *Luth.*

Y mae pob dyn yn farnwr rhy dueddol iddo ei hun, ac nid oes neb a ddichon (heb ddywedyd iddo) wybod a helpu cyſtudd-calon yn arall. nid yw y Peth a adroddir yn gyffredinol yn y Pûlpût yn cyrraedd adref yn fynych at bigiadau neullduol llawer o eneidiau, nag yn gallu (yn gyffredin) fyned i mewn i gonglau calonnau ſelly, mal pa bai y dryſau wedi eu hegori o bwrpas; am hynny y dichon buddiol fawrlles ddigwyddo i ddyn yn ol ei Gyffes dduwiol (ar y cyfriw achoſion.) Pe goreu yr adnabyddir fy nolur hawſaf oll-ei meddyginiaethir, fynghyflwr fydd diogelach pa orau yr holir, fy ffordd a hyfforddir yn well, o herwydd cael y gau lwybrau mewn mwy eglurwch. fy nuwioldeb a *ddercheſir* yn fwy oran bod fy enaid yn well ei fyfyrdod. fy edifeirwch a *berffeiddir* yn fwy, pa fwyaf goſtyngedig a fyddwyf. fym mhechodau a *ffieiddir* yn fwy, pa mwyaf im gwradwyddir. fy niffygion yſpryddol a gaiff well *ymwared*, o herwydd eu hadnabod yn neullduol, ac ail erfynnio troſtynt. A Duw a wyr Pa golledion a gafas llawer eiſiau hyn o orchwyl.

Magis coram ipſo & paſtore quam Deo ſolo.

Je, a neweidiau heſyd (yn gyſtal a cholledion) a eill ddigwydd. yr rhai a alleſit eu gochel wrth ymarfer mewn pryd, or cyfriw yſpyrdol gynghorion ac ymddiddannion; Gan fod llawer o weithredoedd yn cael ei cymeryd yn dda ac yn ddiniweid, neu heb fod yn ddrwg iawn, yr rhai ydynt wir ac vnion ddrygionus, ac a ymddangoſai felly, pe holid ac y dyfunid gar bron barnedigaeth gyfionddoeth arferol, mewn achoſion a dadleuon o gydwybod. felly y maent hwy yn colli y cymmorth ar help oi cadw eu hunain yn bur, ac yn ddifrycheulyd o flaen Duw, oddiwrth y cyfriw berthau ai halogant hwy, ac ai digiant ef (o herwydd na wyddant chwaith) ac a redant mewn ſipart neu ir perigl na wellhaont fyth, oblegit nad yſtyriant eu bod ar fai, neu nad yw ond ychydig (os yw ddim.) Trwy y moddau hyn (heb wyrthfawr drugaredd gan Dduw) y maent yn byw ynddynt, heb fynnied neu ymglyw, ac yn marw ynddynt heb edifeirwch. Gwedi eu gwen-

Gwell oi flaen ef ar bugail nag o flaen Duw ei hun. *Zanch.* cydfiarad neu ymddiddan neullduol. *Melanc.*

heithio

heithio i *greduniaeth* gwell am danynt eu hunain, ai cyflwr tu ac at Dduw, nag a allai eu bywyd hwy roi eglurwch da am dano, neu vnion farn ei warantu.

Canys Duw a wyr Pa nifer o gydwybodau (yn ddirus) a lyngcodd i lawr yn lle gweithredoedd *diniwaid*, gamweddau trymmion: (yr rhai or diwedd a lyngca eu heneidiau hwythau i wared,) eisiau dyfod ai ffyrdd iw profi ai chwilied, yr hyn ai danghosai yn *beryglus*; ac felly gwneuthur llwybr ar vnwaith i gael eu ffieiddio ai gwellhau.

5. Ir deunyddiau daionus hyn, y cynhaliwyd cyffes neullduoll yn yr Ecclwysydd adgyweiriol, ar arfer gymedrol, a sobraidd a ganmolir gimaint, ac y condemnir y *camarfer* ofergoelus greulon yn Ecclwys *Rufain*. A mawl helaeth vnion megis ordinhad Duw. A moddau o ollyngdod. Tra-chyssurus. buddiol anghenrheidiol. dymunol. Am esmwythdra ysprydol, gyngor, diogelwch a dealldwriaeth gwell rhwng Duw ar enaid, mwy eglurwch a chynnorthwy yn erbyn pechod, a'r cydwybodau yn ysgafnach, mewn purdeb, a thyngneddyf. O hyn o beth, y mae eu heglwysi ai Doctoriaid yn Dystion Cymeradwy.

Ac ar hyn y mae dalen o brofedigaeth yn lladin allan or tadau, a gyfieithir os bydd rhaid, &c.

6. Eithr pa ddelw bynnac fyddo arnaf. byddwyf ddiogel. fod fy llywydd yn wr *o gelfyddyd*; *Daioni* im harwain: fy marnwr *gwybodaeth*, fy mhesygwr *cyfarwyddyd*, ni roddaf fi mom corph, i *law meddygbrawf*, mom stât ar law cyfreithiwr gwirion, egoriad fyn nhy i law dyn oferwael neu gadafel; mi gymeraf ofal gan hynny i arweiniad neu farn pwy, ac i gyngor ac ymddiriaid pa vn y rhoddaf egoriad y nef am calon.

2. Gwnelwyf fynghyffes o flaen y Barnwr goruchaf, neu ei fugail (Duw neu ei wenidog, iddo ef, neu oi flaen ef) rhaid iddo fod. Jesu. 7. 19.

1. Yn *ostyngedig*. megis y *Pwblican*. O herwydd Luc: 18.
fy mod yn sefyll megis carcharor o flaen y Barnwr o'r 13
nefoedd, ac yn ymbiliwr am ei drugaredd ef. 1 Tim. 1.

2. Yn *galonnog*. Megis yr *Apostolion*. O herwydd bod 13

gar bron brawdle Duw, gwybyddwr, a chwiliwr y galon.

Pſa.51.14 3. Yn neullduol. Megis cyffes y Brenin, or peth ſydd, neu r peth a ddylai aſſonyddu y cydwybod.

Rhuf. 1. 29. Gal. 5. 21, 22 Ezech. 16. 59, & 17, 18 Hoſ. 7. 15 Eſa. 1 2. Jac. 4. 17. Joa. 9. 41 Y Cyfriw yn gyffredin ydynt bechodau o anian mwy pwyſig, y naill ai am, y *Matter* megis pechodau o ry-*wogaeth* fawr yr rhai a ddirfawr friwant neu a dreuli-ant y cydwybod; megis *Anudon*, *Llofruddiaeth*, *Godi-neb*, *Cabledd*, &c.

2. Y *Modd* Megis pechodau yn erbyn *addunedau*, ac *addewidion*, neu yn erbyn gwybodaeth a chydwybod. Yn enwedig wedi i ni gymeryd y Cymmun ſanctaidd ddiwaethaf.

---

3. *Am ddychweliad neu droad a gwellhau buchedd.*

HYn yw Diben a chyflawniad edifeirwch, heb yr hwn ofer a diffrwyth iw cyffeſu (o ran iechyd ir enaid) megis y mae golliwng gwaed yn ofer, os cwympwn ni yn y man i anhymeru ein gwaed drachefn; ac i chwdu i ſynu y *defnyddiau* drwg allan o'r ddwyſtron, oni ochelwn y pethau ai lleinw i ſynu drachefn: ſeilly yn breſennol i ſod yn glaf o bechod ac i *waedu* y galon mewn cyſtudd, ac i *chwydu* i ſynu mewn cyffes. Nid yw hynny ond camarferu ordinhâd Duw, ac i wneuthur ein cyffes ar Sacrament ſanctaidd ei hunan, yn bechod i ni, os i gyſſuro ac i gryſhau ein enediau newn pechod y gwaſanaethant yn vnig, ac nid (mal y goſodod Duw hwynt) in harfogi an nerthu ni yn ei erbyn ef.

Jer. 7. 5. 2. Ac onis bydd yn bur ollawl *drwyddo*, nid yw hwnnw heſyd ond ffrwyth gwywedig, ac i ddim deunydd. onis bydd yn gwbl oll.

1. *Yn vnion*, yn gyſtal oddifewn ac allan, ac oni chyrraedd yn gyſtall ir galon ar bywyd.

2. Yn llwyrgwbl berffeith. heb ddidoli neu neullduo vnrhiw bechod, neu drythyllwch pa vn bynnac

ai

yn y bywyd, ai yn y galon (onide yn wir nid yw yn *vnion.*)

Ezec. 36. 25, 26.

Hyn a wna galon vnion bur, a dyſron lonydd (purdeb bywyd) yr hyn a ſiccrhâ ein editeirwch, a ſelia ein Pardwn, a ddildawa ein cydwybodau, ac a bair i ni neſau ac ſwrdd a phreſenoldeb Duw, gyd ag *hyderwch.* yr hyn ni ellir ei wneuthur heb lawnfryd meddwl, a pheth meſur or purdeb yma.

Joel. 2. 12
Rhyf. 6. 17
1 Bren. 9. 4
Heb. 13. 18
Pſa. 139. 23, 24.
1 Tim. 1. 5 9
Jer. 13. 18
Mat. 38. 4
Pſ. 119. 165
Job 27. 6.
1 Joa. 3. 21
Iac. 4. 8.
Eccleſ. 5. 2
Mic. 6. 6.
Exod. 3. 5.
Iac 4. 8

4, *Y modd in ymddwyn ein hunain wrth dderbyn y Cymun ſanctaidd,*

GYd ag loll oſtyngedig a chyfan gwbl ddeſeſiwn y corph a'r enaid :

1. Ni eill y corph roi gormodd o anrhydedd, oblegit fod y dirgeledigaethau mor dra-vchel a ſanctaidd yn yr rhai y tueddwn mor agos at Dduw.

2. Ni eill yr enaid fod yn rhy *grefyddol*, grym yr hwn ſydd raid ei roi ar y gorau, ac ir eithaf, i gyflawni ei dyled yn vnion, yn y gorchwyl mawr ſanctaidd yma. Am hynny.

Rhaid yw derchafu yr enaid, i feddyliau a *myfyrdodau* neſol. O'r dirgelwch o *bryn digaeth* dyn. Trwy ryfeddol gnawdoliaeth Duw mewn tra chwerw a gwaedlyd ddioddefaint. oll o ddyſnder diwaelod ei *ſerch* ai ddaioni. o'r hyn ydym ni i dderbyn ei *myſteredd* ai *arwyddion* gwyrthſawr hyn oll, gyd ag, ynddo, a chan ein Harglwydd croeſh eliedig an Prynwr anwyl yr ydym iw gael, in meddwl gweithredol, a'n cyffadwriaeth. Ac iw ryfeddu ai addoli ef yn y cwbl oll. y maer galon yn *draiſtedig* gan y cyfriw anherfynol gariad yn nhw i ddyn truan pechadurus. i ddwyn i ben, ac i roddi y fath brynwr gogoneddus, ac iechydwriaeth i achub ei enaid. Ac yr awrhon iw anrhegi ar cyfriw *ſelaû* graſuſol oi gariad, ai gymeryd ef ir fath Gymun ſanctaidd cyſagos. Ac am hyn i *ymgreâû* a Duw a *Chriſt* mewn cariad; ac a dyn er ei fwyn ef : ac addunedau ymroadwy ollawl, o ſywyd a marwolaeth iw waſanaeth ef. y rhoddwn y maddeuwn, *y gwnawn y dioddefwn*

Mat. 6. 26
1 Cor. 11. 24

Pſa. 116. 11, 12.

vnrhiw beth er ei ſwyn ef. ac oddi-yno i ymlenwi a ſerch, a llawenydd ſanctaidd, a gobaith yn y fath ddaioni dirfawr or fath Dduw *daionus*, yr hwn gan iddo wneuthur hyn ni rydd nâg i mi am ddim arall. Ac (er gwaethaf llid a malais vffern) ni fyn weled mom henaid yn golledig, am yr hwn y gwnaethbwyd hyn oll.

Gwel. y myſyrdod ar y Sacrament ar diodde-ſaint,

Ac ir rhai ſydd arnynt eiſiau cynnorthwy, arferant y cyfriw ſyſyrdodau yn dda, y rhai ai cynhyrfodd ſwyaf, i roddi mwy goleuni nefol iw meddyliau, a gwres ſanctaidd iw *bwriadau cariadol*.

Y Tan (mal hwnnw yn y Babell) ni waſanaetha i ſyned allan or galon, a diſlannu megis anwydau cynhyrfiol mewn chwareu (oni fynnwn chwareu ymaith ein eneidiau, rhaid i ni gan hynny weled,

III, Y modd y mae i ni cin ymddwyn an trefnu cin hunain ar ol y Cymun ſanctaidd.

1 Cor. 11. 27. Eph. 4. 1. Heb. 2. 16. Mal y dygo Grift yn ei ddwyfron, dyged yn ei ſeddwl. *Cypr.* 1 Cor 10. 16. 17 Eph. 4. 4. Dan 2. 32. 1 Cor. 11. 27

MEgis yr oedd ein gofal or blaen pa fodd y Cymunem, rhaid i ni yr awrhon weled pa fodd y rhodiwn yn *deilwng*. Megis rhai a anrhydeddwyd gan Grift vwchlaw Angelion, am hynny a ddylent fod (or lleiaf) yn Seinctiau. wedi ein gwneuthur yr awrhon yn vn a *Chriſt*. Ac ſelly o hyn allan i fyw yn *ddau* heſyd, oddiwrth y byd y *cnawd* ar Cythrael. ei *gorph* ſanctaidd ef ſydd ynom ni, ni waſnaetha iw yſpryd glân fod oddiwrthym. onide yr ydym yn pechu yn orthrwm yn erbyn ei *waed* ai *gorph*.

Y Peth ydoedd *Nebuchadnezzer* yn ei freuddwyd, a wnawn oi gorph ef, ſef *anghenfil?* oblegit ein bod ni yn gyfriw Aelodau *cymyſgly'd*; Ac mal y gwnaeth *Belſhazzar* yn ei wledd halogaidd, y gwnawn ni or *Swpper* ſanctaidd.

1. Yr ydym ni yn Chwareu mal *Judas* a Chriſt. bwyta ei ſwyd a derchafu ein ſowdl yn ei erbyn. cymeryd

meryd y *tamaid* a bradychu ein hawl ni ynddo. Dan. 5. 4.

2. Yr ym yn chwareu mal *Gadaren* ag eſo, (a gwaeth) nid ydym yn erfyn, ond ei ſwrw ef ymaith o'n cyffiniau : ac yn ol i ni ei dderbyn ef i mewn. Joa. 13. 18. 26 Mar. 5. 17.

3. Yr ydym yn chwaren r butain ag eſo. Ein aelodau (yr rhai ydynt eiddo ef) a wnair ir byd, (yr hwn ſydd butteiniwr.) 1 Cor. 6. 15 Jac. 44.

Ac felly yn chwarae yn ynfydion a'n eneidiau ein hunain, ar y rhai y tynnwn ddigofaint trwm, am ein annogaeth greulon, onis tynnwn bla a dyrnod o'r nefoedd ar ein cyrph am wneuthur y cyfriw gamweddau in Jachawdwr.

Felly y Terfynayr hyfforddiad ynghylch y Cymun Sanctaidd.

Gwaſanaeth cymwys mewn amſerau trymion a galarus ar Ddydd mercher neu wener.

Boreuol Weddi.	Prydnawnol Weddi.
Pſal. 71. 73, 74. neu 124, 125, 126. 129.	*Pſa.* 44. 77. 78. neu 70. 83. 98. neu 137. 140. 141.
Llith.	Llith.
Dan. 9. neu *Ezra* 9. & 10. hyd 28 7. neu 2 *Cron.* 36. *Jer.* 14. *Luc.* 21.	2 *Chro.* 13. neu 20. 1 *Cor.* 10. neu Epi. *Iude.*

1. *Colect, yn cyſaddef ac yn erfyn nawdd rhag barnedigaeth.*

O Arglwydd. Ti roddaiſt i ni weled amſeroedd chwerwon a gwaedlyd : ciaidd dreiſiau a wnaethbwyd ac a oddefir beunydd. Ein Tai an cefeillion a gawſont wybod hyn : ie ath Temlau nid rhydd oddi-

wrthynt. O Dduw anwyl. Hyn yw haeddedigaeth ein pechodau; Tydi wyt gyfion a ninnau yn ddrygionus.

Yn erbyn moddau dy Râs, a thrugareddau dy Ddaioni, tros lawer a llawer o flynyddoedd a ganiatteuaist ti i ni, ac in Tadau o'n blaen ni; Er hynny yr ydym yn llawn o ragrith, llawn o halogrwydd, llawn o atcasrwydd, tra aniolchgar, ac am hynny ffieiddgwhl ddrygionus. Am fi, ie fi, a bentyrrais fesur mawr o bechodau i lenwi i fynu y trueni hynny.

Eithr O Dduw, yr wyt yn drugarog, mal yr wyt yn gyfion, (ac nid wyt yn ymfodloni cimaint wrth ymddangos yn gyfion, ac yn drugarog) Pardyna ein pechodau a barant y gofidiau hynny. Pardyna fy mhechodau i a gydredant ar yr achos.

A chyda *Phardwn* o'n pechodau cynniatta i ni faddeuant o'r cospedigaethau. Bydded yr ymrafaelion *dinesic* a *gwledic*, ar ymladd gwaedlyd i beidio, gwir Dduwiodeb a heddwch etto i flodeuo yn ein plith. Tydi yr hwn o'r drwg a fedri weithio daioni, ac allan o gymysgedd a osodaist dresn ar y byd, allan or drygau ar tersysgoedd ydynt arnom ni, gweithia ddaioni a llywodraeth arnom. O Tydi frenin y brenhinoedd, a Barnwr y Byd, dadleu yn achos dy weision wrth wynebau yr rhai oll a geisiant ein cystuddio a'n dinistrio ni. A bydded i ti or nesoedd ein pechenogi ni yn ein angenoctid. a gwared ni yn dragywydd. O Tydi yr hwn yn alluog a ddichon, yn drugarog gwna hyn; ith fawr anrhydedd, a'n dirfawr ddedwyddwch ninnau; er mwyn cyssur yn gystal corph ac enaid i ni an eiddaw, ar holl rai ath wir garant ti, a gwir grefydd ynot ti, ac er dy fwyn hefyd.

Je er mwyn dy dyner drugareddau gwrando arnom. Je er mwyn gwerthfawr waed a dioddefaint Jesu cynnorthwya ni. Je er ei fwyn ef, yn haeddedigaeth a chyfryngd d yr hwn yn vnig y saif ein holl obaith an cynnorthwy dy fab anwyl ein vnig Jachawdwr Jesu Grist in Harglwydd. *Amen.*

2. *Am*

2. *Am Derfyn ir Rhyfel.*

BYrrhâ o Dduw y dyddiau hyn o waed a galar, a dyro ddedwyddol a buan ddiben ir rhyfeloedd. O darfydded yr ymwahaniad annaturiol, ar ymrafælion anedwyddol rhwng y cefeillion anwylaf yn ein plith. Yn lle yr amſeroedd hyn o eiſiau, a briwiau, a rhwymau, a diniſtriad, bydded y dyddiau o lawnder o ddiogelwch, a rhydd-dyd i ddychwelyd dracheſn atom ni. O bydded yn ddigon, mai am ein pechodau y buoſt cyhyd in briwo an torri ni; ac yr awrhon iacha ni a rhwym ni i fynu a gwared ni er mwyn dy drugareddau. Dyro i ni heddwch am y cleddyf, ti Dduw yr *heddwch*, er ei fwyn ef yr hwn yw Tywyſog tanghneddyf *Ieſu Griſt* ein Harglwydd, *Amen.*

3. *Gweddi am ſendith ar yr rhai a geiſiant heddwch.*

O Dduw yr heddwch, Bendithia yr rhai ai ceiſiant, mal y caffont, ac attal a thro yr rhai a ehedant rhagddo, a gwna vddynt ei geiſio. Plyga eu calonnau hwynt atto, yr rhai ſydd ar gallu vddynt, a nertha eu dwylaw atto, yr rhai ſydd ar ewyllys. Ond am yr rhai a eſyd eu dwylaw ai calonnau yn ei erbyn ef, mi attolygaf i ti tro dy law ath wyneb iw *gwrthwyneb* hwynt. O maddeu i ni y pechodau yr rhai a fygythiant ein diniſtr, ac anfon i ni dynghneddyf a allo ein ymddiffyn ni. Ac oddiwrth fwy Gwaed a thrawſedd gwared ni. Gwared ni er mwyn Jeſu Griſt, *Amen.* Neu yn eu herbyn.

4. *Gweddi*

4. Gweddi am Gefeillion mewn perigl a chaledi.

O Dduw r gallu ar drugaredd, ymddiffyn di yr rhai ydynt mewn Perigl i farw. achub di hwynt rhag gwŷn o lid a chreulondeb, a dangos dy hûn yn drugarog vddynt yn gwared eu heinioes (os dy ewyllys bendigedig yw) o ti ymddiffynnwr dynion, gwared hwynt. Ac onis gwnai, canniattâ vddynt oll radau a thrugareddau angenrheidiol er mwyn gwaredu eu heneidiau. bydded vddynt dy ogoneddu ym mywyd a marwolaeth, mal y gogoneddech di hwynt ath fywyd tragywyddol, trwy haeddedigaethau Jeſu Griſt ein Harglwydd. Yn enw yr hwn yr attolygaf drugaredd ir holl rai a ddioddefaint yn yr amſeroedd hyn o gaethiwed a chyfyngdra; yn bennaf, ir rhai vnig, y gweddwon ar ymddifaid; Arglwydd : Cymer hwynt ith ofal, a chyſſura hwynt; Trugarhâ wrthynt a helpia hwynt, diwalla hwynt oll ath *ffafor* netol er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

5. Gweddi am ddychweliad neu droad vn oi ſuchedd darwg.

O Arglwydd. Yr hwn ni ewyllyfi farwolaeth pechadur? mi attolygaf i ti trwy dy râs ath rhagymweliad, attal ei foddau ef yr hwn a ddilyn ffordd drygioni ac oferedd. O na âd iddo fyned rhagddo i ddwyn y diben o wradwydd a gwarth arno ei hunan yn y byd hwn, a chywilydd wyneb ar ei enaid yn y byd a ddaw : Eithr (oth fawr drugaredd) attal ef a thro ef i ſuchedd well; er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

6. Gweddi

6. *Gweddi am gadwadigaeth yr Ecclwys*

O Arglwydd: Yr Ecclwys yw dy gorph, a thi yw ei phen. y hi yw dy anwylyd, a thi wyt ei *phriod* hi. O ymddiffyn dy gorph dy hûn, cadw dy anwylyd dy hun, gwared hi rhag ei holl elynion, dynion a diafliaid. Cadw hi rhag holl ddrygioni, amryfuſedd a pheryglon.

Ti a bwrceſaiſt i ti dy hun Ecclwys, a phris dy waed. O na âd i vnrhiw law ddala, nag anrheithio pryniad mor werthfawr.

Yn fwy neullduol gwrando fyngweddiau i, am y rhannau erlidiedig hyn; erfyniad plentyn truan dlawd, am ei Anwylfam gyſtuddiol. llawer O Arglwydd ydyw y gelynion iw difetha hi, ac ychydig ymgeleddwyr iw *hymddiffyn* hi. Nerthol yw r Arfau iw bwrw i lawr a gweinion ydyw r dwylaw iw dal hi i fynu. Eithr o Dduw na ymwrthod ti a hi, cynnal hi ath frauch ſanctaidd. Maentimia y Grefydd oſodedig yn ein plith, ath wirionedd bendigedig ith addoliad yn y grefydd honno. Maentimia Ecclwyſwyr a ddichon ſod yn abl ac yn gymeradwy, trwy eu dyſceidiaeth ai bywyd ſanctaidd i ymddiffyn dy wirionedd ath addoliad, ar moddau i troddi y cyfriw wyr llên garllaw i barhau. na ſydded gauddyſc neu *Hereſi* iw llygru hi. nag anwybodaeth iw dallu. nag oſergoelion iw chlwyſo hi. halogrwydd iw gorchfygu. *Schiſm* iw rhwygo hi. Cyſſegryſpeil iw difa hi, didduwiaeth iw rhoi n egored, erlid iw rhoi yn vnig wrthodedig. Arglwydd gwna ni mor ddedwydd ac a fuom, a mwy diolchgar a llai troſeddgar, mal y gallom ſod mor ddedwydd. diflanned anafau, peidied pleidiau a Sectau, gadawed yn ſydrwydd ni, ac yſpryd y gwirionedd a *chariad* a berchenogo ein calonnau dracheſn: bydded terfyſgau a chymyſgoedd i derfynu, a phob di-anrhydedd ith waſanaeth di iw aethwladu oddiwrthym ni, a threfn a harddiwch

harddiwch ſanctaidd a gweddoli ymddangos drachefn yn ein plith ni. Eled rhyſel ac ymbleidiau, ac ymryſon dineſic ac ymladd gwaedlyd ymaith on myſg, a llef gorfoledd a heddwch i ddychwelyd attom ni drachefn. Bydded y grefydd honno i ni yr hon an gwnel yn ddedwydd yn y nef, ar heddwch yr hwn a roddo i ni gennad ac amſer i fwynhau y greſydd honno A bydded ir rhai ſydd ar gallu vddynt adferu, ac ymddiffyn y greſydd honno ar heddwch. Ac ir diben hwnnw, bydded i ti faentimio yn drugarog eu gallu a hwythau, O Tydi, trwy yr hwn y mae brenhinoedd yn teirnaſu, yr hwn a addewaiſt eu gwneuthur yn Dadmaethod ith Ecclwys, canniatta i ni y bendithiau hyn er gogoniant ith enw, llonyddwch ein oeſoedd a chadwedigaeth ein eneidiau a hyn er mwyn dy fab anwyl an Jachawdwr. *Amen.*

---

7. *Gweddi am Drugaredd ir genedlaeth.*

O Arglwydd. Cenedlaeth anghariadus ydym i ſyned ir llawr am ein ſpechodau; ti ellit yn gyfiawn ein diniſtrio ni Dywyſog, a gwerin. Eithr arbed ni Arglwydd daionus. Arbed ni er mwyn dy drugareddau. Gâd i waed yr Jeſu dalu iawn am ein camweddau ni; ac yſpryd Jeſu vnioni ein cefeiliorniad. O Tydi yr hwn ni fynnit i vn pechadur farw. Na chynnwys i furddiwn (o eneidiau truain a chyrph) gyfrgolli. Cymoder di a ni yngwaed y cyfryngwr, a bydd ddyddiwr troſom i heddychu yn fenuigedig. Duw y dynghneddyf ar drugaredd bydd mewn heddwch a ni, gwna ef troſom. O Tydi vn ſanctaidd Duw, yr hwn a ddaethoſt ir byd, i gymeryd ymaith ei bechodau, a gwneuthur heddwch troſom. Trugarha wrth Ecclwys druan a chenedlaeth parod i ddiflannu. Toſturia wrth yr ecclwys a fu cyhyd yn maentimio dy wirionedd ath addoliad ym myſg y genhedlaeth; greſyna wrth yr rhai ſydd barod i drengu i faentimio dy wirionedd ſanctaidd ath addoliad yn yr Ecclwys: Ac ymddiffyn-

na

na di or neſoedd y hi a ninnau a hwythau: Tydi yr hwn ſydd a gallu y neſcedd yn dy law, *dercha dy neith a thyred*, ac *achub ni*. Ac yn y cyflwr iſel hwn na âd mo honom, eithr gwared ni er mwyn dy drugareddau. *Amen.*

Yn ol hyn dywaid y gweddiau beunyddol am Ras, heddwch, Iechyd diogelwch, cefeillion.

Os diwrnod o ympryd a fydd, neu o ymddaroſlyngiad arbennig i geiſio Duw, yno, dywedwch y *Letani*, ar deg gorchymyn.

Darllenwch am { Epiſtol *Joel* 2. neu *Jonah.* 3. / Eſengyl *Luc.* 13. neu *Mat.* 24.

Yn ol bod yn gwrando Gweddiau yr Ecelwys (os bydd iw gael) arbedwch eich ciniaw y dwthwn hwnnw, ar pryd hynny.

1. Darllenwch rai Scrythyrau, yr rhai a ddygo ar gof i chwi drueni yr oes. Megis, *Deut.* 28. *Ioſ.* 7. *Barn.* 20. neu rai or llithoedd ni ddarllenwyd, neu rhyw lyfrau duwiol.

2. Myſyriwch, *a gelwch ich cof drugareddau Duw yn hygof i chwi tra fyddoch fyw.*

1. Yn eich *gwared rhag peryglon doluriau*, &c.

2. Mewn bendithion am enedigaeth, neu gyflwr periodas, *&c.* (mal y perthyn ich cyflwr chwi) a derchafwch eich calonn at Dduw am yr rhain mewn holl ddiolchgarwch.

3. Gelwch ich cof y pechodau mwyaf och einioes, ac am danynt *gofynnwch Bardwn*, ach eiſiau preſennol, ac erſynniwch am danynt ymwared.

Yn ol hanner dydd, Ar ol Pſalmau, a llithoedd.

1. Gweddiau neullduol mal or blaen.
2. Cyffredin (os bydd rhai.)
3. Swpper llai nag arferol.
4. Eluſeni ir tylodion.
5. Yn amſer myned i wely gweddiau cyffredin.

Cenwch

Ceuwch neu clouwch ar y cwbl oll ar weddi hon.

TYdi yr hwn a ddeli ſulw ar yr *rhai ſydd yn alaru am ffieidd-dra yr amſer* cymmer gydnabod hynod a thrngarog (Arglwydd daionus oth was, yr hwn a ddeiſyfiodd y dydd hwn ddaroſtwng ei enaid oth flaen di; ffieidd-dra drygionus yr amſer ydynt laweroedd O Arglwydd. Ac yn fwy om hachos i, yn gyſtal calon a bywyd. Arglwydd. Maddeu i bawb a alarant am dy ddigio di. Ac arbed yr rhai ſydd drwm ganddynt weled y modd ith ddigiant. Tydi yr hwn a fuaſit yn arbed *Sodom*, pe cawſid deg or fath oi mewn, arbed y cyſtriw oll er mwyn dy drugareddau, arbed genedlaeth pechadurus er eu mwyn hwynt; Arbed ni oll er mwyn Jeſu, er mwyn ei haeddiant anher ſynol, ac er mwyn dy anfeidrol drugareddau di Arglwydd. *Amen*, *Amen*.

Y Fendith.

Mat. 5.4. B*Endigedig yw yr rhai a alarant, canys hwynt a ddiddenir*, bendith a Chyſſur Duw fyddo arnaf fi, ac ar oll gyfriw orthrwm alarus eneidiau gyd a myfi; yr awr hon ac yn dragywydd.

Fely y terfyn y gwaſanaeth yn amſeroedd galarus.

Saith

Saith neulldnol draethawd ſancteiddiol.

Goſodedig at ſaith ddiwrnod yr wythnos a niferoedd o ymadroddion i bregethu ir cydwybod, gan wahadd a hyfforddi yr enaid i feddwl ac i wneuthur yr hyn ai gwna yn ſendigedig, nid cymeryd arno, ond ymarfer Duwiolder; ac i fod (nid i ymddangos) yn dduwiol.

Sylweddau yr ymddroddion-neulldnol.

1. Dyledion yr Ecclwys.	Tros.	Ddydd Sul.
2. Deſoſiwn cartrefol.		Ddydd Llun.
3. Gwaſanaeth beunyddol.		Ddydd Mawrth.
4. Rhwyſtr neu attaliaeth newn crefydd.		Ddydd Mercher.
5. Llwybrau ir neſoedd, a dedwyddwch.		Ddydd Jau.
6. Meddyginiaeth i wendid dynol.		Ddydd Gwener
7. Ardderchawgrwydd Duwioldeb.		Ddydd Satwrn.

PSAL. 4.

Oſnwch ac na phechwch, ymddiddenwch ach calon ar eich gwely a thewch.

Yr

Yr vnrhiw (ond newid y rhif ar drefn) a wasanaetha am ddwy wythnos, mal hyn.

1. Wythnos	1. Dyled yr ecclwys	Tros	Ddydd Sul.
	2. Dosoſiwn cartrefel.		Dydd Llun.
	3. Gwasanaeth beunyddol.		Dydd Mawrth.
	4. Rhwyſtrau Crefydd. 1 r.		Dydd Mercher.
	5. Rhwyſtrau Crefydd. 2. rhan.		Dydd Jau.
	6. Llwybrau ir nefoedd, y gwahaniad cyntaf.		Dydd Gwener.
	7. Llwybrau ir nefoedd y 3. gwahaniad.		Dydd Satwrn.
2. Wythnos.	1. Dyled yr Eglwys 2. ran.	Tros	Dydd Sul.
	2. Llwybrau ir nefoedd 3. gwahaniad.		Dydd Llun.
	3. Llwybrau ir nefoedd 4. gwah.		Dydd Mawrth.
	4. Meddyginiaeth rhag gwendyd y rhan gyntaf.		Dydd Mercher.
	5. Meddyginiaeth, &c. 2. ran.		Dydd Jau.
	6 Meddyginiaeth, &c. 3. rhan.		Dydd Gwener.
	7. Ardderchawgrwydd duwioldeb		Dydd Satwrn.

Cynghorion

Cynghorion ynghylch yr arfer o'r ymadroddion neullduol.

NEullduol-draethiadau ydynt hên ddidawg arferag hwynt y porthai y Tadau eu heneidiau yn vchelwreſog; a'n eneidiau ninnau y dydd heddiw, a gânt well ymborth odddiwrthynt. ſe ai ſcrifenir yn ddrwg, ac ai darllennir yn waeth, oni lwyddwn ni mewn duwioldeb o waith y fath ymborth ſanctaidd. gan fod defoſiwn yn cael ei facthu yn well ar yn ddyſgled ſengl or iachus gartrefol ymddiddanion yma, nag ar lawer o wleddoedd, ac ymlenwi ag ymddadlau llymmach a threfnuſach areithiau.

Y mae i ti yma (Ddarllenydd brutannaidd) yr hyn (mal y mae yr Awdwr yn meddwl) ni welwyd errioed or blaen: *holl ddiſinyddiaeth mewn neullduol-draethawd*; neu (or lleiaf) y deunyddiau ar ſylveini or cwbl oll. Ac yngwirionedd, nid yw dy chwant ti yn dda ir neſoedd, oni archwaethi flas ar ddim or bwyd yna: ac y mae dy gylla yn ddrwg, os yw duwioldeb yn myned yn waeth gyda thi i wared. Arlwy a wnaethbwyd yma i ti am Brydiau, tros ſaith o ddyddiau, digonol i gadw dy enaid mewn iechyd, os oes bywyd yſprydol ynot ti, ac ymbil o honot am ſendith Dduw: heb yr hwn, nid yw pregethu, gwrando, ſcrifennu, darllain oll ond anadl, a llafur-colledig, ac nid yw yn maethu yn bur, ond diflannu ir awyr ac i wagedd.

Efa ſynnai yr *Awdur* borthi dy enaid, nid ei ſechu; ac am hynny y tyrr yn rhannau ei neullduol-draethiadau hwyaf, rhag *ſurffed* neu ormod *pwys* ith ddwyſtion. Defoſiwnau a rynga ſodd Duw yn well, wrth fod yn fûan, nag yn hir, ac felly y dylai ddyn ei meſur wrth yr yſpryd, nid wrth ei hyd. Gochel ſeguryd gan hynny, ac efath âd ti (yr hwn a wyddoſt dy nerth dy hun yn orau) ith feſur dy hunan. A chwedi i ti ymborthi, a chnoi dy gil ar y dainteiddfwyd nefol hwn,

ef a weddia am fendith Duw ar y bwyd ath enaid, a gwneled Duw ddaioni nefol i ti oddiwrtho.

Neullduol-draethawd ddydd Sul.

Dyled ir Ecclwys,

NUW,

Neullduol draethawd yn dangos fod ar bawb wasanaeth cyhoeddus ir hollalluog Ddnw, y fan, ar pryd, ar modd y maent iw dalu,

1. Rhan. Rhy. 12. Jer. 29. 5. FY enaid, er dy fod yn *vn* yn *gyfan* o honot dy hûn nid wyd ond *darn* or Ecclwys; ac (megis aelod o honi) rhaid i ti wneuthur dy ddyled gyd a'r corph; yn adfyd, a hawddfyd cyffredin yn yr hon y mae i ti dy hawl ath ran briodol dy hun, y mae yn rhaid i titod yn vn gan hyny mewn *gweddiau cyffredin* pan geifir; a gwneuthur yn mewn *moliant cyhoeddus*, pan geffer; Ac (megis yn neullduol) rhaid iw gwilied ar Dduw yn *gyhoeddus*. Canys mal y mae ef yn Dduw or *cwbl oll*, yn gyftal ac *vn*; rhaid iddo gael ei wasanaethu gan bawb yn gyftal a chennit rithau, a chenit ti, gimaint a chan y mwyaf, a mwy o byddi di yn *fwy* vn. Canys a ydwyt ti fy enaid yn edrych am gael y parch lleiaf lle y gwnaethoft ti y ffafor twyaf? neu i dderbyn llai o ardreth, lle gofodaift fwyaf o diroedd? *O fy enaid* (na fydd di, (o bawb oll na fydd di) yn *anfolchgar* ith Dduw, yr hwn a wnaeth i ti ffafor tu hwnt i lawer murddiwn, yn dy wneuthur di yn vn ac yn *fawr*, ac etto nid yw yn gofyn ond dy ddyled am ei ardreth? *fy enaid*, gan dy fod mewn cyniffer o foddau yn rhwymedig ith wneuthurwr, na thyn ymaith wasanaeth fengl, lle mai arnat ddyled deublyg.

Deut. 10. 12 Pfa. 116. 11 Lev. 5. 6, 7

As

Ar achesion Arbennig, ni esceusodi di moth weision penaf oddiwrth eu *gwasanaeth*. O herwydd pa fwyaf fyddont mwyaf oll dy anrhydedd. Ni elli di dy esceusodi dy hun wrth Dduw, os metha dy wasanaeth, pryd y byddo fwyaf iw ogoniant ef.

Ac a ddichon vnrhiw wasanaeth, fod yn vchelwyl neu wyl arbennig heb fangre gyhoeddus neu gyffredin? neu gyfarfod ynddo heb amser gosodedig? a eill vn lle fod mor gymmwys ar fan a gyflegrwyd iw *anrhydedd*? neu amser mor weddol ar hyn a roddir iw wasanaeth ei? y Deml gan hynny (Ty r Arglwydd) dyna r lle; a *dydd Sul*, (dydd yr Arglwydd) dyna r *amser*. Ar *ddyddiau eraillv* mae yr Ecclwys sanctaidd trwy gyfraith a chennad gan Dduw, yn ei osod allan iw addoli ef. Κυριακὸν. Κυριακή.

Na fydd fodlon, *fy enaid* i le *cyfredin*, os gelli fyned i le *cyflegredig*. Ym mha le y dylit ti wilio ar y Brenin onid yn ei lys? yr Ecclwys yw Tŷ Dduw (*fy enaid.*) yno y mae y mawredd nefol yn disgwyl gael gwilied arno, ac feilly y cai errioed gan ei Seinctiau. Am ei corph hwynt i fod yn vn lle, a thithau mewn man arall fydd *schism* neu rwyg. Na fydd di ynghappel y cythrael, pryd y byddo rhai eraill yn Ecclwys Dduw. neullduwr er recced yr y ddangofo yn *Sanct*, nid yw ond vn oi *weision* ef. I fod os meddwl felly, fod pob lleoedd yn gyffelyb neu gystal ai gilydd (ie yr rhai mwyaf cyffredin cystal ar lle mwyaf bendigedig) i wasanath Duw, hyn y fydd *Heresi* anifeiliaidd. ni fynn y cythrael ei hun mor cyfriw *gappel*, er iddo ddewis y moch am ei *Dy*, ettonid yr vnrl i *w* iw wasanaethu. Pſa.100.3 Pſa.65.1 Pſa.89.5. Heb.10. 25 Jude ad. 12 Mat.8.31.

Ac na fydded ddigonol gennit gadw dy gydwybod yn llonydd, ddarfod i ti wasanaethu Duw *gartref*, pryd y byddo eraill yn ei wasanaethu ef yn yr *Ecclwys*. Y mae hynny yn dda yn ei amser (o fy enaid) pan fyddo *dolur* neu *anghenrhaid* ith warchau di yn dy dŷ, Aberth gymeradwy gan Dduw; onide offrwm o arogl diffaeth anfodlonol gan Dduw a dyn, megis bwyd allan o *amser*, y mae yn ymddangos mal yn *burdeb* a *sanctteiddrwydd*, eithr yn awr, *neullduolrwydd* a *hyfdra*. na fydd di yn dy fyfyrgell (*cappel* bychan Duw) pryd y bo eraill yn y

mwyaf (yr *Ecclwys*. ni elli di moi oſod ef i wrandawiad *neullduol*, pryd y goſododd ef i ti le *cyffredin*. eithr iddo ef dy weled ti yn dy wely, pryd y byddo yn edrych am danat yn ei lys? ith canſſod ti wrth dy ddrych, pryd y dylit ſod yn edrych yn ei air? ith cael yn ymwiſco pryd y dylit ſod ar dy weddiau at Dduw? O ſy enaid, pan ſyddych yn chwenych i Dduw dy ffieiddio. bydded y cyfriw gynhyrfiadau o *halogrwydd* yn ymddangos ynot.

Fy enaid, ſy enaid. Ydwyt ti yn credu ſod gan Dduw Ddydd y Farn? mi wn y credi. yr wyf yn gorchymyn i ti gan hynny (mal yr attebech yn y dydd ofnadwy hwnnw) mewn vnrhiw ſoddau (oni bydd dy eſcus yn gyfion o flaen Duw) mewn vnrhiw ſoddau meddaf, (am y rhai hyn neu r cyfriw ddibennau neu gymyrreth) na thraelia moth amſer yn dy *Stafell*, pryd y byddo rhai eraill wedi ymgynnill ynghyd yn yr Ecclwys. gan roddi heibio bobrhiw eſcuſion, yr rhai ni feiddia *cydwybod* eu gwirio yn y dydd o gyfrif *mawr* hwnnw, ymddwg dy hun mal Sanct a gwas i Dduw, myn dy gael ath weled, lle byddont hwy yn y *noddfa*.

Fy enaid anwyl, os ffordd arall y gwnei, ym mha le y gelli di ſod ith cael, ſydd well? oes gwell cefeillion na Seinctiau ac Angelion? oes vn ſwy na Duw? vn gorchwyl Ardderchawccach na gwilio ar ei ſawrhydi
Pſa. 74. 7. nefol? vn lle dedwyddach na r nefoedd? vn faſnach
Ty gogoniant. reidiach na *dedwyddwch?* wele *hwy*, a *hyn*, ydynt yma: Seinctiau yn *gweini*, Angelion yn *cynnorthwyo*, Duw yn
Eſa. 64. 8. *preſwylio*, *nefoedd* yn ymddangos; dedwyddwch yn
Gen. 28. *gweithio*, nef mewn *Arwydd* ſydd oth flaen, y porth yn
17 dy emmyl; ac ym mha le y mae dedwyddwch ond yn
Ezec. 46. y *nefoedd*?
10. Beth yntau? wyt ti yn meddwl ſod vnrhiw ddyn yn rhy
2 Chro. 23 fawr i waſanaethu Duw? mi wn dy ſod yn rhy dda i dy-
13 bied hynny, yn rhy ddoeth iw gredu? y mae colofnir
& 6. 13. Tywyſog yn neml Dduw, yno yr oedd *Salomon* fawr yn
Eccleſ. Hiſt. Euſeb. myned ar luniau. *Cwſtennyn* a *ſafodd* oi flaen ef. Pe bait ti *Tywyſog*. *Brenin*, *Emerodr* (er maint gwr a fyddit) neu *Cherubim*, *Seraphim*, gorſedd, (neu faint angel
Dan. 7. 10. a fych) anrhydedd a fyddai i ti ſod yn wenidog iddo
Dad. 4. 19. ef. Ac wyt ti o ddyn (nid angel) o bryf (nid dyn)

wyt

wyr ti, o ddyn yn gweled yn ddirmyg i ti wneuthur ar y ddauar y peth a wnant hwy yn y nefoedd? wyt ti yn gwrthod gwneuthur yr hyn a wnaeth yr rhai mwyaf ar y ddauar? neu wyt ti yn dychymyg trafferthion, lle na eill *coronau* fod yn *eſcuſion* ? Nage am hynny ſy enaid, gwilia ar dduw yn ddyfalach, mal y byddo ef (heb ſendith yr hwn *ofer* yw r holl *amcanion*) yn dwyn i ben dy drafferthion, ac yn llwyddo dy orchwylion. Job 4.18. 10 Pſa.22. 6. Pſa.127. 1, Diha.19. 21. Diha.16.3

Eithr, os medri ſynnied anrhydedd dy wneuthurwr, neu dy Jechydwriaeth dy hunan. Os oes cariad i Dduw neu ddyn ynot ti: os oes dim gofal am Dduw i oldeb neu ddedwyddwch. os wyt heb ymroi i eſceuluſo yn ollawl dy fydol ath nefol oreuddawn dy hûn, ac eraill; yr wyf yn gorchymyn i ti *o fy enaid* ath ailorchymyn di i gymeryd gofal, a dychryn, rhag cadw eraill oddiwrth yr *Eccleſys*, (yn ddi-angeurhaid) i wilio arnat ti *gartref*, pryd y dylit ti a hwythau fod yn gwilio ar Dduw yn ei *Babell*. Ydwyt ti yn Dduw vddynt hwy, mal y rhaid vddynt wrth *wilio* ar dy *ewyllys* di, eſceuluſo ei *addoli* ef? neu ai r Duw mwyaf ydwyt ti, mal y mae n rhaid i ti gael dy waſanaethu yn gyntaf oi flaen ef. Delw a elli di fod, Duw yn ddiogel nid wyt. felly yr *anrheithi* Dduw oi anrhydedd, ac a dynni dy vn dy hûn ir *anrhaith*. *O fy enaid*. Na fydd di r fath *leidr* ir nefoedd. nid rhaid it ond yſtyrried hyn, a thi ai condemni ac ni byddi fyth mwy yn euog or cyfriw vchel *droſeddiad*. Y mae yn rhaid i ti ofalu am i ti ath *Teulu waſanaethu yr Arglwydd*. nid cymeryd rhuthr ith cadw di a hwythau oddiwrth ei waſanaeth ef. Y Brenin yn ol calon Duw ei hûn ai a lliaws gyd ag eſo *i dy Dduw* (ni ddaliai lawer oddiwrtho.) oedd yn vn or *ſanctteiddgrwn*, a *chloch* yr Addolwyr; nid eiſtedd mewn *cadair*, pryd y dylai fod yn *ſefyll* o flaen yr Allor, ac nid ac hwynt hwy oi amgylch, a ddylaſai fod gyd ag eſo yngylch Duw. fy *enaid anwyl*. dwg cimaint a ellych ir nefoedd, na *rwyſtra* yr vn iddi. Ac er bod di-dduwiaeth yn gorwedd yn nrws rhai gwefaſau, a feiddiant ddywedyd nad yw crefydd ond *llywodraeth ddichellgar*, nag ymguddied mewn vnrhiw gilfach oth calon di, gimaint a thybied *Duwioldeb* yn *amherthynas*. Deut.14. 26. Joſ.24. 15 Pſa.42.4. Pſa.26.6. Mal.3.14.

Mal gan hynny, yr oedd gan *Philip* ei *memento* neu ei
Exod. 5 6. goffadwriaeth foreuol, i ddywedyd iddo mai dyn
1 Cor. 10. oedd ef, iw gadw rhag balchder. bydded gennit ti-
7 thau ryw *brydnawnol gofiadur*, i ddwyn ar gof i ti, y
1 Pet. 1. *nos* oth flaen, (y dydd nefaf eiddo Duw yw) i rag-flae-
17 nu y cyfriw *halogrwydd*. mal gan dy ymroddi dy hûn i
orphywyfa amferol, y gellit ti gael gwell amfer, ac
yfpryd i wafanaethu Duw ar ei ddiwrnod ef. Edrych
ar *gymdeithion gloddeft hwyrgwfg*, megis ar wiberod, ac
yfgwyd hwy ymaith, mal y cyfriw *drael* or amfer, (yn
enwedig fanctaidd) i weithredu *Pigiadau* cydwybod.
Cynger dy fam (arfer yr Eccl wys) fod dydd Satwrn
yn *banner gwyl*, mal y byddo dydd *Sul* yn *gyfan*. Ac
yn ddiau y fam ddefofionol, a fynnai feddwl am dduw
y prydnawn hwnnw, ni fynnai ei anghofio ef y nos
honno ar ol; llai o lawer ei efceuluío ar y dydd oedd
i ganlyn. Nage fy yfpryd, Os mynni anrheddu dy
Arglwydd ath Jachawdwr, na *Phalla* ar ei ddydd
ef.

Dydd yr Arglwydd.

Dydd yr Arglwydd iw gadw.

NAge, os oes ynot ddim cariad i Grefydd dduwiol
ni elli. Canys beth yw hynny ond gwafanaeth
yr *Arglwydd*, a hwn ond ei *ddydd* ef? A pha ddelw
hynny, ond o herwydd ei ofod or neulldu i geifio *Je-
chydwriaeth?* Dy Arglwydd Crift a gyfododd y dydd
hwn allan oi fedd ith *achub* di; ac oni chedi di allan
oth *wely* iw *wafanaethu* ef? Ai dyna y ffordd i gynnal
ry, tynnu allawr y golofn? *fy enaid*. O ni bydd i Ddu-
wioldeb ddiwrnod gofodedig iw ymarfer, ef a â Cre-
fydd iw dinifir yn fyrrbwyll. heb law hynny, anwele-
dig a fydd, eithr hi ddiflanna yn ddiddim; Ath lawe-
nydd di gyda hi. Canys yn ddiammau oni cheifio di
Dduw *yn dydd*, ni chai di mo hono yn *yn lle*. Ac yn y
nef pobrhiw ddydd fydd vnrhiw *Sabbath*. Ar y ddauar
i wneuthur pobrhiw ddydd yn *gyffelyb*, ydyw na chei-
fir

ſir Duw vn dydd. Ni elli di ſod (megis yn y nef) bob dydd yn ſanctaidd, ni waſnaethu i ti ſod (megis yn vffern) bob dydd yn *halogaidd* vn agwedd. vn dydd gan hynny yn yr wythnos a oſodwyd, mal na byddai Greſydd a (chyda hi) dy Jechydwriaeth yn golledig.

Ar cyntaf or wythnos yw r *vn hwnnw*. Cyn hyned ar *Apoſtolion*; mor *Gatholic* neu gyffredin ac *Eccluys* Grift. *Anrhydeddus* am hynny iw gadw yn ſanctaidd *gennit ti*, O herwydd bod *pawb* iw gadw. Yr holl rai a broffeſent enw *Criſt*: Ac ſy *enaid* ni *wrthodi* mo hono ef ni byddi wrthgil-gas i dreſn Apoſtolaidd; na gwrthwynebwr i *ddefod* Griſtianogaidd, na neullduol oddiwrth yr holl Seinctiau yn y cyffredin ſyd Criſtianogawl. y dydd hwn a gadwyd errioed gan *bawb oll*. Ac felly bydded iw *gadw*. Ac fal y gwnaethont hwy felly cadw dithau ef. Canys *ſy enaid*, ni wna llawer mo hynny, ac ni wyddont. Dad. 1. 10 Wedi.

Y modd i gadw dydd yr Arglwydd.

CAnys rhai ai cadwant ef ag *ofergoel fawr*; eraill a ochel hynny a gorthrwm *halogrwydd*, rhai yn eu rhwymo eu hunain, ir cyſtiw *gaethder*, yr hyn ni *wnant*, ni *allant*, nid *rhaid*, moi gynnal, o herwydd nad yw Dŭw yn *goſyn* y cyſtiw. eraill yn ymroi eu hunain ir fath wageddi chymerant mor fath rydd-dyd ddiwrnod arall. Rhwng y ddau *eithafoedd* hyn, y rhaid i ti rodio yn ofalus O *ſy enaid*. Na Chadw Sabbaoth mal yr *Jeddew*, neu mal vn or *cenedloedd* i foli Duw r Gwin ſef *Bacchus*. Cynnal y dydd a *deſoſiwn*. Cadw ef heb ofergoel neu ddelwaddoliaeth. gochel gaethder diorchymmynedig, eithr na rêd i rydd-dyd *diwarantedig*. Cymer y rheol hon ith hyfforddi, tal ddyledion yr Eccluys yn vnion-gywir; ac na âd ir Ty dwyllo yr Eccluys. hynny yw r prif waſanaeth; mae r rhain yn waſanaeth da yn ei amſer heſyd. Canys di-reſwm yw (ſy enaid) feddwl y gelli, ar yr vn ar vnrhiw ddydd Yr ail rhan. Col. 2. 16

ymddangos yn Sanct yn nhy Dduw, ac yn dy vn dy hun yn *Gythrael*. na fydd i gymyrreth yn neullduol (er bod yn dduwiol) pryd y dylit fod yn y Gwaſanaeth cyffredin; eithr pan ymroddych ir cyffredin yn dda, na fydd neullduol *ddrwg*: gan fod hwn yn fwy ſanctaidd na dydd arall, rhaid iddo gael mwy oth waſanaeth di: Ty ac Ecclwys gan hynny eich dau edrychwch am hyn. Y peth y mae dyddiau eraill yn ei *bennodi* at y Ty, mae hwn yn ei wneuthur ynddo, a pheth ni wna y dyddiau eraill, yn yr Ecclwys.

Felly gan hynny fy enaid, yn yr Ecclwys (Ty Dduw) ar ddydd *Sul*, dydd yr Arglwydd, *y lle ar ppyd y* byddo Brenin y neſoed yn cadw ei *lys*, ac yn gorchymyn dy *waſanaeth*, na phalla mewn vn modd dy ymddwyn dy hun (oni fydd achos gyfion anghenrhaid) mewn ymwareddiad ſanctaidd yn was ac erſynniwr at y goruchel fawrhydi neſol. a choelia fod dy abſen yn gamwedd a Duw dy Dad; yn eſceuluſiad i Grift dy Jachawdwr. yn anfoes, anvſuddol ir *Ecclwys* dy fam anwyl. yn dramgwydd i ddyn, dy frawd Criſtianogol. Ac ir rhai ath adwaenant ti ac yntau, yn eſampl o ddrygioni a *chyſſur* i anuwioldeb.

Eithr pan fyddo Duw trwy ei weinidogion yn anfon allan rybudd ith alw di iw dy, ac iw fwrdd hefyd; nid yn vnig i *waſanaethu*, *eithr* i ſwpperu gyd ath
Joa. 6. 48 Arglwydd, *O fy enaid*. Pa fodd yr attebi di hynny, trofor dy hunan neu Dy Dduw, onidd eui? wyt ti yn caru
1 Cor. 19. tragywyddoldeb, ac heb ddim chwant gennit i fara y
16 bywyd? ai gormodd gennit ti a *Satan* fod yn Ddau,
2 Cor. 8. neu ormod gennit ti a *Chriſt* fod yn vn? Ac onid hwn
15 yw dy *Gymun* di a Chriſt? hynny yw dy neullduaeth
1 Cor. 10. oddiwrth bechod? a hynny dy anghyfundeb a *Satan*:
21 Eill dy bardwn rhag vffern, fod mor ſicr; neu dy ddiogelrhwydd am y neſoedd fod yn rhy gryf? Ac onid y Sacrament *hon* yw r ſêl oth *Pardwn* ac or diogelwch hwnnw? A elli di wneuthur gormod o anrhydedd ith ſachawdwr? yw y *gorchymynedig* goffadwriaeth oi gariad ef yn ormod? onid yw yr eſceuluſiad o hynny yn *ddi-yſtyrwch*? Arwydd oi wael eſceuluſiad? a golli di dy waed er ei fwyn ef, ac nid yſi

moi

moi vn ef ith *Jechydwriaeth?* a yfi di ei phioled ef o *fuſtl* yr hwn a wrthodi ei *win?* A ddringi di ei Groes ef, yr hwn wyt yn gochel ei ſwrdd? marw troſto ef, yr hwn ni ſwpperi gyda ag ef? a fyddi yn *Aberth* iddo, a gwrthod ei *Sacrament*: O fy enaid ple mae dy ddyled ti, ath cariad ith Criſt; oni ddeui ar ei alwad? A pheth ſydd ith cadw di ymaith? Ai malais ſydd yn llenwi dy chwant ſanctaidd? hyn yw gadael bwrdd Duw, a dewis vn diafol. yw dy ddwyfron yn chwennych cnawdol chwant neu ddiſyrrwch, ar paratoi at hynny, luddies hyn yna? hyn yw dewis bara dyn o flaen bara Angeſion, ie bara pechadur (yr hyn ſydd waeth) o flaen y bara neſol, yr hwn ſydd well. *O fy enaid.* Pryd y byddo Duw a diawl neu dduw a dyn yn dy wahodd di ar vnwaith iw *bwrdd*, na ddod i ddyn (llai o lawer i ddiawl) dy *breſenoldeb*, a naccau *ymddangos* i Ddaw. Na wna mo hynny fy enaid, oni chei awdurdod dda oddiwrth Dduw tan *ſêl* dy gydwybod, na wrthod moi wahodd ef, ith ymborth tragywydd, rhag iddo dy neccau di oi olygiad bendigedig, am y cyſriw ddieſcuſol *ymwrthodiad*; Ath cadw di oddiwrth Swpper yr *Oen*, yr hwn ath cedwaiſt dy hun oddiwrth Swpper yr *Arglwydd.* O gwae dydi fy *enaid* yn dragywydd, os dywaid ef vnwaith (megis am y ſath eſcuſiad y gwnaeth); *ni chai fwyta om Swpper.*

Luc 22 19

1 Cor. 10. 21

Pſa. 78. 25
1 Pet. 1. 12
Can. 5. 1

Dad. 19. 9

Ar Ddydd, Duw gau hynny, pryd y byddo ei ddrws yn egored, bydd gyda ag ef, yn enwedig *pan hilier ei ſwrdd.* Ordinhâd Duw ſydd well na *gwledd* yn y *byd*, o ran y mae yn porthi i fywyd gwell, Eithr yma ſy enaid y mae dainteithfwyd y neſoedd. Yr hyn a allai anfeidrol ddoethineb ei arlwyo ith wledda di, nes dy ddigoni a gogoniant yn ei ŵydd ef, lle mae cyflawnder o lawenydd hyd *tragywyddoldeb.* O *fy enaid.* Lle y mae Angelion yn *weinidogion*, bydd di vn o wahoddwyr *Duw.* Lle y mae y neſoedd ar y bwrdd, dos ar luniau wrth hwnnw, lle mae bywyd yn y *bara* bydd di ar y *bwrdd.* meddwl mai marwolaeth ac aethwladiad oddiwrth Dduw ar neſoedd yw dy gadw oddiwrth Dŷ a bwrdd yr Arglwydd.

Mat. 22. 8.
Luc 14. 22
Pſa. 118. 19
Diha. 9. 2.

Joa. 6. 27

Joa. 6. 51
Joa. 6. 41.

Eithr

Eithr nid:digon yw preſonoldeb,*onis bydd yr ymddygiad*
Pſa.42.1,2 yn griſtianogawl. Sancteidd-rwydd a weddai i Dy
Pſa.93.6. Dduw, (hyllrwydd ſyd anſoddol) *cuddia* dy olygon
1 Cor.11. yma a *gwyldra* ſanctaidd. rhwym dy wefuſau a diſ-
22 dawrwydd goſtyngedig. Cau dy gluſtiau i bob daua-
Eccl.5.1 rol *wrandawiad*. goſod dy draed i *lonyddwch* iſel-fodd.
Hab. 2. 20 Cuddia dy gorph droſdo oll ag *anrhydedd* crefyddol ie
Pſa.46. 10 a llecha dy hun tano, hefyd. Canys y mae Duw yn dy
weled ti, yn gyſtal ac y mae dyn yn gweled, hynny.
yma gan hynny, rhaid ith *fed* dyliau dueddu ir
nefoedd, ath ſynwyrau ochelyd y danarol oglyd; Ar
yr adenydd hyn y rhaid ith ddefoſiwn dy dderchafu
di, at y pethau *uchod*. Y pethau oddiſod yw maſnach
gwyr bydol, nid Seinctiau, a gynhwyſir ir Tŷ, eithr a
aethwledir or *Eccluys*. Edrych ar dy droed pan dde-
lych *i dy Dduw*. goſod yn vnion tu ar nefoedd, ie a
chadw felly, pan ſyddych yn y Tŷ; (na ad iddo ſy-
mud pan oſodech yn dda) pa beth yw dy droed (o ſy
enaid.) yn ddiau tydi dy hun ydwyt vn, y corph ydyw
y troed arall. rhaid i ti edrych am y ddau. *Meddyliau* ac
ymddygiad, gwynniau a gweithredoed, *dichwen* a *thu-
eddiad*. edrych am y ddau ſydd raid.

Mor oſnadwy yw r lle,os *anrhydeddgar*, oſna ei wneu-
thur yn *chwerthinle*, na feiddia chwerthin yn wyneb
Duw, (na wna gan hynny yn Eccluys Dduw.) Na *ſi-
ſial* yn ei *ŵydd*. (na feiddia gan hynny ſiarad yno.) Na
lygadrytha o flaen llygad Duw, (na wibied dy olwg
yn ei dŷ ef) os ofer feddyliau, a thrachwantau budron
a ddaw, pair vddynt ſyned ymaith, nid ydynt amlygia-
dau i lygad Duw.

Yma rhaid ith cluſtiau fod yn ganad i bob geiriau,
ond gair Duw, a gwilied dy wefuſau rhag pob yma-
drodd, ond gweddiau. dy lygaid yn egored, i vnrhiw
olwg, ond Angelion. dy feddwl heb ddim cynhyrfia-
dau, ond at y nefoedd. *Duw* a *hynny*, a *hwythau*, *ydynt*
yno a thithau ſydd raid i ti wneuthur oll anrhydedd o
flaen mawrhydi y defoedd. Anrhydedda *ſynghyſſegr-
le*. O herwydd dy human O Arglwydd. hyllrwydd
ſydd weddeiddiach i frebyliaid nag i *Angelion*, *Preſe-
noldeb* hyll ſydd waeth nag *abſen* diniwaid: Canys hyn-
ny ſy *enaid*, yw eſceulufo Duw oll, ar llall dirmyg ar
Dduw

Dduw. vn a ymddengys i ddyn yn fai y llall y dramgwydd gweledig. ie i *liaws*. i gynnifer ac am gynnnillo i waſanaethu Duw, ac yn gweled y di-yſtyrwch hwnnw oi flaen ef. gwell gan hynny (fy enaid) beidio a gwilio ar Dduw, nai ddi-yſtyrru ef; a bod allan o olwg dyn, pan fyddo o flaen Duw, nag yn frycheuun yn ei lygad ef, ar pryd y byddo ar ei ffordd ir nefoedd, i oſod cyff tramgwydd oi flaen ef. na ddadleu mai *defod* yw dy eſcus. ni fu Seinctiau errioed felly, ac ni waſnaetha i ti ddilyn ôl pechaduriaid, ni waſnaetha dalu dyledion Duw i *ddefodau* y Cythrael. Am beidio a chadw treſn yn y nef y gwnaethbwyd yr *Angelion* yn *Gythraeliaid*. peidio a chadw gweddeidd-dra yn yr Eccleſwys, ni wna mo ddynion yn Angelion) O flaen Duw yr Addolant ac y *crynant*; ym mha le y byddant hwy yr rhai ydynt mor hyf oi flaen ef? fy *enaid*. Pe bai boſſibl i ti fod yn Saint (yn Angel) ac yn *hyll ddiwybod*; vn ai ni cheit ti fyth *fyned* ir nef, neu *ymgadw* i mewn fyth yno.

1 Cor. 11. 17.
1 Cor. 14. 23.25.
1 Cor. 10 32.
Levit. 18. 30
1 Cor. 10. 32
Jud. ad. 6.

Torr gan hynny rwymau y cyfriw ddefodau mal cadwynau marwolaeth. dos is Eccleſwys megis ir nef, ac ymddwg dy hun yno megis ynddi hi. bydd anrhyddgar, megis y mynni fod yn fendithgar. Na fydd bubiſt i ymwithod a hi nac yn goegfalch ynddi. Os bydd eraill, na fydd i ti mwy ceſeillach ag hwynt hwy, yr rhai nid ydynt yn ofni mwy ar Dduw. Mal pan elont hwy ir lle y mae yſpryd halogrwydd iw harwain, y gellych di fyned ir nefoedd.

Eſa. 6.2
Dad. 4. 10. & 5. 14.
Dih. 5. 22
Pſa. 5. 7.
Bzec. 28. 16.

Ar pryd yr ymddangoſech yn *y Cymun* ſanctaidd. O *fy enaid*. gwiſg dy hun a phob poſſibl anrhydedd y pryd hynny. Corph a chalon) bydded y ddau i ymoſtwng, nid ir Elfyddau Sanctaidd, eithr ith wneuthurwr. Canys fy enaid pan ydwyt ti druandlawd bechodlawn *greadur* yn cael cennad i ddyfod ir Cymun; Cymun mor agos, ar tragywyddol Dduw, dy holl alluog ath holl Sanctaidd. Greawdr, a elli di fod yn rhy oſtyngedig? Pe bai dy wyneb yn cuſanu y ddauar pryd y mae dy lin arni, a elli ti fyned yn rhy iſel i fawrhydi mor vchel? Ac etto, yn y dirgelwch ſanctaidd hwn, mor iſel mewn daioni deſcynnedig attar, ac yw vwch dy law mewn anherfynol di-ymgyffredig ſawredd? fy

enaid,

enaid, y mãent yn wallgofus yr rhai gan ei gwneuthur eu hunain yn gyd etifeddion a Chriſt, am hynny eiſteddant i gadw yn gydgyfuwch ag ef. Or lleiaf y mae ef yn Arglwydd i'r, *Dyn* dy frawd; eithr Duw-
1 Cor. 16. ddyn dy wneuthurwr, ath Tad. Pob cymunwr yw dy
17 geſeill, eithr ef yn frenin ar y cwbl oll. Ai fwrdd ef
Dad. 15. 3. nid bwrdd dy geſeillion eithr bwrdd yr Arglwydd,
1 Cor. 10. Addoliad nid ceſeilliad a weddai i fwrdd yr.
21 Arglwydd. Yn ei Dy ef. yr wyt yn ei ŵydd, eithr yma o flaen cadair ei ogoniant; gorſeddfaingc trugaredd y mawrhydi ollalluog. Pa beth? Dyn o bridd dauar a hyf, ac mor hyf o flaen brenin y nefoedd? lle
Dad. 4. 10. y mae yr yſprydoedd nefol yn taflu i lawr eu coronau o
Gen. 18. flaen ei orſeddfaingc: a ddwg llwch a lludw ei ddwy-
27 fron i ſynu oi flaen ef? ſy enaid ſe a ddyſgwyd yn well gan ddefnydd di amheus.

Pſa. 89. 7. *Dnw ſydd ofnadwy iawn ynghynulleidfa'r Sainct, ac iw arſwydo yn ei holl amgylchoedd.*

Pſa. 95. 6. *Deuwch, addolwn, ac ymgrymmwn goſtyngwn i lawr ar ein gliniau o flaen yr Arglwydd ein gwneuthurwr.*

Y Cwbl

Y Cwbl or neullduſaferyddyw hyn.

DUw, ein Gwneuthurwr cyffredin ſydd raid iddo gael gwaſanaeth cyhoeddus mewn gweddiau cyffredin ac Addoliad.

Rhaid i bawb dalu ei deirnged i Dduw, a pha ſwyaf a fo dyn, mwyaf oll ei rwymedigaeth i dalu.

Y mae yn rhaid fod lle or neullduir gwaſanaeth hwnnw; a'r Ecclwys ſydd fangre ſanctaidd iddo.

Maly mae am ddyled ſanctaidd yn dra-chymmwys, felly am nefol barch, nid oes vn lle allan or nefoedd mor gariadus, a dymunol ac yw yr Ecclwys.

Y mae yn rhaid fod amſer goſodedig ir gynulleidfa ſanctaidd i fod ynddi, a thrwy hen arfer hollawl, hwnnw gyd a'r Criſtianogion yw dydd yr Arglwydd.

Rhaid iw gochelyd yn gyſtal halogrwydd, a delwaddoliaeth wrth gadw yn ddyledus y pryd ſanctaidd hwnnw.

Drwg i ni ein cadw ein hunain or Ecclwys, (yn ddianghenrhaid) a gwaeth yw gadw erail allan.

Os hyll ddiwybod ſyddwn yno; mai yn gyſtal i ni ein cadw ein hunain ymaith.

Yn amſer cymun, yn enwedig ni ddylem ni na bod yn abſennol nag yn an ſuttiol

Neullduol-

Neullduol-draethawd ar Ddydd llun.

Cartrefol ddefoſiwn neu Dduwioldeb.

NEU,

Neullduol draethawd yn gwahodd ac yn cydnerthu yr enaid i Dduwioldeb neullduol, ac i gyflawni beunyddol ddyled mewn myfyrgell i weddio yn ddirgel.

CLyw, O fy *enaid* y peth a ofynnir i *waſanaeth* Duw. Canys, mal yr wyt ti yn ei wybod yn *ofer*, onis
Jer. 13. 17. *gwnai*. Felly ni elli moi wneuthur yn vnion, oni wy-
Dih. 19. 2. ddoſt ef. gwybydd gan hynny *o fy enaid*, Mal yr wyt o honot dy hun yn *vn*, ac yn vn or *byd*; yr wyt yn dylu, a rhaid i ti dalu ir hollalluog Dduw, dy wneuthurwr di ac yntau, *neullduol*, a *chyhoeddus* waſanaeth. Yn dy Staſell rhaid i Dduw ei weled, yn yr Ecclwys rhaid i ddyn ei ganfod. yno, blentyn anwyl lleſara yn rhwydd troſor dy hun at Dduw, bydd yn offeiriad ac yn enau it dy hun mewn dirgelwch: Ac na ammeu, na channiatta dy Dad nefol, ac na ſelia dy *erfynnion*: eithr yma
Yr Ecclwys. gad ith Fam leſaru troſor ai offeiriad hi (gweſuſau Duw) ſod yn enau i ti, at yr hollallnog Dduw. Y fy-
Mal. 2. 7. fyrgell yw r Ecclwys neullduol, eithr yr Ecclwys yw r Cyſſegr Cyffredin: er mwyn Duw gan hynny bydd anrhydeddus yno; eithr yma er mwyn y ddau Duw a dyn.

Na eſceuluſa *enaid anwyl*, na eſceuluſa Aberth beunyddol. borau a hwyr, offrwm dy waſanaeth ir hollalluog Dduw.

Egor y dydd ai egoriad ſanctaidd, mal y byddo bendith

bendith y *goleuni* arnat:cau i ſynu y nos ar vnthiw egoriad, mal na chaffo melldith y *tywyllwch* aſael arnat. Na feiddia ſwyta nag yfed, nes i ti weddio am gennad or nef, rhag i drachineb gyfarfod a thi cyn y nos, ath luſgo di ith *fedd*: na feiddia orphywys neu gyſgu, nes i ti ymbil am bardwn am feiau y-dwthwn, rhag gerfod ith *enaid* ymadael cyn *tranoeth.*

Fy enaid. Y rhai hyn yw *ymweliadau a chroeſawiadau* yr hollalluog Dduw; ah, na eſceuluſa ei ymweliadau ef er mwyn ymweled a *dyn.* ef yw r Perſon mwyaf, gan hynny gwaſanaetha ef yn gyntaf. Na ſydd euog or anwybodaeth hwnnw ith nefol Dad, yr hyn a ffeiddit ei ddangos tu ac at wr Ardderchawg: i adael iddo ef aros ith wilio di, tra byddych di yn dy groeſawu dy hûn gyd rhyw *waeldyn.*

Na âd mor *Tywyſog* i ſyned at *wrengyn.* (ſef dy weddian ath erfynniau at yr holl alluog Dduw, er mwyn croeſawu vn dyn dauarol Pwy bynnac:) *Och och,* fy enaid. mewn cyffelybiaeth ir Duw galluog, nid yw y dyn mwyaf gimaint a gwrengyn wrth y *Tywyſog* galluoccaf. Eſa. 40. 17 Job 34. 19 Pſa. 91. 11.

Pan ſyddych gyd a Duw, Angelion ſydd gyd a thi (O *fy enaid)* ac na thro moth cefn at Angelion i ſyned at Ddynion, pe baent *Seinctiau*; *ac yn enwedig* at y cyſriw a ymddengys mewn agwedd bechadurus mal *cythraeliaid.*

Ac er nad wyd offeiriad, nag o broffes creſyddwr rhwymedig wrth y *canon* i *orriau goſodedig*; etto *fy enaid*, ni wnait ti ond cyſiawnder i Dduw ac i ti dy hunan, oſod a chadw i hyw amſerau hynodol i *Dduſoſiwn.* Ti a elli wneuthur cimaint er mwyn iechyd y corph, ti a ddylit er mwyn yr *enaid.* Cadw y rheol honn ir corph, a ddwg iechyd gwell tros amſer, eithr cadw y dreſn yma a bair iechyd a dedwyddwch yn dragywydd. Ac os ydwyt (mal y gelli) yn cadw *cyngor* dy *Phyſygwr* ni waſanaetha i ti eſceuluſo hyffordd iad yr *Ecclwyſwr.* Diben gorau y Phyſygwyr yw roi r corph yn ſwy gwaſanaethgar ir enaid, eithr priſnod y lleill ſydd well, fod or enaid yn dra gwaſanaethgar ir hollalluog Dduw.

Ac os byddi di ollawl yn ymroi i gadw *dy orriau.*

Pwy

pwy a luddies i ti ? ni wna y mwyaf *halog* o ran *gweddeidd-dra*, a'r creſyddol ni bydd mor halogaidd. A phe cynnygiai vn y fath ammarch anuwiol i ti : na wna di wrth ei oddef gimaint ith Dduw. Melldigedig yw ef yr hwn a wna i ti eſceuluſo dy wneuthurwr ; melldigedig dithau os pair dyn neu ryw beth, dy di yn euog or eſceuluſiad hwnnw.

Fy enaid, er mwyn goneſtrwydd, ni thorri di yr *amſer yr addewaiſt* i ddyn ; er mwyn creſydd na thorr moth eiriau goſodedig a Duw.

Pſa.63.1. Ac er nad yw Duw yn dy rwymo di yn bennodol ir cyſtriw oriau goſodedig or diwrnod, etto ti a wnait yn dda adael i Grefydd dy rwymo ir amſer gorau iw waſnaeth ef : Ar borau pryd y byddo dy yſprydoedd gefnoccaf heb ymbendafadu a meddyliau, ac a thraſferthion bydol (megis i fyfyrrio, felly) i ddefoſiwn yn ddiammau ſydd orau. a pha foreuaf mwyaf cymeradwy i ti wneuthur dy ymddangoſiad defoſionol o flaen yr holl-alluog Dduw.

Pſa.130.6.

Eithr nid felly, os y pryd hwyraf or nos. hynny yw rhoi i Dduw y *prif* hyn yw rhoi cynffon neu *waddod* y diwrnod, os pan ſyddych yn gyſgadur, ac a dylit fod yn cyſgu, ac heb ddim gennit i ddifyrru r amſer, yr wyt yn rhoddi y gweddillion i *weddiau*, ar manudiau darniog ith Dduw.

Waddod.

Fy enaid. Y Brenin bucheddol a gyfodai ar hanner nos i adrodd ei weddiau ar Dduw. Eithr nid eiſteddodd i fynu hyd hanner nos, yn treulio allan ei amſer ar oferedd, yr hyn a ddylaſid ei gymeryd i fynu mewn *gweddiau*. I fod ar dy luniau, pryd y byddo eraill yn ei *gwêlau* (i dorri cyſgu i weddio ſydd ddduwiol ;) eithr (oni wnait felly) da i ti fod ar dy luniau pan ſyddo eraill, mal y ceffych *nerth* ar dy nerth dy hûn gan eraill i gydweddio. hynny ſydd raid i ti wneuthur yn arferol, ar llall anarferol yw. *Yn yr hwyr ar borau, a hanner dydd y gweddiaf a byddaf daer.* Cynnal hynny i fynu *fy enaid.* nid yw yn gwneuthur ei weddiau borau ganol dydd, a rhai hwyr ganol nos, yn daer bob amſer nid trwy *gwſg* : Yr amſer a oſododd Duw a naturiaeth allan i ejmwythdra corphorol, ſydd creu i *gyſgu*. Ti a ledretti o honi (os eſceuluſi yr amſer

Pſa.119. 62. Rhy.13. 13 Neu gwelyau. Luc.2.37.

ſer dyledus) o chymri beth o hynny ith weddiau.

Je, ti a wnai yſpeilſa ddeublyg, ar Dduw a naturiaeth. Duw a yſpeili oi waſanaeth mewn amſer dyladwy, a natur oi amſer dyladwy hithau i orphwys; i dalu i Dduw yr hyn a ddylit iddo ef ſef naturiaeth, ac nid yw dy arian bathol i *gerdded* chwaith ar hwn y gwnaethoſt y Taledigaeth: o herwydd mae eiſiau *mettel* o *yſpryd* ac *argraph* er amſer *Cennadol* gan Dduw.

Bydd gan hynny ddefoſionol beunydd fy *enaid anwyl*, A chadw bryd ac orriau cymheſur i weddio atto ef, yr hwn ſydd berchennog arnat ti ath fywyd bob munudyn: ac felly y cyflawni dy ddyled neullduol i Dduw. a goreu pa ſwyaf neullduol rhai yn hoffi canmoliaeth ai gweddiau yn eu cell iw gweled mor gyhoeddus, a rhai yn *Phariſead* yn y *farchnadfa*, megis pe Mat.6.5.
baient yn chwarau nid yn cyflawni ei rhan o *ddefoſiwn*: Eithr am y gwelo Duw dy vn di, ni waeth, er na byddo dyn yn gwybod. Y mae yn edrych yn ddiſrifol *buracb*, os bydd mwy dirgel, ac yn fwy gwerthfawr, mal y mae yn fwy difrifol. gad ir rhai a fynnaur gael gwobr gan ddyn, gael dyn iw gweled;

Ond tydi pan weddiech dos ith ſtafell ac wedi Mat.6.6.
cau dy ddrws gweddia ar dy Dad yr hwn ſydd yn y dirgel, ath Dâd yr hwn a wêl yn y dirgel a dal i ti yn yr amlwg.

Swm y neullduol-draethawd yma.

Y *Mae Duw yn neullduol yn Dduw i mi, megis yn* Pſa.86.7
gyffredin ir byd. Pſa.50.7.

Am hyn, neullduol waſanaeth i Dduw, ſydd ddyledus arnaf.

Rhaid yw goſod rhyw amſer ir Taledigaeth hwnnw.

boreu a hwyr ydynt yr orriau gorau goſodedig;
Amſer goſodedig i Dduw, ni waſanaetha i ddyn ei dorri:
Canol dydd a chanol nos nid ydynt forau a hwyr gan Dduw.

Neullduol-draethawd Ddydd Mawrth.

Gwaſanaeth tragywydd.

NEU,

Neillduol-draethawd yn hyfforddi yr enaid yn y dyledion yma, yr rhai ſydd reidiol eu bod yn ddibali tra fyddom byw, os mynnwn fod yn ddedwydd pan fyddom farw.

ORriau goſodedig i weddio ſydd dda O *fy enaid*, eithr nid y gwaſanaeth hwnnw yw r cwbl. I roi i Dduw ddwyawr yn y dydd, a threilio deg yn dy *ddiſyrrwch*. Y gwirionedd yw, dwy a oſodwyd i *weddio* mal y traeliom ni y cwbl oll yn ei waſanaeth ef. Yr hyn onis gwnawn ni ein gorau yn gyſtal a gweddio iw *wneuthur*, nid ydym ni ond camdreulio y ddwy *honno*: Canys *fy enaid*. nid yw dy weddiau ond gwatwor y goruchaf Dduw, onis cymeri ofal. *Yn* gyſtal am wneuthur ac am ddywedyd dy *weddiau*. Cadw gan hynny ryw orriau ith *ddeſoſiwn*, eithr yr holl amſer ith ymwareddiad, y tragywyddoldeb yr hyn a rydd Duw, ar daioni yr hwn ath cynnal di bob munud, ni fadden gael pob munudyn iw waſanaethu ef. Am hyn dy waſanaeth

Mat. 7. 7.
Diha. 28. 9

waſanaeth ſydd ddyledus iddo *holl ddyddiau dy fywyd*; pob awr or dydd, pob munud or awr. rhaid it wneuthur dy *ddyledbarch* ryw amſer, na wnelych gam ag ef vn amſer, goſtwng ar luniau oi flaen ef ar *amſerau* a gweddio, eithr na ddigych ac na annogych *vn amſer*. *fy enaid*. Cadw cydwybod dda yw ei waſanaethu mal hyn. Yn dy holl ffyrdd gan hynny myſyrria i gadw cydwybod dda. hynny yw r cyſumdeb rhwng ei ffyrdd ef ath ffyrdd dithau. ei ewyllys ef ath ſywyd dithau, ei gyfraithiau ef ath orchwylion dithau.

Deut. 19. 9

Deut. 6. 13 ar 10. 12

2 Tim. 1. 5

Act. 24. 16

2 Cor. 1. 12

A chan weled mai dy *feddyliau geiriau* a *gweithredoedd*, yw tair *yrfa* dy ſywyd, y modd iw rhedeg hwynt cymer ddyſg gan ei *gyfreithiau*. A gâd i *Salomon* (y Brenin mawr hwnnw) dy ddyſgu.

Rhy. 12. 1. Deut. 8. 6. Pſa 119. 5. Dih. 3. 6. Heb. 9. 14. Pſa. 119. 5, 6.

1. *Llywodraeth dy feddyliau.*

2. [Cadw dy galon a *holl ddiwydrwydd*] ni waſanaetha *ychydig* : y cwbl oll ſydd ddigon bychan. Canys ni elli gadw *llaw* na *thafod* heb hynny. Canys afonydd ydynt a darddant or galon. *Canys or galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tarr priodas, godineb au lladradau camdeſtiolaethau, cablau. drwg eiriau, gweithredoedd, meddyliau* oll a lifeiria or galon. Croth anwiredd, nyth drygioni; pob genedigaeth, pob aderyn oddiyno daw. gyd a phob aſiudrwydd gan hynny gwilia arni. gan fod y trioedd o bob drygioni oddiwrthi, bydded ddeublyg, a thriphlyg wiliadwraeth bob amſer arni. gwilia gan hynny o *fy enaid*, na letyſo meddyliau drwg ynddi, dyfod a *allant*, hwya ddeuant (trwy nerth proſedigaeth neu lygredigaeth) eithr aros ni waſanaetha vddynt. Os *Pyrth* dy ſynwyr ai gollyngodd hwynt ar dy vchaf, na *letyfa* hwynt, na ddod wely vddynt, da chydfuna a hwynt, na ymddigrifa ynddynt. Meddyliau ydynt megis *adar*, hwy a ddeuant yn ſuan, ac a hedant yn vchel: eu *troad* vwch ben ni elli di rwyſtro, eithr eu rhwyſtro i nythu a elli. os o aſgell ddiffaeth ti a *ddylit*. Cynnwys hwynt a hwy a ddeorant, ant yn bluog, ac a ehedant o *amgylch*, allan o *law*, neu *dafod*, mewn geiriau neu weithredoedd o anwiredd.

Dih. 4. 23.

Mar. 15. 19.

Job 15. 35 Pſa. 7. 14. Eſa. 59. 4.

Jer. 4. 14.

Deut. 14. 11, 12.

Os y cnawd neu r Cythrael gan hynny, a ddwg ſe-

ddwl drwg ith calon, gwibiog neu ddrygionus tu ac at Dduw, neu ddyn, (yn ffordd yn ddrwg) gwna di guwch allan o law, a thro ef allan. Na chroeſawa mo hono, eith gyrr ymaith. Ac oni fwrw hynny ef i ffwrdd, gweddia ef ymaith. tuchan at Dduw tano ef, mal y gallo ef ei ſymud. Ac etto onis eiff, Galw am help oddiwrth Dduw yn ei erbyn ef, cais gyngor yſprydol yn ei gylch. ſy enaid. os meddwl ienang megis Plentyn a gynydda yn rhy gryf i ti, os cynnydda ef yn wr, ef ath feiſtrola di oi wrantu? lleſaia gan hynny yn y cyntaf, a galw i fewn fwy o gryſder nath yn dy hun iw ymlid ef oddiwrthit.

Marc.13. 37 Ac o herwydd ſod mor anawdd i gael allan, os gellyngir i fewn vnwaith. am hynny gwilia oreu me-
Pſa.119.37 drych iw gadw allan. Edrych ar y pymb porth ac wrth
Job 31.1. 7 bob porth oth ſynwyr, goſod wiliadwri: y llygaid ar
Dih.4.25. cluſtiau yn enwedig, megis y prif byrth, ni buaſai erri-
2 Sam.11.2 oed i *Dauid* gimaint a meddwl am odineb, pe buaſai
Dih.7.21. yn edrych yn well am ei lygaid, ac ni ddaethai y wraig
Gen.3.1.6 buteinig i galon y gwr ieuangc, pe cadwaſai ef hi allan oi gluſtiau. wrth y ddau borth yma y daliwyd Adda, ac y collwyd dynol ryw, Ac ni ellir (gan mwyaf) ynnill caſtell y galon nes i ni roi i fynn y gweithiau oddiallan. Tremio ar Temptaſiwn a rhoi cluſt ir Cythrael iw cwymp dyn. Canys os a r galon ymaith: oll a gollir. Megis y peth cyntaf yn byw ar olaf yn marw, yw yn gyſtal mewn yſprydol a naturiol fywyd. os
Dih.4.23. bydd honno wedi myned ymaith, plentyn marwolaeth ydwyd. *Canys o honi y mae dirwyon y bywyd.* o flaen pob peth gan hynny cadw dy galon.

Je a chadw dy Dafod hefyd. megis dy fywyd, edrych yn dda am dy dafod.

Llywodraeth dy eriau.

Pſa.34.13 Ail Scrifen Saint *Peter* am *Gyhoeddiad brenin Da-*
1 Pet.3.10 *uid.*

Pwy ydyw r gwr a ewyllyſiai fywyd hir, a gweled dyddiau da, attalied ei dafod oddiwrth ddrwg ai weſuſau rhag adrodd twyll.

" Y mae yn afreolus, ac yn hylithr i redeg i ddrwg;
rhaid i ti gan hynny gael ffrwyn iddo, A pheth yw Jac. 3. 2.
hynny? yn ddiau Cyfraith Dduw, ſydd wenſa ei fygwth Ja. 1. 26.
yn attaliaeth, dy ymroad yw r Cariau y Cwbl oll a
wnant ffrwyn dda: yr hauarn ſydd ym mhob ſafn, yr
attaliaeth ym mhob cluſt, y careiau a ddylai fod ym Dih. 4. 24.
mhob calon. Os eiff y Tafod yn erbyn cyfraith, rhaid Pſa. 12. 3.
iddo ddyfod i *Farn. rhaid yw cyfrif am y geiriau.* Os Jude ad
gwael, yno rhaid i ti edrych i atteb am eu drygioni. Y 16. 16.
Barnwr ai llefarodd. Canys wrth dy eiriau ith cyfi- Mat. 12.
awnheuir ac wrth dy eiriau ith gondemnir. Er nad 36, 37.
ynt ond gwynt, y maent yn chwythu, nef neu vffern Job 6. 26.
(megis y chwthant oddiwrth ſanctaidd neu ddiſan-
caidd.) ſy enaid edrych am hynny. bywyd a marwo-
laeth ydynt yngallu y Tafod. Hyn a wnaeth i Ddafydd
attal ei vn ef i mewn: dywedais cadwaf ſy ffyrdd
rhag pechu am tafod; cadwaf ffrwyn yn ſyngenau.
Ef a ddywedodd y gwnai ac a ymroadd y byddai fel- *Hierom.*
ly. ni frathodd ef mo hono allan, mal y gwnaeth y
gwr ieuangc ei dafod i gadw ei gydwybod, eithr ei
gadw ef i mewn a wnaeth ef, ac felly rhaid i tithau.
ſy *enaid* nid rhaid i ti fod mor ddurſing. Efyw *vdcorn* Pſa. 51. 15
anrhydedd Duw; Organ ei foliant ef; (na ſydded ei Pſa 71. 8.
was ai noddſa yn fud) na ddiſetha gan hynny ond rheo-
la dy dafod. brath ef gan hynny i mewn (os rhaid) Pſa. 29. 9.
brath ef, eithr nid allan. ef a fydd careiau y ffrwyn yn
eſmwythach, os rheolir y galon yn dda. *Canys o he-* Mat. 12.
laethrwydd y galon y llefara y tafod. (da neu ddrwg) 34, 35.
mal y tryſorwyd a gras neu a *drygioni.* lle na byddo
dim gwarchae ar feddyliau drwg, yno y bydd rhydd-
yd i eiriau diffaeth. Canys beth yw geiriau ond me-
ddyliau genedig? a pheth yw meddyliau ond geiriau
beichiogion? Cam ymddwyn a wna enedigaeth cam-
luniad.

Oni weli di O ſy enaid; mal y mae tafodau llawn o 2 Per. 2. 18
fudreddi a *ſerthedd* i galonnau *aniwair?* A phuteindy Jude ad.
yn y genau, pan fyddo putrain yn y galon? Onid oes i 13
galonnau halogaidd, dafodau llawn o annuwiol-
deb? vffern yn y genau pryd y byddo diafol

yn y galon? Na fydded i chwi galon anghariadus, tafo-
Dih. 33.14 dau llawn o *enilib*, *ac o weled beiau?* Cyllell yn y Safn
Dih. 24 2. a arwyddocca gigydd yn y galon? onid ydyw gau neu
Hofea 9.8. ffals *galonnau* yn llenwi tafodau a chelwyddau ac a
Ier. 9.5.8. thwyll: magl yn y genau pryd y byddo *Adarwr* yn y
Eia. 57.4. galon? onid yw calonnau beilchion yn llwytho eu Tafodau a *gwat-gworiaith* ac a *dirmygrwydd? Iſhmael* yn y genau, *lucifer* yn y meddwl?

Gan hynny ni ellir rheoli r Tafod, heb reoli r galon. etto ef ath ddiniſtrir oni reolir ef. drygioni oedd ddi-
Gen. 6. 12 niſtr y byd. A thafod (afreolus) ſydd *fyd o anwiredd.*
13 *goſodaſant eu genau yn erbyn y nefoedd, au Tafod a gerdd*
Jac. 3.6. *trwy r ddanar.* Eithr na yrr di moth vn di ſelly. Na
Pſa. 73.9. chabla na felldithia, na thyng, na ddywaid, ac na feddwl yn ddrwg am Dduw: hynny yw goſod dy enau
2 Bren. 19. yn erbyn *y nefoedd.* ath *piccellau* yn ei herbyn hi, ni
22. wnant *ond cwympo* a r *dy ben dy hun.* Ac na ddod gen-
Pſa. 52.8. nad ith wefuſau i wneuthur *dialedd* i ddyn: hynny yw ith Tafod ti mal y Cythrael i redeg trwy y ddauar. Na ddryga moi *euw da ef*: hynny ſydd fwy llofruddwaith
Ezec. 22. nag iw *fywyd.* A wyt yn llefain allan o waith briw
8 ryw amſer, yr hwn wyt yn llofruddio vn arall? Ac onid yw yn gyfiawnder (gar bron Duw a dyn) y dylit ti oddef enllib yr hwn wyt mor enllibus i eraill? Ac am dy lofruddiaeth tyned ymaith a rhai briwiau? Na
Dih 18 8. lofruddia *enaid* vn arall, ſydd anwylach nai enw iddo. Euog ſarnu yn *angkyſiawn* a wna *lofruddwaith* or *gorchwyl.* Cadw rhag cam-farnu gan hynny, mal na wnelych *loſruddiad.* Na ſydd Farnwr ar dy frawd, rhag i ti roi barn arnat dy hun; Canys fy enaid Os gwnai yr vn peth neu gyffelyb ir hyn a *gondemnaiſt*, *Ei farn ef yw dy farn di.* Ac ni ddiangi di rhag barn dyn chwai-
Rhy 2. 3. rhach barn duw. Canys dal ſulw ar hyn: y *Barnwyr* neu y *Baiwr* mawr, a *feiir* yn fawr arnynt. Dwg dy hun gan hynny yn gyntaf ir *Barr* neu o flaen y faingc, cyn barnu arall; ac ti ai gollyngi ef yn rhydd, ith cadw dy hun, neu gyd-ddwyn mal y gellych di ddiangc rhag y Barr.

Eithr na ladd mo ddynol ryw, (os mynni di ddyn) *Cydymddiddanwch* hyn ydyw ei rhwym hwynt, a gwirionedd y *rhwymyn*: Celwyddau ai gollwng yn rhydd:

Cel-

Celwyddau a roddant *friwiau* mawrion ir *Cydwybod*, (hwy a gyfodant yn vnion yn ei erbyn.) Ac Angau pob *cymdeithas* y maent yn ei gorchfygu yn eglur. *Rhemp* ac anaf ar ddyn; hwy a wnant ei feddwl yn odinebus, ai eiriau yn *anghyfreithlon*, *Plant ordderch* a ynnillwyd gan y Cythrael ar *galon* dyn. Ef yw eu Tad hwynt. *Ymadrodd* or meddwl. ydyw etifedd naturiol y *geiriau* (meddwl a Thafod ydynt megis y gwr ar wraig piau yr etifedd, hwnnw) eithr yn ei herbyn hwy, plentyn yw heb wr: yn ordderchiad. Ac am hynny nid etifeddwr, onid i ddiafol iw gyfran, yn y pwll berwedig o dân; (iw cau allan or Ddinas.)

Act. 5. 4

Did. 22. 15. ar 21. 8

Ac yn vnion felly; yn y tân, am ei fod yn *bentewyn*. ie felly fy enaid y mae pob drwg dafod, Pentewyn i Satan yngenau dyn, yr hwn a rydd yr holl gorph a'r dân, ac a lyfg yr enaid gyd ag efo: a rydd y byd bychan ar dân, ie ar mawr hefyd wedi ei gymeu o *vffern*, ac yn *lloſci* o *honi* ac *iddi*.

Jac. 3. 6. Pſa. 120. 3

Fy enaid Anwyl. Achub dy hun rhag y tân hwn. gweddia am wiliadwri Duw trofot ti; *Goſod Arglwydd gadwraeth o flaen fyngenau cadw ddrws fyngwefuſau*. A chlo di arno a chau yno: ef a dripia ac a gwympa os *rhed* allan. Amhoſſibl yw dywedyd llawer ac yn dda, dyn llawn o eiriau ni lwydda, oblegit ef a dramgwydda. Os a *Dinah* yn ddiſynwyr i *gerddetri*, ni ddychwel yn *ddigywilydd*. gollwng y tafod i *wibgrwydro*, ydyw y ffordd i *orwedd yn llywaeth*. Heb law gan hynny cauadau naturiaeth, (y gweflau ar dannedd) gofodwch arno glo rheſwm, a cheuwch i fynu a *diſdawrwydd*, ac felly y cedwir ef, heb fawr niwed drwg; A chadwed *Gras* yr egoriad. felly y cedwir rhag holl ddrygioni. hynny ath wna di ac yntau yn berffaith: Canys rheoledigaeth dy Dafod, a ddengys fod dy galon mewn *vfudd-dod*; a honno dithau, y llaw, y mac yn haws ganddi fod wrth reol, nar Tafod. Ar tri hynny yw r cwbl oll, llaw, calon, a thafod, llaw gan hynny yw vn, fy *enaid*, rhaid i ti edrych atti.

Pſa. 141. 3 Pſa. 140. 8 Dih. 10. 19.

Hithau hefyd.

Llywodraeth dy weithredoedd.

Ac ni elli well nac a ddengys Dafydd i ti.

Gochel Ddrwg a gwna Dda, a bydd fyw yn dragywydd.

Na wna ddim Annuwioldeb tu ac at Dduw na cham a dyn. ac ni wnai ddrwg. gwna a orchymynnodd am dano ei hun yn gyntaf, ac am ddyn yn *neſaf* : Ac yr wyt yn gwneuthur yn dda, dâl ſulw (ſy enaid) ar dwyll dammedig, ſydd megis canmoledig gan rai) hynny yw, ni waſanaetha *dinyweidrwydd* oddiwrth *ddrwg*, ac *yſceuluſo* y da. mal na byddych ddrygionus, rhaid i ti fod yn dduwiol mal na wnelych *gam*, rhaid i ti wneuthur *oll vniondeb*. Ac etto aſludrwydd mewn daioni nid yw ddigon, heb ddiniweidrwydd at ddrwg. Megis ac y rhaid i ti fod yn *gyfion* ac yn *dduwiol*. ni waſanaethu i ti fod yn anhwylus, neu yn *anhymerus* ac yn *gyſſegr-yſpeilydd*. yn wir nid ydwyt yr un onid wyt y ddau. Canys y gyfraith (ffordd Dduw) ſydd ir ddau: a chydwybod (dy arweinydd) edrych ar ei gyfraith ef. ni elli di ledratta gwely dy gymydog, mwy nai *gleg*, na chymeryd ymaith ei dda mwy nai einioes : ni elli di dy ladd dy hun, ar y bwrdd, mwy nath elyn, ac ti elli yn gyſtal lladd ath newynu dy hunan. Ac ni elli ſwyta mwy allan o bryd, na mwy na meſur ; nath neccau dy hun o ddyledus eſmwythdra, mwy na dyledus ymborth ; na gwneuthur i eraill mwy nag i ti dy hun. Canys yr vn yw *anhymeru* y corph ai dda. Ac er nad yw y corph ond dy was, y mae yn rhy dda i ti iw ladd ef. Yn wir yr wyt ti yn dy friwo dy hun gimaint, a chloffi dy negeſau, ac yr ydwyt yn ei friwo ef. ymaith gan hynny ſy enaid. Ymaith a bwrdd y gwlwth, a gwely y trythyll, ac felly ag ymborth a chwſg allan oi amſer, os ceri dy iechyd neu r nefoedd : dy ddoluriau a weddai ith ddrygioni, trwy eſceulufiad ewyllyſgar : ath enaid ath corph yn llawn o ddoluriau.

Ac ni elli di wneuthur deunydd gwaeth o Dduw nag honot dy hûn, ni waſanaetha i ti ei yſpeilio ef oi ddaioni, mwy nag oi ogoniant, nag oi waſanaeth, mwy nag oi gyfoeth. Ac ni ddylit ti gam arfer ei enw, mwy na phoeri yn ei wyneb. Ar fyrr o

Mal. 3.9.
Iſa.29.2.
Ex.20.7.

ciriau

eiriau, ei *garu*, yw gwneuthur dy holl weithredoedd. Canys felly ti a wnai vniondeb aduw yn gyntaf, a thi dy hun yn neſaf. ath cymydog neſaf attat dy hun, a hynny yw r cwbl oll, y mae y naill air gyfraith air Efengyl yn ei ofyn. Canys nid yw y cwbl oll ond : Rhy 13 8 ; 1 Tim. 1. 5 Tit. 2. 12

I fyw yn dduwiol ac yn gyfion, ac yn *ſobr yn y byd preſennol* hwn. Ac megis mai cariad (yw Swm) o hynny en gyd ; felly *careudeb* neu gariad perffairh (ar fyrr) yw cariad oll. Pennaf ar y cwbl y myn Duw ei hûn ei bod ; ef a fyn *drugaredd*, ac nid *Aberth*. Ef a rydd le *iddo* o flaen Duwioldeb. Y mae yn caru dy eluſeni, o flaen ei offrymmau ef, a gwell fyddai ganddo weled *allor* wag, na brawd *anghyttun*. Na i wneuthur daioni er mwyn Duw, yw gwneuthur aberth o drugaredd. *Arogl peraidd Aberth gymeradwy, bodlon gan Dduw*, a duwioldeb tra-anrhydeddus. Nid rhyfeddod gan hynny os cymmer le oddiar *Gyfiawnder*. Nic. 6. 8. Rhy. 13. 10 Mat. 9. 13. Mat. 5. 23, 24. Heb. 13. 16 Phil. 4. 18

Y gwirionedd yw, darn o honi yw ac felly yn brif, megis yn yr iaith ſanctaidd vn gair a arwyddoccâ y ddau. * Eluſeni ydynt ddyledion ir *anghenog*. wrth ei gyfraith ef, yr hwn ſydd Arglwydd i ti, ath eiddo ar Taledigaeth gyſtal, ac y rynn oddiwrtho gwirians neu ryddhâd *cyffredin*, er nad yw ond dyled nullduol. Nage, nid bod yn rhydd yn vnig oddiwrth y ddyled. eithr bod coron ir dyledwr. Ac na ryſedda wrth hynny O ſy *enaid*, gan dy fod yn *ddyledwr* i Dduw ac yn *ymgoleddwr* ith Jachawdwr. Megis pe na bai ddim (nid yw r cwbl oll ddim hebddo) y cwbl oll, heb gariad perffaith y prif garn o'r cwbl oll. * Yr Hebraec yma Mat. 5. 7. Luc. 11. 41 Dan. 4. 27. Mat. 25. 4 1 Cor. 13. 23 Joa. 3. 17. 1 Cor. 16. 2

Megis gan hynny y mae yn dy allu, dangos ef : arbod dippyn oddiwrth y *bol* ar *cefn*, yn hytrach ac na byddo dim yn dy allu. Ath ormodedd di dar para * angenrheidiau ir thawd. A roddaſant hwy eu cluſtlyſau i wneuthur vddynt *Dduw ?* oni arbedi di ddim i achub *dyn ?* a afradloni di y cwbl oll ymaith, a ddylaſit eu roi allan ? y cwbl i oferedd, dim i drugaredd ? O ſy enaid, Cryna wrth feddwl pa fodd * *Superflua divitum neceſſaria pauperum.* Eph. 4. 28 Ex. 32. 3. Job 31. 9

Ezec. 16. 49 pa fodd y cymerir y fath Gyfrif yn yr *Awdit* fawr ofnadwy? Os gelli ar vnwaith dy ollwng dy hunan yn
Phil. 4. 17. rhydd, a *rhwymo* dy Dduw; Pa ham y rhwymi dydi
Luc. 16. 2. dy hun trofodd ar cyfriw *weithredoedd* o *afradlonrhwydd*, i atteb *Cyfiawndr dwywawl*, yn y dydd ofnadwy
Mat. 19. 21 o Farnedigaeth? fy enaid anwyl. Darllain, a thro yn
Mal. 25. 42 ol y *farn*, ni elli moi hatteb hi. Je *gwêl* mewn *execuſion*, a chryn wrth weled. *Dives* ni roddai gryſtyn o fara, ni chafas ddefnyn o gyſſur. Pa faint well a fua-
Luc. 16. 21 ſai borthi *Lazarus*, na gwledda mor ddainteithiol. I
24, 25. roi *eluſeni*, na chael *poenau?* beidio a thraelio cimaint ar y cnawd, yn hytrach na diweddu yn tân? fy enaid anwyl, bydd di mwy crefyddol i *gariad perffaith*. na âd i hynny byth fod yn ddiwedd i ti. edrych at y cwbl, eithr at hynny vwchlaw dy holl *weithredoedd*, mal am dy *eiriau* ath feddyliau.

Hyn fy enaid, a wna dy gydwybod yn dda, ath wafanaeth yn fawr ac yn gymeradwy, pan ofalo am gadw dy holl lwybrau yn vnion. Yn wir hynny yw (nar hyn, nid oes dim mwy gwyrthfawr) dy roddi dy hunan yn Aberth Sanctaidd iw wafanaeth ef, dim mwy nis dymunir.

Mi attolygaf i chwi gan hynny frodyr, er trugareddau Duw roddi o honoch eich cyrph yn Aberth fywiol ſanctaidd gymeradwy gan dduw, yr hyn yw eich gwaſanaeth rhyſymmol.

Swm y neullduol-draethawd hon.

Pſa. 48. 13 *DUw gan ei fodyn Dduw i ni hyd farwolaeth, ſydd raid iddo gael ein gwaſanaeth ni yn eiſt holl fywyd.*

Ein cydwybod o'n holl lwybrau, yw ei waſanaeth tragywydd ef.

Edrych

Edrych ar ein meddyliau geiriau a gweithredoedd, ydyw cymeryd gofal am ein holl lwybrau.

1. *Rhaid iw cadw y galon yn galedgaeth ofalus: o blegit ffynnon pob rhyw ddrygioni a dardda or galon.*

Rhaid iw hybu a gwrthſefyll yn erbyn y cynhyrfiadau ar ſymudiadau cyntaf, a gwilio y ſynhwyrau, os mynnwn gadw y galon.

Llygaid a chluſtiau or holl ſynhwyrau ſydd reidia eu gwilio yn bennaf.

2. *Rhaid iw ffrwyno y Tafod os carwn ein bywyd.*

Cyfreithiau Duw ai fygythion, ac ymroad dyn, a wnant ffrwyn gadarn.

Hawdd iw rhoi gwenfa ir tafod, os rheolir y galon, ac onide anawdd.

Ef a hed allam oni cheidw Duw ddrws y gwefuſau.

Diſdawrwydd ſydd glo da iw gadw i mewn.

3. *Rhaid iw rhwymo y llaw rhag drwg, i wneuthur daioni.*

I Dduw a dyn, y mae yn rhaid iddi na wnel ddim drwg ond daioni oll.

Gwir gariad a gyflawna y cwbl oll.

Cariad perffaith i ddyn a gyfrifir gan Dduw, Act. 24: 15
megis y prif ſail ar cwbl o gariad.

Os oes genym beth iw arbed, rhaid i ni ei dreulio; ac onide, gwaſgu yn hytrach na bod eiſiau i roi allan ar weithredoedd o gariad perffaith.

Neullduol

Neullduol draethawd Ddydd Mercher.

Remorau neu rwyſtrau mewn Crefydd.

NEU

Neullduol-draethawd yn dangos ir enaid y beiau ar peryglon, ſydd yn llwybrau Duwioldeb, ar modd iw gochel hwynt.

FY *enaid. llywodraeth* galed fawr iw i ti dy gadw dy hun beunydd yn wasanaethgar i Dduw. Mwy i ti reoli dy fyd bychan nath fyd mawr: eithr a fydd hawſach trwy help moddau a ellir eu cael. Os gocheli di yr hyn ath rwyſtra, a dal ſulw ar yr hyn ath hyffordda di yn y llwybr ir nefoedd. Ac os cymri olwg ar y cwbl oll, ti gai weled mai ſeiliau gau ffals, defodau diffaeth, cefeillach wael, ofer goeliau, eſceuſiadau yſprydol, ydyw y prif artaliadau a'r rhwyſtrau o hynny. Cydwybod yw clocc Duw i ddyſgu i ti y modd i wybod ac i draeſio dy amſer yn ei wasanaeth, ond ni roddwyd i ti ond iw gadw. os bydd gan hynny yr olwyn ſydd yn ei droi yn ddrwg; neu r diolau ydynt iw arwain yn ffals; neu ei gadw yn frwnt, nen dithau heb feddwl am dano, pa fodd y byddai ei ſymudiad ef boſſbl i fod yn vnion, ac iddo tyned yn hwylus? Ac felly fy *enaid* ſailiau ac ymwiſgoedd ydynt yr olwynion, eſamplau diolau; petruſder llwch; daliadau anghoſiadau o hono.

Dih. 16. 32. ar 25. 28.

Meddwl ac *ewyllys* ydynt yr olwynion, ar yr rhain y mae gweithredoedd dynawl yn ſymudo; prif-ſeiliau ac ymwiſgiadau drygionus, a anrheithiant yr olwynion.

on. Ac (i laweroedd) yn bla ac yn ymchweliad holl fywyd rheolgar, gwelwch y cyfriw megis.

1. *Prif feiliau drygionus.*

1. *Ith tybed dy hun yn dda*, o herwydd dy fod yn gwerled llawer yn waeth. Canys felly ni byddai ond vn dyn drwg yn y byd ſef y gwaethaf. Nage chwaith ni byddai yr vn, o herwydd bydded ef ddihiraf y gallo, mai diafol, *yn waeth*. Yn hytrach Barna dy hunan yn ddrwg, tra gwelych vn gwell, o herwydd trwy râs Duw, pe buaſit ti yn gweddio yn gyſtal ac yn gwneuthur dy orau vn gyffelyb, ti a alleſit fod cyn ddaed ac yntau: gan ballu o hynny, ti a ellit fod yn ddrwg iawn. Am hynny y mae y prif ſail hwnnw yn ddrwg. Ac nid dim gwell yr ail. Eph. 3. 8.

2: I dybed am danat dy hun nad wyt ddrwg, o herwydd dy fod yn dda (yn neullduol neu mewn rhyw fodd.) felly y buaſai Abimelech cyn ddaed ac *Abraham*. Duw a wyr na odinebodd ef a *Sarah* (mewn gwaith na meddwl) Canys yr oedd ei galon yn vnion. eithr os tuedda neu lynu o honi wrth vnrhiw ddrwg, nid yw y galon vnion: Canys felly (gan fod pawb yn caſhau rhyw bechod, o herwydd bod gwrthwyneb o bechodau, a rhai a gâr) ni byddai yn y byd (lle mae llawer) vn rhagrithiwr: a chan nad oes vn dyn yn ddrwg gyffredinol, ni fyddai vn pechadur. mi allaf wrth hynny rodio yn y tywyllni, ac am hynny gau oleuni yw; felly y mae.

3. *Fyn nhybed fy hun yn dda os bydd fynghalon yn onſt.* (oni bydd fy mywyd yn ol fynghalon) ni buaſai raid gan hynny i *Saul* mor dychwelyd a throi ir iawn, Canys yr oedd yn cablu ac yn erlid, o galon *oneſt*. Ac ni tharawſid mo *Uzza* canys yr oedd yn meddwl yn dda, pryd y gwnaeth yn ddrwg, yn attal yr *Arcb*. Cam feddwl a ddiwyna weithred dda. meddwl vnion ni wna ymwareddiad da. nid bod yn rhagrithiwr ſy dda: ac felly nid bod yn halogedig ſy dda. nid i ymddangos yn well nag wyf ſydd dda; eithr nid i fod yn llai daionus, nag a ddylwn fod. ſydd well. felly os meddyliaf mal y dylwu, rhaid i mi 1 Tim. 1. 13 Act. 26. 9. 2 Chro. 13 9, 10. Eſa. 10. 7.

mi wneuthur a feddyliwyf. onide megis y mae gwneu-
Jac. 4. 17. thur y gwrthwyneb yn rhagrith damnedig : felly gwneuthur llai ſydd *eſceuluſiad* aneſguſodol. Je Tafod drwg neu law, lle byddo y meddwl yn *dda*, a fydd mwy *aneſguſodol*. felly gan hynny i feddwl ſydd fai felly y mae.

4. I feddwl ſy hun yn dda. oblegit *Duwiol ar amſeraw*. Pa ham ? pob rhyw ddyn ſydd felly ; pan ddeuai
Exod. 8. 8. r wyn arno, *Pharaoh* ei hunan ydoedd *Sanct* ; *ewyllyar* 9. 27. or *ſiai*, *gyffeſai*, *a addawai*, bob peth. Tra ſyddo y pla yn
10. 16. drwm, boeth, ſe *dawdd* ei galon *hauarn*. eithr pan êl
Exod 14. 4 hynny heibio, mal yr hauarn *caled* or blaen. Sanct ſydd
1 Pet. 1. 7. *Aur* o ſylwedd yr vn o fewn ac allan or tân. Y *gwrthode-*
2 Cor. 11. *dig* weithiau fydd yn *ſanct*, *Sanct* ni fydd fyth *wrthode-*
15 *dig*. Tan y Groes neu galedi ef a ddichon fod yn fwy *tyner*, Ar y Cymun yn fwy defoſionol. heb fod errioed yn wradwyddvs yn gyndyn. gwiſg feddiant o gryſder, (nid gwyn amſerol) a wna wr iachus. Di-anwadalrwydd o ymddygiad da, (nid gwaith yr awrhon, neu amſer arall) a wna wr ſanctaidd. Yn ol ein llwybrau i'n bernir (nid ein camrau) felly i feddwl ac i
Act. 24. 16 wneuthur ſydd fai damnedig. Ac,
Ezec. 7. 3. 5. Im tybed ſy hun yn dda, o herwydd fod ſynghrediniaeth yn vnion. Pe bai hynny, ni byddai ddiafol
Jac. 2. 19. ar gam. Y mae yn credu ſod Duw a Chriſt ei fab ac
Luc. 4. 41 Jachawdwr y byd (cymhelled yn Griſtion vnion grêd
Marc. 5. 7. yn ei ffydd) eithr y mae a chân i Dduw, a digoſaint i
Act. 16. 17. Griſt, ac felly mewn cyflwr bythol-ddamnedig, oble-
2 Pet. 2. 4. git hên ddrygionus yn ei yrfa. Creduniaeth dda a by-
Dad. 12. 6 wyd hefyd, a wnant ddyn yn dda. Uiondeb mewn
1 Tim. 1. 5 crefydd ac ymwareddiad, a berffeiddia ddyn Da. Cre-
Job. 1. 8. du fy mod fy hûn yn Cherubin, ac heb fyw yn Sanct,
2 Cor. 11. nid wyf ond Cythrael. Yn Angel yn fy meddylfryd,
14. eithr yn ddiefflig yngolwg Duw. Etholedig gennif fy
Tit. 1. 16. hun, eithr gwrthodedig gan Dduw. Y mae r prif ſail yn ddamnedig a dwyllo yr enaid am y neſoedd (os coelir) ac felly y gwneiff i filoedd.

6. I dybed fod yr enaid yn dda os cas abſoluſion oi phechodau. Os pechaf mewn gobaith o bardwn, a fyrthio dracheſn mewn pechod, fy enaid. Lle mwyaf yr arferir cyffes, y modd hyn y camarferir yr eneidiau

yn

yn fawr. Eithr ymgroeſa rhag yr anaf hwnnw; na chamarſera di mo honot dy hun gimaint. I bechu mewn rhyſyg o drugaredd, nid yw lwybr i gael *Pardwn* ond barnedigaeth. Na, y mae yn torri ymaith bob gobaith o bardwn, o ran y mae iw adael ir Barnwr, heb atteb y Dadleuwr. Cannys hwnnw yw trugaredd a ddarſu i ti ei gamarfer, ac felly ti a ſynni gyfiawnder heb drugaredd hyd yr eithaf. Canys o digir cyfiawnder ef a goſpa yn ddwyſach am gamarferu trugaredd. Ac oni rydd Duw y Pardwn, ni eill yr offeiriad moi ſelio ef. Canys yr hyn a wna ef ſydd yn enw a thrwy drefn Duw, egoriadau yr hwn a ddwg, nid i wneuthur yr hyn a ſynno, ond a ddylai, yn ei dŷ, ſy enaid. Pan fyddo Gwenidog Duw yn dy rhyddhau di yn vnion, ef ei hun ath Pardyna di: eithr os ladretti di dy bardwn, nid wyt yn ei gael yn vnion: ac os torri di ef ar ol ei gael, ni buaſai waeth na chawſit. Ac i gymeryd arnat edifarhau ir cyfriw bwrbas, a rhyſygu trawſeddu or blaen ac yn ol y cyfriw gaffaeliad, yn gyntaf yw lledratta Pardwn, ac yno ei dorri ef. gwneuthur Pardwn Duw yn batent am bechod ſydd ddrwg. Ac.

Den. 29. 19.

Joa. 20. 22 23

Mat. 16. 19

7. I feddwl fod ymarfer o Dduwioldeb yn Perthyn ir cloiſtyr a'r Ecclwyſwyr. Ef a eill eu rhwymedigaeth hwynt fod yn fwy. eithr nid yw dy ddyledion di ddim llai. Os dyn wyt (pwy bynnac, neu pa fodd, neu pa le bynnac yr wyt yn byw) y mae yn ddyledus arnat ti i dduw y dyledion ſylweddol o Dduwioldeb (megis dy wneuthurwr, dy ymddiffynnwr, ath prynwr hefyd) trwy y rhwymedigaeth fwyaf. Ac i hyn (pwy bynnac wyt) rhaid i ti fod yn offeiriad, (offeiriad i offrwm i Dduw yr Aberth honno:) A pha le bynnac yr wyt, rhaid i ti fod a chloiſter (lle ac amſer ith neullduo dy hûn) oddiwrth y byd iw waſanaeth ef. Er nad wyt Addunedwr Crefyddol, rhaid i bawb oll fod yn grefyddol. hynny a berthyn i bawb.

Dad. 1. 6. 1 Pet. 2 5 2 Cor. 6. 17 Act. 2. 24. Joa. 17. 15 16 Joa. 15. 19 Joa. 15. 19

Fy enaid. Ti a welaiſt ſaith arweinydd a dywyſa filoedd allan o ffordd y nefoedd. Mal y gobeithych di fod yno, cydnebydd a hwynt eu gyd, a gochel hwynt. canys os amryfuſedd a fydd yr arweinydd ni elli fod yn y llwybr vnion. Ac megis Prif feiliau.

Pſa. 3. 18. 20 Pſa. 95. 10 Mat. 15. 14.

2. Ym-

2. Ymwiſgoedd drygionus.

Rhaid yw eu gochelyd fy enaid. Canys yr rhain ath ddwg ar gyfeiliorn. er bod dy arweinydd yn vnion, a hyn a dry dy galon mal y llall yn troi dy ſeddwl ar gam. eithr yr enaid a eiffar gyfeilorn yn echryſlon, yr hwn a gamarweinir gan y ddau: Defod ddiffaeth yw
Gen. 6. 12 ail naturiaeth. Ac yr oedd honno yn felldigedig ddigon ar y cyntaf i wneuthur drwg (nid oedd raid wrth yr ail) hen glwyf ydyw, ei gadw ſydd farwolaeth, ai adael amhoſſibl. O ſy enaid. Pechod yw dy dywyllni,
Jer. 3. 23. a drygioni dy frychau, eithr wrth barhad y mae yn dyfod, nid yn ddamweiniol ond yn naturiol. A pha biſtill a ylch ymaith y lliw du oddiar yr Aiphtwr, neu bannwr a dynn frycheu y llewpart. Pa ham na eill rhai ddywedyd heb dyngu? Pa ham na fieryd rhai heb gelwydd. Pa ham na eill rhai fyw mwy heb ddiod nag
Trachwant. anadl? ac eraill ni allant fod heb eu trythyllwch, mwy nag heb gyſgu? Ond o achos cael oi rafodan y ddefod i ddywedyd; a rhai hyn yr ymwiſgiad i wneuthur drwg? Na fydd gan hyany fyw mewn pechod, mal nas mynnit tî farw ynddo. Na chnawdoliaetha ef, oni fynni farw troſdo ef. Na ail wna ei weithredoedd ef, o-
Heb. 3. 11. ni fynni ei gnawdoliathu ef. os gelli na wna mor
Gal. 6. 1. gweithredoedd cyntaf, ac ni ailwnei mo hono ef. Os goddiweſodd y gyntaf dydi, diange rhag yr ail. rhag
Obduratio animi liimen inferni. ir drydedd dy adael di, ath ado di yn llwybr marwolaeth. ie ar y drws. Canys ſy enaid.

Caledwch calon yw llawr dyrnu vffern, a llawer dyrnodau o euogrwydd ai gwna hi o galedwch eingi-
Jer. 5. 3. on. Ac yno cimaint o ſynnied yn hynny, ac a fydd yn
Zac. 7. 12. dy gydwybod. Ac yno cimyn ciwilyddio yn yr eſydd
1 Tim. 4. 2 ac a fydd yn dy wynepryd. ei fynediad i mewn a dyrr
Jer. 8. 12. ben cywilydd, eithr ei barhad a wna r talcen yn bu-
ar 6. 15. teinig, Ac felly fy enaid, y mae gyd a phob pechod, vn
Jer. 13. 23. mynediad i mewn a feichioga ar barhâd; hwn a gen-
Dih. 7. 21. hedla ddefod, a hwnnw ddigwilydd-dra; Ac yntau
Jer. 9. 12. ddialedd. Dywaid gan hynny fy enaid, dywaid a
Job 40. 4. gwna gyd a Job ſanctaidd oſtyngedig.

5 *Dywedais vnwaith ond nid attebaf*, ie *ddwywaith ond ni*

ni chwanegaf. Na: Teirgwaith a eill dy ddwyn cym mhelled oddiwrth Dduw, mal vn ai ni *waeth* gennit, ai ni elli ddychwelyd, ac felly rhaid *i ti* fyned rhagot. myned rhagot eiſiau ſynnied amſerol, nes i ti dddyfod i *ddiwedd* dy dynghedſen. gochel gan hynny ddefodau drwg. Ac felly. Dad. 22. 11

3: *Cefeillion diffaeth.*

Yn wir y ffordd i beidio *o tharo* wrthynt, ydyw *ymgadw* rhagddynt. Canys hwy a ddiferant ddyig ir naill, ac a ddenant y llall. y cyntaf ſal y mae yn *fwydionyn* i anwir; ar llall mal y mae yn eingion i *anwiredd.* rhai oddifewn, rhai oddiallan, y ddeuliw yn tywyſo i ddrygioni. yn ol *diolau* neſaf attom, y mae yn waits ni yn myned, ar gam os goſodir ar anwiredd. Pryd y mynnai *Dauid* iw vn ef fyned yn vnion. ef a barai ir rhain fyned ymaith. *Ciliwch oddiwrthif holl weithredwyr anwiredd*; *Canys mi a gadwaf orchymynnion fy Nuw*, hynny yw, ni eill ei gydwybod ef fyned yn vnion, oni bydd ei cefeillach hwy ymaith Pa fodd yr awn ni yn *vnion* a bod gyd a'r rhai ſydd yn myned yn *wyrgam?* Sanct *Pedr*, (er ymroi yn ollawl, a chael rhybydd yn erbyn hynny) a gwympodd i tai ofnadwy, nid trwy neuadd yr Archoffeiriaid yr oedd ffordd Griſt yn myned, ac ni enyn defoſiwn, ond oeri wrth y cyſriw dân; *Gwreichionen* ym mhlith y globywiol a ddeil *wres*, ym mhlith *y meirw*, marw a wna. ſy *enaid.* Oni elli gilio oddiwrth *oferwyr*, na ymddigrifa ynddynt, hwy a ſygant, ac a ddiffoddant dy *wreichionen. Gweddeidd-dra* a phawb ſydd dda, a *chefeillgarwch* ſydd beryglus. Ti elli fyw ym mhlith *gwrthryfelwyr* Duw; nid rhaid i ti garu mo honynt. Os gwnai, ti a elli mewn amſer fod yn gyff lyb vddynt, yn farw (ſal y maent) i bob daioni; (megis y cyrph bywiol a rwymodd y *Treiſiwr cadarn* wrth y *meirw.* ac yn gladdedig (ſal y maent) i bob drygioni (megis cyrph iach yn byw gyd a'r haint yn clwyfo iw hangau) Ac (heb gadwraeth y Duw mawr oi ras ai drugaredd) yn ddamnedigion gyd a hwynt; Dad. 4. 14. Pſa. 6. 8. Dih. 1. 10. Mat. 26. 69 Dih. 6. 27; Col. 3. 12. 1 Cor. 5. 10 Eph. 5. 11 Mat. 8. 28. *Mezentius.*

Canys y ddau,(megis rhai a gair gyd a *Rhawd*) ânt tan
Jude ad yr vn ſarn. Pa ſodd yr wyt ti yn oſni eu damnedigaeth
23 hwynt, a charu eu cyfeillach? Pa ſodd y gelli chwer-
Luc .6.25. thin gyd a hwynt yn y byd hwn, gyd a'r rhain ni fyn-
Rioters. nit ti vdo yn y byd arall? Pa ham yr oſni gorph hein-
Num.16. tys, ac eiſtedd gyd ag enaid pla-glwyſus? yn ddiau y
24 mae r enaid yn well na'r corph, ai *phla* hi yn waeth;
Dad.18.4 ar haint honno yn ſwy. Darllain *Arglwydd trugarha*
Pſa.1.4. *wrthym*, ſcrifennedig ar ddrws pechadur. Pan we-
Cathedra lych di lwy yn eu bywyd yn *groes* i holl *orchymynnion*
peſtilentiæ. Duw. A dywaid ſy enaid, Arglwydd trugarha wrthif
2 Cor. 11. ſi, am *feiddio* cimaint mewn peryglon yſprydol, ac
3 Arglwydd trugarha wrthit. Mal na feiddiach wneu-
2 Tim.4.3 thur ym mhellach ddim ychwaneg. gochel gymdeithi-
Dih.4. 15. on halogedig, Ac mal nad elych i lwybr yr rhain, fel-
Act.2.40 ly na ddyro le i

4. I betruſder ofer:

Dau beth y mae Duw yn ei ofyn ar dy law, di, *Fy enaid*, Dy lawenydd yn ei *waſanaeth*, ai gyſſur ef yn dy *fywyd*; y Cythrael ni châryr vn o honynt, a gais dy yſpeilio o'r ddau; ath amheuon di yw ei ladron ef: os hwy ath *oddiweſant* ath *orchfygu* di, hwy ath *rwymant* oddiwrth y *naill*, ac ath curant allan o'r *llall*. gan gymeryd dy galon oddiwrth oll *ddyledus* waſanaeth, a holl *lawenydd* allan oth *galon*. Coelia hyn, ni roddant ith yſpryd ddim rhydd-dyd, nag ith cydwybod ddim *llonyddwch*.

Canys y pryd y dylaid ti fod yn gwneuthur daioni, ti a fyddi yn ymddadlau yn ei gylch, pryd y dylit fod *yngwaith* Duw, yn ymholi am dy *awdurdod*, pryd y dylit fod yn gwilio ac yn gwneuthur ei waſanaeth, di
Bern. 22. fyddi yn croeſawu rheſymmau yn ei gylch ef. Mal
27 hyn, pryd y byddo eraill yn myned ym mlaen yn dda
Ex.14.25. *yn eu* taith, tithau yn cynhennu ynghylch y *ffordd*, ac wyt vn ai gyd ac Aſſen *Balaam* yn ſefyll, heb ſymud or vn ſan, neu gyd *a cherbydau Pharaoh* yn gyrru yn drwm. Ac nid rhyfedd; canys yr *olwynion* a dynnafid. mai r meddwl yn dywyll, y galon yn ſynn, yr yſpryd yn *farwol*, y cydwybod yn *llwfr*: dim ond gwendyd, a *figlo*

a

a chrynu a dychryn a therfyſgedd *yngha'luogaeth Gweithrediad*, ac felly vn *ſymudiad* gorthrymedig, oſnog, ſynnedig, neu heb ſylfyd dim or vnman. Dyma y ffrwythau cyntaf oth Petruſderau (*gefynnau a maglau.*)

A pheth yw r ail, ond *gofidiau* a *phigiadau* r galon: hwy ath curant ti, mal na byddo vn rhan o *gyſſur* ynot. dy ffiangellu di a *meddyliau*, dy drawſ-lifio ac *amheuon*, dy waſcu ag *ofn*, dy boeni a *gorthrymder*. mal na byddo gennit lawenydd oth ddyledſwaith, nag oth ſywyd. gan dy adael di mewn ogof o brudd-der, alarus, gofidus; lle llawn o ddim ond *llewyg* llawenydd, *trymder* yſpryd, a *chyfyngder* cydwybod.

Ac yma ſy *enaid*. Cymer olwg *a gofal* rhag *dichell* 1 Pet. 5. 9. aniben y cythrael, *ai lid*. Pryd na allo dy wneuthur yn *fywiol* i ddrygioni, ef ath wna yn farwol i *ddaioni*.

Oni ymroi i ddrwg, na ymroech i dda: oni byddi yn iwyn dy duedd at vffern, yn wallgofus at y nefoedd: os yn ddibris oth *fywyd*, yno cydwybod ei hûn ſydd *betruſder*: os *caeth*, yno pobrhiw betruſder ſydd *gydwybod*. yn gyntaf ef ath ſynnai heb ddim cywybod, onide ei gyd yn betruſder. gyda r dyn halogedig, gofalus dduwioldeb a dybîr yn *lleerigrwydd* ſanctaidd; a chynyrfiadau yr yſpryd glân yn *wynniau* o *ynfydrwydd* yſprydol. eithr ir duwiol y mae ef yn ei berſwadio ei hun cimaint ac allo i ſynnied beth ydynt, a pheth a wnant; ſod y cwbl yn *halogaidd*. felly pryd na allo wneuthur ein calonnau mor *galed* a *challeſtr*, at amcanion drwg, y mae yn eu gwneuthr cyn *wanned* ar *dwfr* at-rai da.

A hyn yw malais y Cythrael pryd na allo ein cael yn vffern, ei chael hi ynom ni. i'n penydio an *petruſder* ein hunain, pryd na allo ai *boenau* ef. yr *awrhon* in cael heb gyſur or nefoedd, oran nad ydym heb lawenydd o honi byth· ef ſynnai bawb oll fal efo ei hun, onid ânt iddi, i ddwyn vffern gyda hwynt.

Eithr *enaid anwyl*. gorchſyga di ei *ddichellion*. Cydwybod amheus ſydd *orthrwm* heb *ddiogelwch*. dy amheuon mal y maent yn llwythau, ac yn wialennau, felly y maent yn *windaſau* os parhaânt felly. gwinſdeſau i godi dy ſeddyliau i ſynu trwy amheuon ag ofnau ir

hoel vchaf o *Anobaith* ac vn ai dy adael yno, neu dy ollwng i lawr dracheſn, i gynddrwg (er ei bod yn hoel ddifyrrach) ath cyflwr cyntaf o *ryfygiaeth. hwy* ath codant ti i fynu o *Ddidduwdab*, nes ith caffont mewn *delwaddoliaeth* ac yno gadael i ti gwympo i Ddidduwdab dracheſn. felly petruſder bywyd a wna ym wareddiad enbydus. Pryd na allo Satan wneuthur ein calonnau ni yn *wydn* ddigon, ef ai gwna yn rhy dyner, ac or gormodedd hwnnw, ef ai dwg dracheſn ac ai gwna yn wydn.

Ddidduwdab.

Fy enaid os, da, gyd a doethineb, ni elli fod yn *ddigon* tyner: eithr os ofer a drwg, ef a ddichon cydwybod fod yn rhy dyner; a helaethrwydd o amheuon a phetruſder ai gwna ac ai prifia yn *ofer*: dyna *Amcan* diafol. eithr pa fodd y gorchfygi ef?

Yn ddiammau, nid heb *gymorthion* Duw, ac am hynny rhaid iti weddio am ei help. Ac yn fynych nid heb help dyn. Ac am hynny rhaid i ti gymeryd ei *gynnorthwy* ef. O bydd *clocc* y cydwybod yn *ſefyll*, neu heb fyned yn *waſtad*, ſe allai mai o achos bod yr *olwynion* yn *fudron*, fod llwch yn anhwylio yr olwynion: fy enaid. Beth yw petruſder ond brychau o lwch (prin y gwelir gan y *llygad*, etto yn niweidiol ir clocc) a phwy gan hyn- ny ſydd raid ith hyfforddi di, ond rhyw athro deallgar ynghelfyddyd yr eneidiau? rhyw Farnwr cyfior mewn achoſion eydwybod. Oni elli gan hynny (heb perigl iw friwo ef:) gad iddo lanhau dy *waits*, a rhoi ymaith y llwch. neu ddos ar rai o *wybodaeth arferol*, os bydd arnat eiſiau vn or *gelfyddyd* honno: eithr nid ar vn beins or cyffelyb betruſder. Canys ni wna eu gyngor ond cadarnhau a chwanegi dy amheuon. A thydi dy hun a elli gyderfyn mewn gweddiau ai cynghorion hwythau.

Job 33. 29
Eſay 50.
Gal. 6. 1.
Heb. 5. 14.

Yn enw Duw dos ym mlaen yn dy ffordd dda, ac yn erbyn beiau cyffredin a gwnendyd, cyſlura dy hûn a haddedigaethau Criſt, ac a thrugareddau Duw. Gwna ddaoni gwybyddawl, a gochel y drwg o galon vniongar; ac o metha dim, ef a faddeuir, (ac os angenrheidiol ſe gair ei adnabod. lladd *Goliah* ai gleddau ei hûn) Petruſder a phetruſder; gwna ſaglau Satan yn offerynnau

Act. 15. 11
Pſal. 42. 14
1 Bron. 15
15
Job 42. 7
Phi. 3. 15.

nau Duw: 'gwindia dy hun i ſynu i well, ac i fwy gofal am Dduwioldeb, trwy nerth dy betruſderau. Y peth y maent yn ei gymeryd arnynt, gwna vddynt fod, dadleuwyr a negeſwyr am waſanaeth Duw. Ac ag vn petruſder, lladd y cwbl oll. tybía o honynt. yn ddrwg, yn rhwymau i Satan er eu bod mewn gwiſg morwyn-eon, na chroeſawa yr vn ond vn, i betruſo yr holl betruſderau. na chymer yn yſgafn (na, gwna gydwydod) o hyn; hyn yw r ffordd i lanhau y cwbl allan or cydwybod. Anhawſach it enaid, lle y mae y corph yn cynhorthwyo; ar humor o hono ſydd (yn y dymer melancoli) i godi eddigeddau ac ofnoedd: Canys hynny yw diſbyddu llyn, pryd y byddo ffynnon yn ei lenwi:) ac etto felly y rhaid, ac y gellir gwnenthur. A pha anhawſaf, mwyaf cymeradwy. Edrych arnat dy hunan gan hynny *O fy enaid*. ac na fawrhâ, eithr aethwlada betruſderau. Ac felly rhaid i ti am. Syrn-ſe-ddylgar.

5. *Eſceuluſiadau yſprydol.*

Temtaſiwn a llygredigaeth; yw rhieni pechod dyn, ai gywilydd, (mam a thad i bob drygioni.) A ſeguryd yw mam y ddau, y *gwahoddwr* ſydd yn dwyn i mewn bobrhiw *brofedigaeth*, ar llyn, a ddeil oi ſewn holl lygredigaeth, gobennydd y Cythrael ar yr hwn y gorwedd, a gwely Pechod lle y beichioga, ac y dwg allan oll anwiredd. O *fy enaid*, na chymer ef am obennydd, yr hwn a gais dy farwolaeth, ac na wna mo hono yn wely, yr hwn ſydd yn diſgwyl dy ddiniſtr. Coelia lle goſodech wely dy eſmwythdra, yno y geſyd ef gadair ei heintglwyf. Y Sanct Duwiol, a fedrai gael rhiwbeth iw wneuthur, mal na chai r Cythrael mo hono ef, yn cael ennyd iw waſanaeth ef. Os ſegur tyddai ie, *Dauid* ei hunan; goſodai ef ar *orchwyl* damnedig anobeithiol. ſe ddywedir *gwell yw bod yn ſegur na gwneuthur dim*: eithr yn ddiammau gwell yw bod yn gwneuthur rhiwbeth, (oni bydd peth drwg) na bod yn ſegur. Ni elli ſod yn ſegur heb wneuthur drwg. Y mae yn dy Pſal. 1. 1. S. *Hierom.* 2 Sam. 11. 2

oſod yn yſcôl drygioni, ac y mae r cythrael yn ddigon ſicer ith ddyſcu. gwell yn wir gwneuthur *dim*, na *drwg*, canys y mae hynny yn waeth na dim, y gwaethaf o bob peth: Ac megis y mae yn amhoſibl i ddy-
Luc.12.43 froedd ſefyll ac heb *ddrewi*; felly i ddyn *ſegur* heb *wneuthur drwg. gwyn ei fyd y gwas y caiff ei Arglwydd ef felly yn gwneuthur rhiwbeth.* Oni bydd beunydd mewn rhiw waith *yſprydol*, mewn rhiw orchwyl *per-*
Act.9.39 *thynaſol* diniwaid. Er nad rhaid i ti weithio (mal y rhan fwyaf) am *dy fywyd*, y mae i ti gimaint iw wneuthur ac i vn arall am dy *einioes*. *Tragywyddoldeb* (ſy
Pſa.69.33 *enaid* dyna dy *enioes*; Ath einioes dyna yr amſer i weithio am dragywyddoldeb ti a ddaethoſt ac a arhoaiſt
Momentum à quo pendet æternitas. yn y byd i wneuthur y gorchwyl hwnnw, pa ſodd gan hynny y baeddi di wneuthur yr edau werthfawr honno ymaith yn bennau edaſedd? ofera ymaith yr amſer hwnnw? Och etto ddarfod i ddduw wneuthur cimaint pris o hono, a dyn cyn lleied? *Dyn*, Je *ſy enaid*. Eithr nid pob dyn: Dyn yn vffern ni wna. O pe bai vddynt cynifer o fydoedd ac o ochain, (dengmil, ddengmiloedd fydoedd o ſydoedd) mor ewyllyſcar y rhoddent hwy hynny oll am ychydig amſer. Amſer ar y ddauar i edifarhau, i ochel dammedigaeth vffern: Dyſnder galar yr rhain; iw wylo gwaſgu eu dwylo, ai calonnau,
Luc.13.28 am golli Duw yn dragywydd o achos myned yr amſer heibio di daychweledig: yr hwn pe goſodaſit allan yn dda yn y bywyd, a allaſai ymwared rhag y golledigaeth honno. Ac o ddyn ar y ddauar, oni ſyddi di ddoeth nes bod yn vffern? *ſy enaid*. Na fydd di yn gyfriw ddyn, *cyfrif dy ddyddiau a dwg dy galon at ddoethineb*. gweddia ar Dduw ar i ti allael. ni oſodi mo
Pſa.90.12 honi os *cyfrifi* hwynt, ti ai gweli yn ychydig, ac heb
Pſa.34.5. vn iw hel cor neu iw arbed. Ti a gai weled llawer wedi eu treulio (ie wedi eu camdreulio or ychydig hyn-
Rhy.2.7,8 ny, Ti a gai weled Tragywyddoldeb yn ſefyll ar y tip-
2 Tim.2. pyn tlawd ſydd *yn ol*: Ti a gai, mal yr aeth yr rhai
16 heibio yn dda neu yn ddrwg, ddedwyddol neu echry-
Act.26.18 ſol *dragywyddoldeb*. Ti a gai weled, mai yr holl rai
Pſ.89.29 drwg a dreuliaiſt ydynt rai diafol (nid yr vn) orh ddyddiau di. Ac a elli ddiſgwyl i ddyddiau y *nefoedd* fod yn eiddot ti; pryd y byddo dy rai, di ar y ddauar, yn

eiddo

eiddo r *Cythrael?* y cwbl yw hyn, y mae amſer mor werthfawr a *diddanwch.* nid yw yn gwneuthur pris o Dduw nag o hono ei hun ni chyfrif oi amſer. Yr hwn Eph. 5. 16. ni fynnai golli tragywyddoldeb, rhaid iddo *gyfrif eu* 2 Pet. 4. 3. *ddyddiau* ac felly y gwnai dithau os wyt gall *fy enaid.* Gwared yr hyn a gollwyd, a gwell *eynhildeb* am hyn ſydd yn ol. Yn awr na oſod ddim mwyach ar *wagedd,* y cwbl oll am *dragywyddoldeb.*

Onid yw *Clocc* dy gydwybod yn dywedyd hyn? er Eſa. 35. 2, bod yr olwynion yn dda, y *diol* yn *vnion gywir,* oll we- 3 di eu cadw yn lân, etto oni chedwir ei gerdded, oni chrynhoir i fynu, eithr ei grogi yn ymyl, ai ollwng tros Rhy. 12. gof, a derry ef yn vnion? felly y mae *diogi* yn cam- 14 amſeru y cydwybod.

Y mae yn dda, ac yn myned yn vnion, pryd y byddo eyfraith Dduw yn ei oſod ef, y mae yn cadw amſer dyledus at Ddaioni, ac fe ddarfu iddo ar drwg (ni wneiff mo hwn vn amſer, ſe wnaiff y llall yn ei *dymor:*) ar *ddiol* y *Clocc* y mae deuddeg o fannav, nid oes ond deg yn y *clocc* yma.

A thra cadwo gyſondeb a hwynt, y mae yn pennodi Heb. 13. ac yn taro yn vnion; eithr heb oſal i edrych, ac iw ga- 18 el i fyned yn vnion, ni cheidw moi *gerddediad.* Ac y mae yn rhaid y gofal yn fwy, oblegit nad â vn clocc gyn gynred allan oi *gywair,* oni bydd gofal mawr. Fy enaid gan hynny, oni fynni dy gydwybod yn ddrwg na fydd *ſegur.* bydded y *clocc* yn dy gluſt i ddwyn ar gof i ti y *clocc* yn dy *fonwes;* Megis y gwnai y gwr duwiol yr hwn oedd arferol o ddywedyd, *O Arglwydd Dduw, awr arall om heinioes yr awrhon aeth heibio, a pha gyfrif a allaf fi ei roddi i ti o honi?* felly y dywedodd ef (felly dywaid dithau) cyn fynyched ac y clywych y clocc yn taro.

Ac felly *fy enaid* ti a weli yr *attaliaeth* a'r *meini tramgwydd* ydynt yngwaſanaeth Duw; gochel hwynt a thi a rodi yn well yn ei lwybrau ef.

O herwydd pa ham cyſodwch i fynu y dwylo a Heb. 12. *laeſaſant, ar gliniau a ymollyngaſant: Ac,* 12

Heb. 3. 12. *Edrychwch, na byddo ynoch galon ddrwg o anghredíniaeth, gan ymado oddi wrth y Duw byw.*

Swm y neullduol-draethawd hon.

Gael o Dduw ei waſanaethu beunyddol fal y dylai, ſod yn rhaid gochel yn ofalus y pethau ai rhwyſtra.

Y mae pump o Rwyſtrau mawrion i wir ddduwioldeb, a gwaſtadol waſanaeth Duw.

Priſſeiliau ydynt rwyſtrau mawrion. ſef fy mod i yn dda, ac mewn cyflwr da tu ac at Dduw,

1. *Oblegit ſod eraill yn waeth.*

2. *Oblegit fy mod yn dda yn neullduol neu mewn rhiw beth.*

3. *Oblegit ſod fynghalon yn oneſt neu yn gywir, er nad yw fy mywyd.*

4. *Oblegit fy mod yn dduwiol weithiau, neu ar amſerau.*

5. *O ran fynghrefydd vnion am crediniaeth.*

6. *O ran fy Abſolſo yn wenidogawl, er nad wyf edifeiriawl.*

7. *O ran nad yw ond i wyr crefyddol, ac i Eglwyſwyr yn vnig, (peth ni raid i eraill) ſod yn dduwiol-gaeth rwymedig.*

8. *Defodau ac ymwiſgoedd drygionus ydynt attal mawr i Grefydd, o herwydd hwy a droant ac a gryfhant yr enaid yn ei erbyn hi.*

3. *Cymdeithion ofer-ddrwg, anghyneſui a gorchwylion*

gorchwylion da haint eneidiau, ſydd raid eu gochel mal coruwydoedd.

4. *Gwag betruſder ; rhag-ymattal mawr i dduwiol weithred a diddarwch. gweithredoedd o gelfyddyd a Malais anibennus Satan, ſydd raid eu gochel yn ddiogel a pha fodd.*

5. *Eſceuluſiadau yſprydol, mamman pechod; mawaethau profedigaeth mawrfael, a phrif gennadydd Satan, dibriſio amſer gwerthfawr; gwerthwyr y tragywyddoldeb ymaith, yr hwn ni ddichon treſawr arall ei waredu, ai hunan (os cyll ar y ddauar) rhywyr ymwared yn vffern, lle y rhoddid llawer byd o ſydoedd am ychydig amſer.*

Neullduol

Neullduol-draethawd ar Ddydd Jau.

Cymorth i fyned ir nefoedd a dedwyddwch.

NEU,

Neullduol draethawd yn rhoi yr enaid yn gydnabyddus ar cyfriw help ac ymwared, ac a ddichon ei roi ymlaen yn haws o lawer yn ei lwybrau o dduwioldeb.

Y Rhan Gyntaf.

Myfyrdodau neu gynnwrfiau ſanctaidd y dylynt gynnorthwy mawr i Dduwioldeb.

1 Gwahaniad.

FY *enaid.* Megis wrth ſynnied y perthau ſydd iw *gochel* y mae yn anawdd i ti fod yn *ddrwg*: felly gan gael cynnorthwy ac ymwared, y mae yn hawſach o lawer i ti fod yn dda. A thrwy Râd Duw, ti a elli dderbyn yr holl helpoedd hynny. Dy *feddyliau* dy hun; ath *amcanion* eill roddi hynny oll itti. os gofodi dy feddwl ath ſynhwyrau i feddwl ac i wneuthur yr hyn ath dderchafo yn fwyaf.

Nid yw yr ymwared ſychan a ellir eu ddwyn i fewn gan y ddau: ac yn gyntaf gwellhâ dy fedddwl, Canys ſe

ſe ddichon hynny lawer trwy *fyfyrdod*, derchafydd mawr i *Dduwieldeb*.

Gallu a ddichon dderchafu beunydd ir nefoedd, lle na eill y corph ſyned tan y dydd olaf. a pha ddelw hynny, ond trwy *gynnyrfiadau* ſanctaidd? a pheth ydynt hwy, ond y cyfriw vn ai ſydd yn *myned* i, neu yn *dyfod* o'r nefoedd. pryd y byddom yn myfyrrio am dano, maent yn *myned*; pryd y cynnyrfir oddi yno, maent yn *dyfod*, pa beth yw ein cynnyrfiadau ni at hynny, ond myfyrdodau nefol? A pha fodd felly? ond pan ſyddo rhyw beth da eiddo *Duw* neu Griſt, Yn ymgadw yn y *meddwl*, pedwar peth ſydd enwog am hynny. Marwolaeth, a Barn, nef, ac vffern. *Canys ſy enaid cofia dy ddiben ac ni wnai fyth ar fai.*

A *Marwolaeth* yw dy vn gyntaf, *Barn* yn neſaf, *nef neu vffern* dy *ddiben* olaf, y pedwar hyn ydyw dy *Ddiwedd*. Eccleſ. 7. 36.

Nis bydd pechod chwaith yn y *galon*, tra byddont hwy yn y *meddwl*. ac nid oes dim a gynnyrfa ddyn fwy at ei ddyled, na bod yr rhain yn ei *goffadwriaeth*. Myfyrria gan hynny yn fynych am yr rhain o *fy enaid*. Ac am hwnnw yn gyntaf, yr hwn a ddaw yn gyntaf, a pha cyn *gynted* pwy a wyr? *Quatuor noviſſima.*

---

1. *Marwolaeth.*

O *Angau mor chwerw yw meddwl am danat ti.* ie i bechadur, eithr tra iachus yn erbyn *pechod*. ſy enaid marw ſydd raid i ti. A phan ſyddyeh, pa beth fydd dy gyſur er ymdreiglo mewn cyfoeth bydol? i nofio mewn diddanwch cnawdol? i ymdderchau mewn anrhydedd dauarol? och fi nage hyn a fydd dy *wenwyn*. Y pryd hynny y diflanna yr holl *wychder* yma. holl *flodau* dy *beradwys* a *wywa*. ac ui bydd dim ond y neidr tanynt hwy, alar a gruddfan: Gwae dy di y pryd hynny os hynny oedd dy nefoedd. Angau ath ſwrw allan o honi. Os dy vffern oedd eiſiau rhain, Eclus 41. 1

Angan

Luc. 16. 26 *Manet turpitudo.* Pſa. 17. 14 Angau, ath fwrw di iddi: y pryd hynny *cynfas* yw dy holl gyfoeth; Bedd yw dy holl *dir* Arch dy holl *dy*; Pryfed dy gymdeithion; llygredigaeth dy holl geraint; drewi dy ber arogl, ath holl *addurn-wiſgoedd*, cawiau o *bydrni*. Yr vnig gyſur y pryd hynny ſydd bod wedi byw yn dda bod wedi gochel y drwg, ac felly heb frath y *ddwyfron*, bod wedi gwneuthur daioni, ac felly cael heddwch y *fonwes?* I fyw felly mal na byddai *gywilydd* farw; I farw felly, i fod yn ddiogel i fyw yn *dragywydd*. O *fy enaid*. Yr hwn a roddit deirnaſoedd er cael ychydig cyfriw gyſſur yn yr awr honno, na eſceuluſa baratoad yr heddwch hwnnw yn dy Ddydd. *Creda hyn*, Croeſawu Angau a chwerthiniad heb ofni damnedigaeth, ydyw, yr vnig ffrwyth ac effaith bywyd a erweinir yn dda yn ofn Duw, yn ol cyd-wybod dda.

Phi. 1. 23. Heb. 11. 35 Eccleſ. 8. 8 or 9. 12. Ac a elli di feddwl am hyn, ac heb fyw felly? yr hwn a wyddoſt (cyn ſicred ath eni) y byddi farw, ac ni wyddoſt ym *mha le* pa *bryd* neu ym *mha fodd*, mwy na phe buaſit *heb eni* errioed? yr hwn a wyddoſt fod yr amſer i wneuthur daioni yn myned ymaith oni wnai cyn dy farw; ath ſechydwriaeth yn golledig, os gollyngir y pryd hynny *heibio?* O *Enaid anwyl*; Edrych ar dy gorph; rhag i *Angau* faglu y *ddau*: edrych di ar dy Dduw, nid edrych ar ol y *byd*, mal pan ddel ei farwolaeth ef, y gallo dy fywyd ti ddechrau, ac nad ofno dy gorph mo *garchar* y *Bedd*, o herwydd y caiff ddyfod allan i ddydd farn yn llawen: Ac am hwnnw *fy enaid* myſyrria yn ddifrifol:

---

2. *Barnedigaeth.*

Eccl. 11. 9. NI bydd pechod yn dy *law*, os bydd hwnnw yn dy *lygad*. ffrwyn gwagedd yw, a genſa *trachwant*. *Gwna n llawen wr ieuangc yn dy ievengtyd a llawenyched dy*

galon yn nyddiau dy ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yngolwg dy lygaid. ond gwybydd y geilw Duw di ir farn am hyn oll. O ni weli di ſy enaid mai hyn oedd ffrwyn *Salomon?* i dynnu ac i gadw i mewn yr oedran pengalettaf (ieuengctid) yn ei lawn redeg (y galon) ai yſpardyn gyflymmaf (y llygaid) *ti a gai ddyfod ir farn?* ymairh gan hynny a phechod iw *ddihenydd* diſymwth. Canys pa fodd y ſaif euogrwydd oi *flaen* Ef, ac Ef heb euogrwydd? a thithau heb y ddau? a elli di ei *dorri ymaith.* ſy enaid, dy dorri dy hun yn gyntaf; ath *cydwybod* heſyd, yr hwn yw r gwir bureidd-dra o honot dy hunan? Pe gellit ti ei ddiddymmu ef, ni ellit ti ddiddymu *Rhagluniaeth*; y tragywyddol *gofion* ar *llyfrau* oth holl *bechodau:* rhaid yw *gwrando y matter* am y cwbl oll. *Am yr holl bethau* hyn? na arbed vn pechod gan hynny, ymaith ar cwbl oll. mae oll yn y llyfr ir *Farn.* hyd ar weithred, gair, meddwl, yn y rhol eu gyd er dirgeled a fuaſai, oll a *welwyd*, a *ſcrifenwyd* a *gadwyd*, ac am *yr holl bethau hyn Duw ath ddwg di ir Farn. Duw ath ddwg? ymaith gan* hynny, ymaith drachefn ath holl bechod. ti a elli ſiſto neu dwyllo troſot dy hun, a dyn (ei ddobri, ei ddallu hudo a gwneuthur yr uſdus) eithr Duw (yr holl-ddoeth hollgyfion Dduw) ni elli moi watwor nai ſommi. ſy enaid, mi dybygwn y dylit ti gymeryd geiriau *Solomon* am daranau, a chrynu wrth bechu ynghanol dy ddiſyrrwch (mal ſcrifen lawf *Belſhazzar*) hyn a ddylai beri i ti grynu.

Act. 17. 30 31 Dad. 20. 12 Eccl. 12 14 Rhy 2. 16. 1 Cor. 4. 5.

O *Diniweidrwydd.* mor wyrthfawr yr ymddangoſi di y dydd hwnnw. O ddiddanwch y ſonwes honno, yn yr hon ith cair di. Pryd y deleuir dy holl gamwe-ddau, ac y rhoir mewn Cronicl dy weithredoedd da, a'r cwbl a ddarllennir, o flaen dynion ac Angelion ith ogoniant anherſynol yn y Seſſiwn fawr honno. O enaid bendigedig yr hwn a gefaiſt dy ryddhau oddiwrth dy weithredoedd drwg, ath ddiogelwch or rhai da yn ſeliedig, ac yn gymeradwy yn y dydd oſnadwy hwnnw.

Luc. 6. 24 ar 21. 18. Mal. 3. 16. Mar. 25. 35 Act. 3. 19. Eph. 4. 30. Dad. 20. 13

Eithr

Dad.6.16 Eithr *euog*. Ym mha le y cuddi di dy ben? nid yw
2 Cor.5. y creigiau gyſgod, hwy a holldant; nar mynyddoedd,
10 hwy a ſymudant: nag vffern hi egyr oi blaen hwynt.
ymddangos ſydd raid, dioddef ni elli. O mor oſnad-
wy yw r *Sain* a rydd y *rhybudd*, ar golygiad o flaen y
1 The.4. farn, ath prudd *ymddangoſiad* dithau. Pan chwtho ei
16 *vdcorn*, ar ddauar yn lloſci, y neſoedd yn ymblygu, An-
1 Cor.15. gelion yn gwilio arno ef, ar Cythraeliaid yn gwilio ar-
52 nat tithau: (a'r hyn ſydd alaeth vwch pob alaeth)
2 Pet.3. lleb law y pethau oſnadwy hyn oth amgylch, y diafol
10 ar tân gwaethaf ſydd oth fewn, cydwybod yn llefain
2 Theſ.1.7 yn dy erbyn ac yn dy gondemnio di.
Mat.25.3. *Fy enaid*. O bydd Browdle dyn ith arſwydo di,
rhag gweuthur beiau dihenyddiol ith corph, oni ofna
Dad.6.16. gorſeddfaing Duw dydi, rhag gwneuthur troſeddau
pechadurus? ſe ddylai, y mae n rhaid iddo, ſe wna i ti
2 Pet.3. weled ei gyfraith, ath ſywyd. Canys os y diwedd or
11 cwbl oll, yw, fod yn rhaid i ni gael ein barnu, y Swm
or cwbl oll yw, i ni weled nan condemnir. *gadewch, i ni*
glywed, Swm y cwbl a glybuwyd yw, ofna Dduw a chadw
Joa.12.48 *ei orchymynnion, canys hyn yw holl ddyled dyn. Canys*
Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa
vn bynnac fyddo ai da ai drwg.
Pſa.50.16 Canys ſy *enaid* mal y mae dy weithredoedd yr aw-
Mat.25. rhon ſe ath cair ith rhyddhau, neu ith condemnio. yn
34 gyhoeddus etifedd or *nef* neu *vffern*. bendigedig neu
Bhy.2.6,7 felldigedig yn dragywydd. yn gymar *Angelion* neu i
8 *gythreiliaid*, mewn *goleuni*. neu *dân*. Ac er eu bod yn
Col.1.12. rhagori ar y cwbl oll, cynnal dy feddyliau ychydig i
Mat.25.41 weled beth ydyw bod yn y.

---

3. *Nefoedd*.

2 Pet.3.14 YN ddiau *fy enaid*. os bydd dy feddyliau ynddi hi, dy
Eeleſ.1.14 holl egni a fydd ar ei hol hi. ath holl orchwylion ar
13 y ddauar, yn ſyfyrdodau am dani. yr hyn a geiſiaiſt
Eſa.55.2. yma, (anrhydedd, diſyrrwch, cyfoeth, neu pa beth
bynnac

Lynnac daicnus) ac a gollaiſt dy lrn yn ei geiſio, a gair oll, ac yn vnig yn y neſoedd. Y mae Anrhydedd, i ſod yn bennaeth yn llys Duw. i eiſtedd ar *eiſedd-fainge* Criſt; yno y mae gogoniant i oleuo mal yr *haul*. i ſod yn frawd ir holl *Seinctiau*, yn llywawdr ir holl *Angelion*. yn briodferch i fab Duw. *anrhydedd* heb ddim *cenſigen*, *gogoniant* heb ddim gwagedd. ſtât ddigyfnewid: O ſy enaid. Pa wiſc gyſtal ac anſai wol-deb? Pa Goron gyſtal a thragywyddoldeb? Pa ogoniant gyſtal ar neſoedd? Yno y mae Treſawr, cyſoeth oi wrantu tra-digonol. oll yn dda a thra-ddidog yn parhau yn dragywydd. wrth yr hwn, nid yw aur ond dom: gemau ond gravan: brethyn arian ond carpiau breiſion: tiroedd ond mowncgydd, Palaſau ond Pentwrr o bridd, yr Jndia ond tylodi. Cyſoeth yn dirmygu tân, a lleidr, a gwyſun, a rhwd ar miloedd hynny o ddrwg dynged, a damweinian dynol.

Yno y mae diſyrrwch. yn ei wanwyn, yn bur; yn yr aſon helaethrwydd, nage yn y ceſnſor anſeidrol. nid mal hwnnw ar y ddaear, yn ſunudiol, yn gymyſgedig (mal vn dyn) nage yn ſrwnt (mal vn yr anifeiliaid) eithr yn dragywydd, diym-gyffred, eglur yn ei ddaioni gwir ſendigedig, llawenydd yr Arglwydd. ei gyd yn vnig yn vnion ac yn dragywyddol lawenydd.

Y mae yno geſeillion. y rhai gwaethaf yw Seinctiau, Angelion, y goreu y drindod, cymdeithas Duw, y Tad, mab, yſpryd glân, mewn cyſnewidiol, anwahanol, anrhaethadwy, di-rannedig gyf-vndeb, a bodlonrhwydd o draſerch ac vndeb cynneſawl.

Yno mae miwſic mwynaidd. Caniadau y Seinctiau, gyda a Thelynau yr Angelion. Côr o'r ddau, yn lleiſio peroriaeth ac Anthem dragywydd. a phob melyſdra neſol iw gwncuthurwr, ac i ogoniant dy Brynwr di. O *fy enaid*. O ni ddichon taſod adrodd, y peth a glybu Saint *Paul*, pryd ei cipiwyd, cnd ir pcradwys yma: Pa fodd y geill meddyliau marwol ddirnad a deall y diddanwch, or weledigaeth ſendigedigaidd?

Amos 5.6. Dih. 1.28 Mat. 5.19, Dad. 3.21. Mat, 13.43 Mat. 22.30 Dad. 19.9. Eph. 2.6. 2 Cor. 2. 4 1 Cor. 13. 4 2 Cor 4.15 Heb. 12. 28. 1 Cor. 15. 53 1 Cor. 9. 25 2 Theſ. 1. 10 Luc. 18. 22 Heb. 10. 34 Eſa. 64. 4. Mat. 24. 47 2 2or. 4. 17 2 Pet. 1. 17 Luc. 11. 33 Pſa. 16. 12. Pſa. 36. 8 Mat. 25. 21 Job 20:5 Dih. 14. 12 2 Pet. 2. 13 1 Pet. 1. 8.

Heb. 12, 22. 1 Theſ. 4. 7. 1 Cor. 1. 9. Phil. 2. 1 Joa. 1. 3. Joa. 17. 22. ar 16. 20. Dad 15. 3. 2 Cor. 12. 4. 1 Cor. 2. 9. Phil. 4. 4 Heb. 12. 2. Jac. 1. 2. Rhyf. 8. 14.

Fy

Fy enaid anwyl. a wnaethbwyd ac a brynwyd ir llawenydd hwn. Pa ham y rhoed di ir ddauar ddim? Pa ham, yr ymddengys vnrhiw ddyled yn anawdd, ath ddygo di attyn? A elli di wneuthur? a elli di oddef
Heb. 11. 34 gormodd er ei mwyn hwynt? Ai poſſibl yw bod yn or-
35,36,37. mod Sanct neu Ferthyr iw ceiſio hwynt? Os rhoi di
Rhy. 8,13. groen, cnawd, gwaed, pen, calon. bywyd; ir gyllell,
Mat. 5.29. tân, cleddyf, fwyall, ſibedau, lliſ, menig duon, y Pair poeth neu i ba fath bynnac ar bennydiaeth arall; Onid yw *rad*? os am ſygad trachwantus, neu law, neu droed troſeddus y pryd hynny, neu naccâd o vnrhiw ddiſyrrwch, ydyw ef felly yn ddrud?

Fy enaid. Y Seinctiau a'r merthyron, aì tybiaſant
Heb. 11.25 eu hunain yn fargeiniwyn da, ai prynaſant hwynt ar priſiau hynny. Na, pe cait ti ddioddef beunydd boenau ar y ddauar, ie oddef yn hir o amſer, boenau vffern, ni byddai y pris fawr am ynnill y nefoedd. fy enaid. yr hwn a ddywedodd felly wrth ei eiddo oedd Sanct, Bydd fodlon gan hynny i wrthwynebu trachwant, i ddwyn dy Groes am y nefoedd: Am hyn y dioddefodd dy Griſt Groes fawr: oni oddefi di vn fechan? yr hwn ſydd î ti ai eſgwyddau ith helpu di iw dwyn i fynu, ei râs ei yſpryd, ei Angelion, yn dy gynnorthwy?

Fy enaid. na âd ír anhawſdra, a dybygir fod yn yr-
Heb. 12.3. fa Crefydd, dy ddigyſſuro di oddiwrth, neu yn, y ffordd:
2 Cor. 4. hynny yw goganiaith dyn, a dichell diafol. ir hwn
17. ſydd yn caru Duw (mal y dylit, ſydd ai ras ef (mal y gelli gael) ai ffafor, (mal y dichon fod, it:) ei holl orchymynnion ef ydynt hawdd, ai iau yn yſgafn. Canys iddo ef y rhoddir ffon tynghneddyf, a gobaith iechydwriaeth, a nerth diddanwch, yr rhai (heblaw y rhai oddiallan) ydynt help i ddwyn yr iau. A (goſodwch feddyliau deillion a gwynniau heibio) y mae pechadur yn cymeryd mwy trafferth na'r Saint, ac yn dwyn llafur mwy arno am vffern, nag y mae ef yn ei weithredu am y nefoedd.

A phe bai y Sainct yn llafurio mwy; nid yw ddim
Rhy. 15. wrth y nefoedd. Canys pa beth yw munudiau o boen
13 a llafur, wrth dragywyddoldeb o lawenydd a gor-
Heb. 6.18. phywyſdra, yr rhai a dalai am yr amſer os deuir vddynt,

trwy

trwy lafur, a gweithred dragywydd ? ie yn wir ſy enaid twyll yw hefyd gwybedyn oddiwrth *Beelzebub* yn *ſio* hyn ith cluſtiau, mal y gallo ef gadw y nefoedd yn well allan orh *olygon*; A dal dy droed (wedi y caffo y modd hyn ddiogi dy galon) rhag myned, neu ddyſod yno. 1 Cor. 15. 58

Fy enaid. yn erbyn yr holl gyfriw *lewygiad*. Cymer gyſſur neu ſwyn galonnog Saint *Paul*. *Tra na bom yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir, canys y pethau a welir ſy tros amſer, ond y pethau ni welir ſy dragywyddol.* Heb. 6. 10. 11 Heb. 12: 3,

Ac felly y mae *poenau*, yn gyſtal a *llawenydd* yn dragywydd. Meddwl am hynny fy *enaid*. Canys ei ragweled, ydyw y ffordd i ochel y poenau hynny; a myſyrrio arnynt y moddau iw gochelyd. 2 Cor. 4. 16. 18.

4. *Vffern.*

NId wyt ti mewn ſerch i boen fy *enaid*. Pwy ſydd? Pawb oll ai gochel. Pa ham na wnant yn amlaf, yr hyn yw y rhan *fwyaf*? Pa ham y gochelant boen ar y ddauar, mwy nag yn vffern? os vn *Carchar*, mal y pwll heb waelod hwnnw? vnrhiw geidwaid, mal *cythreiliaid*; vnrhiw loſci yn debig ir tân hwnnw? vnrhiw frathu, tebyg ir *pryf* hwnnw? vnrhiw *gywilydd* wyneb, ir gwradwydd o flaen dynion ac angelion? a ddichon vnrhiw golled ar y ddauar gyſtadlu y golled or nefoedd? neu aethwladu oddiwrth gefeillion, i aethwladiad oddiwrth Dduw, ac *Angelion*? I fyw yn y tywllwch eithaf (heb ddim goleuni) ym mhlith anherſynol *arteithiau* (heb ddim eſmwythdra) yn oes oeſoedd (heb ddiben) arteithiau, a wna yr olwyn yn *ddifyrrwch*, y *ffwrnen* yn wydd-dy, ar *dialedd waſc* yn *orchwyliaeth*. Heb. 12. 11. Mat. 25. 30.

Fy *enaid*. Ai *ſiomiant* duwiol ydyw r rhain i ddychrynu calonnau tyner oddiwrth anwiredd? Os wyt ti yn Griſtion, nid wyt yn credu felly. nag os wyt vn or Mat. 8. 12.

cenedloedd nid ydwyt ; Anibennus âc eithaf poenau am weithredoedd drwg, yn ol y bywyd hwn, y maent hwy yn *ei gredu*. Y mae y cythreuliaid hwythau yn credu, er bod yn eu harteithio i wneuthur hynny.

Rhy. 2. 15, 16 Cydwybod (yr hwn ſydd ym mhob dyn) ſydd yn Apoſtol o hyn ir holl genedloedd. Marwolaethau llawen gwyr diniwaidiol, a dychryn yr rhai euog wrth farw, a bregetha hyn ir holl fyd troſto. Canys beth yw r rhain ond thybeddiau ir Dydd-mawr, lle yn ol eu gweithredoedd y derbyn pawb ei farn dragywydd. O ſy enaid yſtyrria hyn. Trwm yw dioddef y boen eithaf tros vn awr? ydyw ddim ddiodef eithaf poen yn dragywyddol? Cyhyd ac y gallo holl-alluogrwydd ymddiffyn, cimaint ac allo holl wybyddiaeth ei ddychymyg, y peth y mae Cyfiawnder anherſynol yn ei ofyn (enaid a Chorph) i oddef byth bythol? O ſy enaid. Pe gallai dy ſeddwl feſur, neu yſtyried yn athriſt, hŷd tragywyddoldeb. Mal nad yw myrddiwn o oeſoedd yn rhychwant wrth yr amſer hynny, nag oll er dechreu r byd, yn ſodfedd o rychwant : ac etto yr holl arteithiau, a fu erioed ar y ddaear, neu a allai yn nychymyg dynion neu Angelion fod, nid ydynt ond hawdd wrth y poenau hynny, yr rhai a barhânt ir hyd tragywyddol hwnnw, ti a loſcir yn gynt, nag i trachwantid ac a gymerit ſarph i fynu o flaen pechod Fy

Eccluſ 21. 2 enaid ith cadw dy hun bydd ddifrifol, ac yſtyrria hyny: ni ddeil y temptaſiwn mwyaf mo honot os gwnai ond cofio hynny. Ti a wrthodi yr afal, rhag y pryf ſydd ynddo, meluſder pechod rhag y tân ar ei ol ef. y ddyled galettaf a gyflawni) os ti a gofi hynny. Dy gefaill anwyl, o ſy enaid : a roddes ei waed ith wared ti oddiwrth y farwolaeth honno. Ei gyngor ef i ochelyd yw hyn : os dy lygad ath rhwyſtra, tynn ef allan, &c. gwell i ti fyned ag vn llygad ir nefoedd nag a chennit ti ddau dy fwrw i vffern, lla nad yw y pryf yn marw, ai tan yn aniffoddadwy. gwell ychydig boen tros amſer, na r cwbl oll tros dragywyddoldeb.

Fy enaid. Y pedwar peth or blaen yw r prif yſtyrriaeth ith ddwyn di ith holl ddyled oddiwrth bob drwg ; eithr yr vn bennaf ſydd yn ol etto : Dy Grift i fod yn fyfyrgell, ath Jeſu i fod yn llyfr i ti, y gair ai

2 Wahaniad.

grynhoad ;

grynhoad ; Bibl yn y corph , Scrythyr yn y cnawd. yſtyrria ef ac holl ddaioni a wnaethbwyd, Canys efe ai gwnaeth ; holl ddrygioni aeth ymaith, canys ef ai rhoes *i ffo*. Ei holl weithredoedd ef ydynt dy *lithoedd*, eithr fy enaid, ei Enedigaeth, ei fywyd, ai ſarwolaeth, ydynt y penmodau, a fynnwn i ti eu *darllain*. Canys yr holl ſyd o anwiredd a orchfygwyd gan y tri hynny. Balchder, Cybydd-dod, a gormodedd. tri rhan or byd hwnnw.

1. Ei *enedigaeth*, yw marwolaeth balchder, i Stabl y Bedd. Canys os oedd hwn yno, Paham y mae hwn yn vnlle ? neu am ba beth, am gadachau ei gawiau ef yw r *Porphor* gorau. Am *gyfoeth*, ei wellt ef yw. Am berthynaſyddion, ynyſeiliaid yw ei rai ef. Am Stâr, ei lys yw Tafarndy. Ei wely preſeb. ei orſeddfaingc cawellfaingc, ei len vchod, dim ond y gweî a nyddaſai y *coppyn*. Ai er mwyn cryſder ydyw ? yno y mae r ych yn well. Am lendid ? y mae yn gorwedd ar ddanar mewn llwch. Am ſynwyr ? y mae yn cwympo i lawr wrth ei draed. wele, yr hwn y mae r ſeren, ac Angelion, ar doethion yn ei gyhoeddi yn Arglwydd, a Brenin nef a dauar, ef ai ganed mal hyn yn dlawd, mal na byddit ti yn falch. 1 Joa. 2: 16 Luc. 2. 7.

Ei fywyd ſy gyffelyd iw enedigaeth, i ladd dy gybydd-dra di ; ni ſeddai ddim tir i Arglwyddiaethu arno, eithr i rodio ynddo. na mynyddoedd i ddringo, ond i fyned ar lin arnynt. Mynydd oliwydd oedd ei Stafell, ar diffaethwch ei dŷ ; ei fwrdd ef gwellt glas, dim iw gyſgodi ond y nefoedd. Ei arlwy nid gwerth arian, eithr gwyrthiau ? wrth y rheini ar benthygion y mae yn byw. Os merchyg, os gorphywys, os gwledda gyd ai geſeillion, ynifail, gwely, lle benthyg ywr cwbl. gwell i darparwyd i Adar, ac ynyſeiliaid, yr oedd vddynt hwy nythod a thyllau. nid oedd le iddo ef i roi ei ben. na thy, na bedd, yn fyw neu yn farw. nag oedd iddo ef. Ef yr hwn a berchenogodd Duw trwy lef, ac arwydd am anwyl fab Duw ; Arglwydd y cwbl oll, ni fynnai ddim, mal na byddit ti yn egori dy enau am lawer, neu yn cegweinio am y cwbl oll. Tydi yr hwn trwy ei ffafor ef, wyt yn benthyccio oll gan Dduw, ac ſydd raid i ti roi cyfrif am y cwbl oll, ni ro- Luc. 2: 39 Marc. 14. 13. 19. Mal. 17. 5:

ddaiſt allan iddo ef. Ac a elliff ei ddioddefaint ef adnewyddu, a thachwant ſyw? na eill, Canys.

3. Ei farwolaeth ef yw *Croeſhoeliad* trachwant ai croeſhocliodd ef. Ef megis yr achos, a rhaid i tithau
1 Pet. 4. 1. groeſhoelio hynny (hynny ſydd i galyn.) Ac megis y
& 2. 24. gwnaethont hwy am dano ef ſ.f Criſt, feliy dithau am bechod, efe yw r Patrwm. tyred feddyliau trachwantus: taro ei ddrain ef wrth dy ben. Cyfod drythyllwch afiaethus: brath ei waiwffon ef ith calon. Tempta weithredoedd cnawdol; taro ei hoelion ef ith *ddwylaw* ac ith traed, ar y cyfriw *gynahyrfiau*. Os i *feddwdod*. dod ei yſbwrn ar dy ſaſu. Os ar glothineb dwg ei fuſil ef ar dy enau. I fod yn ſyw pa beth bynnac y byddo y cnawd yn ei drachwantu, er mwyn ei farwolaeth ef, *neccâ* ef. Yn y gwely neu ar y bwrdd, na ad iddo mewn vn man gael ei *amcan*, bydded ei groes ef i groeſhoelio hynny, *Golgotha* iw gladdu ef. Na âd iddo fyw, Arglwydd y bywyd a ddioddefodd farwolaeth am dano; ac am danat ti, ni ddylit adael iddo fyw, fal y byddit farw yn dragywydd am dano. Och fi fy enaid. Os dy drachwant ai tarawodd ef (yr hwn nid oedd iddo ddim oi eiddo ei hun) *yn farw*, pa fodd y dylit ti, yr hwn ſydd ar cwbl it, ac oth eiddo dy hûn,
2 Cor. 5. *fyw*? Pa fodd nath *fernir*, nath condemnir i farwolaeth
21 dragywyddol.

Gal. 5. 21 Fy enaid. O meddyli di yn ddifrif oeſtadol am Dduw yn y pedwar peth or blaen, ac am Griſt yn y *tri* yma. y rhain a fyddant mal *faith* golofn *doethineb*, i adeiladu dy galon i holl dduwioldeb. Ac er bod y meddyliau hyn yn ddychryn, i loddeſtwyr ac *Epicuriaid*, ac yn ynfydrwydd ir *di-Dduw*. Coelia di Dduw, yr hwn ni chär moth *cyſtudd* di, ac ni ewyllyſiai i ti ddim gwell doethineb. Ac na ddirmyga *anadlau* yr holl alluog, yr hyn yw help Duw, i ddwyn yn mlaen y gorchwyl bendigedig hwnnw. Fy enaid gwna yn fawr o honynt os eiddo Duw ydynt. Canys.

Cynhyrfiadau ſanctaidd ydynt gymmorth mawr i Dduwioldeb.

Yngwirionedd, pryd y cyfarfyddo ſanctaidd gynhyrfiadau a myfyrdodau ynghyd, (megis yn fynych y maent,) mal y maent yn gwneuthur bendigedig gymyſgiad

giad ac vndeb o yſprydoedd ſanctaidd, (ſef Duw a dyn) felly y rhoddant nerth mawr trwy *gyſylltiad* a *chydrediad* y cyfriw ddwy ddwylaw ſanctaidd yn vn ac vnrhiw enaid (ſef dwylaw dyn a Duw) a'r gwaith eiſſ ym mlaen a gymerir mewn llaw gan y cyfriw *ddau*. 1 Joa. 4. 1

Eithr ſy *enaià*. Y mae mor angenrhaid, ac yw deilwng oth wybodaeth, graffu a gweled pa rai ſydd, pa rai nid ŷnt gynhyrfiadau yr yſpryd glan. Canys os arall yw, ſiomedigaeth ath arwain di. ac os ef ath tywys, tydi ai canllyni ef. Prawf yr yſpryd mal hyn: hwnnw nid yw ſanctaidd, nid yw o Dduw, na'r cynhyrfiadau yn ei eiddo ef, yr rhai nid ydynt nefol. Ezec. 11. 19

Canys cyfraith Dduw yw r ffordd, pryd y byddo ei yſpryd ef yn arweinydd. Yr hwn a *lefarodd*, ac am hynny ni yrr ef allan or ffordd honno byth. gan ei bod bob amſer yn vnrhiw, ac heb fod yngwrthwyneb iddi ei hun vn amſer byth bythol. Je yſpryd Duw yn ei air a wiria hyn oi brofi. Eſa. 8. 20

A phan gaffer yr yſpryd yn vnion. gwna yn fawr or cynhyrfiadau y maent oddvchod ſy enaid. na chais en dwyn ai plygu at dy feddwl ond dy feddwl attynt hwy. Pan fyddo Duw yn arweinydd, na chais di mor myned or blaen, eithr cadw le canllynwr. A chanllyn ar ol yn enw Duw. Canys ef a arwain ir nefoedd. nid yw ddim gwaeth na llai, na chennad oddi wrth Dduw, arweinydd iddi. 1 Cor. 11. 1.

Pob cynnwrf da rheoliaidd, a ddaw oddiwrth y cyntaf, ar cynhyrfwr goreu. Angel yw a anfonwyd or nef; Canys pa beth ſydd fwy, na chenad nefol? gochel gan hynny enaid anwyl, Rhag i ti groeſawu rhai drwg, ac eſceuluſo cynhyrfiadau da (hynny yw diſgwyl ar y Cythrael o flaen *Angel*.) Na ddyro gluſt i wrando cennad diafol o flaen negeſeuwr Duw. hynny yw ymrwymo mewn cyfamod rhy gaeth ag *offern*, a rhy rydd a'r nefoedd. Coelia, y mae cimaint a ragoriaeth rhwng cynnwrf da, a drwg, ac ſydd rhwng *Cherub* ac *ellyll*; a rhwng ei croeſhawiad, ac ſydd rhwng *Angel* a *Chythrael*. Mal. 2. 1

Ac yn ei diben hefyd Canys y mae vn yn pwyſo ar y canolbwynt ſydd iſod, a'r llall yn derchafu i ſynu Eſa. 8. 19.

at yr amgylchedd vchod. Yn Seraphim i ennyn y galon ai dwyn i ſynu ir fflam. Pentewyn vffernol yw r cyntaf eithr hwn y marwor nefol, pan fyddych mewn rhyw fai, goleuni hwn ath tywys ir vnion. Pan ſafech ac oeri mewn daioni, gwres hwn ath cynneſa di ac ath arwain ym mlaen. Tan godwm o Râs yn farw, tan lndw llygredigaeth gorrechol os byddi, hwn a ſywha dy wreichionen, ac ai cynnwrf i ſynu. O fy enaid, gan hynny na ennyn mor vffernol. na ddiffodd mor marwor yn nefol na ddiffodd yr yſpryd na ſwrw ddwſr
1 Theſ. 5. a phridd arno: na fawdd y cynwrf mewn cnawdol a
19 bydol ddiſyrrwch a thrafferthion. Dy galon yw r aelwyd y lle y mae ei loſci, eithr oni bydd cymeriad da ac ewyllyſgarwch iw chwthu ac iw gynneu i ſynu, ef a eiff allan. hwynt hwy a wnant y meginau ir tân ſanctaidd yma.

O fy enaid. Cymer ddychryn o hyn, y genad a ſy-
Eph. 4. 30. nych neccair, ni ddaw ond hynny; Yr Arweinydd ni ddilynir a eiff ymaith: y Pentewyn nid enynnir, ni thwymna. A gwae dydi os yr yſpryd da a ymad a thi,
Theſ. 2. 3 canys yno yr vn drwg ath arwain di. Yn lle Angelion da, meddyliau drwg ath ymlid ti. Ac ti wyddoſt, y lle y maent hwy yn myned, y rhai a arwain ef. Pan gu-ro Duw wrth y galon, na ad iddo aros wrth y drws, pryd y caffo ei elyn ar y cynnwrf cyntaf ei olìwng i mewn; na wna mo hynny rhag cywilydd: os gwnai felly, gwybydd mai cadw allan yſpryd Duw, yw cau drws rhag dy lawenydd; ac na wna mo hynny rhag ofn. na wna fy enaid. mewn hawddfyd neu adfyd, a'r dy ddefoſiwn, neu achoſion eraill, yn yr Eccl wys neu dy Stafell; liw dydd neu liw nos, yn iach neu yn glaf; os cynnyrfa dy feddwl at ryw ddaioni gwybyddawl,
Luc. 13. 36 neu yn erbyn rhyw ddrwg; Duw fydd yn curo, egor
Mat. 22. iddo. y mae ei Angel wrth y drws, cymer ef i mewn;
19 ei yſpryd a fynnai ddyfod i mewn, gwna iddo groeſaw. croeſaw yſpryd bendigedig a ddeuaiſt im dwyn ir nefoedd: croeſaw ddiddanndd ſanctaidd a ddeuaiſt im cadw rhag vffern. O tyred, ac na ddos byth oddiwrthyf yſpryd glan fy Nuw byw.

Fy enaid, ti a welaiſt y fath gynnorthwyoedd nefol yw myſyrdodau a chynhyrfiadau ſanctaidd. Clyw

Dduw

Dduw yr holl ymwared, ac ef ath ſiccrhâ di ſelly. Os eraill a rydd heibio y dydd drwg, callineb i ti ei gael oth flaen di; os eraill a rydd heibio gynnyrfiadau da, dy ddedwyddwch di fydd eu croeſawu hwynt, Coelia ef, yr hwn a ddywaid y ddau. Amos 6. 9 Act. 24. 25

Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad yſtyrrient eu diwedd. Deut. 32: 29

O herwydd pa ham frodyr ſanctaidd, cyfrannogion or galwedigaeth neſol, yſtyrriwch Apoſtol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni, Chriſt Jeſu. Canys yſtyrriwch am hynny yr hwn a ddieddefodd gyfriw ddywedyd yn ei erbyn: gan bechaduriaid fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau. Heb. 3. 1. Heb. 12. 3.

wele yr ydwyf yn ſefyll wrth y drws, ac yn curo, os clyw neb fy llais i, ac egoryd y drws, myfi a ddeuaf atto, ac a ſwpperaf gyd ag ef, ac yntau gyd a minnau. Dad. 3. 20.

Y Swm or rhan hon yw.

MYfyrdodau da, ydynt famaethod odiaethol i ddyſgu ofni Duw, neu myfyrdod da a fag ofn Duw. yn fyrrach. Pſa. 119. .15 Pſa. 1: 2.

Meddyliau difriſol am farwolaeth, Barn, nef ac vffern, ydynt fyfyrdodau yn erbyn holl bechodau y hyd. Gen. 24. 63

Sobr yſtyrried genedigaeth Criſt ei fywyd, ai farwolaeth a dynn i lawr falchder, cybydd-dod, a thrachwant, yr rhain dri a barant y cwbl.

Cynnyrfiadau ſanctaidd oddiwrth Dduw, ydynt gymorth mawr o arfer o ddduwioldeb.

Y modd y mae gwybod a ſyddont eiddo Duw. Pa ſwyddau da ſydd vddynt, ac a wnant oddiwrthoef, i ni, megis ei gennadau ef an arweinwyr, am ein daioni goreu.

Cymorth i ddwyn vn ir nefoedd, ac i ddedwyddwch.

NEU

Neullduol draethawd i addyſguyr enaidy cyfriw help ac ymwared, ai gyrro ym mhlaen yn haws yn ei harfer ai llwybr o dduwioldeb.

YR AIL RHAN.

Gweithredoedd a gofalon ſanctaidd ydynt bleidiol i dduwioldeb.

FY *enaid*. Os yw myſyrdodau da, a chynyrfiadau, yn byw ynot ti. ſe ddichon y meddwl wneuthur llawer. Eithr pan wneler hynny oll rhaid yw bod ychwaneg. Ath *gluſt*, *llygad*, *calon*, *llaw*, *ſafn*, pob vn ſydd raid iddo wneuthur ei ran: clywed, darllain, ymroi, arfer, gweddio, (oll ſydd raid vddynt fod mewn gwaith.) A chydwybod ſydd raid iddo gadw gwiliadwraeth neullduol hefyd, a bod a rhyw bethau mewn gofal

gofall ſanctaidd iddo, hyn a gyflawna oll, ac nid ychydig yw r daioni a ellir ei wneuthur gan.

Y Gluſt.

CAnys ſy *enaid.* Trwy y drws hwn y derbynnir *Gair Duw* i mewn, bedydd yn gyntaf ath *eſyd*, *pre-* Act. 14. 17
gethu ath *ceidw* di ar dy *draed.* Canys pa beth ydynt ar. 16. 14.
hwy, ond i wybod ac i *wneuthur?* ac yngair Duw y mae y ddau, goleini, a gwres, ar ddau a gyhoeddir gan bregethwyr da: a dal ſulw ar hynny ſy *enaid.* i ochel bai cyffredin; ei waith ef ſydd ar y ddau y meddwl, a'r galon, i eglur ddangos ac i wreſogi; nes i ti wneuthur yn gyſtal y da, ai adnabod, ni wnaeth y Pregethwr moi vn ef, na thithau moth orchwyl. Eſe a eill ddywedyd i ti hynny mewn awr, yr hyn braidd y geill ef ddyſgu i ti ei wneuthur yn dy ſywyd. Prif ſeiliau Criſtianogaeth ydynt hawdd, eithr yr ymarfer yn galed, y gweithrediad yn gyſtal a'r Athrawiaeth ydyw gorchwyl y gair.

Je y gair a bregethir; os pregethir yn iawn. Ar hynny 2 Tim. 1.
ſy enaid y gwneit ti yn dda fwrw golwg, megis ar beth 19
yn hudo, eithr yn fai tra heintiol. Nid y *Pulput* a wna r gair nid llefaru o hono yw pregethu. eithr anrhydeddûs deimlaw yr Scrythyr lân yn ol y gwirionedd o ſeddwl Duw ac at amcan a thueddiad yſpryd Duw, hynny yw gwir bregethu y Gair. Y bai ar drwg ydynt o ddwrth ddiafol, ac er ei bod allan o *bulput.* Ac o chymeri di ofal, or modd y gwrendewi hyn, a chalon oneſt oſtyngedig, heb nag i amryfuſedd na thrachwant ei rhag ſeiddiannu, ni elli di ddewis na byddych o fy- 2 Pet. 2. 1.
wyd gwell, o herwydd dy ddyſcu yn dda gan Air 10, 11.
Duw.

Ac

Mat.4.14. Ac ni byddi di waeth er dy roddi dy hûn iw *ddarllain* ef, Canys am hynny y mae yn y Scrifen yn gyſtal ac yn air, ac iw gael yn dy,

---

Lygad,

Ithr ſy *enaid.* gochel eithafoedd, ſef y rhai ai gorafun megis brychewyn yngolwg y bobl, a hwyrthau, yr rhai ai camſrferant megis y llwch tan ei traed. Yr hyn ſydd fendigedig, ni waſanaetha iddo fod yn rhy gyffredin; ar hyn ſydd ddirgel; nid rhaid mor ymofyn am dano, dirgeledigaethau ydynt ogfeydd yr rhai ni ddichon (ni ddylai) pob troed moi ſathru: Angenrheidiau pob meddwl a ddylai, ac a eill wybod. oni fynni di gan hynny dy gyſrgolli dy hun, na rodia yn yr anialwch, eithr yn y gwaſtadedd: Oni ſynni dy foddi dy *human*, cymer y rhydau i fyned trwodd, na ddos ir dyfnderau. Ac oni fedri roi dy hunan, cymer ddyſg ac hyfforddiad ym mha fodd, neu ym mha le i fyned, ac i rodio: ac felly y gelli fyned rhagot yn dda mewn llwybrau ſanctaidd: y ſarn ir nefoedd a wnaethbwyd yno trwy law Duw, ac nid a dy droed yn haws i gamlwybr, o ran bod dy lygad yn gweled y ſarn, o hynny yr wyt yn ſiccrach pryd y darllennych na phryd y clywych, Anadl dyn a ddaw i mewn gyd â gair Duw ir *gluſt*, eithr gair Duw yn bûr ai yſpryd ir *llygad.* Ir llygad? ie, ac ir galon hefyd oddi yno, ac ir bywyd oddiwrth honno. Canys ſy enaid megis ac y gwnaed llawer a Seinctiau yn well, ſelly y gwnaethbwyd rhai yn Seinctiau wrth *ddarllain*, y gair yn *vnig.* y *deſc*, yn gyſtal ar Pulput a wnaeth crefyddwyr edifeiriol. ac yn ddiammau, y mae yn ſammaeth dda, os bydd yn ſam ddedwyddol o ſywyd yſprydol. *Tolle lege*, ſef cyfyd a darllain a wnaeth Saint *Awſtyn* yn *Athanaſius* Sanct. A darllain adnod o'r ſcrythyr a drodd Saint *Anthoni* yn Angel, ſy enaid: ni fynnwn i ti gymeryd *Pennod* ith gadw oddi wrth *bregeth*; na phregeth i ddiyſtyru

Act.10.33
Mar.3.21.
Heb.4.2.
2 Pet.1.10
Heb.5.14.
Mat.19.21.

ru y pennod. Arfer y ddau yn vnion, a thi a gai wellhâd oddiwrth bob vn or ddau. Ac os ath olygon ir nef, ath liniau ar ddauar, ath galon ar y llyfr, y troi (mewn amſer cyfaddus) at y pennodau ſanctaiddiedig, dy ddarlleniad a fydd vnion. ie er bod y dolennau heb ei anadlu yn ſanctaidd. Canys pryd y byddych dy hûn yn darllain y Scrythyrau, blodau y Gras: ti ydwyt y wenynen, ſydd yn ceiſio y mêl ath law dy hûn: Eithr mewn llyfrau duwiol daionus, vn arall a gaſglodd nid oes i ti ond bwyta y mêl. A pheth ſydd felyſach ac iachach nag archwaeth nefol a ſanctaiddiol, *O fy enaid* i ymborthi ar lyfrau Duw a llyfrau Duwiol. Awyr dda a ſâg yſpryd da. ac awyr Duw, yſpryd Sanctaidd. lle y mae blodau Gras a phlanhigion peradwys yn tyfu (megis ar diroedd ſanctaidd) y mae yr awyr yn dda. Ac nid drwg arogl pwyſi a wneler or fath flodau; Bibl Duw ſydd ardd: llyfr da ſydd bwyſi. Cymer ddifyrrwch a chymer les buddiol or ddau. Ac felly y gwnei, o medri dreſnu ith gylla yr hyn a weli ac a glywi. Eithr ſy enaid, hwynt hwy a ddygant fwyd ith enau, ond hynny ai pararoiff, ac ai cyfranna ith ym borth. Y maent hwy yn dwyn gair Duw i ddryſau dy dŷ, eithr ni waſanaetha i ti adael iddo orwedd yno, eithr lettyfa ef yn dy galon, a gwna ef yn llywydd ar dy fywyd. Ac iw groeſawu ai anrhydeddu felly, ydyw y weithred, yr hon heb ddifrifol a nerthol ymroad ni wnair fyth, gwaith priodol ir.

Pſa. 1. 2.

1 Pet. 2. 2: Rhy. 6. 17. Col. 3. 10.

Galon.

Y Mae yn rhaid iddi ymroi a Reſolfio ir weithred, am yr hon y gweli di reſwm iw ymarfer, Pan fyddo yn gwybod ewyllys Duw ai Air ni wna cynghorion y meddwl ddim heb ordiniadau yr ewyllys. Ar gluſt, ar llygad, ni allant wneuthur dim yngair Duw, ond llenwi y meddwl a cynghorion da. Y Gwneuthuriad ſydd raid iddo ddyfod oddiwrth y galon, llywydd

wydd mawr *ar y byd bychan* o ddyn. iddi hi gan hynny y rhoddwyd y gallu i wneuthur y cyfriw ordiniadau. Ac fy *enaid* nid oes dim na elli di ei wneuthur trwy rym y gallu hwnnw. Y mae yn rhyfeddol y pethau a wnaethbwyd gan *ymroad Rhufeinaidd.* ty hwnt
Scanola.
*Dan.*3.28. i ryfeddod pe bai ddim amhoſſibl i *Griſtion:* nid yn vnig lloſci y llaw, heb chwimio, eithr goſod y corff yn yr eirias dân, tan wenu. a llawer mwy: diffodd tân trachwantan lloſcedig. Ymroadau ydynt raffau, eithr os gweinion, *Temptaſiwn,* (pan fyddo n gryf) megis *Sampſon,* ai tyrr hwynt megis carth crinllyd, eithr o plethir ac o gwnair yn dda *ei rwymau* a *ddeil* vndyn er cryſed a fyddo, ſe rwymodd *Dauid* ei ſywyd reolgar,
Pſa.119. 16 i gyfraith Dduw, o herwydd ſelly y *bwriadai yn ddiyſgog. Joſua* oddi wrth Dduwiau dieithr. Y trywyr ieuaing oddi wrth *addoliad y ddelw*; nid oes dim da neu ddrwg, yr hyn ni elli di ei wneuthur neu ei ochel, os ymroi di iddo neu yn ei erbyn. Oni oddefodd rhai dorri eu cyrph yn damneidiau, a llifio eu haelodau, ai gyddfau i grybychu gan ſyched, ai cylla yn ymgnoi gan newyn, pryd nad oedd moddau erailli gadw eu bywyd? ac oni allai y glothinebwr neu r meddwyn wneuthur cimaint er mwyn ſobrwydd a dirweſt? ar anllad yn erbyn ei drachwant, pe gwelent, ac yr ymroent i hyn mal i beth anghenrhaid i achub eu heneidiau? Addunedau (ſy enaid) allant fod yn *faglau*, onis gwnair hwynt yn yſtyrriol; Eithr *amcanion* ſanctaidd, ydynt *rwymau* diniwaidiol, ir rhai yn gyffredin, y gelli fyned i mewn yn haws; ath rwymo dy hûn i ymddygiad gwell, ac hwynt hwy, yn gyſtal ac ag addunedau, ac mewn rhiw achoſion ymrwymo ar ddau. Ac yn ddiau ſe roes Duw y *gallu* hwnnw o ewyllys i ti, ac
Pſa.76.12. ith ewyllys y gallu, y dylit ti (megis dyn a wnaethbwyd
Deut.12. i Dduw) ſymud trwyddo ef i Dduwioldeb; ac os
11 penſyfrdanus wyt, bywhâ dydi dy hûn, a nertha ef yn ſiriolach, ac yn gadarnach i gynhyrfu.

Eithr pan *oſoder* ſelly, rhaid iddi fyned ti a ſwriadi ac a wnai, ac i arfer yr hyn a arfaethaiſt, ar peth y mae dy galon yn ymroi iddo, hynny ſydd raid ei wneuthur, gan.

Y Llaw.

FY enaid, *Profiadau* a gadarnhâ *Athrawiaeth* yn fawr: ac eiſiau amcanion da, a wna tybed ſod pethau gwychion canmoladwy yn amhoſſibl, ac iw gadael ymaith, pryd oni bai hynny y galleſid eu gwneuthur. Am y Criſtion y mae n ddigon gwir; Pa fath orfoledd ogoneddus a ellyſid ei gael ar ein trachwantau, oni bai dybed na ellid gael y maes arnynt? Pa vchder o beſſeirhrwydd ſanctaidd a allaſai gig a gwaed ei ſwynhau, oni bai gredu mai amhoſſibl oedd? A pha ham? Arfer a fâg gyfrwyddyd, a hwnnw nerth galluog. mal hyn y daw ef i dynnu y bwa cadarnaf, a ddechreuodd ar gwannaf; dwyn ych or diwedd, yr hwn oedd yn ei ddwyn er yn llo ar ei yſcwyddau. Y mae i ti niferoedd o *Athrawiaeth* am hyn, ac ſydd o *Seinctiau* mawrion; yr rhai o fabaneiddrwydd Daioni a gynnyddaſant bob yn rhadd i ſod mor fawrion. Je *Cowri* o Râs, nid oeddynt vnwaith dalach na chorriaid mewn daioni. Na ddywaid gan hynny fy enaid, *y mae llew* Joa.2.12
ar y ffordd. Dy feddylfryd yw r llew. dos i fewn a 13
dos rhagot yn llwybrau Duw, ti gai weled y llew wedi Diha.22.
ei ladd a *mal* y mol y llew ie yr hyn oedd chwerw, a 13.
fydd melys, yr hyn oedd anawdd a fydd hawdd, yr hyn oedd *ofnadwy* a fydd *cariadus*, yr hyn oedd ddieithr, a fydd adnabyddus, iddo ef, yr hwn wedi ei ymroi yn dda, ai dwg ei hunan i ffordd dda ac vnion. eithr fy enaid ni elli di *ſylfyd*, oni *chryfha* Duw di; gweddia gan hynny am ei *nerth* ef, mal y gellych fyned ym mlaen, a gad ir llaw gael help gan. Phi.3.7,8. Jer.10.23.

Y Genau.

Y Genau.

Pſa 39,9. Mat.21. 12 I Lefaru (mal wrth ddyn am y corph) felly i lefaru ar Dduw troſor am help. os llefara or galon, llawer a ellir ei wneuthur ar genau. Canys mal y mae Duw yn ffynnon y Gras, Gweddi ydyw Stên-leſtr y ffynnon. Os mynni gan hynny ei gael ef, rhaid i ti fwrw i lawr, neu yn hytrach (gan fod y ffynnon vchod) fwrw i fynu dy Sten-dwcc. Fy enaid, ni elli di wneuthur yn vnion, heb yſpryd Duw; mwy nag y geill y corph fyw hebor dithau. Os yr yſpryd glân hwnnw ath arwain

Ezec.36. 27 di, nid ai di o'r ffordd. *Myfi a roddaf fy yſpryd ynoch, ac a bara i chwi rodio yn fy neddfau: a chadw fy marnedigaethau ai gwneuthur.* wele dyna y gallu i wneuthur

Eſa.61.3. vniondeb: *Ac oni rydd eich Tad nefol ei lân yſpryd ir rhai ai gofynnant.* (dyna y ffordd i ddyfod at y gallu hwnnw) a phe bait, er mwyn rhwydd-deb gwell a brys, yn cymyſgu dy weddiau a lludw ac a dagrau, ac wylo ac ymprydio, er mwyn gwell brwdaniaeth, ti ait yn gyn i ddiben y ffordd honno. Ac os mynni er mwyn gwell rhwydd-deb ith taith ddarparu i ti dy hun fwy nerth ar arlwy, bydd ſicer o fod yn vn yn y *cymun*, os daw yn

Joa.6.57. deg at dy law. Canys nid oes dim well yn maethu yr yſpryd glân, nag ydyw y Sacrament o ddiolch, fy enaid.

Bara y bywyd or nef, rhag i ti lewygu yn y ffordd.

Ac yno y mae gweddiau yn dichon fwyaf, pryd na byddon ni yn flinderog, ac yn cynnyddu yn *llewygus.*

Fy enaid.. fe ddyſgwyd i ti lawer o bethau ith helpu i wneuthur yn dda, eithr mae dan beth erto ith rhybuddio i wneuthur yn well. os edrychi di ar dy gredyd neu dy gymeriad Criſtianogawl, ath ddiniweidrwydd yn dda. I gadw y naill heb frychewyn yn vnion, ar llall heb ychwaneg o euogrwydd. Gwerſi ni ddyſgir yn gyffredin. Ac am hynny iw haddyſgu yn neuliduol. Na leihâ moth cymeriad. Na chwanega moth euogrwydd, gwilia yn erbyn y ddau a chydwybod gofalus. Y Cyſriw. *Rhy-*

Rybuddiadau Sanctaidd a wna fawr help tu ar nefoedd. 4. Gwahaniaeth.

Fy enaid y mae cymeriad Cristnogawl: ac o gwnei Phi.4.1.
bris or bydol, o flaen bywyd, se ddylai y nesol sod yn 3 Joa.12.
anwylach. hynny yw, pryd na byddych yn rhoi achos
o wir dramgwydd, neu yn esryddfath; eithr yn ymddangos, heb fai vnion na gwrthuni yngolwg y tyd.
Yr wyf yn dywedyd, tramgwydd vnion, Canys
os y bai a fydd diachos ynot ti; ei gymeryd yr ydis
nid ei roddi. Ac yr wyf yn dywedyd: ymddangos 1 Thes.5
heb fai, Canys rhaid i ti edrych na byddo, mal nad ym- 22
ddangoso. Ymgedwch rhag pob rhith drygioni, rhaid
na byddo ith ymwareddiad, nag wneb drwg, na chalon ddrwg. Na golygiad drwg ar y nesoedd, nag edrychiad tu ac at y ddauar. *na fydd yn dramgwydd i neb.*
hynny yw, na friw lygad gonest a drych oth ymddygiad drwg; Na thripia droed gwasdad, a chyff gweledig
o dramgwydd. *gan ragddarparu pethau gonest, ac nid* Heb.12.
yn vnig yngolwg yr Arglwydd, ond yngolwg dynion; Ac yn 23
enwedig ir rhai sydd dda. Canys *gwell fyddai iddo grogi maen melin am ei wddf ai foddi ynghanol y môr, na rhwystro vn or rhai bychain hyn.* Pa fodd bynnac yr
ymddangoso, dy bechod, sydd fawr. Ystyr gan hynny
dy anrhydedd Cristnogawl, (megis dy ddauarol) *fy enaid.* Na ddywaid, ac na wna, ddim anheilwng or
Ardderchawgrwydd hwnnw, dy Ddaioni, Cymer ofal,
(megis am danat dy hun) am fodlonrhwydd vn arall,
ac na friwa mwy ar dy gymeriad nag ar dy gydwybod.
Na âd i galon dy frawd, mwy nath vn dy hûn gymeryd dy friw. golygiadau drwg a friwa galonnau da,
ac os elwysant, a laddant mal y Basilisc: enw da sydd
olew gwerthfawr, eithr enw drwg, arogl marwol. Os
dy ymddygiad sydd ag eisiau Penpryd da, dyna wybedyn marw, ai gwna yn ddrwg. Ymaith gan hynny
a chalon ddidduw, ac edrychiad. ymaith ath aniwair
weithredoedd, ath rhithoedd. Ymaith ath feddyliau
halogedig, a'r arwyddion. Ymaith ag yspryd Epicuriad neu loddestwr, ai dddarym wisg: ymaith ag enaid
celwyddog ai amheuaeth. Y peth sydd ddrwg neu a
edrych yn ddrwg, gwnewch hwynt oll ymaith. Canys
coelia fi, nid y ffordd i ti i fyned ir nefoedd yw gosod
maen

maen tramgwydd yn ffordd dy frawd. Adeilada iddo
Rhy. 14. 13 bont trwy dy athrawiaeth dda; a thrwy dy gyngor arwain a helpa ef drosodd: na ddyro attaliaeth neu barricado ar ei dramwyad, a thrwy olwg ddiffaeth ar fywyd (megis corph marwol *Amasiah*) attal ei daith orau. Ni elli di ddwyn eraill rhyd eu llwybr, a thi dy hun allan o'r llwybr ir nefoedd. Eithr llû yn dyfod ar dy ôl di ef ath ollyngir di yn gynt ac yn vwch i fewn. Y rhan fwyaf, ni feddyliant am hyn, eithr
Jac. 5. 29, 20 meddwl di fy enaid. Ac ymgadw yn lân oddiwrth feiau eraill. bydd ficcr o feddwl am hynny. Y mae y rhefwm cimaint ath Jechydwriaeth di a hwythau.

Fy enaid. Onid yw dy euogrwydd dy hun yn ddigon ei faint, onid rhaid i ti ddwyn clydairiau o feiau
Pfa. 38 8. eraill i wneuthur y tân y fwy? *Pechodau Dauid a aethent tros ei ben, ac oeddynt yn fauch rhydrwm iddo iw dwyn.* Fy enaid. Onid wyt yn llewgu wrth glywed hyn? yr hwn oedd ganddo gyftal efgwyddau, gimaint o gryfder i oddef a biuch mor fychan iw ddwyn, etto roedd ei vn ef yn rhydrwm? Ac yw dŷ vn di mor yfgafn i gymeryd arall ar ei vchaf? ond yw gywilydd gennit yftyrried y Swm aneirif oth troseddau dy hun yn fengl, (er nad yw ond dyled *Daniel*) ac oni ddaw
Dan. 9. 8. rhif pechodau rhai eraill a gwradwydd ith orchgu-
Pfa. 40, 12. ddio? wyt ti yn brifgarn, neu brifmal, i aneirif ddry-
Gal. 6. 2. gau, ac a fynni di fod yn ac-feffori neu ynghydlun, ath law yn y brywes i furddiwn ychwaneg? fy enaid rhaid i ni ddwyn beichiau y naill y llall: eithr eu trueni hwynt, nid eu pechodau. trwy gariad perffaith, nid trwy gyfrannogiad. Cymdeithas a chyd-ymglyw fydd dda mewn alaeth, eithr yn refynus mewn pechodau. Yr oeddid yn dychymyg fod *Atlas* yn dal y nefoedd i fynu; eithr neb, vffern.

A pha gellit ti wneuthur rhyw ymdro neu fift trofot
Bhy. 14. dy hun i fod yn gadwedig, a fynnit ti i eraill trwy dy
15 fai di fod yn golledig? cael melldithion vffern gyd â
Ex. 33. 6. llawenydd y nefoedd? Fy enaid. Cynifer ac a bechafant trwyddot ti ydynt ddamnedig trofot? ac a fedri di gyfrif pa nifer? Cyfrif hwynt oll a wnaethbwyd yn bechaduriaid trwy dy weithredoedd di, ac heb eu gwneuthur yn edifeiriol trwy Ras Duw. felly pan fyddych

ddych farw, dy feiau eill fyw, ath euogrwydd tros lawer o oeſau ſod heb ei gladdu, mal henaſiaid melldigedig, yn cenedlu rhieni drwg ol ynol iw heneidiau trwy lawer o genedlaethau. Ac er bod dy bechodau amlanol yn marw gyda thi, y rhai o *fabwyſiad* eill fyw yn oes oeſoed.

Fy enaid gan hynny gwna y peth y mae r Apoſtol yn ei erchi:na *fyddwch gyfranogion o bechodau rhai eraill.* eithr y mae yn meddwl ychwaneg ni ſynnai ef oſod *dwylaw* ar *berſonau* anheilwng; cadw di dy vn dy hun oddiwrth *weithredoedd* anheilwng. Trwy vnrhiw weithred oth eiddo i beryglu enaid vn arall, ydyw yr anheilyngaf or cwbl oll. neu i vn arall i beryglu dy vn di. Ac y mae llawer ffordd i wneuthur y ddau, *Naw* a gyfrifir. ac yn *ddrwg* iawn oll. pryd y gellych, peidio a *rhwyſtro* peth. Canys felly yr wyt yn gynnorthwywr, ath law ſydd yn ei helpu: pryd y dylit, peidio ai argyoeddi ef, canys felly yr wyt yn *ddadleuwr* troſdo, ac y mae dy daſod yn rhoi iddo gennad. I gynghori pechod, canys hynny yw ei feichiogi ef mewn vn arall, i roi iddo groth ac i ſod yn fam iddo. Iw orchymyn ef; canys hynny yw ei genhedlu ef, roddi iddo hâd a bod megis Tad naturiol. I gyſuno ag ef; canys hynny yw ei berchnogi ai faentimio ef, a bod yn dad o fabwyſiad iddo, onid yw yn *naturiol.* Ei ganmol ef canys hynny yw rhoi bron a ſugn iddo, ac i ſod yn fammaeth iddo or lleiaf. oni bydd yn fam. I groeſawu y gweithredwr o hono, canys hynny iw rhoddi eſcwyddau ai gynnal ef; neu noddfa i ſod yn * *batron* neu *protector.* ac felly yn * Tadoſrawd: onid yw rieni iddaw. I gadw diſdawrwydd, ac gydd neu i ſod yn ſud wrtho; Canys hynny yw rhoddi liaw a chalon, ac i ſod yn gefaill, oni bydd yn frawd iddo. I ſod yn gyfrannog o hono, canys hynny yw roddi iddo *frauch* ac *wyneb*, ac i ſod yn gyſtal yn frawd tyngedig ac yn gefaill, ac yn ymgoleddwr da iddo.

1 Tim. 5.

2 Joa. 1. 1. geidwad.

Ym mhreſenoldeb vn pechod, gwel hyn oli o fy *enaid.* gad i *waed* ſod y *peth*, a gwel mal y geill vn arall ei dy-wallt a thydi yn eoug or gwaed. *Ioab* a laddodd *Abſolom*, eithr *Ahitophel* ai lloſruddiodd ef, o herwydd iw *gyngor* ef, ei ddwyn ef iw ſarwolaeth. Yr *Ammonit* a drawedd *Uriah*, eithr *Dauid* ai lladdodd ef;

Y o herwydd

o herwydd iddo ef gwympo trwy ei orchymyn ef. Yr Juddewon a labyddiasant *Stephan*, ni chyffyrddodd *Saul* ag ef. o blegit gyd ai vndeb yntau. Meibion *Belial* a labuddient *Naboth*, etto *Ahab* ai lladdodd ef, oblegit iddo roddi wyneb iw wneuthur ai Sêl, ac felly ef a gafas fodlonrhwydd yn y weithred, ac felly a *ganmolodd* yr hyn a wnaethbwyd. Nid holl lwyth *Beniamin* a dreisiodd ordderch y *lefiad* i farwolaeth, eithr a roddasant *darian* ac *achles* ſef: cefn a chyſgod ir rhai a wnaethai, ac felly y trais gwaedlyd a ddaeth yn eiddont hwy trwy *Dadeiddiad*. Yr Juddewon yn amſer Criſt ni laddasent mor prophwydi yr rhai a laddeſid lawer cant o flynyddoedd or blaen; etto wrth fod
Mat 23. 31 yn gyffrannogion gyd ai Tadau a ddaethant i etifeddu
Luc, 11. 48 eu llofruddiaeth hwy. Ac os Brenin *Salomon ni egyr*
46 *ei enau tros y mud* ar holl rai appwyntiwyd i ddiniſtr. hwy a allant fod yn blaut i ddiniſtr, ond ef a gaiff fod yn râd ir peth.

Dieithtiaid a dorrai ymaith *Jacob*, *Eſau* a eiſteddodd yn llonydd, heb ddim ond edrych arnynt, ac ef a ddiniſtried, o herwydd nad achubodd. Er cwympo o feibion *Eli* trwy law y philiſtiaid, ei law ef a roddes ddyrnod y dynghediſen, am nad oedd yn argyoeddi digon arnynt, am y peth ydo edd eu diniſtr, ſef eu pechodau.

O fy *enaid*. Bydd am *Gymuny Sainct*. nid *pechaduriaid* Nag mewn gwaed, nag mewn vnrhiw euogrwydd na fydd gyfrannog o bechod vn arall. *Cynghora*, ymadael ag ef, *gorafun*, *anghyttuna*, *gogana*, *amharcha*, *ymddieithra*, *cyhoedda* yn ei erbyn, *gwrthwyneba*, *argyoedda*, y mae i ti ddigon o feiau oth eiddot dy hûn, iw hamlhau, nid rhaid i ti chwanegi eiddo eraill attynt.

Fy enaid gan hynny, rhoddi tramgwydd i arall, a chyfrannogi euogrwydd eraill yw dy *elynion*: yn erbyn yr hyn, rhaid yw gorchymyn cydwybod i gadw gwiliadwraeth galed gaeth: ac y mae yn gefaill da i ti os ceidw felly. Canys yn ddiau, peidio a rhwyſtro eraill oddiwrth y nefoedd, yw dy *oſod* dy hun ym *mlaen* tu ac atti. Peidio ath lwytho a llawer o euogrwydd a rydd i ti daith haws ir nefoedd. Ac i fod yn

rhydd

rhydd oddiwrth y cyfriw attaliaeth a maglau a wna dy rwydd-deb i ddiwioldeb yn hawſach. Yn hawſach, er ei fod yn galed i natur lygredig leges, ac nid amgylchir heb ein meddyliau gorau an amcanion, er a allo oll *feddwl*, ar *dyn* ei wneuthur, er bod y *gluſt*, y *llygad*, ar *galon*, ar *llaw*, ar *genau* a'r *cydwybod* yn proſi eu holl *gelfyddyd* ai *cyfrwyddyd* hyd yr eithaf, ai cryſderau yn vn wedi eu goſod at y gorchwyl mawr daionus: o waſanaeth Duw, a'n Duwioldeb ninnau. eithr felly y rhaid bod. Canys fy *euaid* dothineb ath ſicrha di.

Os derbyuni di ſyngeiriau, ac os cuddi ſyngorchymynnion gyd a thifel y parech ith gluſt wrando ar ddoethineb, ac y gogwyddech dy galon at ddeall: ie os gweiddi ar ol gwybodaeth, os cyfodi dyleſ am ddeall. os ceiſi hi fel arian, os chwili am dani fel am dryſſorau cuddiedig: yno y cai ddeall ofnyr Arglwydd, ac y cei wybodaeth o Dduw.

Cwbl Swm y rhan hon yw.

Dih. 2. 1. 3, 4, 5.

1. *RHai gweithredoedd ydynt gynnorthwy mawr i fywyd duwiol, yr rhai trwy fendith* Duw *a allwn ni eu gwneuthur.*

2. *Gwrando gair* Duw, *darllain, ymroi, cynyg ymarfer a gweddio, ydyw y gweithredoedd hynny.*

3. *Gocheliadau ſanctaidd a helpa lawer, yn gyſtal a gweirhredoedd:*

4. *Edrychyn ofalus ac yn ddyfal ar ei gredyd, ai gymeriad Criſtnogawl ai ddiniweidrwydd ar y ddauar, a dderchafa lawer ir nefoedd.*

4. *I gymeryd gofal mawr i ochelyd vnion dramgwydd, ac i ymgadw yn lân oddiwrth feiau gwyr eraill, ydyw y modd i gadw eich credyd ach enw da, ach diniweidrwydd.*

Neullduol

Neullduol-draethawd ar Ddydd Gwener.

Meddyginiaeth neu rwymedi i wendyd dynawl.

NEU,

Neullduol draethawd yn dangos ir enaid pa ragluniaeth o ras a thrugaredd a wnaeth Duw i gynnal ei gwendyd mewn llwybr Duwioldeb.

FY enaid. Er maint dy ofal ath ymwared, ti a fethi yn dy wasanaeth *tragywyddol*, tra byddo y cnawd ar Cythrael heb orphywys yn eu cynnwrf *beunyddol*. Duw gan hynny o dynerwch ei drugaredd, a ragddarparodd i ti, *feddyginiaethau* grasol. *Edifeirwch*, mal na byddych farw: *ffydd*, ith wneuthur di, ac yntau i fyw: Ac *vfudd-dod* newydd i gadw oll yn fyw. 1. Rhan. Eph. 5. 17. 1 Pet. 5. 8.

Pechod fy *enaid*. sydd *humor* neu ddefnydd ddrwg at y nefoedd, *didrefn* o'r yspryd glân, dy *dymerwch* di yn vnion. Ir clwyf hwn: Pſa. 11. 4.

Edifeirwch yw meddyginiaeth Duw.

A digonol iawn ith iachau. Canys ef ath waeda ai *ddwysbigiad* i *gystudd calon*: ith cysogi i Gyffes; dy *bureiddio*, Act. 2. 27.

bureiddio, ath troad; dy *chwſu* di ag enogrwydd, dy
Ezec.18. 31 *drochi* di ath ddagrau: Rhoi i ti *ddiad*, rhag achoſion o ddrwg, *ffleimio ymaith* y rhan farw, a bygythiau; a chyſſuro y gwan ag addewidion: ac ymarfer y cwbl oll mewn *eluſeni*, *ymprydio* a *gweddio*. Ac o rinwedd yr rhain oll i iachau, eneidiau edifeiriol, a gawſant broſiadau bendigedig. Canys y gwaedu hwn a iachaodd. Juddewaidd creulonaidd. Cyſogi a iachadd *David*. *pureiddiad Ephraim*: Chwys a wnaeth ddaioni i Geidwad y carchar. Ymolchi a helpodd *Magdelen*, Swmbwl *Saul* Act. 9. Yr ymarfer a yſmwythaodd ar *Zacheus*, *Ahab* a'r *Pwblican*. Ac eli a iachaodd *Iſrael*. Hoſ. 6. 1. 2.

O ſy enaid. Rhyſedda ac Addola y Phyſygwr mawr
Luc.19.8. daionus, ſydd yn dangos i ti felly mor hawddgar, ac
Jer.8.6. etto brif *Phyſygwriaeth*. I ymofidio am wneuthur yn ddrwg, ac i chwennych gwneuthur yn well. I fod yn ddrwg gennit am a wnaethoſt ar fai, ac na wnelych dracheſn beth a wnel i ti fod yn ddrwg genit. gwedi i mi grwydro dychwelyd. wedi ſy roi yn *ynfyd*: Cynnyddu yn *ddoeth*. Pan fyddwyf yn *glaf*. bod yn *iach*. Pan fyddwyf yn fudr *ymolchi*. Pryd na allwyf fod yn Sanct (cyſtal ac oedd *Adam* yn ei ddiniweidrwydd) i fod cyſtal ac *Enoch* a eill fod, *yn wir edifeiriol*. A ſu errioed rag-yſgrifen mor *lan*?

Eccleſ 7: 21 Ac etto ſy enaid, y mae hyn yn iachau pechod (enogrwydd a llwgr) ac yn dy ddychwelyd ti i Dduw ac i ti dy hunan hefyd. Yn rhoi yn ôl y codwm, a'r ſynwyr. Yn edfrydu y gwaed euog ar yſpryd. Yn dymchwelyd i beradwys yn gyſtal o lawenydd, a diniweidrwydd. yn dy gadw di rhag *marwolaeth*, yn dy oſod yn dy *iechyd*. Yn dy ddarparu di i hir a thragywyddol fywyd. A ddichon vnrhiw feddyginiaeth fod mwy gwyrthfawr?

Cymer ef gan hynny o ſy enaid, os ceri di dydi dy
2 Cor.7. 10 hunan, ar modd ar pryd y rhoddo dy Phyſygwr i ti. nid hanner (canys y mae yn erbeinio y cyſan) na hwn *ar ol hyn*, canys ef a ewyllyſia *yr awrhon*.

Joel 2.12. 1. Cyſtuddio am bechod hob wneuthur dim ychwaneg, ydyw *gweled* nid *gollwng ymaith* dy *glefyd*. Ac i wellhau yr hyn ni chyſtuddiwyd am dano, ydyw

gwaedu

gwaedu i fewn. I gyfaddef, heb galon gyſtuddio cyfogi o rodres. I gyfaddef, ac heb wellhau, i fwrwc ai lyfu i fynu y chwdion. I ddychrynu am bechod, ac heb wellhau: yw cymeryd chwys, a chymeryd yr anwyd ar ei ol. I wylo am dano, ai wneuthur ef. Ydyw 2 Pet. 2.
gyd a'r *hwch ymolchi* ac *ymdrobaeddu*. I ochel aehoſion, 22.
heb ochel y gweithredoedd. ydyw ymprydio i beri chwant mwy ir peth. Trwy ei fygythiad i gwympo i Anobaith, ydyw yn lle pechu, dy loſci dy hûn: Ac i ymborthi ag addewidon i ryfyg, yw nid dy gyſſuro dy hun ond dy glefyd. I ymwrthod a drwg a chroeſawu r achoſion yw ei anfon ymaith, ai alw yn ol drachefn.

I weddio at Dduw, ac etto iw ddigio ef, ydyw gwneuthur chwarae on gweddiau: I roi eluſeni, a 1 Cor. 13.
gwneuthur yn ddrwg, ydyw, nid rhoi yſgar i bechod, 3
ond rhydd-dyd. i ymprydio. rhag bwyd, ac i gwympo mewn pechod, ydyw hogi y gyllell, iw ladd ond iw wledda ef. I weddio, i roddi, i ymprydio, a chwedi hynny: cymeryd rhydd-dyd, i dyngu, i bechu, ac i wneuthur ar fai drachefn, nid yw hyn i wneuthur iechyd, ond clefyd or ymarfer.

Fy *enaid* hyn yw cymeryd y meddyginiaethau, o feſur eu hannerau, ac felly ni chai di fyth ddychwelyd i fod yn iach.

2. Ac os oedi, dyna r fford na ddychwelych fyth. Y mae hynny yn cymeryd nerth oddiwrth y feddyginiaeth ae yn ei roddi ir clefyd. Canys felly y mae yn heneiddio, ac yn anhawſach ei neccâu, ac ond odid tu hwnt i Mat. 13. 15
feddyginiaeth, yn anobeithiol. Hwch a olchir yn wyn nid Blowmon ne Aiphtiwr. Oferddyn ieuangc, yn haws na hên bechadur *calon galed*. Simon *Peter* yn ſuan Simon *Magus* ni ddaeth fyth ir iawn. Y mae yn anhaws ei wneuthur pa hwyaf? y mae pechod yn cael mwy nerth, y Cythrael mwy *llog oi hawl*. Duw mwy dig. naturiaeth a orchfygwyd, ei gallu a waethygwyd, ei chynneddfau a wanhychwyd, a ddiflanwyd, a ddiſ- Pſa. 7. 12
fwynhawyd or nerth i hynny. Y mae yn anhawſach ei Jer. 4. 22.
oddef. Y mae pechod wedi ei gorpholi i mewn, yr *Humoriau* heb eu diwreiddio, yn driganol, naturiaethaidd. Cyn gynted y tynnwch chwi i fynu hên bren a phechod wrth ei wraidd. Cyn hawſed i torri di allan

lan dy galon, ath *trachwant*, a chwdi dy *berffedd*, ath *ddefodau*, a bod heb dy aelodau, a'r cyfriw ddrygioni. O fy *enaid*. Os oedi physygwriaeth a laddodd *filoedd* o *gyrph*, ef a laddodd ddengmil o eneidiau. Na
Mat. 5. 29. ddyro heibio gan hynny moth ymwared, na oeda yr *amser* ac yn enwedig trwy y cariad fydd gennit ir nefoedd.

Na oeda gan hynny hyd *farwolaeth*. Canys beth o bydd honno yn *ddiſymwth*, ac heb roi i ti ddim amſer? neu dy *wallgofi*, a dwyn ymaith dy ſynwyr? neu yn felldigedig, a chadw ymaith Ras? A phe cenadhau i ti *yſpaid*, *ſynwyr*, a *phaich*, ym mha le y bydd dy ddiddanwch? Ai yn ol? Nid oes yno ddim iw weled ond golwg driſt ar fywyd, llawn o *euogrwydd* a *brychau*? Ai ym mhlaen? yno y mae r golygiad echryſlon ar vffern, ar holl boenau gruddfanus ar eneidiau damnedig, haeddedigaethau dyledus, am y cyfriw gamweddau. Nid oes i ti mor gallu i ddadwneuthur drygioni, nag amſer, i wneuthur yn well. Beth gan hynny? A editarhei di yma, a gwellhau yn y byd a ddaw? Am hanner dy waith, edrych am dy holl gyflog? Nage ni wnaethoſt mor hanner, onid ediſarhei ychwaneg. A edrychi di gan hynny i fyny? A wafaneatha i *Dduw miſerere mei Deus* neu *percaui*, a fodlona hynny? A fynni di i dri o lyfrau oth bechodau (meddyliau, geiriau, a gweithredoedd) holl roliau oth camweddau, gael eu torri ai chwythu i fynu a gwynt tri o eiriau, neu Silldafau? Fill ochenaid dalu iawn am fywyd llawn o euogrwydd? deigr (defnyn) olchi calon lawn o fudreddi? gruddfanau munud, ddadwneuthur drygioni dy holl oeſoedd?

A elli di ddiſgwyl hyn ar ei law ef, ſydd gyflawn, pryd nad oedd dy fywyd cyfan onid camarfer ei Ras ai drugaredd? A elli ei addaw i ti dy hun ac edrych eddiſewn? fod hyn yn ofn Duw, nid ofn Angau; nid allan o gariad i ti dy hun, ond o gariad ar Dduw? nid o gafineb ir boen, eithr i bechod; nid trwy drechu y cydwybod, eithr yn rhydd, a rhwydd? Ac oni elli di dy hun wyr ti yn edrych oddiallan, pwy ath ſicrhâ, ac ath ddiofalhâ? Rhiw ddiddanudd, a ddichon

chon leſaru trugaredd i ti, nial y rhoddwyd barn ffafrus ar lawer, a fuont fyw yn ddrwg, ac etto a fuont farw yn derbyn barn ffafrus. ſynghariad perffaith? nid dy ddedwyddwch di, yw r hwn a feddwl dy ſod ti yn ddedwydd: yr hwn ni wyr ef moi fod yn reſynus; eithr onid yw yn dy gael di, nid yw yn gadael mo honot yn ddedwydd. Pa beth wyt Barnwr y calonnau a wyr; beth a ddylit ti ſod Barnwr o gariad perffaith a obeithiaf: oblegit pryd na welo eglurdeb ir gwrthwyneb, y mae yn credu y goran o honot gyd ath Farnwr mawr. O ſy *enaid* gan hynny, na ad mor cwbl oll ir awr olaf; pryd y byddych i ſedi na fydd i hau dy ddiddanwch. 1 Cor. 13. 5. 7.

Oes i ti: 1. *Eſampl.* 2. *Ddameg.* 3. *Addewid* o obaith? y lleidr a droadd? ar ei alwad yr vnſedawr ar ddeg? Pa bryd bynnac, O na fydd y cyfriw yſpryd o bryf coppyn i ſugno gwenwyn allan o flodau ſanctaidd. Na fydded ſwynion neu Antidot a drugaredd, iw droi yn ſwyn galonnog o ryfyg. O thynni di allan o air Duw yſpryd drwg, ti ai anrheithi oi ſynwyr ſanctaidd, ac ni chei ddim addewid o bardwn, na gobaith mewn vnrhiw ddameg, neu eſampl ir fath leidr fy enaid gan hynny. Eſa. 38. 9.

1. Edrych ar y lleidr ar y groes, megis ar blentyn wrth y bedyddfaen, yn cael bedydd oddiwrth bechod, ai gadarnhau trwy griſt, felly yn marw ac yn gadwedig. Beth yw hynny i ti, yr hwn mal *Coproninius* yn ei fedydd (er pan fedyddiwyd ti) ni wnaethoſt ddim ond diwyno dy fedydd-faen? gwrthgiliwr yn dy fywyd i broffeſ dy *fedydd*? Eccl. Hiſt. 2 Pet. 2. 20

Edrych ar y lleidr ar y Groes megis ar ferthyr wrth y *Poſt*: *Credadyn*, *Sanct*, *Cyffeſwr* oll mewn *brwdaniaeth* a *Zel* ſanctaidd am Griſt, y diſcibl newydd a grogodd troſdo, pryd nad oedd yr vn or rhai hên yn ſefyll gyda cefo heb ymglywed a phoen i draelio ei anadl ac iw waſanaethu ef. mor barod i farw troſdo, a chyd ag ef, iw anrhydeddu ef. Heb. 6. 4

Edrych

Jona. 2. 20 Edrych ar y lleidr ar y Groes megis ar *Jonah* yn y môr. *Gwyrthiau* o Ras, Rhyfeddod o *ragweliad*. A deſli di dy hun ir môr gan hynny mewn gobaith i fod yn gadwedig? Trugaredd Duw ſydd *gefnfor*: etto os neidi di felly iddo, ti a elli *foddi*. Tydi yr hwn a adawaiſt y llong o fywyd da (y ffordd gynefin) pa fodd y gelli di edrych am gael dy ymddiffyn trwy *fragorfraint* vnig. Anghenfil o fywyd i fod yn gadwedig yn ei farwolaeth, trwy wyrthiau o drugaredd?

Edrych ar y lleidr ar y *Groes*, megis ar Sanct yn y neſoedd. na wna iddo dy gyſſuro di i yſpeilio Duw oi anrhydedd, a thithau dy hun oth ddedwyddwch. rhag i ti ei wneuthur i fod yn lleidr ym mheradwys hefyd. Na chanoneiſia mo honot dy hûn yn Sanct, wrth ei eſampl ef. rhag i ti ei ddifenwi ef yn bechadur er mwyn dy eſampl ar preſident, ath profi dy hûn yn wrthodedig trwy dy Ryfygiad.

2 Rhan. Na thybia gan hynny wedi darfod i ti fyw yn ddrwg yn y byd, ac yn dy groeſhoelio iw adael ef, wrth ffon gobaith dda i neidio i Beradwys, er bod or blaen yn ddieithr ddyn ollawl i Grift, gyd a'r hwn nid oes i ti mor llawenydd, oth croeſhoelio. nid oes dim cyffelybiaeth im-reſymmu oddiwrth ei vn vnig ef, fod dy gyflwr di yn vnrhiw.

2. Nid oddiwrth ddameg yr vn *awr ar ddeg*, ith *alw* di ar y *diwedd*; Canys: Beth os yr orriau. hynny oeddynt yr oeſoedd or byd. Yno oddiwrth ddyfodiad cyntaf Crift iw ail, ydyw yr vnfed awr ar ddeg. A Pheth os oeſau dyn ydynt? meddwl fy enaid pwy a alwed? ef, yr hwn nid oedd ynghyflog or blaen.

Mat. 20. 7. eithr pa cyn fynyched y cefaiſt di gynnygion, ac a wrthodaiſt? meddwl gan hynny am y pumb morwyn yn gyſtal ar pumb llaſurwr. Ac am *Swpper* y brenin, megis am geiniog. Ac am dy eſceuluſdra beunydd, edrych yn hytrach am dy gau allan, nath ollwng ir neſoedd. Ac i ba beth? i weithio nes bod yr amſer ith obrwyo? fy enaid, marwolaeth yw r amſer i gymeryd

Joa. 9. 40. y geiniog. Y nos yn yr hon ni eill neb weithio, a'r pryd y dylaſic ddiweddu, ni ddechreuaiſt di moth waith? Ac *i ba le?* ond i winllan yr *Eccleys*? allan o farchnadle y byd? ac nid wyt ti yn gwneuthur dim ond

ſefyll

ſefyll yn ſegur, neu wneuthur drwg yn y winllan, er pan gymered ti i mewn trwy *fedydd ?* A phwy ſydd yn galw ond yr *Arglwydd ?* Ac os gwrthodi ei waith ef, oll ddyddiau dy fywyd, a eilw ef di yn dy farwolaeth i gael cyflog ganddo ? yr vnſed awr ar ddeg gan hynny a eill ſod yn gyſtal a'r y borau neu brydnawn, neu r nos oth fywyd. nid oes obaith gan hynny, er dy alw mewn pryd, y deui, hwyr a ſydd cyn y delych di.

3. Ac nid ydyw hwnnw yn addo cimaint. *Pa bryd bynnac.* Y mae yn dangos y caiff yr *edifeiriol Bardwn.* eithr ym mha le y dengys, y bydd y pechadur yn *edifeiriol ?* os bydd medd ef, nid yw yn dywedyd y *bydd.* Ac mae n rhaid bod o eigion y galon, nid oddiwrth phanſi ddychrynedig, neu fin gryniad ſy enaid. ffordd bell yw o ben vchaf y galon ir gwaelod : A throead yw oddiwrth anwiredd, nid yn ei erbyn ef. hynny ſydd yn cyrraedd ir bywyd o'r galon, eithr y cla wely ni eill wneuthnr hynny. ac er ei ſod pryd, nid yw pa weddi bynnac, ie, ac er hynny ei gyd y mae terſynan ir pryd bynnac hwnnw ; Amſer goſodedig i *Jezabel* Dydd i *Jeruſalem*, amſer ir byd. rhy hwyr y gelli ediſarhau, rhy gynar ni elli, o bydd yr awr wedi rhedeg, yr hanl wedi machludo (er nad yw ond canol dydd anianol) gwae dydi, y mae yn rhy hwyr. Drws y Drugaredd, er iddo ſeſyll yn hir yn egored, ef a gauir or diwedd Doethineb ei hunan a gae yr drws. Yr holl rai hyn gan hynny, a ddadlenant ychydig troſot.

Ita verſio Liturgica. y troed yngweddi yr Ecclwys. Jer. 17. 9. Pſa. 64. 6.

Na onid yw pob vn, lawer yn dy erbyn ? Canys ſy enaid, os o ddan leidr yr oedd vn yn ddamnedig, ond cynglwyſt vnion pa vn a wnant ai bod yn gadwedig ? Pa vn a wnai di ai marw yn edifarhau, ai yn cablu, mal y lleidr ar y llaw ddehau, ai ar y llaw aſwy ? (ond ſelly y mae yn y Preſident ? os gelwir rhai ar yr vnſed awr ar ddeg ; eithr oll or blaen, or gyntaf hyd at honno ; onid oes deg i vn o ragor, os gelwir di ſyth, os eſceuluſi di orchwyl dy *alwedigaeth* hyd yr *vnſed ar ddeg ?* (ond ſelly y mae yn y ddameg ? Os y pryd hynny (ac nid tan y pryd hynny) yr *edifarha*, y *caf fyw* ; onid yw gant i vn, na cant mil i vn o ragor os oedaf y caf farw ? onid hon yw r porth cyſyng, yr hon eiſiau

meddwl,

meddwl, neu amſer neu Râs, ychydig ài cânt, oblegit vddvnt ei geiſio trwy bechod, yr hyn y mae yn anawdd ganddynt ei golli, nes colli y bywyd yr enaid a chwbl oll? onid felly y mae wrth yr addewid? St. *Ierom* a
Mat. 7.13 ddywaid: fy enaid. nid yw yn marw n dda, or rhai a
Eſa. 55.6. ſu fyw yn ddrwg vn o gant o filoedd. Ac i brofi hyny. O Adda hyd Grift, a fu fyw a marw felly, ni ddarllenwn ond o vn, ond vn o lawer miloedd o furddiwn *heb oedi* gan hyny, nod yr awr hon dychwelwch
Joel. 2. 12. atto ef ach holl galon, ag ympryd ac ag wylofain ac a galar a rhwyga dy galon ac nid dy ddillad, a thro at yr Arglwydd. medd yr Arglwydd yr wn ni ymlawenhâ yn dy farwolaeth di bechadur truan, pôb y bynnac wyt. ac am hynny a fynnai i ti trwy wir ac amſerol edifeirwch, ail ynnill dy iechyd ath fywyd: Canys oddiwrth glefyd yr enaid, y mynnai Dduw dy iachau.

Fy *enaid* hynny allai fod yn *iachus*, eithr yn waith
Jer. 4.3. blinedig, aredig i fynu dy galon, a llyfnu dy holl ddyn, a beunyddol barhaus ddyled-waith, fe ath wna yn llewygus, ac ond odid rhyw dir a ddiangc heb gyfwrdd, a rhai tyweirch heb dorri: a phan wnelir y cwbl fe fydd rhyw fethiant, ac eiſiau edifarhau dy wir edifeirwch; ith cyſuro ath cryſhau gan hynny yn erbyn hyn. lluniaeth a wnaethbwyd it gan Drugaredd Dduw. A

2. *Ffydd yw y ſwyn galonnawg*

1 Tim. 1.5 Ac am ei defnyddiau ai rhinweddau (os vnion fydd) tranodedig yw; anrgem neu Coral nid ynt iw chyffelybu iddi. *llaw Dduw* nid yw: Gwaed Criſt ai gwna hi. ie gwaed ac yſpryd Duwdod a Dyndod, rhinweddau, a gwyrthiau. Y peth a wnaeth ef, dywaid dioddef. Criſt oll ac oll Griſt ydyw: Criſt yr vnig gordial neu feddyginiaeth i enaid pechodlawn. neb tebyg iddo, neb ond Criſt ac Jeſu. neb ond hwnnw. enw goruwch oll enwau, bara ir newynog, dillad ir noeth. rhydd-dyd ir caeth, cyfoeth ir cardottyn, nerth ir llewygus,

llewygus, goleuni ir tywyllwch, bywyd ir marw, ymwared ir rhai colledig, oll ſydd yn Jeſu ſy enaid. Criſt ſydd enw o feddyginiaeth, Jeſu o iechyd. yno y mae ei olew, eithr yma ei Jechydwriaeth. llawenydd a gai ynghriſt, eithr dy ddedwyddwch yn Jeſu. Jachad ſydd tan ei adenydd, ymwared yw ei orchwyl, iechyd yn ei enw, prynedigaeth ei Swydd: yn erbyn pechod, vffern, euogrwydd, digofaint, diafol, Angau, briwiau, llewygoedd, ffeintiau nid oes vn achles ond Jeſu. Gal. 3. 27.

A ffydd a wna ein cyſylldi adwrth. Y llygad ar hwn y gwelaf ef, y troed ar yr hwn y deuaf atto ef. Y llaw a'r hon y cymeraf ef. Y fodrwy ar hon y periodaf ef. y Tŷ yn yr hwn y cyfanneddaf gyd ag ef. Y Bwrdd ar yr hwn yr ymborthaf arno. Y gwely ar yr hwn y gorphywyſaf ynddo. Y wiſc yn yr hon im dilladaf. Yr enaid trwy r hon yr wyf yn byw ynddo. Y corph trwy r hwn y mae ef yn byw ynddo fi. Y peth ſydd yn vno mal hyn at yr oll-gadwedigol ddiddanudd, ſydd raid iddo fod yn gordial a ſwyn ragorol. Ac oddiyno y mae ynddo yr yſprydoedd o ddiddanwch. gobaith yn erbyn llewygau oſn. tynghneddyf yn erbyn gorthrymderau euogrwydd. llawenydd yn erbyn pendrwmni yr yſpryd. ſy enaid. Os trwy boen galed, a dirweſt, mal Jonathan y dechreu dy olygon fethu, ath nerth lewygu, llawenydd ſydd fêl iw gloiwi hwynt, ath ſywhau di. Os gyd ag Iſrael yn yr anialwch yma o eiſiau ac alar, yr wyt yn barod i ſoddi, ac i ddiflannu: tynghneddyf yw r manna ith borthi ath cynnal di. Os gyd a *Dauid* y gwywoedd dy eſgyrn gan drymder calon, y llawenydd hwn ſydd fêr iw ireiddio hwynt ath cryfhau dithau. Heb 9. 11. Eph. 3. 17.

Ac onid yw vnion, nid yw dy ffydd fel hyn. Ac ſy enaid, gan fod dy holl ddiddanwch yn ſefyll ar hyn, edrych am dani, canys nid oes ffydd i bawb, ac i ychydeg wir ffydd. lliw rhagrithiol ar ffydd nid yw feddyginiaeth vnion i gydwybod. ac y mae llawer o ragrithiau. Theſ. 3. 2. 1 Tim. 1. 5

1. *Siomedigaeth wâg*: pryd nad yw yr hyn yr wyt yn Eſay 8. 20.

meddwl, neu amſer neu Râs, ychydig ài cânt, oblegit vddynt ei geiſio trwy bechod, yr hyn y mae yn anawdd ganddynt ei golli, nes colli y bywyd yr enaid a chwbl oll? onid felly y mae wrth yr addewid? St. *Ierom* a
Mat. 7.13 ddywaid: fy enaid. nid yw yn marw n dda, or rhai a fu fyw yn ddrwg vn o gant o filoedd. Ac i brofi hyn-
Eſa. 55.6. ny. O Adda hyd Grift, a fu fyw a marw felly, ni ddarllenwn ond o vn, ond vn o lawer miloedd o furddiwn *heb oedi* gan hyny, nod yr awr hon dychwelwch
Joel. 2. 12. atto ef ach holl galon, ag ympryd ac ag wylofain ac a galar a rhwyga dy galon ac nid dy ddillad, a thro at yr Arglwydd. medd yr Arglwydd yr wn ni ymlawenhâ yn dy farwolaeth di bechadur truan, ond y bynnac wyt. ac am hynny a fynnai i ti trwy wir ac amſerol edifeirwch, ail ynnill dy iechyd ath fywyd: Canys oddiwrth glefyd yr enaid, y mynnai Dduw dy iachau.

Fy *enaid* hynny allai fod yn *iachus*, eithr yn waith
Jer. 4.3. blinedig, aredig i fynu dy galon, a llyfnu dy holl ddyn, a beunyddol barhaus ddyled-waith, fe ath wna yn llewygus, ac ond odid rhyw dir a ddiangc heb gyfwrdd, a rhai tyweirch heb dorri: a phan wnelir y cwbl fe fydd rhyw fethiant, ac eiſiau edifarhau dy wir edifeirwch; ith cyſuro ath cryfhau gan hynny yn erbyn hyn. lluniaeth a wnaethbwyd it gan Drugaredd Dduw. A

2. *Ffydd yw y ſwyn galonnawg*

1 Tim. 1.5 Ac am ei defnyddiau ai rhinweddau (os vnion fydd) tranodedig yw; anrgem neu Coral nid ynt iw chyffelybu iddi. *llaw Dduw* nid yw: Gwaed Criſt ai gwna hi. ie gwaed ac yſpryd Duwdod a Dyndod, rhinweddau, a gwyrthiau. Y peth a wnaeth ef, dywaid dioddef. Criſt oll ac oll Griſt ydyw: Criſt yr vnig gordial neu feddyginiaeth i enaid pechodlawn. neb tebyg iddo, neb ond Criſt ac Jeſu. neb ond hwnnw. enw goruwch oll enwau, bara ir newynog, dillad ir noeth. rhydd-dyd ir caeth, cyfoeth ir cardotryn, nerth ir llewygus,

llewygus, goleuni ir tywyllwch, bywyd ir marw, ymwared ir rhai colledig, oll ſydd yn Jeſu ſy enaid. Criſt ſydd enw o feddyginiaeth, Jeſu o iechyd. yno y mae ei olew, eithr yma ei Jechydwriaeth. llawenydd a gai ynghriſt, eithr dy ddedwyddwch yn Jeſu. Jachad ſydd Gal. 3.27. tan ei adenydd, ymwared yw ei orchwyl, iechyd yn ei enw, prynedigaeth ei Swydd: yn erbyn pechod, vffern, euogrwydd, digofaint, diafol, Angau, briwiau, llewygoedd, ffeintiau nid oes vn achles ond Jeſu.

A ffydd a wna ein cyſylldi adwrth. Y llygad ar hwn Heb 9.11. y gwelaf ef, y troed ar yr hwn y deuaf atto ef. Y llaw a'r hon y cymeraf ef. Y fodrwy ar hon y periodaf ef. y Tŷ yn yr hwn y cyfanneddaf gyd ag ef. Y Bwrdd ar yr hwn yr ymborthaf arno. Y gwely ar yr hwn y gorphywyſaf ynddo. Y wiſc yn yr hon im dilladaf. Yr enaid trwy r hon yr wyf yn byw ynddo. Y corph trwy r hwn y mae ef yn byw ynddo fi. Y peth ſydd yn vno mal hyn at yr oll-gadwedigol ddiddanudd, ſydd raid iddo fod yn gordial a ſwyn ragorol. Ac oddiyno y mae ynddo yr yſprydoedd o ddi- Eph.3.17. ddanwch. gobaith yn erbyn llewygau ofn. tynghneddyf yn erbyn gorthrymderau euogrwydd. llawenydd yn erbyn pendrwmni yr yſpryd. ſy enaid. Os trwy boen galed, a dirweſt, mal Jonathan y dechreu dy olygon fethu, ath nerth lewygu, llawenydd ſydd fêl iw gloiwi hwynt, ath ſywhau di. Os gyd ag Iſrael yn yr anialwch yma o eiſiau ac alar, yr wyt yn barod i ſoddi, ac i ddiflannu: tynghneddyf yw r manna ith borthi ath cynnal di. Os gyd a *Dauid* y gwywoedd dy eſgyrn gan drymder calon, y llawenydd hwn ſydd fêr iw ireiddio hwynt ath cryfhau dithau.

Ac onid yw vnion, nid yw dy ffydd fel hyn. Ac ſy Theſ.3.2. enaid, gan fod dy holl ddiddanwch yn ſefyll ar hyn, 1 Tim.1.5 edrych am dani, canys nid oes ffydd i bawb, ac i ychydeg wir ffydd. lliw rhagrithiol ar ffydd nid yw feddyginiaeth vnion i gydwybod. ac y mae llawer o ragrithiau.

1. *Siomedigaeth wâg*: pryd nad yw yr hyn yr wyt Eſay 8.20. yn

yn ei gredu ond *phanfi*, nid gair Duw. neu ddadcuddi-
Eph. 1. 8. ad (mal y tybi di) *newydd*, eithr yngwrthwyneb ir
Lucher. *hên.* Canys oni phriodir ffydd ar gair y cyſſur a ddwg
2 Theſ. 2. ſydd ordderch. ſiomedigaeth oll:
11 2. *Dall ymrwymiad* ei feddwl, ſydd dwyll heſyd. Yngwirionedd i roddi dy feddwl i fynu mewn crediniaeth ollawl ir hyn a ddywaid ef, ſef Duw, er ei ſod vwchlaw neu yngwrthwyneb dy ſynwyr, ſydd vnion: ac i weled *gormodedd* i ſechydwriaeth (er ei ſod yn wirionedd dadcuddiedig) a golygon yr ecclwys, nid yw ddrwg. Ond *angenrheidiau* rhaid i ti eu gweled ath olwg dy *hun.* A gwybod yr hyn yr wyt yn ei *gredu*, ac nid byw wrth ffydd vn arall, oni fynni dy lawenydd mewn *calon* arall.

3. Oſer *weledigaeth.* nid hynny yw chwaith. Y mae yn cymeryd gwaith mawr mewn llaw, i lanhau *Stabl Angeus*, ſef y *galon*, ac i laſurio am beradwys, cadw gorchymynnion Duw, y mae yn ei gymeryd mewn llaw. ac nid yw yn gwrthod poen yn y byd a fedro ſynwyr ei ddychymyg yn boſſibl. nid yw ond diddanwch ſegur a geffir gan *ffydd chwareus.*

4. Ymddiriaid mawr, nid yw yn ei gwneuthur yn dda bob amſer; Canys diogelweh o iechydwriaeth, a ddichon fod heb wir ffydd. a hithau yn wir heb y diogelwch. dyna effeith vn gref. nid hanfod pob vn oll nid yw pob gwr yn gryf Y gwynt mewn rhyw fannau eill waſanaeth i wneuthur ffordd ni chaiff pobriw
1 Tim 1. long moi liiain hwyl yn llawn. ac oni bydd y llanw neu
19 r ballaſt wedi ei gymwyſo ai oſod yn vnion-bwys a chydwybod dda oſtyngedig, ſe eill yn gyſtal ddymchwelyd y llong, ai dwyn i mewn ir porthladd. Os tyner, hi ſuddo mewn anobaith os gerwindew hi ai hyllt hi a ryſygiad; dim cyſſur gan lawer ond megis ſugnfor neu graig ir moriwr. oni pherſwadir yn ollawl gyflawn, ni bydd vn ffydd gan lawer.

Dad. 3. 17. 5. *Opinion* da ſydd lai. er bod eraill yn cyd-redeg a
18 myfi am danaf fy hun. beth ni fyddwn, os gallwn fod fel y mynnwn? Nid wyf mewn cyflwr dedwydd o ran fy mod i yn tybed fy mod, eithr rhaid i mi yn gyntaf fod felly, ac yno y gallaf gredu hynny. Os difail a diair, crediniaeth dda ſydd ffydd ddrwg: o herwydd

ti

ti a geiſit vn well, oni bai dy ſod ti yn rhyfygu ei bod mor dda.

6. Goruwchwiliaeth ddrwg (hynny ſydd waethaf or cwbl i gynnyddu yn hyf i bechu, o herwydd bod yn ſicer or nefoedd: Megis nad yw *ffydd* vn amſer heb obaith, yſpardûn i ddaioni, felly nid yw heb ofn, ffrwyn drygioni. Noah a gadwed trwy flydd, a adeiladodd yr Arch rhag ofn. Os trochi di dy hun mewn moroedd o bechod, ti elli drigo, er dy holl ffydd. Os *Perffaith* fydd, y mae iddi ddaul ygad, vn am addewidion, ar llall am orchymynnion (dwywawl air a theſtiolaeth yw r ddau:) ni eill bywyd drwg, mwy ſefyll gyd a ffydd dda, na chlefyd mawr i fod gyd ag iechyd Da. 2 Pet. 1. 10 Phil. 2. 12.

Nid yr vn or rheini gan hynny yw. Ymddiriaid yn Nûw am iechydwriaeth trwy griſt, yn ol ei Air, dyna r ſylweddol brif feddyginiaeth, iachauol gadwedig ffydd. Jo. 3. 5.

Nad oes yr vn ond trwy Griſt, ydyw ffydd y *Cythrael.* nad oes yr vn trwy Griſt, ond mal y gwnaeth amodau ac yr ewyllyſia ydyw ffydd y *Seinctiau.* Act. 15. 11

Fy *enaid,* er bod dy edifeirwch yn vnion, ath ffydd yn bur, ar ddau yn dy oſod yn dda, yr holl gwbl ſydd ar y gwaethaf, oni *chedwi* di felly: Am hyn trugaredd a wnaeth y feddyginiaeth. Ac Dad. 13. 10

Vſudd-dod newydd yw r cadwadigaeth.

Yn *Adda* ſy enaid yr oedd y cyſamod, gwna hyn neu marw a fyddi; oll neu ddim, yn ollawl neu ddim: eithr ynghriſt, yr hwn ſydd yn yſtyrried ac yn cynnorthwyo dy wendyd, ai haeddedigol raſuſol ymwared, yr ammod a roed ſel hyn, ewyllyſia ac ymegnia i wneuthur oll, bydd vnion yn dy amcan. Caſhâ bechod mawr, na châr vn pechod. ffo rhag y gwaethaf, na ddilyn yr vn. ffieiddia ſcelerder, na ymhyfryda mewn gwendyd. nid ai hyn am vſudd dod yn yr hên amſer, am hynny y gelwir y newydd. 3. Rhy. Gal. 3. 12.

Ath iechyd a gedwir ac a ymddiffynnir yn ddedwyddol trwyddo ef. Heb. 13. 18. 21.

Joa. 9. 11; Eph. 5. 3. Y mae yn cynnal dy edifeirwch, ac yn ei brofi yn bur, y mae yn cynnal dy ffydd, ac yn ei gwneuthur yn gadwedig. Y mae yn dy ymddiffyn dy hun yn y ddau, ac yn dy gadw yn fyw. hyn oedd gadwedigaeth Saint *Joan fedydiwr*, St. *Jaco*, St. *Paul*. Y mae yn dy gadw rhag gwrthgiliad, mal na chwympech ar ŵyr oddiwrth Dduw, ac oddiwrth Anobaith, na chwympech yn fyrr o hono ef: Ganys purdeb yw mam gwaſdadrwydd, a mamaeth gobaith. euogrwydd a wiſc ymaith, Aur a bery; yr euog a ofna Farn, y galon oneſt ai gobeithiaf, Cadwedigaeth St. *Luc.* a St. *Joan.*

Y mae yn dy ymddiffyn tan dŷ Groes, bauch dy gnawd, ac yn erbyn *Temptaſiwn*, (gorthrymder dy yſpryd) Croth anianol i ammynedd a llysfam i hiliogaeth diafol. euogrwydd a wanhychu y cefn. diniweidrwydd a rydd nerth i ddwyn y Groes. Prennau heb fawr wreiddio, a chwthir i fynu gan wyntoedd chwerwon; y rhai a wreiddiodd yn dda, a ſaif yn erbyn pob gwynt; ie trwyddynt hwy yn gwreiddio yn well, ac yn gryfach i ſefyll, cadwedigaeth *Job* Sanctaidd a *Joſeph* hefyd.

Job 8. 13. o'r 27. 8. Jer. 32. 40

Y mae yn ymddiffyn, yn erbyn beio yn fawr ar wendyd eraill (tramgwydd mawr) a thybied yn rhydda o honot dy hun (Rwb mawr) yn y ffordd ir nefoedd. Rhagrith a farna eraill, vniondeb ai barn ei hun. Y mae yn cadw y galon rhag beiau mawrion, ac nid yw Duw yn goſod iw erbyn gamweddau bychain: Chwaer cariad perffaith, a merch Trugaredd. Cadwedigaeth *obed* ac *Hezeciah*.

Pſal. 1. 4 Gen. 39. 10

Y mae yn ymddiffyn Gweddi mewn ffafor, Ar Gair yn ei lawn-ffrwyth (egoriad, a drws y nefoedd) hwnnw ſydd eglur, a hwn a egyr. Y mae yn ynnill gwrandawiad gan gluſt Duw, ac yn rhoddi i hwn fynediad i mewn i galon dyn; yn peri parch mawr i weddi, ac yn arlwyo croeſaw dyledus ir gair, Dadlenwr gweddi, a Threſorwr ir gair. Cadwedigaeth Brenin *David* a Bren. *Salomon*.

1 Joa. 3. 20, 21

Y mae yn ymddiffyn yn erbyn pechod, (porth vffern) ac yn erbyn y byd (colyn pechod) y galon wag ni throſedda yn egored, na r vnion yn y dirgel. Y cyntaf yn edrych at olwg dyn, ar ail a'r olwg Duw.

Luc. 2. 19

Ac

Ac am hynny ni feiddia bechu yn vnlle o herwydd ei fod ef yn gweled Duw ym mhob lle. y corph diwair, ni fyn nai hudo nai dŷchrynu i wneuthur drwg. Y galon, yr hon ſydd iddi a neullduoldeb i Dduw, a edrych ar y byd megis ar hudol diafol; ac ni ddichon nag afiaeth, na gefyn nag arddwrn-dlws, na r menig duon, na Chadwynau, aur neu hauarn, ynnill neu golled, na merthyrdod nag anrhydedd, na chywilydd, ei demptio ef i fod yn ddrwg. Cadwedigaeth *Abraham* Sanctaidd: a *Daniel* brophwyd. Fy enaid a elli di fod yn golledig, a chael y fath gadwedigaeth? Na elli os bydd o waith Duw. Eithr am ei fiwgwr ef na chymer mo mercuri Satan. Job. 3. 27.

1. I fod yn gywir ith Tu, ac yn ffyddlon ith ffordd, ath holl galon, ath enaid; nid yw hynny ddim oni bydd yn Union. Na, i lynu wrth, a pherchnogi y gwirionedd, ar daioni ym mha le bynnac y gwelych, ai hoffi ai garu, hynny yw bod yn gywir i dduw, pwy bynnac a fo ar dy blaid neu yn erbyn dy blaid. Onide mwy gennit am dy blaid nag am Dduw. Act. 20. 19

2. I ddymuno oth calon fod fel y dylit ac etto heb wneuthur dim tu ac at hynny, ond gwir ddymuniad, y mae hynny yn beth yn yr ymddwyn, eithr dim mewn genedigaeth. er ei fod er mwyn Chriſt dy waith da, oni bydd dy amcan yn cydredeg, nid yw hyn cimaint a dymuno. Oni bydd yn effeithiol (yr hyn yw r vn peth, Canys Duw ſydd yn gweithredu ynoch yr ewyllyſio, &c. Y peth nid yw yn myned ddim pellach yn dy gyfrif di, a eill ddyfod i lawer, eithr gyda Duw nid yw yn dyfod i ddim. Act. 24. 26

3. Ac nid yr ymegaio ar weithred hefyd, a wafanaetha, os bydd yn vn vnig er mwyn rhyw ddaioni, ac yn erbyn rhyw ddrwg; neu am lawer, nid am y cwbl oll. Gwir vfudd-dod ni rydd ryddyd oddi wrth un gyfraith, pur vfud-dod ni feiddia ofyn neu gymeryd cennad neu rydd-dyd mewn vn lle i wrthryfela. Num. 23. 10.

Fy enaid. na phorth na natur lygredig ar cyfriw feluſion a'r rhain. er ei bod yn ymddangos yn ſiwgroedd nid ydynt ond *mercuri* pur, neu wenwyn. nid wedi ẽ gwneuthur er mwyn dy lechyd, ond ith nychdod, nid
Job 20.12 meddyginiaeth ond gwenwyn ith fywyd, nid cadwe-
Ezec. 13. digaeth, ond lladdadigaeth, y llwybrau i vffern a mar-
19 wolaeth. Mal yr ofni hwynt, edrych yn dda arnat dy hun. na chamgymer wenwyn am dy *Phyſygwriaeth*, calon pur (mewn gwirionedd nid ar y gau) ydyw'r hon a goledda, ac a ymddiffyn dy fywyd.

Ac yn awr ſy enaid, gwel oll ar vnwaith: yr hyn ſydd reidiol ith iechyd. 1. Y modd i brofi. 2. Y modd i gymeryd. 3. Y modd i breiſio ac i yſtyrrio y cwbl oll.

1. Vn, wrth y llall ydyw y ffordd orau iw profi. Edifeirwch ffrywys neu flaenllym heb ffydd, ſydd gyſtudd diobaithiol. ffydd heb vfudd-dod, Rhyfygiad hyf. yn ol drachefn, vfudd-dod heb ffydd, gwaſanaeth dall, diwarantadwy. ffydd heb edifeirwch Crediniaeth wan ddiwarantedig.

I edifarhau, ac heb gredu, yw goſod y ſailfeini heb adeiladu, i gredu, ac heb vfudd-hau, ydyw adeiladu heb dô ar y gwaith, I gredu, ac heb edifarhau, yw adailadu heb ſail dda neu rowndwol. edifeirwch ei hu-
Act 20.21 nan, yw dychwelyd o glwyf heb gael nerth. ffydd yn
ar 26.20. vnig, nerth heb arfer. vfudd dod yn vnig, tywyllni a chryfder. trowch hwynt a chymerwch fel y mynnoch, dyma eu profi yn vnion. hwnnw ſydd edifeirwch vnion, ſydd a ffydd ac vfudd dod iw ganlyn. vfudd-dod vnion bur yw yr hwn ſydd a ffydd ac edifeirwch oi flaen ef. Gwir ffydd yw, yr hon ſydd ag edifeirwch oi blaen ac vfudd dod oi hôl. ſy enaid gan hynny, rhaid i ti iechyd, gael y cwbl oll; os mynni di ef yn wir, yn bur, ac yn vnion.

2. Ac a fynni di wybod, y modd y mae i ti eu cymeryd hwynt oll? yn ddiau nes i ti fod yn
1 Cor. 13. y nef yn iach berffaith, y mae yn rhaid i ti arfer ar y
9 ddauar Phyſygwriaeth beunyddol; edifarhau bob *dydd Credu* bob *awr*, *vfuddhau* bob *munudyn*.

Nid oes vn dydd nad wyt yn pechu. Vn nos gan hynny,

hynny, nad rhaid i ti edifarhau. os brwnt, rhaid it y-
molchi, os euog, gofyn *nawdd* os *Claf* ceifio *meddygini-* Mat. 6. 12
aeth beunydd.

Ni phechaiſt errioed, na byddai eiſiau Jachawdwr. Mic. 13. 22
errioed yn dda, na byddai raid *ffafor*. O waed i lanhau euogrwydd y drygioni: O wiſc i guddio anafau dy ddaioni. Pa waed ond oi yſtlys ef? Pa wiſc ond a'r ei gefn ef? Ple arall fy enaid, y gelli iachau dy friwiau, neu guddio dy archollion, ond tan gyſiawnder ei fywyd diniwaid, porphoreiddiol yn ei werthfawroccaf waed? onid wyt ti gan hynny, vn dydd heb pechod, ni elli fod heb Griſt awr, rhag wrth fod mewn eiſiau o Jachawdwr, dy fod yn gollcdig yn yr vnig funud orh pechod; yn ei waed ef gan hynny y rhaid i ti ymolchi. Cymeryd noddfa yn ei haeddedigaeth; dy guddio dy hun tan ei wiſc, ceiſio trugaredd er ei fwyn, hynny yw credu bob awr.

Ac vfuddhau iddo bob munudyn: Canys yn ſicr fy enaid, y mae yn rhaid i ti na ddigych vn amſer, mor hwn ſydd raid i ti wrtho beunyddol. Cais funudyn o bryd y mynit ti fod yn vffern hebddo ef, a chymer yr amſer honno iw ddigio ef. ymwarediad tragywyddol, a haeddai ddiolch *gwaſdadol. iddo ef an carodd ni, ac an golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed.* ac (o Dad. 1. 5
gaethiau ac *alltudion* i *Satan*) an gwnaeth ni yn frenhinoedd, ac yn offeiriaid, i Dduw, ac iw Dad ef, iddo ef y byddo y gogoniant a'r llywodraeth (ac am hynny oddiwrthym ni barch ac vfudd-dod) yn oes oeſoedd. *Amen.*

3. Felly fy enaid, cymer hwynt. Ac a elli di eu priſio hwynt lle talant? nid byth yn ormod. Jechyd dy gorph di a dal yr holl fyd, eithr dy enaid dy hun a dal o werth, mwy na degmil or bydoedd, deg murdd o gyrph, ef a dal gimaint ac Jechydwriaeth, neu ac a dal tragywyddoldeb, tu hwnt i bob priſ. Cimaint ac a dal dy Griſt, dy Jachawdwr dy Dduw o werth; vwchlaw myrddiwn o Jechydwriaeth.

Canys edifeirwch a iachâ dy gletyd, ffydd, ath eſyd yn *bur*, vfudd-dod ath ceidw yn nerthol: y cwbl oll, ath rydd mewn cyflwr o iechyd da a pherffaith, ac felly

ath cadwant rhag marwolaeth. Ac fy enaid prifia o ffydd vwchlaw y cwbl oll. felly y mae Duw, ac am hynny yn dodi dy iechyd arni yn vnig. iw dangos hi yn bennaf : ac felly y mae. nid yw edifeirwch ond parodrwydd iddi : vfudd-dod cadwedigaeth o honi : ffydd yw y Gras Riol, Edifeirwch y gwas yn myned or blaen, vfudd-dod yn dwyn y godre ar ol, y frenhines fam i hon, y feiſtres ir llall llywydraethwraig ir ddwy.

Col. 3. 11

O fy enaid y cordial ſydd vwchlaw oll, o herwydd Criſt ſydd oll yn oll eminteſſens neu r pumblyg hanfodiad o rinwedd nefol. Elixar yr holl Ras, gwir yſpryd Daioni, a pherpheithrwydd yr holl berpheith-radau, yn gyſtal yn y nefar ddaiar. gwell i ti na ddygech galon yn dy gorph ac a na ddygych hwn yn dy galon. o na âd ir offeryn gwyrthfawr hwnnw fyth eiſiau yr hanfod ſanctaidd yma. Cyfrif dda bydol yn wêr wrth yr olew hwn. holl ddifyrrwch yn farwolaeth, wrth y llawenydd hwn. holl anrhydedd yn gywilydd, wrth y gogoniant hwn. Cadw dy Griſt fel dy goryn, dy fywyd, (megis coron dy fywyd) dy goron anfarwol, a chadw dy ffydd mal yntau, canys ti a gai, ac ai deli ef ynddi. Cadw ef megis dy Jachawdwr, ath ffydd megis dy Jechydwriaeth. Ef megis dy etifeddiaeth, a hon megis dy hawl. Ef megis yr vnig noddfa i enaid gorthrymedig, a hon megis yr vnig lwybr o fynediad atto. Os diffygion a fydd yn dy edifeirwch, a beiau yn dy vfudd dod (mal y geill fod. ac y bydd) ffo trwy ffydd at dy noddfa. Cuddia dy hunan yn ei archollion : glŷn ynghurn yr allor ; ymluſga tan ei edenydd ; Bydd farw yn ei freichiau ; Dos rhed oddiwrth y cynllynwr hwn, am waed ir ddinas honno o noddfa : Dos i fewn trwy dy ffydd.

Sef y galon.

Ac fy enaid, cadw dy offeryn yn lan nad el yr Elixar allan. golch hi ag edifeirwch, a ſych hi ac vfudd-dod, mal y cadwer felly, gwnelant y ddyled honno iddi hi, yr hon ſydd yn gwneuthur cimaint daioni a help vddynt hwy. Ac yno fy enaid, ti a gai fod yn iach ac yn gryf, ac yn ddedwydd ynddynt oll.

Nid oedd gynt yn yr *hên* amſer mor cwbl oll yn ddigon

gon, er mwyn dy iechyd ; eithr Criſt a gyfryngodd y cyfammod ſel hyn o newydd. Ac i wneuthur y ddyled hon, Duw er ei fwyn ef a roddes i ti allu. Gallu o Râs i wneuthur iddo ef waſanaeth cymeradwy. Cymer ei Air ef am hynny, y mae yn addo y gwna : ai orchymyn gyd ag ef, Canys, ef a ddywaid, rhaid i ti : Heb. 8. 6.

Mi roddaf i chwi galon newydd, yſpryd newydd heſyd a roddaf i chwi a thynnaf y galon garrec och cnawd chwi, a mi a roddaf i chwi galon o gig. Rhoddaf heſyd fy yſpryd och mewn, a gwna i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau, ai gwneuthur. Am hynny medd yr Arglwydd Dduw, *edifarhewch a dychwelwch oddiwrth eich holl gamweddau, mal na byddo anwiredd yn dramgwydd i chwi. Bwriwch ymaith eich holl gamweddau a gamweddaſoch ynddynt, a gwnewch i chwi galon newydd, ac yſpryd newydd, Canys paham ty Iſrael y byddwch feirw.* Ezech. 36. 26, 27.

Canys nid oes ewyllys gennif i farwolaeth y marw, medd yr Arglwydd Dduw, *dychwelwch gan hynny a byddwch fyw.*

Swm y neullduol draethawd hon.

DUw a ragddarparodd feddyginiaeth yn erbyn methiant yn ei wasanaeth ef.

1. *Edifeirwch yw r Rhwymedi cyntaf i bechadu, a meddyginiaeth bur or lanaf. Profiadau o honi.*

Ei chymeryd wrth ei hanneraw, neu ei hoedi yn rhybir ni wna mo honi yn gadwedigol.

2. *Ei hoedi ir amser a ddel ſydd beryglus; hyd farwolaeth, ſydd anobeithiol.*

Ffydd yw r cordial neu r ſwyn galonnog tragwerthfawr, canys Criſt yw r prif a'r vnig ddeunydd o honi, ac a gymerir ganddi, yr yſprydoedd godidoccaf a gair trwy y cordial o wir ffydd. Chwe rhith ar ffydd, nid ydynt wir gordial.

3. *Vſudd-dod yn y cyfamod newydd, a geidw yr enaid mewn iechyd. Paham y gelwir newydd, ar modd y mae yn gadwedigaeth or enaid. Rhai a gymer wenwyn yn lle y cadwedigaeth hwn.*

Y prawfiau or gwir vnion gynnorthwyoedd hyn, a dangos y modd a'r pryd y cymerir, ai gwrthiau rhagorol oll, a ffyddyn bennaf.

Neullduol-draethawd ddydd Satwrn.

Ardderchawgrwydd Duwioldeb.

NEU

Neullduol draethawd yn dangos yr enaid, pa faint y mae pechod yn ei oſod ef is law, heibio iddo ei hun, ac yn rhoddi deg o friwiau marwol iw bywyd ai hanrhydedd.

OFy *enaid. Yſpryd* wyt, ath corph ſydd *gnawd*, a wnei di gan hynny gnawd oth yſpryd? Porthi ar drachwant llygredig, ai try ef yn gnawd or gwaelaf. hwnnw or corph ſydd naturiol a da, eithr hwn or enaid, annaturiol a drwg. O na wna mo honot dy hunan yn anghenfil, yr hwn a wnaeth Duw yn greadur tradaionus iddo. yr hwn ath wnaeth di yn deilwng yn y dechreu, a wnaeth hynny ith ogoneddu di yn y diwedd. Eithr cnawdoldeb, a wna i ti gwympo ymaith oddiwrth dy deilyngdod: ac yn fyrr oth ogoniant gyda hwnnw, ni pherchnoga Duw monot am eiddo ef, ac yno crŷn wrth feddwl pwy ath gymer di O na wna mor fath wrthgiliad ffieidd. Cadw yſpryd cynfydedig ynot os oes i ti yſtyr am anrhydedd ne lwyddiant ynot, os collodd trwy drachwant, bydded gras iw edfrydu. Heb. 12. 23

O fy enaid, y rhan anfarwol o ddyn pa ham y der-

chefir y rhan farwol oth flaen di? y corph a fydd farw, ni fyddi di. O ni elli di farw, ac na ofalech pa fodd y byddi fyw? a gaiff yr hwn a fydd farw (fydd raid iddo farw) dy holl ofal di? Pa ynfydrwydd yw hyn cymeryd ammodau o flaen tragywyddoldeb? munudyn a flaen tragywyddoldeb? bodlonrhwydd y corph, o flaen ſechydwriaeth yr enaid. Na wrth geiſio cyflwr da anrheſymol, i ddwyn ar y ddau ddiniſtr tragywydd. Canys felly y gwnair, yr anfarwol yn farwol ddamnedig; ac yn marw i lawenydd; ar marwol yn anfarwol reſynus i fyw byth bythoedd mewn galar a thrueni. bydd well a challach fy enaid i ti dy hun, ac yntau. Gwilia di felly ar Dduw, a gwna iddo ef wilied arnat ti yn ei wafanaeth, megis pan obrwyer di, y gallo gael rhan gyda thi yn ei ſechydwriaeth. Trwy-
Joa. 6. 9. ddot ti, gad iddo gael ei wneuthur yn anfarwol,
41 mewn gogoniant. na fydd di drwyddo ef, yn anfarwol mewn trueni. er dy fwyn dy hun na oddef mo hyn; er mwyn dy gorph gwna hynny. os wyt ti yn ei garu ef yn iawn, cyfod ef ir nefoedd (iw gyfodi ef or bedd i orſêddfainge, fydd dderchafiad cymdeithgar) eithr nid dy ladd dy hûn er cariad arno ef. O pa fath lofruddiaeth yw hon? O pa fath leiddiad wyt ti? fy enaid. Os llofruddir di o fywyd tragywyddol, y corph yw r gynnen, ar cleddyf, eithr dy hun (yſpryd truan) dy hun yw y llofruddiwr. O na wna mor fath echryſlon laddfa; gwilia ar dy gorph megis dy fywyd, ac ymladd yn erbyn cnawdoldeb, mal am dragywyddoldeb.

3. O fy enaid. Y rhan ardderchawg o ddynol ryw.
Pſa. 8. 9. Cofia dy Ardderchowgrwydd. Caru y ddauar a phethau dauarol fydd anfeidrol is dy law di. Dy feddwl ath ewyllys, (dy arfau) a wnaethbwyd i gofleidiau y prif wirionedd ar daioni or nefoedd. Gofod dy droed (o fy enaid) gofod dy droed ar y ddauar. dy droed? ie gâd ith was ath ddeiliad (y corph) ofod troed arni. y mae o herwydd naturiaeth yn gofod troed arni i ddyſgu i ti, na ofodech dy galon arni. O fy enaid. os gwnai, nid wyt ti fwy pechadur yn erbyn Grâs,

nag

nag yn erbyn naturiaeth ei hun; ac nid wyt lai rhyfeddod i ddaiar nag ir neſoedd. O ti Ardderchawg o wneuthuriad y goruchaf, na ſydd y fath wael greadur i ddiafol, megis trwyddo ef ith wneuthur yn adyn, ac yn ffieidd-dra or byd.

O ſy enaid, y mae llun Duw ynot ti? Pa ham na bydd rheſwm ond ſynwyr yn dy lywodraethu di? Pa ham y mae cyffelybiaeth anifail arnat ti? Pa ham na bydd ewyllys rheſymol, ond anifeilaidd chwant ith rheoli di? dyma weithio ty hwnt ir Cythrael, yn dy anrheithio dy hun, ef a gymerodd lun *Sarph*, am dwrn drwg ac amſer. a thithau a ymddangoſaiſt, ac a barhauaiſt mewn agwedd anifeilaidd. na, nid dull anifail ond y gwir agwedd ſydd ynot ti. Creadur direſwm ydwyt, gwaeth nag anifail, heb iddo ddim deall, o herwydd a Rheſwm, ac etto yn ei erbyn. ſy enaid. nid oes yn y nef na chyrph anifeilaidd, nag eneidiau. Ac am hynny gweithreda mal dyn, ymddangos mal Duw, os mynni fod yno. os gwrthuned ti gan hynny. gan yſpryd drygionus, gwedd newidir di gan vn ſanctaidd. Plentyn Duw maentimia gyffelybiaeth dy dad, mal y gellych etifeddu ei lawenydd ef. bwrw allan o honot ti weithredoedd o drachwant anifeiliaidd, rhag vddynt dy fwrw di allan or neſoedd. Pſa. 49. 12

5. O ſy enaid, ti wyt briod Duw, nid oes vn creadur yn gymmar neu gyffelyb i ti (dy greawdwr yw dy wr) ym mha le gan hynny y mae dy anrhydedd, os y byd a gaiff dy gariad, a'r ddaear dy gofleidiau? O ti yr hwn a gaſhaûi odineb gyd a Dyn, pafodd y baeddi di fod yn odinebwraig i Dduw? oni eill puttein-gorph ſefyll yn dy olwg di? ac a raid i galon butteinllyd orwedd yn dy ſonwes di? oni waſanaetha i ddyn geiſio gan i ti, ac fe gaiff diawl dy garu di? yw dy wely di yn lân, ac vn Duw wedi ei ddiwyno? yn lle dy Arglwydd dy alltûd (y byd) wedi ei gymeryd iw wely ef? Eſay 54, 5

ef? Beth yw gwely Duw ond calon dyn ? ai gosod ar arall heb ei law ef ond putteinio ei wely. A pha waelaf fo r peth da, a ledratto y ferch oddiwrtho ef, ffieiddiaf a fydd y putteindra ? O ti anwylyd vwch law oll greaduriald, fydd a Duw yn briod it, nefoedd am dy gynnysgaeth, ar ddauar am dy wasanaeth na fydded vffern am latrai iti, i gymeryd y byd am dy gariad, na fydded it lai yn dy galon nath Dduw ai nefoedd ef.

6. O fy enaid eiddo r corph wyt Arglwydd. Cymer gan hynny ei vfudd dod-ef bydded iddo dy wasanaethu di nid dy anrheithio di. Gwna di ewyllys Duw, a phar idde yntau wneuthur dy vn dithau. Eithr na wna di moi ewyllys ef, ewyllys dy law forwyn, trachwant y cnawd, na âd iw fynwyrahu, dy hudo di i oferedd. na ddwg boen ar yr enaid wrth wneuthur difyrrwch ir corph: na wna moth corph yn Dduw, rhag i ti dy wneuthur dy hun yn ddiafol, yn ddamnedig byth bythol; am na wneuthit dy ddyled yn well ir holl-allung Dduw, a thithau dy hunan: Arglwydd Angelion wyr, na wna mo honor dy hun yn gefaill i ddiafol. Na werth moth Arglwydddiaeth heb gael ond alltudrwydd a thrueni am deni; Oni fyddi yn Arglwydd, ond gwasanaethu dy was, ni welodd y ddauar mor fath errioed, nid oes ond uffern i lettyfa y cyfriw alltud.

Phil. 3. 19.

7. O fy enaid ti yw r pen llywydd mewn dyn tan Dduw pennaf ar oll ar fydd ynddo, a fyddi di yn ddeiliad ith ddeiliad? a gaiff cyfraith yr aelodau fod yn gyfraith ir meddwl? y fynhwyrau ydynt dy lawforwynion (o Ti dwyloges o nefoedd) a gant hwy fod yn brif lywawdwyr ar dy fywyd ti? a fymudi, a gerddi, a redi, a gwrthod, a ddewifi yn vnig, (mal y gorchymynnant hwy)? O pa fath waelder yw hyn i fod mor anheilwng ith wneuthurwr a naturiaeth? Ac etto dywaid (o fy enaid) dywaid allan oth cydwybod, a dywaid: onid fynwyr yw yr arweinydd mawr, a chwant, Rheolwr oth fywyd di ? tra byddo rhefwm ar deall goruchel yn tithio ar ol dy ddyfyfiadau, ar aelodau yn deithwyr ollawl trofiynt hwy? O fy enaid

Prifdlws

Frifdlws o eiddo Duw, na fydd cym mhelled yn oftyngedig i ddiafol, a gadael dy arwain wrth ei drachwant ef, gan hudoliaeth ſynwyr i fodloni y cnawd, yngwrthwyneb cyfraith Dduw, ath reſwm. I fywyd, yr hwn nid yw ef ei hun (er ei fod yn dra anwireddus) yn arwain iddo, canys er bod drygioni yſprydol yn amlhau ynddo ef, y mae y corphorol is ei law ef, os byddi di mor wael, na fydd waeth na chythrael.

8. O ſy enaid, tydi ryddanedig blentyn o dragywyddoldeb, o anfeſuroldeb, merch iddo ef yr hwn ſydd tu hwnt i holl derfynau amſer, a hanfod. nid yw y corph ond dy garchar. ſe ath cauwyd i fynu mewn caerau o bridd, o fewn pyrth ſynwyr, pa ham gan hynuy, yr wyt yn ymlawenu mewn carchar, o flaen dy noddfa? a dewis gwarchae corphorol, o flaen rhydd-dyd yſprydol? Ai llawenydd yw bod mewn caethiwed? yw cadwynau o hauarn yu well nag aur? gefynnau o flaen rhydd-dyd, nid yw y ddauar ond carchar wrth y nefoedd. Pa yſmwythdra bychan gan hynny y mae yſpryd yn ei gael mewn cyn lleied relpyn o ddauar? O na ddiniſtria moth rhydd-dyd yſprydol trwy ddiofalrhwydd corphorol. Na char moth carchar o flaen dy warediad, rhag dy daflu ir carchar hwnnw, or lle ni waredir vn. Y mae yn gyfion gyda Duw (tra chyfiawn) ir enaid a ddewiſo gadwyn diafol o flaen rhydd-dyd Duw, cael carchar diafol am noddfa Duw, a bod yn aill caeth iddo ef yn vffern yn dragywydd: yr hwn ni fynnai fod tros amſer yn was i Dduw ar y ddauar. Clomen Dduw, hed ir nefoedd, na rwym moth adenydd yſprydol mewn glud neu glai, na ymbortha fel y fran ar furgun: ac mal y ſlum ddall na oſod moth hyfrydwch mewn dom. Na werth mo honot dy hun i brynu carchar, pryd y rhoddech noddfa am y pryniad, a thi dy hunan yn beth or pris, ac heb gael dim ond gefynnau a phenydiau yn yngwaneg. 1 Co. 4. 2 4

9. O ſy enaid ti wyt faen gwyrth i Dduw, dy gorph yw r prennol pa ham gan hynny y mae yn well gennit ei ddaioni ef, nath iechydwriaeth dy hun? ai rhaid iw Mat. 16. 26

lloſci

Ilofci y maen gwyrrh i achub y prennol rhag y tan? nage, nid felly y mae rhaid ar vnwaith roi tan yn y prennol, ar maen gwyrrh, (i dafly y ddau ynghyd i dan vffern) mal *Sardanapalus* ai holl bentyrrau ai feichiau o fwnws dauarol, i wneuthur vn das o arwyl, a diflannu ynghyd yn dragywydd, (enaid a corph.) O ddifglaer ddiamond or nefoedd (gwreichionen or anadl nefoedd) llewych or gogoniant goruchel: wedi ei ofod ar fauch o gnawd, tros amfer, nes ei gymeryd i fynu ai gadw ynghoffor Duw ei hun yn dragywydd. Beth a wnai di ar fys diafol? Pa ham y gwnai di iddo ef waith ac anrhydedd, beth yr wyt ti tan droed y corph?

O fy enaid, edrych yn well attat dy hun. Ilofc y prennol os bydd rhaid i achub y gem neu r maen gwyrrh (y corph i achub yr enaid) felly y gwnaeth Merthyron fanctaidd: eithr nid y gem i gadw y prennol (yr enaid i gadw y corph) hynny a wna yr Epicuriaid bryntion fef y gwyr ar bol Dduwiau: a bydded dy ddiwedd di yn Sanct nid yn Epicur.

Act. 20. 28 10. O Fy enaid, Pridwerth Crift, prynedig nid a dim llai na gwaed Duw ei hun (gwaed mab Duw) pa ham y gwerthi di hwnnw mor rhad a fu mor ddrud ith Iachawdwr. Am y byd (yr hwn nid yw ddim) am wagedd, yr hyn fydd lai? Am ychydig or gwagedd hwnnw yr hyn fydd lai etto, yno beth fydd lai na r dim hwnnw.

Pa ham y mae lleiaf gofal a chofl it am yr hwn a Pfa. 39. 7. gofliodd fwy nag a dal dengmil o fydoedd, os dy gorph a fydd claf, ti a fynni phyfygwriaeth, os briwo eli, os noeth dillad, os newynog, Bara; ni arbedi na phoen na phris am dano: eithr dy hunan anwyl, elli orwedd yn glafo bechod, yn friwedig, gan euogrwydd, yn noeth o ddiniweidrwydd; Yn trengu am Ras, heb wneuthur dim ymwared at hynny, Canys fy enad. Beth yw pris Duw am ei help, ond llafur dyn? gwerth dwy hatling o boen yw r cwbl oll (trofot ti ath corph) ac etto ti a gedwi vn, oni atteli y ddwy oddiwrtho ef? a

ddymunit

ddymunit ti golli dy einioes trosto ef, yr hwn ni fyddi heb Stat anrhydedd neu gymdeithas, er ei fwyn ef? wyt ti yn dy roddi dy hun iddo ef, yr hwn ni adewi ddefod ddiffaeth neu drachwant budr wael, iw wasanaethu ef?

Eithr O fy enaid. Na fydded dim mwy or esceulusiadau hyn. Yr wyf yn erchi ac yn gorchymyn i ti, o ran dy enedigaeth nefol, ath rhieni, o ran dy fylwedd anfarwol ath parhad, er mwyn pridwerth gwyrthfawr anwyl waed Duw: cyfrif dy fywoliaeth dda yn fwy, a chais lai am yn y corph; na thybia mo bris Duw yn ormod (fef lafur dyn) am ei ddedwyddwch: pryd na rhybiodd mab Duw, ei chwys ef yn ormod, ai waed, am y pris. O Tydi anwyl a gwyrthfawr ran a phridwerth o brif faerniath a dytais y goruwchaf, Datguddia ddichell wenwynliyd Diafol, yr hwn o herwydd iddo ef gael unwaith tragywyddoldeb am afal, fydd yn meddwl temptio ymaith dy jechydwriaeth di am ddim. Ac am hynny, ath fynnai, di. i fod oll am y corph mal na wneid dim er iechydawrieth yr enaid. Anwylyd fe ath prynwyd ti, na ddinistrir mo honot am ddim.

Ac yr awrhon O fy enaid. Yfprydol, anfarwol, deallgar, bywiol ddelw priod, anwyl i dduw; Arglwydd pennaf o r prifallu mewn dyn; y rhydd vchelanedig blentyn, ac etifedd o dragywyddoldeb, diddanwch, a gem anwyl y nefoedd. Tra gwerthfawrroccaf bridwerth, ac etifeddiaeth mab Duw, O gwilia, gwilia, gamarfer, ath golli dy hun mewn gwynniau corphorol, ac am hanner bodlonrhwydd (prin i hanner y dyn) ac heb ddim ond Munud ar y ddaear, werthu dy iechydwriaeth yn gyflawn, o enaid a chorph yn dragywydd, Canys.

Pa leshad i ddyn ynnill yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun? neu beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?

Sym

Swm y neullduol draethawd hon :

YR enaid ſydd yſpryd, pechod ai try ef yn gnawd.

Yr enaid ſydd anſarwol, pechod a wna iddo farw.

Ardderchawg yw r enaid, pechod ai gwna yn wael wrengyn.

Yr enaid ſydd Arglwydd, pechod ai gwna yn aill caeth.

Yr enaid ſydd ben llywydd, pechod ai gwna yn ddeiliad.

Yr enaid ſydd bebyg i Ddu, pechod ai gwna yn anifail.

Yr enaid ſydd briod Duw pechod ai gwna yn bu. tain.

Yr enaid yw Gem Duw, pechod ai teiſl ef ir tân,

Yr enaid ſydd o rydd enedigaeth, pechod ai ceidw yngharchar.

Yr enaid yw pridwerth Duw, pechod ai gwna y- maith.

Yn 73. Argraphiad yn y Saſonacg y mae hwn a ganlyn yn y canol.

Yng hylch Bodlonrhwydd, y modd y mae n rheidiol i ediferwch ac ir Cymun Sanctaidd.

BOdlonrhwydd, er ei fod yn *Athrawiaeth a gamarferir* gan rai, ni wafanaetha moi ddibrifio gan vnrwiw; eithr ei hyfforddi ai arfer yn Union megis priodol angenrhaid ir Cymun fancteidd, rhan o edifeirwch a phrawf o droadigaeth (heb yr hwn nid yw r cwbl oll o hono, ond ffrwyth wywedig) heb dalu iawn am holl gamau a Duw a dyn, ni eill fod gwell had; y mae yn rhaid gwneuthur y ddau.

1. Pob pechod gan ei fod yn friw i ogoniant Duw, gyd a gwanhychu ei Awdurdod trwy dorriad ei gyfraith ef, fydd gam mawr a Duw. Yr, hwn, o herwydd na allwn ni dalu iawn iddo, mal y dylem (canys ni eill gallu terfynol fodloni digofaint anherfynol) y mae yn rhaid i ni mal y gallom trwy Zel fanctaidd a ffydd gyflawni yn orau ac y medrom.

1. Zel neu frydaniaeth ir diben hyn a wna ddau dân, vn yn lloſci i fynu allan o gariad i anrhydedd Duw, yr hwn a gymer danwyd oddiwrth bechod or blaen i gynyddu yn boethach ac i fflamio yn vwch iw wafanaeth, o hynny allan. Ac yn, neu ar peth, y digiodd ef iw wafanaethu ef fwyaf. felly Calon St. *Peter*, Yr hon a giliodd i mewn oddiwrth Grift, am air, nid yw ar ol hynny yn fcogi er y Groes. A genau *St. Paul* yr hwn ar y cyntaf a ddirmygodd ac a gablodd Grift, ai Groes yn *Judea*, ai pregetha ef or diwedd ac a ddadcudia allan ei wirionedd ef hyd terfynau yr holl Ddaear. Mat. 26. 69

2. Y

2. Y llall. o ddial a lyſg oddifewn ynom ein hunain. Felly * *Marcellinus* am Aberthu i Eulynnod rhag ofn, trwy wylofain mewn carthen flew a ddaeth o flaen y Gymanfa, a reſynodd ei cwymp ar ei liniau. gan fod yn oſtyngedig fod i gael ei farnu, ac ar ol hynny ei Ferthyru. gan iachau y briw a roeſai ef i Grefydd, trwy blaſtar a wnaethbwyd ac a dymerwyd yn rhywiog ai ddagrau ac ai waed ef.

* *Eſcob o Rufain.*

Ni pherſwadid ma *Paula*, (St. *Hierom*) oddiwrth wylo(er dim) i gadw ei llygaid i ddarllain yr Scrythyr lan. gan ddywedyd fod y goſpedigaeth yn gyfion am ei gwaith yn peintio or blaen i ſudr goluro ei hwyneb a dagrau. An merthyr ninnau yr hwn a ſcrifennodd vnwaith wrth bygciau papaidd, yn erbyn ei gydwybod, iw gadw ei hun rhag yr eiriasdan, ni ymadawai a gwirionedd gair Duw er tan yn ol hynny; ac megis yn fodlonrhwyd i Dduw ar byd am y bai hwnnw ar blottyn, a lolgodd y llaw yr hon a ddaliodd y pin ſcrifennu, cyn ei groph yn tan. *

* *Arch. Cranmer.*

2. Eithr o herwydd nad ydym yn gwnenthur, ac na allwn fodloni yn gyflawn y Cyfiawnder dwyfawl : am gamweddau a wnaethbwyd ar Mawrhydi Anherfynol, mewn cyfran ddyledus o goſpedigaeth, yr hai nid ydym ond Terfynol; ac am hynny y mae y damnedig yn talu allan mewn amſer (hyd tragywyddoldeb) yr hyn ni aliant dalu ar vnwaith, ac heb roi machniaeth, ai gymeryd am well bodlonrhwydd ni a fuaſem oll yn ddamnedig: mae n rhaid i ni gan hynny offrwm i ddiw ddioddefiadau ei fab megis yn feichiau am ein dyled, yr hwn gan ei fod ef yn anfeidrol yn ei Dduwdeb, yr hwn gyd a'n dyndod ni wna fel hyn ond vn Crift *: Trwy ei roddiad ei human vnwaith a offrymodd gyflawn, berffaith a digonol aberth a bodlonrhwydd am bechodau yr holl fyd. Yn yr hwn trwy ein fydd, yr offrymwn ac i rhoddwn i Dduw ddigonol fodlonrhwydd trwy ei ras. Ac heb nag echwyn, nag anrheg o dreſawr yr Eccliwys neu daledigaeth purdan ar ol, ydym yn rhydd trwy yr hyn a offrwmwn i Dduw, am bris a rhinwedd ei waed.

Eithr

Eithr i ddyn rhaid i ni wneuthur mwy, roddi iddo am bob cammau holl boſſibl iawn a chyfrannol vniondeb y cydwybod a ddwys frathwyd trwy ein tramgwydd ſydd raid i ni ei iachau trwy eſampl well. Y meddwl yn cefeiliorni ac yn myned ar gam o waith ein Cyngor an Awdurdod, ſydd raid i ni oſod yn vnion, trwy ein cyngor ir gorthwyneb, a'n gorchymyn. Y Gairda ſydd yn gwaedu wedi ei gefnfrathu gan ein dannedd ni; rhaid i ni ei ſyfu ai iachau a'n rafod: y corph a anaſwyd gan ein dwylaw ni, ſydd raid ei iachau ar ein traul ni, ar ſywoliaeth a gollwyd o eiſiau y nerth hwnnw, gael porthi ein anghenion o'n eiddaw ni. Exod. 21: 18

Ac o achos bod yr adgyweiriau hyn, allan o'n gallu ni (a bod yn haws wyro neu ſriwo cydwybod, neu enaid, neu eirda neu gorph, nai helpu, ai iachau hwynt:) Am hynny y mae n rhaid i ni ochel wneuthur cam mwyach; O ran nid ydym ſicer o dalu iawn.

Am Gammau mewn cyſoeth neu ſlât, y peth nid yw cyfraith gyffredin dyn yn cymeryd adnabyddiaeth arno, y mae yn rhaid ir Griſtnogawl roi darparwch am dano, gan roi yn ol yr hyn a gafwyd neu a gadwyd yn erbyn Cyfiawnder, heb yr hyn daledigaeth yn ol, ni eill ſod gwir edifeirwch neu ffydd. 2. Ac ni ſydd Cymun ſanctaidd.

1. Canys Edifeirwch (os difriſol) e ſydd o holl bechod, a'r lledratta hwn yw vn, ac nid y lleiaf oll. am yr hwn ei gyfaddef ai reſynu nid yw ddigon, oni well-hawn, a hynny ni allwn os parhawn yn y ddylêd. ac nid oes vn ffydd o bardwn oni bydd edifeirwch. gan nad oes vn ſail am faddeuant heb y ffrwyth o adferiad neu dalu yn ol. Am yr hyn y dywaid St. *Awſtin* yn yſgythrin ddioed. Ac y mae gair Duw yn rhoi cennad i fod yn hyf. Am hynny prawf *Zacheus* oi edifeirwch ydyw cynnyg talu drachefn. hynny a wnaeth iddo ef gadw hanner ei olud, nid yn vnig er mwyn eu mwynhau hwynt medd. St. *Awſtin.* ond i fod ganddo ſodd i dalu yn ol drachefn. Act. 3. 19. Ezec. 18. *Non dimittitur peccatum ni reſtituatur oblatum*

Ac ni eill ef Gymmo yn vnion yr hwn a wna, neu a barhâo y Cam. Canys heb law y diffyg or ddwy reidiau cyffredin ar edifeirwch, gweithredol a ſiccrhad

daionus o ffydd (heb yr hyn y deuaf at yr ymborth nefol heb enau na chyllaf) yr wyf yn ddiffygiol o neullduol gyfreid au tu ac atto, ac yn ddinerth at y gweithredoedd yndd o.

1. Cariad perffaith (yr hon ni chais moi eiddaw ei
Luc.11.41 hun. ni cheidw eiddaw arall) ni feddwl ddrwg, llai o lawer ei wneuthur i'n cymydog ni wna ddrwg am hynny ni wna gam at Stat ef Y mae Cariad perffaith yn rhoi ir newynog, eithr nid yr hyn y mae yn ei ddwyn oddiar arall. hynny eili fod yn gardawd oi gariad ef, eithr fy ypeil i ydoedd. yr hyn y mae Duw yn ei ffieiddio, megis aberth llosc am yr hedd offrwm. y cyfriw farh yw r elusen : eithr ni dderbyn Duw mo rodd lleidr yr hwn fydd yn gwrthod Pris puttein yn ei gynylleidfa. Yr hwn ni fyn i ni gyd-ddwyn a lledrad, ni chynnal wyneb ei hunan iddo. Derbyn da lledrad yw bod yn Accessari, yr hyn a ddylem ni ei ffieiddio geisio bwrw ar Dduw, megis yn gyfarral iw gyfiawnder. ni bydd ef fodlon i ni os gwnawn hynny.

2. Duwioldeb a ochel bob halogrwydd, yn enwe-
Jer.7.9. dig ym mhlith Seinctiau ac vwchiaw oll ar y Sacrament fendigaid. Duw yr hwn ni oddef mo hono ef, yr hwn a ledratto i fesyll, ni fyn iddo fyned ar ei luniau oi flaen ef Dwyn lleidr i gynylleidfa r Seinct fydd halogrwydd. yn ofnadwy yn y Cyn un Sanctaidd i ddyfod a chalon buttein lyd yw gwnenthur Aelodau Crist yn Aelodau i Buttain. I ddyfod a llaw leidraidd, yw gofod llaw lleidryn wrth frauch Crist.

3. vfudd dod i Dduw ni daichon fod: eithr felly trwy ewyllyscar do ti rhwym y gyfraith mewn vn gorchymyn, gwrthrysel a wnaed yn erbyn y cwbl oll. Canys yr hwn a ddywaid na ladd a ddywedodd na ledratta. Ac ni wasanaetha i mi wneuthur mwy cam a bywoliaeth vn arall, nag ai fywyd wrth gyfraith dduw. Ar gwirionedd yw cybydd dod gwreiddyn y drwg hwn yw gwraidd y cwbl oll. Ac yn hytrach trwy ddamweiniad na thrwy gydwybod, os ceidw ddiniweidrwydd gyd ag yr vn, gan fod hynny yn gyflwr diragor i bob dyn.

Ac nid oes iddo ef na chalon ir Sacrament sanctaidd

na

na llaw na throed, yr hwn ſydd arno eiſiau y tri (cariad Perffaith, Duwioldeb, ac vfudd dod:) trwy yr rhai ymae yr enaid yn anadlu, yn gafaelio, yn ſymud at, a chyda Duw, yn y gorchwyl bendigedig yma.

Felly megis y dywedodd Criſt am gymodiad y gallwn ninnau ddywedyd am *adferiad. Dos, cymoder di ath frawd, ac yno tyred ac offrwm dy rodd.* nes talu yn ol nid eiddot ti yw: nes ei ſod, ni waſanaetha i ti moi offrwm. Nes gwneuthur hynny, ni ellir moth cymodi: Canmau a fagant waed drwg, talu yn ol yw r ſel ar arwydd or cymod. na ad moth rodd ger bron yr Allor, eithr cymer ymaith. nid yw Ty Dduw yn coleddu neu gyſgodi dim lledrad, llai o lawer ei Allor. A pha alar yw hwn i ti dy fod wedi dy eſcymuno allan o Eccleſys a bwrdd Duw, heb gael dy roi yn ol ir vn, nes i ti roi yn ol yr hyn ſydd eiddo arall. Canys dy gau allan or Eccleſys, ac allan or nefoedd yngwirionedd wrth dy enw yr wyt: nid oes mor lladron yno. y mae Sanct *Paul* yn eu cau allan. Zach. 5. 3.

Gan hynny ti weli fod yn rhaid i ti wneuthur hynny ar y ddauar, ond ti a ddywedi nid dyma y ffordd i mi i wneuthur yn dda fe ddwg hyn fyn nhy i gonſwmpſion i dreilio i cyfan. Melldith *Zachari* yr hon a welai ef ar wyneb y ddauar. Yn erbyn yr rhai a ledrattai, yn gyſtal ar rhai a dyngai. Y Bil a red mal hyn: Mat. 25. 40

Os twyllaiſt ti neb gan hynny, rhaid i ti ei roi yn ol. onid wyt o allu i dalu tâl at cyffes ac a dagrau, ond os gelli rhaid i ti roi yn ol ir cyfion ddyn, ei gyfiawnder. iw etifeddion naturiol cyffredin neu Griſtion etifedd Criſt, ir dlawd, oni elli dalu ir hwn a gafas y cam. hynny yw, y mae yn myned yn fied i Dduw os bydd yn heb etifedd, ac yn yr achos hon trwy ei drefn ef yr oedd iw dalu ir offeiriad (ei law ef) i waſanaeth Duw ai dlawd ef, yr rhai oi Awdurdod ydynt ei dderbynwyr cyffredin. Amgylchiadau o achoſion neullduol ydynt yn gofyn *volum* neu lyfr yn hytrach na phennod a chyngor Barnwr or gyfraith griſtnogawl, at yr hwn ith trofaf ym mhellach. gan attolygu i ti pwybynnac a ddarllennych hwn, ac wyt yn euog or cam yma, o ſiat a gaſglwyd yn ddiffaeth i ti, i fod a chyd-

wybod i dalu yn ol drachefn heb yr hyn ni elli fod yn ddyn dedwydd yn y nef, nag yn vn ſanctaidd yn yr Eccleſwys, na llwyddianus ar y ddanar. os wyt yn tybed amgen neu yn gobeithio yn weſl, rhaid i ti gael eglurdeb iw ddwyn ef yn erbyn cyfraith Dduw, a phan roddir Barn yn ei hol hi, ti cai weled nad oedd i ti ddim ſicrwydd, ond vn ai *ſiomedig*, neu dywylledig neu *goluriol* a ſerriol gydwybod.

TERFYN.